



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 3 Chwefror 2010
Wednesday, 3 February 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol
Questions to the Counsel General and Leader of the Legislative Programme
- 9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
Questions for the Minister for Social Justice and Local Government
- 30 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning
- 49 Pwynt o Drefn
Point of Order
- 50 Cymeradwyo'r Newidiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 15 a 24 i newid Enw'r Pwyllgor
Is-ddeddfwriaeth i 'y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol'
Motion to approve the Amendments to Standing Orders Nos. 15 and 24 to Change the
Name of the Subordinate Legislation Committee to the 'Constitutional Affairs
Committee'
- 50 Adroddiad Interim y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar ei Ymchwiliad i
Ddyfodol y Polisi Cydlyniant
The Committee on European and External Affairs's Interim Report of Inquiry into the
Future of Cohesion Policy
- 71 Pwynt o Drefn
Point of Order
- 73 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Tlodi Plant
Welsh Conservatives Debate: Child Poverty
- 109 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Buddsoddiad mewn Addysg Bellach ac Uwch
Welsh Liberal Democrats Debate: Investment in Further and Higher Education
- 133 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 139 Dadl Fer: Canol Trefi: Calonnau ein Cymunedau?
Short Debate: Town Centres: The Hearts of Our Communities?

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been
included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Counsel General and Leader of the Legislative Programme.

Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol Questions to the Counsel General and Leader of the Legislative Programme

Llywodraeth y DU

C1 Nerys Evans: Pa drafodaethau mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael yn ddiweddar gyda Gweinidogion yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig? OAQ(3)0137(CGE)

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths): I recently met with Wayne David, Wales Office Minister, to discuss a range of issues.

Nerys Evans: Mae newidiadau mawr wedi digwydd yn system gyfreithiol Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, megis sefydlu Cymru'r Gyfraith, sefydlu'r Llys Gweinyddol yng Nghymru, ac eisteddiadau rheolaidd y Llys Apêl, yr adrannau sifil a throseddol, yng Nghaerdydd. Mae achosion adolygiad barnwrol sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus yng Nghymru hefyd yn cael eu clywed yng Nghymru bellach, ac mae'r corff hwn wedi creu deddfau newydd dros y 10 mlynedd diwethaf. Yn sgîl y datblygiadau hyn, mae trafodaethau ymhlith pobl sy'n gweithio ym maes y gyfraith, yn ogystal â'r gymdeithas ddinesig yng Nghymru, am yr angen i greu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. Beth yw eich barn chi am hyn? A fydddech yn barod i drafod hyn gyda Gweinidogion y Deyrnas Unedig?

John Griffiths: Nothing in the Government of Wales Act 2006 in or of itself creates a single legal jurisdiction for Wales within the United Kingdom, but, as you describe, we see many developments in Wales affecting the legal profession and legal jurisdiction. We must see how matters develop. It would be premature to say anything at this stage, but the situation in Wales is fast-developing, and we need to keep abreast of developments and

UK Government

Q1 Nerys Evans: What recent discussions has the Counsel General had with Ministers in the United Kingdom Government? OAQ(3)0137(CGE)

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths): Yn ddiweddar, cefais gyfarfod â Wayne David, sy'n Weinidog yn Swyddfa Cymru, i drafod amryw o faterion.

Nerys Evans: Sweeping changes have taken place in the legal system in Wales in recent years, such as the establishment of Legal Wales, setting up the Administrative Court in Wales, and the regular sessions of the Court of Appeal, civil and criminal divisions, being held in Cardiff. Judicial review cases relating to public bodies in Wales are also now heard in Wales, and this body has created new laws over the past 10 years. In the light of those developments, people working in the legal profession, as well as those in civic society in Wales, are now talking about the need for a Wales to become a legal jurisdiction in its own right. What is your opinion of that? Would you be prepared to raise that matter with Ministers in the United Kingdom?

John Griffiths: Nid oes dim yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 sydd, ar ei ben ei hun, yn creu un awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru yn y Deyrnas Unedig, ond, fel y disgrifiwyd gennych, yr ydym yn gweld nifer o ddatblygiadau yng Nghymru sy'n effeithio ar faes y gyfraith ac awdurdodaeth gyfreithiol. Rhaid inni weld yn awr sut y bydd pethau'n datblygu. Byddai'n rhy gynnar dweud unrhyw beth ar hyn o bryd, ond mae'r

consider these matters as we go forward.

sefyllfa yn prysur ddatblygu yng Nghymru ac mae angen inni sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf a'n bod yn ystyried y materion hyn wrth inni symud yn ein blaen.

Alun Cairns: It is interesting to note that the Secretary of State for Wales has published a range of proposed legislative competence Orders that is being considered. Would the Counsel General please outline those that go further than the ones published by the Welsh Assembly Government to date? Considering the next 12 months, it will be interesting to know the Welsh Assembly Government's plans.

Alun Cairns: Mae'n ddiddorol nodi bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cyhoeddi amryw o Orchmynion cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig sy'n cael eu hystyried. A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol amlinellu'r rheini sy'n mynd y tu hwnt i'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad hyd yn hyn? O ystyried y 12 mis nesaf, bydd yn ddiddorol cael gwybod am gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad.

John Griffiths: There are various processes and mechanisms here for addressing these issues, Alun. I have nothing to add to what is already known on these matters.

John Griffiths: Ceir yma amryw brosesau a systemau ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn, Alun. Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at yr hyn sydd eisoes yn hysbys am y materion hyn.

Referendum

Refferendwm

Q2 Leanne Wood: What discussions has the Counsel General had with law officers regarding the procedure for holding a referendum on further powers? OAQ(3)0136(CGE)

C2 Leanne Wood: Pa drafodaethau mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda swyddogion y gyfraith am y weithdrefn ar gyfer cynnal refferendwm ynghylch rhagor o bwerau? OAQ(3)0136(CGE)

John Griffiths: I will meet as regularly as possible with the law officers in the UK to discuss a range of matters of mutual interest. These discussions are confidential.

John Griffiths: Byddaf yn cyfarfod mor rheolaidd â phosibl â swyddogion y gyfraith yn y Deyrnas Unedig i drafod amryw o faterion sy'n gyffredin i ni. Mae'r trafodaethau hyn yn rhai cyfrinachol.

Leanne Wood: Thank you for your answer, Counsel General. If the vote in the Senedd next week is successful in triggering a referendum on giving the Assembly more law-making powers, much remains to be decided in the months that follow. Will you tell us how you intend to consult with Assembly Members about the date for the referendum and the framing of the crucial referendum question?

Leanne Wood: Diolch am eich ateb, Gwnsler Cyffredinol. Os bydd y bleidlais yn y Senedd yr wythnos nesaf yn llwyddiannus o ran dechrau refferendwm ar roi mwy o bwerau deddfu i'r Cynulliad, bydd llawer o benderfyniadau i'w gwneud yn ystod y misoedd nesaf. A wnewch chi ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad ynghylch dyddiad y refferendwm a geiriad hollbwysig cwestiwn y refferendwm?

John Griffiths: Again, Leanne, there is a necessary process to be undertaken with regard to these matters. Next week could trigger the process and the initial first step. The rest of the process is then set out in the Government of Wales Act 2006, which deals

John Griffiths: Unwaith eto, Leanne, ceir proses y mae'n rhaid ei dilyn o ran y materion hyn. Gallai'r wythnos nesaf ddechrau'r broses a'r cam cyntaf dechreuol. Yna caiff gweddill y broses ei egluro yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n

with a date for the referendum and when the matter is to be properly considered. I can say that both the Government here and the UK Government will work together on referendum preparations as set out in that legislation.

Darren Millar: I listened very carefully to your answer to Leanne Wood. What is the Government's position on holding a referendum on the date of the Assembly elections? I am very concerned, as are other Members, that it would be inappropriate to hold a referendum on the same date as the Assembly elections next year. Are you prepared to comment on that?

John Griffiths: It is very important that we follow due process in these matters. That process is set out in the Government of Wales Act 2006, which deals with the date of a referendum and when that matter is properly to be considered.

The Legislative Competence Order Process

Q3 Leanne Wood: What is the Counsel General's role in the LCO process? OAQ(3)0135(CGE)

John Griffiths: As Counsel General, I see all Government proposed LCOs and may advise on their content.

Leanne Wood: The LCO system is clearly not working: the whole process is beset by delays and bureaucracy. There have been a number of explanations for why the system has failed to deliver in a satisfactory and timely fashion, but could you give us your view on why that may be the case?

John Griffiths: We are dealing with new and innovative processes as far as LCOs are concerned. We have made improvements as we have taken them forward, both here and at Westminster, and we have also improved the way in which we work together. I have asked my officials to conduct a scoping exercise so that we can have a timely review of the experience to date. We can then learn lessons

ymdrin â dyddiad ar gyfer y refferendwm a phryd y caiff y mater ei ystyried yn iawn. Gallaf ddweud y bydd y Llywodraeth yma a Llywodraeth y DU yn cydweithio ar baratodau ar gyfer y refferendwm fel yr eglurir yn y ddeddfwriaeth honno.

Darren Millar: Bùm yn gwrando'n astud ar eich ateb i Leanne Wood. Beth yw safbwynt y Llywodraeth ar gynnal refferendwm ar ddyddiad etholiadau'r Cynulliad? Yr wyf yn bryderus iawn, fel y mae Aelodau eraill, na fyddai'n briodol cynnal refferendwm ar yr un dyddiad ag etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf. A ydych yn barod i wneud sylwadau ar hynny?

John Griffiths: Mae'n bwysig iawn ein bod yn dilyn y broses briodol o ran y materion hyn. Caiff y broses honno ei hegluro yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ymdrin â dyddiad y refferendwm a phryd y caiff y mater hwnnw ei ystyried yn iawn.

Proses Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol

C3 Leanne Wood: Beth yw swyddogaeth y Cwnsler Cyffredinol yn y broses Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol? OAQ(3)0135(CGE)

John Griffiths: A minnau'n Gwnsler Cyffredinol, gwelaf bob Gorchmynion arfaethedig y Llywodraeth, a chaf gynghori ar eu cynnwys.

Leanne Wood: Mae'n amlwg nad yw'r system Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol yn gweithio: ceir oedi a biwrocratiaeth ar bob tu. Cafwyd nifer o esboniadau o ran pam mae'r system wedi methu â chyflawni mewn ffordd foddhaol ac amserol, ond a allech roi eich barn inni ar y rhesymau dros hynny?

John Griffiths: Yr ydym yn delio â phrosesau newydd ac arloesol yn achos y Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol. Yr ydym wedi gwneud gwelliannau wrth inni eu datblygu, yma ac yn San Steffan, ac yr ydym hefyd wedi gwella'r ffordd yr ydym yn cydweithio. Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion gynnal ymarfer cwmpasu er mwyn inni gael adolygiad amserol o'r profiad

from the experience and ensure that we take things forward in an even more efficient and effective way in future.

Mark Isherwood: As Lord Richard warned, the legislative competence Order process has become a tortuous route. In this morning's meeting of Legislation Committee No. 5, which I chair, Members were concerned about the massive duplication in the evidence taken for the LCO process and for the Stage 1 scrutiny of a resulting proposed Measure, because the content of proposed legislative competence Orders is now so close to the legislation intended to be included in a subsequent proposed Measure. Do you agree that there is a risk of an overlap? Could you play a role in helping to address that issue, avoiding duplication and wasted resources when following due process in the Assembly?

John Griffiths: In the short time in which I have been Counsel General, many issues have been raised with me by Members and many others on how our legislative processes work. That is why it is timely to have the review that I just mentioned. In general, all these issues, raised through Assembly committees, Assembly Members and other means, can and will feed into that exercise.

Blaenoriaethau

C4 Gareth Jones: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y tymor newydd? OAQ(3)0140(CGE)

C6 Nerys Evans: A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am ei flaenoriaethau presennol? OAQ(3)0138(CGE)

John Griffiths: My priority is to help to ensure that the Welsh Assembly Government's objectives, as set out in 'One Wales', are achieved by providing legal advice when required.

hyd yn hyn. Yna gallwn ddyngu gwersi o'r profiad a sicrhau ein bod yn datblygu pethau mewn ffordd hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol.

Mark Isherwood: Fel y rhybuddiodd yr Arglwydd Richard, mae'r broses Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol wedi mynd yn drofaus. Y bore yma, yng nghyfarfod Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, yr wyf yn ei gadeirio, yr oedd Aelodau'n pryderu bod llawer iawn o ddyblygu yn y dystiolaeth a gyflwynir ar gyfer proses y Gorchymyn a'r gwaith craffu a wneir yng Nghyfnod 1 wrth ystyried Mesur arfaethedig dilynol, oherwydd bod cynnwys Gorchymynion cymhwysedd deddfwriaethol arfaethedig bellach mor debyg i'r deddfwriaeth y bwriedir ei chynnwys mewn Mesur arfaethedig dilynol. A gytunwch fod perygl o orgyffwrdd? A allech chwarae rhan wrth helpu i fynd i'r afael â'r mater hwnnw, gan osgoi dyblygu gwaith a gwastraffu adnoddau wrth ddilyn y broses briodol yn y Cynulliad?

John Griffiths: Yn ystod yr amser byr y bûm yn Gwnsler Cyffredinol, mae Aelodau a nifer o bobl eraill wedi codi llawer o faterion ynghylch y ffordd y mae ein prosesau deddfwriaethol yn gweithio. Dyna pam mae'n amserol cynnal yr adolygiad y soniais amdano yn awr. Yn gyffredinol, gall yr holl faterion hyn a godwyd drwy bwyllgorau'r Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a dulliau eraill, gyfrannu i'r ymarfer hwnnw, a byddant yn gwneud hynny.

Priorities

Q4 Gareth Jones: Will the Counsel General make a statement on his priorities for the new term? OAQ(3)0140(CGE)

Q6 Nerys Evans: Will the Counsel General make a statement regarding his current priorities? OAQ(3)0138(CGE)

John Griffiths: Fy mlaenoriaeth yw cyflawni amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y maent wedi'u nodi yn 'Cymru'n Un', drwy roi cyngor cyfreithiol yn ôl y gofyn.

Gareth Jones: A ydych chi'n gallu cynnig cyngor cyfreithiol i Lywodraeth y Cynulliad, cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru am y dulliau gorau o lunio contractau a thendrau ar gyfer prosiectau er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r gymuned leol heb dorri unrhyw gyfreithiau?

John Griffiths: As Counsel General, I am able to advise the Assembly Government directly on such issues, if I so choose. The Legal Services department, which reports directly to me, provides advice to Value Wales, which is the facilitator of best practice for Assembly Government-sponsored bodies and the wider public sector. Many of those organisations would, properly, take their own independent legal advice from their own lawyers, but there is a role for the Counsel General and the Welsh Assembly Government through Value Wales. I will ensure that that role is properly carried out to address the issues that you are concerned about.

1.40 p.m.

Nerys Evans: Mae gennych gyfrifoldeb penodol am ymgynghoriadau cyfreithiol sy'n ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli. Cawsom ddatganiad ar 20 Ionawr gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol yn nodi y byddai hi, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd yn adolygu'r system cyfiawnder o ran teuluoedd, gan gynnwys llysoedd teulu yng Nghymru a Loegr. Ar sawl achlysur yn y Siambr, yr wyf wedi codi pryderon am system bresennol y llysoedd teulu, yn arbennig y defnydd o rai arbenigwyr honedig ym maes addysg sydd â diffyg dealltwriaeth o addysg ddwyieithog ac addysg Gymraeg yng Nghymru. A allwch chi sicrhau bod cylch gwaith yr ymgynghoriad hwn yn ddigon eang i ystyried y materion penodol sy'n ymwneud â Chymru? Ar hyn o bryd, maent yn dangos diffyg enfawr yn system y llysoedd teulu.

John Griffiths: You mentioned the statement that Gwenda Thomas made as Deputy Minister with the relevant

Gareth Jones: Are you able to offer legal advice to the Assembly Government, Assembly Government-sponsored bodies, and other public bodies in Wales on the best methods of drafting contracts and tenders for projects to ensure the maximum benefit for the local community without breaking any laws?

John Griffiths: Fel Cwnsler Cyffredinol, gallaf gynghori Llywodraeth y Cynulliad yn uniongyrchol ar faterion o'r fath, os dewisaf wneud hynny. Mae'r adran Gwasanaethau Cyfreithiol, sy'n adrodd yn uniongyrchol imi, yn rhoi cyngor i Gwerth Cymru, sy'n hwyluso arfer gorau ymysg cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad a'r sector cyhoeddus ehangach. Byddai llawer o'r sefydliadau hynny'n cael cyngor cyfreithiol annibynnol gan eu cyfreithwyr eu hunain, yn briodol ddigon, ond ceir rôl i'r Cwnsler Cyffredinol a Llywodraeth y Cynulliad drwy Gwerth Cymru. Byddaf yn sicrhau bod y rôl yn cael ei chyflawni'n briodol er mwyn mynd i'r afael â'r materion yr ydych yn pryderu yn eu cylch.

Nerys Evans: You have specific responsibility for legal consultations relating to matters that are not devolved. The Deputy Minister for Social Services gave a statement on 20 January that she, the Secretary of State for Justice, and the Secretary of State for Children, Schools and Families were reviewing the justice system in respect of families, including the family courts of England and Wales. On many occasions in the Chamber, I have raised concerns about the current family courts system, particularly on the use of so-called experts in the field of education who have no understanding of bilingual education or Welsh-medium education in Wales. Could you ensure that the remit of this consultation is wide enough to encompass these specific matters relating to Wales? At the present time, they reveal a major flaw in the family courts system.

John Griffiths: Yr oeddech yn sôn am y datganiad a wnaeth Gwenda Thomas fel Dirprwy Weinidog â'r cyfrifoldeb perthnasol.

responsibility. I know that Gwenda has emphasised that the review should be wide ranging and that the interests of the child paramount. With that background, and given the totality of Gwenda Thomas's statement, you can be confident that the concerns that you have raised will be properly addressed through this exercise.

Alun Cairns: I press the Counsel General to tell us why it is that the Secretary of State for Wales can issue an answer to a written parliamentary question outlining legislative competence Orders that go beyond the statements that have been made in the Chamber, but that you, in your response to the question that I asked some moments ago, said that there were no legislative competence Orders under discussion beyond what has been said in the Chamber. Who is speaking accurately? Is it you as Counsel General or is it the Secretary of State for Wales? A conversation has to go two ways—unless you simply have your ears closed.

John Griffiths: I think that you have attributed comments to me that I did not make in response to your question. Conventions and limitations apply to the role of Counsel General that do not apply to others. I stated earlier that there are various means open to Assembly Members involved with our processes here to address these issues. As matters progress with the Counsel General's role and the way in which I answer questions in that role and as Leader of the Legislative Programme, I will seek to be as informative as I can for Members and to make answers as meaningful as possible. However, I must operate within the conventions and limitations that properly apply.

Alun Cairns: I note that, in the Counsel General's response, he said that he was the Leader of the Legislative Programme, but no leadership is shown on what the legislative programme is. It seems to me that the leadership is coming from the Secretary of State for Wales on what discussions are taking place between here and the Wales Office about potential legislative competence Orders. Surely, the initiation of such Orders would usually come from here—or are you

Gwn fod Gwenda wedi pwysleisio y dylai'r adolygiad fod yn eang ei gwmpas ac y dylai budd y plentyn fod o'r pwys mwyaf. Gyda'r cefndir hwnnw, ac o ystyried datganiad Gwenda Thomas yn ei grynswth, gallwch fod yn hyderus y bydd y pryderon a godwyd gennych yn cael sylw priodol drwy'r ymarfer hwn.

Alun Cairns: Pwysaf ar y Cwnsler Cyffredinol i ddweud wrthym pam y gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru ateb cwestiwn seneddol ysgrifenedig yn amlinellu Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol sy'n mynd y tu hwnt i'r datganiadau a wnaed yn y Siambr, ond eich bod chi, wrth ymateb i'r cwestiwn a ofynnais rai eiliadau yn ôl, wedi dweud nad oedd dim Gorchmynion cymhwysedd Deddfwriaethol yn cael eu trafod y tu hwnt i'r hyn a ddywedwyd yn y Siambr. Pwy sy'n dweud y gwir? Ai chi fel Cwnsler Cyffredinol, ynteu Ysgrifennydd Gwladol Cymru? Rhaid i sgwrs lifo ddwyffordd—oni bai eich bod yn ei hanwybyddu.

John Griffiths: Credaf eich bod wedi priodoli sylwadau imi na wneuthum mewn ymateb i'ch cwestiwn. Mae confensiynau a chyfyngiadau yn berthnasol i rôl y Cwnsler Cyffredinol nad ydynt yn berthnasol i bobl eraill. Dywedais yn gynharach fod amryw o ffyrdd y gall Aelodau Cynulliad sy'n ymwneud â'n prosesau ni yma fynd i'r afael â'r materion hyn. Wrth i faterion ddatblygu gyda rôl y Cwnsler Cyffredinol a'r modd y byddaf yn ateb cwestiynau yn y rôl honno ac fel Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, ceisiaf roi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i Aelodau a sicrhau bod yr atebion mor ystyrlon ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, rhaid imi weithredu o fewn y confensiynau a'r cyfyngiadau perthnasol.

Alun Cairns: Yn ymateb y Cwnsler Cyffredinol, nodaf iddo ddweud mai ef oedd Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, ond ni ddangosir arweiniad o ran beth yw'r rhaglen ddeddfwriaethol. Ymddengys imi mai oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru y daw'r arweiniad ar ba drafodaethau a gynhelir rhyngom ni yma a Swyddfa Cymru ynghylch Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol posibl. Siawns mai yn y fan hon y byddai Gorchmynion o'r fath yn cael

being driven by Westminster rather than by Cardiff?

John Griffiths: I am afraid that what you say is a misunderstanding of how the process works.

The Leader of the Opposition (Nick Bourne): The Counsel General will be aware of the recent report by Sir Adrian Webb in relation to the Welsh Assembly Government's ultimate responsibility for tribunals. What consideration is being given to that report, and who in the Welsh Assembly Government do you think should be responsible for tribunals?

John Griffiths: These matters are under consideration at this time, and I hope to be able to bring a progress report back to the Assembly at a future date.

The Presiding Officer: Perhaps I can help, because one of the recommendations of that report is addressed also to the Assembly. It is certainly my intention that there should be time made available to debate that report, as proposed by Sir Adrian Webb.

Diolch yn fawr i'r Cwnsler Cyffredinol. Tynnwyd cwestiwn 5, OAQ(3)0139(CGE), yn ôl.

It seems to me that we had a bit more discussion during questions to the Counsel General this time than we have had in the past. Maybe we are making progress. However, this is no reflection on the previous Counsel General. [*Laughter.*]

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Questions for the Minister for Social Justice and Local Government

Y Llywydd: O dan Reol Sefydlog Rhif 7.50, bydd y cwestiynau yn cael eu hateb heddiw gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, ac yr wyf yn siŵr y byddech i gyd am inni anfon ein cyfarchion a'n dymuniadau gorau i'r Gweinidog am adferiad llwyr a buan.

Tynnwyd cwestiynau 1, OAQ(3)1078(SJL), a 2, OAQ(3)1047(SJL), yn ôl.

eu dechrau, fel rheol— neu a ydych yn cael eich arwain gan San Steffan yn hytrach na Chaerdydd?

John Griffiths: Mae arnaf ofn bod yr hyn yr ydych yn ei ddweud yn gamddealltwriaeth o'r ffordd y mae'r broses yn gweithio.

Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): Bydd y Cwnsler Cyffredinol yn ymwybodol o'r adroddiad diweddar gan Syr Adrian Webb ynghylch cyfrifoldeb sylfaenol Llywodraeth y Cynulliad dros dribiwnlysoedd. Pa ystyriaeth a roddir i'r adroddiad hwnnw, a phwy yn Llywodraeth y Cynulliad ddylai fod yn gyfrifol am dribiwnlysoedd yn eich barn chi?

John Griffiths: Mae'r materion hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, a gobeithiaf ddod ag adroddiad cynnydd i'r Cynulliad yn y dyfodol.

Y Llywydd: Efallai y gallaf fod o gymorth, oherwydd mae un o'r argymhellion yn yr adroddiad hwnnw yn cael ei gyfeirio at y Cynulliad hefyd. Fy mwriad yn sicr yw neilltuo amser i gynnal dadl ar yr adroddiad hwnnw, fel y cynigiwyd gan Syr Adrian Webb.

I thank the Counsel General. Question 5, OAQ(3)0139(CGE), was withdrawn.

Ymddengys inni gael mwy o drafodaeth yn ystod y cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol y tro hwn nag a gafwyd yn y gorffennol. Efallai ein bod yn gwneud cynnydd. Fodd bynnag, nid yw hynny'n feirniadaeth ar y cyn-Gwnsler Cyffredinol. [*Chwerthin.*]

The Presiding Officer: Under Standing Order No. 7.50, today's questions will be answered by the Minister for Business and Budget, and I am sure that you would all like me to send our greetings and best wishes to the Minister for a full and speedy recovery.

Questions 1, OAQ(3)1078(SJL), and 2, OAQ(3)1047(SJL), are withdrawn.

Priorities for Local Government

Q3 Mick Bates: What are the Welsh Assembly Government's priorities for local government in the next 12 months? OAQ(3)1072(SJL)

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): In the current challenging financial climate, our priority is to ensure that local authorities continue to provide excellent services to citizens. They must do that by securing greater value for money, working together more effectively and streamlining their existing business activities.

Mick Bates: I place on record my best wishes to Carl Sargeant and hope for his full recovery. I am grateful for what you said about effective expenditure, Minister. However, should not one of the main priorities for the Government be to assist local government in responding to this recession? Many of us have seen job losses and companies folding, and I have recently received correspondence from businesses that are struggling to survive. They often cite the level of business rates as being a problem. Business rates are paid straight to the Government, but would it not be possible to use some of this funding to sustain local economies? It could be paid to local authorities with the specific purpose, over the next 12 months, of stimulating local economic development. It appears that there are different levels of effort put in by local authorities to stimulate the economy, but the Government needs to act in the next 12 months to ensure that local government stimulates the economy throughout Wales.

Jane Hutt: These are important issues on which we are engaged with local government in supporting local businesses. You make an interesting point about using revenue from non-domestic rates. The local government settlement for 2010-11 is fair—local government will receive over £4 billion through the settlement to fund key services, which represents an increase of 2.1 per cent, or £81 million, on what Welsh authorities received last year. We are also supporting

Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Leol

C3 Mick Bates: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer llywodraeth leol dros y 12 mis nesaf? OAQ(3)1072(SJL)

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni, ein blaenoriaeth yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i ddinasyddion. Rhaid iddynt wneud hynny drwy sicrhau gwell gwerth am arian, cydweithio'n fwy effeithiol a symleiddio'u gweithgareddau busnes cyfredol.

Mick Bates: Hoffwn gofnodi fy nymuniadau gorau i Carl Sargeant gan obeithio y bydd yn gwella'n llwyr. Yr wyf yn ddiolchgar am yr hyn a ddywedasoch am wariant effeithiol, Weinidog. Fodd bynnag, oni ddylai helpu llywodraeth leol i ymateb i'r dirwasgiad hwn fod yn un o brif flaenoriaethau'r Llywodraeth? Mae nifer ohonom wedi gweld swyddi'n cael eu colli a chwmnïau'n mynd i'r wal, ac yn ddiweddar, yr wyf wedi cael gohebiaeth gan fusnesau sy'n brwydro i oroesi. Yn aml maent yn nodi bod lefel ardrethi busnes yn broblem. Caiff ardrethi busnes eu talu'n syth i'r Llywodraeth, ond oni fyddai'n bosibl defnyddio rhywfaint o'r arian hwn i gynnal economïau lleol? Gellid ei dalu i awdurdodau lleol yn ystod y 12 mis nesaf, gyda'r nod penodol o ysgogi datblygiad economaidd lleol. Ymddengys fod lefel yr ymdrech i ysgogi'r economi yn amrywio ar draws awdurdodau lleol, ond mae angen i'r Llywodraeth weithredu yn ystod y 12 mis nesaf er mwyn sicrhau bod llywodraeth leol yn ysgogi'r economi ledled Cymru.

Jane Hutt: Mae'r materion hyn yn bwysig ac yr ydym yn ymgysylltu â llywodraeth leol er mwyn cefnogi busnesau lleol. Yr ydych yn gwneud pwynt diddorol am ddefnyddio refeniw o ardrethi annomestig. Mae setliad llywodraeth leol ar gyfer 2010-11 yn deg—bydd llywodraeth leol yn cael dros £4 biliwn drwy'r setliad er mwyn ariannu gwasanaethau allweddol, sy'n gynydd o 2.1 y cant, neu £81 miliwn, o'i gymharu â'r hyn a gafodd awdurdodau Cymru'r llynedd. Yr

authorities in their opportunities to maximise efficiencies to support businesses; the announcements that I made on the invest-to-save funding round after Christmas supported that. Working with local government on monthly revenue support grant payments, we are ensuring that local authorities receive their payments a week early, in order to improve their cash flow, thereby assisting them in paying their suppliers. We have also temporarily relaxed the minimum revenue provision rules relating to prudential borrowing for capital projects. Therefore, it is about Team Wales working to support local government to support local business.

Rhodri Glyn Thomas: Yn ystod y mis diwethaf, yr ydym wedi gweld cyfnodau pan oedd cymunedau cyfan, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, wedi eu cau mewn gan y tywydd. Yr oedd pobl yn methu â mynd i'w gwaith ac yr oedd ysgolion ar gau. A ddylai bob cyngor sir edrych ar gynlluniau wrth gefn er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu symud hyd yn oed pan fo'r tywydd yn anffafriol, gan ddysgu gwersi o'r profiadau a gafwyd yn ystod mis Ionawr?

Jane Hutt: Dealing with the impact of poor weather is, as you say, a matter for local authorities. Detailed arrangements and contingency plans need to be prepared, and agreed locally with partners, to reflect and predict the needs of and conditions within affected communities. Following the recent particularly bad spell of adverse weather, it is important for us to take stock of good practice and the ways in which local authorities have met the needs that you describe. We can look outside of Wales as well as inside of Wales for that good practice.

Darren Millar: Minister, I also extend my best wishes for a speedy recovery to Carl Sargeant. There has been a great deal of talk from the Assembly Government about the need for collaboration between local authorities and other public services to improve efficiency and to get more bang for the Welsh taxpayer's buck.

ydym hefyd yn cefnogi awdurdodau yn eu cyfleoedd i wneud y gorau o arbedion effeithlonrwydd er mwyn cefnogi busnesau; yr oedd y cyhoeddiadau a wneuthum am gylch cyllido'r gronfa buddsoddi i arbed ar ôl y Nadolig yn cefnogi hynny. Drwy weithio gyda llywodraeth leol ar daliadau grant cynnal refeniw misol, yr ydym yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu taliadau wythnos yn gynnar, er mwyn gwella'u llif arian, a thrwy hynny, eu helpu i dalu eu cyflenwyr. Yr ydym hefyd wedi llacio, dros dro, reolau'r ddarpariaeth isafswm refeniw o ran benthyca darbodus ar gyfer prosiectau cyfalaf. Felly, mae a wnelo â Thîm Cymru yn gweithio i gynorthwyo llywodraeth leol i gynorthwyo busnesau lleol.

Rhodri Glyn Thomas: Over the last month, we have seen times when whole communities, especially in rural areas, have been cut off by the weather. People were unable to get to work and schools were closed. Should all county councils give consideration to contingency plans that would allow people to move around even in inclement weather, learning the lessons of the experiences of January?

Jane Hutt: Fel y dywedaso, mae delio ag effaith tywydd gwael yn fater i'r awdurdodau lleol. Mae angen paratoi trefniadau manwl a chynlluniau wrth gefn, ac mae angen cytuno arnynt yn lleol gyda phartneriaid, er mwyn adlewyrchu a rhagweld anghenion cymunedau yr effeithir arnynt a'r amodau yn y cymunedau hynny. Yn dilyn y cyfnod gwael iawn o dywydd garw a gafwyd yn ddiweddar, mae'n bwysig inni bwysu a mesur arferion da a'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol wedi diwallu'r anghenion yr ydych wedi'u disgrifio. Gallwn edrych y tu hwnt i Gymru yn ogystal ag yng Nghymru am yr arferion da hynny.

Darren Millar: Weinidog, hoffwn innau ddymuno adferiad buan i Carl Sargeant. Bu cryn dipyn o siarad gan Lywodraeth y Cynulliad ynghylch yr angen i awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus eraill gydweithredu er mwyn gwella effeithlonrwydd a sicrhau gwell gwerth am arian i drethdalwyr Cymru.

1.50 p.m.

However, there are precious few examples of local authorities taking this agenda seriously enough. What action will your Government take to ensure that Welsh council tax payers do not have to pay the price of some local authorities and other public bodies failing to work together in the interest of the public purse?

Jane Hutt: The objective, not only of the Minister for Social Justice and Local Government but of the whole Welsh Assembly Government, is clear: local authorities must identify areas where they can improve services and reduce costs quickly. They need to lead that work to ensure that it gets past the planning phase and in to delivery and implementation. There are many good examples of collaborative projects in place, and I commend that work.

I am sure that the Minister will be grateful for the good wishes that have been expressed this afternoon. You will be pleased to hear that he has already met with the Welsh Local Government Association twice to identify potential projects that can be taken forward jointly. He has also had more than nine meetings with local authorities and was on his way from one of those meetings when, sadly, he was involved in last week's car crash. It is essential that everyone in the public sector understands and appreciates the scale of the challenge ahead. That is also a strong message for me as the Minister with responsibility for the budget.

Darren Millar: I agree that it is a strong message, but it is merely words. We are looking for action to ensure that Welsh council tax payers will not pay huge increases next year. We all know that your predecessor announced a historically low settlement for local authorities in the coming year as a result of Labour mismanagement of the UK economy and the paltry settlement to this place as a result. We are asking for action. What will you do? Outcome agreements are a tool in the box to force local authorities to work together to deliver decent services at an affordable price for the Welsh taxpayer. What are you going to do? Are you

Fodd bynnag, prin iawn yw'r enghreifftiau o awdurdodau lleol yn cymryd yr agenda hon o ddifrif. Pa gamau y bydd eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau nad oes rhaid i'r rheini sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru dalu'r pris am fod rhai awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill yn methu â chydweithio er lles pwrw y wlad?

Jane Hutt: Mae amcan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, yn ogystal â Llywodraeth gyfan y Cynulliad, yn glir: rhaid i awdurdodau lleol nodi meysydd lle gallant wella gwasanaethau a lleihau costau yn gyflym. Mae angen iddynt arwain y gwaith hwnnw er mwyn sicrhau y bydd yn mynd heibio'r cam cynllunio ac yn cael ei gyflenwi a'i weithredu. Mae nifer o enghreifftiau da o brosiectau cydweithredol ar waith, a chymeradwyaf y gwaith hwnnw.

Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ddiolchgar am y dymuniadau da a fynegwyd y prynhawn yma. Byddwch yn falch o glywed ei fod eisoes wedi cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddwywaith er mwyn nodi prosiectau posibl y gellir eu gweithredu ar y cyd. Mae hefyd wedi cael dros naw o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol ac yr oedd ar ei ffordd yn ôl o un o'r cyfarfodydd hynny yr wythnos diwethaf pan gafodd ddamwain car, yn anffodus. Mae'n hanfodol bod pawb yn y sector cyhoeddus yn deall ac yn sylweddoli maint yr her sydd o'n blaen. Mae hynny hefyd yn neges gref iawn i mi fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb.

Darren Millar: Cytunaf fod y neges hon yn un gref, ond dim ond geiriau ydyw. Yr ydym yn chwilio am gamau gweithredu er mwyn sicrhau na fydd y rheini sy'n talu'r dreth gyngor yng Nghymru yn gweld cynnydd mawr y flwyddyn nesaf. Gwyddom i gyd i'ch rhagflaenydd gyhoeddi setliad sydd gyda'r isaf erioed ar gyfer awdurdodau lleol yn y flwyddyn sydd i ddod ar ôl i'r Blaid Lafur gamreoli economi'r DU a'r setliad pitw inni o ganlyniad i hynny. Yr ydym yn gofyn am gamau gweithredu. Beth fyddwch yn ei wneud? Mae cytundebau canlyniadau yn arf i orfodi awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn cyflenwi gwasanaethau boddhaol am

going to deliver on these outcome agreements? Will you ensure that they are in place? If not, what action will you take to ensure that councils deliver on the collaborative agenda?

Jane Hutt: I have already outlined the figures for the revenue settlement; it is a fair settlement. It is also important to acknowledge that, when that settlement was announced, the Welsh Local Government Association said that it recognised that the

‘figures show that the Assembly Government has sought to prioritise front line services, in what the WLGA recognises has been a hugely challenging set of budget negotiations for Assembly Ministers’.

It also recognised the dialogue that it had had with the previous Ministers for finance and Ministers for local government; that work is now being taken forward by Carl Sargeant. The WLGA also said:

‘Such dialogue will be vital as we tackle difficult decisions over the forthcoming years’.

Will you and your party also tackle those difficult decisions? The WLGA has recognised that local authorities need to work together on their budget approaches. As Minister for finance, I have already mentioned the invest-to-save fund and the fact that we are providing incentives, but they are not a soft option. The leadership must come from local government across the public sector in order to deliver value for the Welsh pound.

Violence Against Women

Q4 Val Lloyd: Will the Minister provide an update on Welsh Assembly Government initiatives to combat violence against women? OAQ(3)1034(SJL)

Jane Hutt: On 5 January, the Minister published a Cabinet written statement that

bris fforddiadwy i drethdalwyr Cymru. Beth fyddwch yn ei wneud? A ydych yn mynd i gyflawni rhai o'r cytundebau canlyniadau hyn? A fyddwch yn sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith? Os na, pa gamau y byddwch yn eu cymryd i sicrhau bod cynghorau'n cyflawni'r agenda gydweithredol?

Jane Hutt: Yr wyf wedi amlinellu'r ffigurau ar gyfer y setliad refeniw eisoes; mae'r setliad yn un teg. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y bu i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ddweud, pan gyhoeddwyd y setliad, ei bod yn cydnabod bod y

‘ffigurau...yn dangos bod Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio rhoi blaenoriaeth i wasanaethau rheng flaen ac mae WLGA yn cydnabod bod y trafodaethau cyllidebol wedi bod yn ymestynnol iawn i weinidogion y wlad’.

Yr oedd hefyd yn cydnabod y trafodaethau a gafodd â chyn-Weinidogion cyllid a Gweinidogion llywodraeth leol; mae Carl Sargeant bellach yn datblygu'r gwaith hwn. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd:

‘Bydd trafodaethau o'r fath yn hanfodol wrth drin a thrafod penderfyniadau anodd yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod’.

A wnewch chi a'ch plaid drin a thrafod y penderfyniadau anodd hynny hefyd? Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cydnabod bod angen i awdurdodau lleol gydweithio o ran eu dulliau cyllidebu. Fel Gweinidog dros gyllid, yr wyf eisoes wedi sôn am y gronfa buddsoddi i arbed a'r ffaith ein bod yn darparu cymhellion, ond nid ydynt yn ddewis hawdd. Rhaid i lywodraeth leol ar draws y sector cyhoeddus arwain er mwyn sicrhau gwerth am y bunt Gymreig.

Trais yn Erbyn Menywod

C4 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod? OAQ(3)1034(SJL)

Jane Hutt: Ar 5 Ionawr, bu i'r Gweinidog gyhoeddi datganiad ysgrifenedig y Cabinet a

provided an update on Welsh Assembly Government initiatives to combat violence against women and domestic abuse. The Minister has also agreed to an extra £1 million of funding for next year to support this agenda.

Val Lloyd: A joint report by the Women's Resource Centre and Rape Crisis showed that, while demand for services was high, the availability of services is inadequate and dependent on location. Furthermore, the funding situation of many centres barely matches the expense of providing these important services. Part of the problem is due to the small amount of funds made available to agencies by funding bodies, despite the large number of applications that they make. Given the current economic climate, it is likely that the situation could worsen. Do you have any plans to consider the Scottish model of funding these centres and to work with your Cabinet colleagues to establish a cross-Government ring-fenced rape crisis fund?

Jane Hutt: Thank you for that important question, Val, and support for sexual assault victims. I am aware that the Women's Resource Centre and Rape Crisis report for England and Wales was published in March 2008, and I am also aware that things have moved on and that we have made progress in Wales since that report was published. Wales has six sexual assault referral centres and one rape crisis centre, and all parts of Wales are covered. Therefore, it would be wrong to suggest that there is a postcode lottery for these services in Wales. Four of the SARCs have been developed by New Pathways, a pioneering voluntary sector organisation with which I am familiar, which provides crisis intervention. A needs analysis has also shown that it provides long-term therapeutic counselling services. We have provided £76,924 to purchase a mobile sexual assault unit to provide additional support for rural parts of Dyfed and Powys, and an additional £20,000 for the rape crisis centre in Caernarfon.

oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am fentrau Llywodraeth y Cynulliad i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a cham-drin domestig. Mae'r Gweinidog hefyd wedi cytuno i £1 filiwn o arian ychwanegol ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn cefnogi'r agenda hon.

Val Lloyd: Yr oedd adroddiad ar y cyd gan y Ganolfan Adnoddau ar gyfer Menywod ac Argyfwng Trais wedi dangos bod y graddau y mae gwasanaethau ar gael yn annigonol ac yn dibynnu ar leoliad, er bod y galw am y gwasanaethau yn uchel. Yn ogystal, prin fod sefyllfa gyllido nifer o ganolfannau yn talu'r costau ar gyfer darparu'r gwasanaethau pwysig hyn. Mae a wnelo rhan o'r broblem â'r gyfran fach o arian a ddarperir i asiantaethau gan gyrff cyllido, er iddynt wneud nifer mawr o geisiadau. O ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n debygol y gallai'r sefyllfa waethygu. A oes gennych unrhyw gynlluniau i ystyried dull yr Alban o gyllido'r canolfannau hyn a gweithio gyda chydweithwyr yn y Cabinet i sefydlu cronfa drawslywodraethol sydd wedi'i neilltuo ar gyfer argyfwng trais?

Jane Hutt: Diolch am y cwestiwn pwysig iawn hwnnw, Val, a'ch cefnogaeth i ddiodefwyr ymosodiadau rhywiol. Yr wyf yn ymwybodol bod adroddiad y Ganolfan Adnoddau ar gyfer Menywod ac Argyfwng Trais ar gyfer Cymru a Lloegr wedi cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2008, ac yr wyf hefyd yn ymwybodol bod pethau wedi symud ymlaen a'n bod wedi gwneud cynnydd yng Nghymru ers i'r adroddiad hwnnw gael ei gyhoeddi. Ceir chwe chanolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol ac un ganolfan argyfwng trais yng Nghymru, ac mae pob ardal yng Nghymru yn cael ei gwasanaethu. Felly, byddai'n anghywir awgrymu bod loteri cod post ar gyfer y gwasanaethau hyn yng Nghymru. Mae pedair o'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol wedi cael eu datblygu gan New Pathways, sef mudiad arloesol yn y sector gwirfoddol yr wyf yn gyfarwydd ag ef, sy'n darparu ymyriad mewn argyfwng. Mae dadansoddiad anghenion hefyd wedi dangos ei fod yn darparu gwasanaethau cwnsela therapiwtig hirdymor. Yr ydym wedi rhoi £76,924 i brynu uned symudol ar gyfer ymosodiadau rhywiol er mwyn rhoi cymorth ychwanegol i ardaloedd

gwledig Dyfed a Phowys, a £20,000 ychwanegol i'r ganolfan argyfwng trais yng Nghaernarfon.

Mohammad Asghar: Minister, I fully support the call for an integrated strategy to tackle the problem of violence against women in Wales. Violence against women touches on almost every aspect of public policy. For this reason, the response from the Assembly Government must be one that cuts across all departments and agencies, recognising that violence against women is a collective responsibility. Scotland already has a comprehensive, integrated and gender-specific strategy to address violence against women. Will the Minister ensure that Wales is not left behind and that women here receive the same protection?

Jane Hutt: The Minister for Social Justice and Local Government, in one of his earliest actions, issued a written statement on 5 January reassuring Members that he was wholly committed, as is the entire Welsh Assembly Government Cabinet, to tackling this important issue and to making it one of his top priorities. Work is nearing completion on a new integrated strategy, an important point of which is that it covers the wider agenda to end violence against women and links to our domestic abuse strategy. We are fortunate that Jan Pickles, a founding member of Cardiff women's safety unit, has been brought in to provide expert advice to assist with this work. That work is also backed up by funding; you will be aware that an extra £1 million has been added to the domestic abuse and violence against women budget from 2010, which is a 33 per cent increase on the revenue budget. On the timing, the Minister set out a timetable in his statement in January, and this work is expected to be completed by the end of February. The Minister will then arrange for final informal consultations with key stakeholders before publication.

Nerys Evans: Croesawaf y datblygiadau a'r datganiad ddechrau'r flwyddyn gan y

Mohammad Asghar: Weinidog, yr wyf yn llwyr gefnogi'r galw am strategaeth integredig i fynd i'r afael â phroblem trais yn erbyn menywod yng Nghymru. Mae trais yn erbyn menywod yn cyffwrdd â phob agwedd ar bolisi cyhoeddus bron. Gan hynny, rhaid i ymateb Llywodraeth y Cynulliad fod yn un sy'n cwmpasu pob adran ac asiantaeth, gan gydnabod bod trais yn erbyn menywod yn gyfrifoldeb inni i gyd. Mae'r Alban eisoes yn meddu ar strategaeth gynhwysfawr, integredig, rhyw benodol i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod. A wnaiff y Gweinidog sicrhau nad yw Cymru ar ei hol hi a bod menywod yn y wlad hon yn cael eu hamddiffyn yn yr un modd?

Jane Hutt: Un o gamau gweithredu cynharaf y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol oedd cyhoeddi datganiad ysgrifenedig ar 5 Ionawr a oedd yn sicrhau Aelodau ei fod wedi ymrwymo'n llwyr, fel y mae Cabinet cyfan Llywodraeth y Cynulliad, i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn a sicrhau ei fod yn un o'i flaenoriaethau pennaf. Mae'r gwaith yn tynnu tua'r terfyn ar strategaeth integredig newydd, ac un o ddibenion pennaf y strategaeth yw ei bod yn cwmpasu'r agenda ehangach i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod, ac mae'n cysylltu â'n strategaeth ar gam-drin domestig. Yr ydym yn ffodus bod Jan Pickles, un o'r aelodau a fu'n gyfrifol am sefydlu uned diogelwch menywod Caerdydd, wedi cael ei galw i roi cyngor arbenigol i helpu gyda'r gwaith hwn. Cefnogir y gwaith hwnnw hefyd â chyllid; gwyddoch fod £1 filiwn ychwanegol wedi cael ei ychwanegu at gyllideb cam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod o 2010 ymlaen, sy'n gynydd o 33 y cant i'r gyllideb refeniw. O ran amseru, pennodd y Gweinidog amserlen yn ei ddatganiad ym mis Ionawr, a disgwylir i'r gwaith hwn fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror. Yna bydd y Gweinidog yn trefnu ymgynghoriadau anffurfiol terfynol gyda rhanddeiliaid allweddol cyn cyhoeddi'r strategaeth.

Nerys Evans: I welcome the developments and the statement made by the Minister at the

Gweinidog, a hefyd y cyllid yr ydych wedi sôn amdano. Mae hyn oll yn dangos arwydd clir o bwysigrwydd y maes hwn i Lywodraeth y Cynulliad. A wnewch sicrhau bod y strategaeth er atal trais yn erbyn menywod nid yn unig yn gweithio o fewn y portffolios sydd wedi'u datganoli, sef cyfiawnder cymdeithasol, iechyd, addysg, tai, ac yn y blaen, ond hefyd yn adeiladu cysylltiadau cadarn gydag adrannau nad ydynt wedi eu datganoli, megis yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y llysoedd, yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac yn y blaen? Yr unig ffordd o sicrhau strategaeth gynhwysfawr a fydd yn ceisio diogelu menywod Cymru rhag trais yw i gydweithio ar draws y portffolios ac adrannau sydd wedi'u datganoli ac nad ydynt wedi eu datganoli.

Jane Hutt: The importance of the non-devolved and the devolved is crucial to getting this integrated strategy right. As you know, it has been significantly strengthened as a result of widespread consultation and also in ensuring that it is cross-departmental, within the Welsh Assembly Government, and that it is outcome-focused. I have already mentioned the additional funding available. One part of that funding, which was announced in December, was to improve the information and communications technology systems to support women's refuges across Wales and to enhance the current publicity campaign, which is all about getting across those early warning signs of violence and prevention messages. On non-devolved powers and responsibility, clauses in the Crime and Security Bill relating to domestic violence protection notices are crucial. We welcome those clauses; they are positive developments.

2.00 p.m.

The Home Office has also provided assurances that the Welsh Assembly Government will be consulted before it issues guidance on domestic violence protection orders. You are quite right that this goes beyond the Home Office and extends to the Department for Work and Pensions as well. We will ensure that it is looked at across the

beginning of the year, and also the funding that you mentioned. This clearly demonstrates the importance attached to this area by the Assembly Government. Will you ensure that the domestic violence strategy is operational not only within devolved portfolios, such as social justice, health, education, housing and so on, but that it also builds strong links with non-devolved departments, such as the police, the Crown Prosecution Service, the courts, the Department for Work and Pensions, and so on? The only way of securing a comprehensive strategy to safeguard Welsh women against violence is to work collaboratively across devolved and non-devolved portfolios and departments.

Jane Hutt: Mae pwysigrwydd y materion sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli yn hanfodol i sicrhau bod y strategaeth integredig hon yn gywir. Fel y gwyrddoch, cafodd ei chryfhau'n sylweddol yn sgil ymgynghori eang a thrwy sicrhau ei bod yn drawsadrannol, o fewn Llywodraeth y Cynulliad, a'i bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Yr wyf wedi sôn eisoes am y cyllid ychwanegol sydd ar gael. Diben un rhan o'r cyllid hwnnw, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, oedd gwella'r systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu er mwyn cefnogi llochesau menywod ledled Cymru a gwella'r ymgyrch gyhoeddusrwydd gyfredol, sy'n ymwneud â chyfleu'r arwyddion rhybudd cynnar hynny o drais a negeseuon ynghylch atal trais. O ran pwerau a chyfrifoldeb nad ydynt wedi'u datganoli, mae cymalau yn y Mesur Trosedd a Diogelwch sy'n gysylltiedig â hysbysiadau amddiffyn trais domestig yn hollbwysig. Yr ydym yn croesawu'r cymalau hynny; maent yn ddatblygiadau cadarnhaol.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi rhoi sicrwydd y bydd yn ymgynghori â Llywodraeth y Cynulliad cyn iddo gyhoeddi canllawiau ar orchmynion amddiffyn trais domestig. Yr ydych yn iawn i ddweud bod hyn yn mynd y tu hwnt i'r Swyddfa Gartref ac yn ymestyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau hefyd. Byddwn yn sicrhau ei fod

board in light of functions and responsibilities that can support and benefit women who are subjected to domestic violence.

yn cael ei ystyried yn gyffredinol yng ngoleuni swyddogaethau a chyfrifoldebau a all gefnogi menywod sy'n dioddef trais domestig a bod o fudd iddynt.

Participatory Budgeting

Q5 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on participatory budgeting in relation to local government? OAQ(3)1086(SJL)

Jane Hutt: The Assembly Government supports the involvement of citizens and communities in local decision making in the provision and prioritisation of public services, including participatory budgeting.

Janet Ryder: The use of participatory budgeting is winning widespread support in many communities, especially in north Wales, partly due to the work of a group called Together Creating Communities, based in Wrexham. Involving communities in decision making at all levels of Government is something that much lip service is paid to, but participatory budgeting actually delivers on that. It is a fascinating exercise in engaging communities in how money is to be used, and prioritising that use within their locality. What plans does the Government have for developing the use of participatory budgeting on a more widespread scale throughout Wales?

Jane Hutt: I am aware of the work of Together Creating Communities in Wrexham, and, indeed, of similar examples across Wales. Participatory budgeting can play an important role in community empowerment, ensuring that citizens are engaged in decisions on prioritising spending according to their needs, not just consulted on them. It is about moving from information and consultation to engagement. My colleague Leighton Andrews, when he was Deputy Minister for Regeneration, met Together Creating Communities and looked at its work, and we are taking a close interest in how that develops. It is an issue for the Welsh Local Government Association and One Voice Wales, but we need to ensure that we are not over-prescriptive, and that local

Cyllidebu Cyfranogol

C5 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllidebu cyfranogol yng nghyswllt llywodraeth leol? OAQ(3)1086(SJL)

Jane Hutt: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi camau i gynnwys dinasyddion a chymunedau yn y gwaith o wneud penderfyniadau lleol ynghylch darparu a blaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyllidebu cyfranogol.

Janet Ryder: Mae defnyddio cyllidebu cyfranogol yn ennill cefnogaeth eang mewn nifer o gymunedau, yn enwedig yn y gogledd, a hynny'n rhannol oherwydd gwaith grŵp o'r enw Trefnu Cymunedol Cymru, sydd wedi'i leoli yn Wrecsam. Ceir llawer o siarad gwag am gynnwys cymunedau yn y gwaith o wneud penderfyniadau ar bob lefel o Lywodraeth, ond mae cyllidebu cyfranogol yn cyflawni hynny mewn gwirionedd. Mae cynnwys cymunedau yn y gwaith o benderfynu sut y dylid defnyddio arian, a blaenoriaethu'r defnydd hwnnw yn eu hardal leol, yn ymarfer diddorol iawn. Pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i ddatblygu defnyddio cyllidebu cyfranogol ar raddfa ehangach ledled Cymru?

Jane Hutt: Yr wyf yn ymwybodol o waith Trefnu Cymunedol Cymru yn Wrecsam, ac, yn wir, o enghreifftiau tebyg eraill ledled Cymru. Gall cyllidebu cyfranogol chwarae rôl bwysig yn y gwaith o rymuso cymunedau, gan sicrhau ein bod yn gwneud mwy na dim ond ymgynghori â dinasyddion a'u bod yn cael eu cynnwys yn y gwaith o flaenoriaethu gwariant yn unol â'u hanghenion. Mae a wnelo â symud oddi wrth roi gwybodaeth ac ymgynghori i ymgysylltu. Bu i'm cyd-Aelod Leighton Andrews pan oedd yn Ddirprwy Weinidog dros Adfywio, gyfarfod â Threfnu Cymunedol Cymru ac edrych ar ei waith, ac mae gennym ddiddordeb arbennig yn y modd y mae hynny'n datblygu. Mae'n fater i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru, ond mae angen inni sicrhau nad

authorities take this on board as an opportunity for strategic resource planning.

Mark Isherwood: I endorse Janet's comments about TCC and the work that it has been taking forward in Flintshire, Wrexham and Denbighshire, and not least in Janet's home town of Ruthin, with the children's adventure ship and zip wire. Participatory budgeting started in Brazil, has been rolled out across the United States, and has been described as a win-win initiative, increasing participation at neighbourhood level and engaging councils with local communities. More broadly, the Sustainable Communities Act 2007—in which Wales features, although it has not been enforced here—would extend participatory budgeting to national Government budgets, including Welsh Government budgets. What consideration will you give to looking at participatory budgeting at national Government level?

Jane Hutt: The important examples of participatory budgeting that we have at a local and community level can inform the budgeting process upwards and offer opportunities to become more transparent and to engage, as we do in the Assembly, through scrutiny and the engagement of the voluntary sector through our voluntary sector scheme. These are important examples of how we can ensure that we are making the right decisions for the people whom we represent.

Jenny Randerson: In my own area in Cardiff, the council has, for the last five years, been working hard on this style of budgeting, and has done extensive consultation with local residents before setting its budget. One of the consequences is a strong consensus on a number of key issues. However, there is frustration because the Welsh Assembly Government often fails to take into account that consensus at local level. Bearing in mind the comments that you just made to Mark Isherwood, would you accept that what is good for local councils is good for the Government as a whole, and therefore you need to be working on a way in which you can fully take into account the views of local people when you look at the

ydym yn rhoi gormod o gyfarwyddyd, a bod awdurdodau lleol yn ystyried hyn yn gyfle i gynllunio adnoddau mewn modd strategol.

Mark Isherwood: Yr wyf yn cefnogi sylwadau Janet ynghylch Trefnu Cymunedol Cymru a'r gwaith a ddatblygwyd yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych, ac yn arbennig y dref y mae Janet yn hanu ohoni, sef Rhuthun, gyda llong antur y plant a'r wifren sip. Dechreuodd cyllidebu cyfranogol ym Mrasil, ac mae wedi cael ei roi ar waith ar draws yr Unol Daleithiau, ac fe'i disgrifiwyd fel menter lle mae pawb ar eu hennill, gan gynyddu cyfranogiad ar lefel cymdogaeth a sicrhau bod cynghorau'n ymgysylltu â chymunedau lleol. Yn fwy cyffredinol, byddai Deddf Cymunedau Cynaliadwy 2007—y mae Cymru'n rhan ohoni, er nad yw'r ddeddf wedi cael ei gorfodi yma—yn ymestyn cyllidebu cyfranogol i gyllidebau Llywodraeth genedlaethol, gan gynnwys cyllidebau Llywodraeth Cymru. Pa ystyriaeth a rowch i edrych ar gyllidebu cyfranogol ar lefel Llywodraeth genedlaethol?

Jane Hutt: Gall yr enghreifftiau pwysig sydd gennym o gyllidebu cyfranogol ar lefel leol a chymunedol gyfrannu at y prosesau cyllidebu ar lefel uwch a chynnig cyfleoedd i fod yn fwy tryloyw ac ymgysylltu, fel y gwawn yn y Cynulliad, drwy waith craffu ac ymgysylltu â'r sector gwirfoddol drwy ein cynllun sector gwirfoddol. Mae'r rhain yn enghreifftiau pwysig o'r ffordd y gallwn sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau iawn i'r bobl yr ydym yn eu cynrychioli.

Jenny Randerson: Yn fy ardal fy hun yng Nghaerdydd, bu'r cyngor yn gweithio'n galed ar y dull hwn o gyllidebu ers pum mlynedd, ac mae wedi ymgynghori'n helaeth â thrigolion lleol cyn pennu ei gyllideb. Un o'r canlyniadau yw consensws cryf ar nifer o faterion allweddol. Fodd bynnag, ceir rhwystredigaeth oherwydd bod Llywodraeth y Cynulliad yn aml yn methu ag ystyried y consensws hwnnw a geir ar lefel leol. Gan gofio eich sylwadau i Mark Isherwood eiliad yn ôl, a fyddech yn derbyn bod yr hyn sy'n dda i gynghorau lleol yn dda i Lywodraeth yn gyffredinol, ac felly bod angen ichi weithio ar ddull a fydd yn golygu bod modd ichi ystyried yn llawn farn y bobl leol pan fyddwch yn edrych ar y cyllidebau ar gyfer

budgets for local authorities?

Jane Hutt: There are several elements of your question that I wish to respond to. With regard to the influence that people and local communities can have from the grass-roots level right up to influencing Welsh Assembly Government decisions, it is important that we fully engage. I gave the example of the voluntary sector scheme, whereby representatives of the voluntary sector, including those engaged with communities and Communities First, can feed their views and issues with regard to priorities straight through to the Minister with responsibility for finance in the Welsh Assembly Government. However, I would also say that it is the responsibility of local authorities with regard to the prioritisation of their budgets to recognise that they have to deliver and respond to those priorities—they have a huge amount of discretion in that regard—in accordance with local needs and views.

Services for Disabled People

Q6 Chris Franks: Will the Minister make a statement on services for disabled people in Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)1054(SJL)

Jane Hutt: We are committed to ensuring that the Welsh Assembly Government has a leadership role in promoting equality of opportunity for all citizens and ensuring that services and facilities are accessible to disabled people across Wales.

Chris Franks: I am sure that you agree that the need for accessible toilets is a very important matter, particularly for the disabled. Unfortunately, members of the public, including the disabled, visiting the main Rhondda Cynon Taf council offices in Pontypridd are not able to use the toilets in the building. It is a real problem, which has been highlighted by disabled constituents visiting these offices—they have to cross a busy road to use the toilet. This treatment of the public is shameful and it flies in the face of Government policy of removing barriers to disabled and disadvantaged sectors of society. Minister, could you ensure that this matter is investigated and that access to toilets in the public sector is given a higher

awdurdodau lleol?

Jane Hutt: Hoffwn ymateb i sawl elfen o'ch cwestiwn. O ran y dylanwad y gall pobl a chymunedau lleol ei gael ar lawr gwlad hyd at y dylanwad y gallant ei gael ar benderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad, mae'n bwysig ein bod yn ymgysylltu'n llwyr. Rhoddais enghraifft o gynllun y sector gwirfoddol, lle gall cynrychiolwyr y sector gwirfoddol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chymunedau a Chymunedau yn Gyntaf, gyflwyno'u barn a'u problemau o ran blaenoriaethau yn uniongyrchol i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllid yn Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, o ran blaenoriaethu cyllidebau, byddwn hefyd yn dweud mai cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw cydnabod bod yn rhaid iddynt gyflawni'r blaenoriaethau hynny ac ymateb iddynt—mae ganddynt gryn dipyn o ryddid yn hynny o beth—yn unol ag anghenion a barn y bobl lleol.

Gwasanaethau ar gyfer Pobl Anabl

C6 Chris Franks: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau ar gyfer pobl anabl yn Rhondda Cynon Taf? OAQ(3)1054(SJL)

Jane Hutt: Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan Lywodraeth y Cynulliad rôl arweiniol o ran hybu cyfle cyfartal i bob dinesydd a sicrhau bod gwasanaethau a chyfleusterau yn hygyrch i bobl anabl ledled Cymru.

Chris Franks: Yr wyf yn siŵr y cytunwch fod yr angen i gael toiledau hygyrch yn fater pwysig iawn, yn enwedig ar gyfer pobl anabl. Yn anffodus, ni all aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys pobl anabl, sy'n ymweld â phrif swyddfeydd cyngor Rhondda Cynon Taf ym Mhontypridd ddefnyddio'r toiledau yn yr adeilad. Mae'n broblem wirioneddol, a amlygwyd gan etholwyr anabl sy'n ymweld â'r swyddfeydd hyn—rhaid iddynt groesi ffordd brysur er mwyn defnyddio'r toiled. Mae'r ffordd hon o drin y cyhoedd yn gywilyddus ac mae'n mynd yn groes i bolisi'r Llywodraeth o ddileu rhwystrau i bobl anabl a sectorau difreintiedig cymdeithas. Weinidog, a allwch sicrhau yr ymchwilir i'r mater hwn a bod mynediad i

priority?

Jane Hutt: I am sure that you will be aware of two very important schemes initiated by the Welsh Assembly Government. Some £385,000 has been set aside for the public facilities grant scheme, which is about increasing free public access to toilet facilities in Wales, not only in the public sector, but in the private sector. We must also recognise the Mencap campaign, and we have made progress on delivering the Changing Places scheme, which I announced in December 2007 when I was the Minister responsible for children. It makes funding available for the provision of changing facilities in Wales. That funding has now increased to £1 million and is administered through the Minister for Heritage. However, it is quite clear that, with regard to equality and accessibility, we are driving forward on this responsibility in the public and private sectors.

Andrew R.T. Davies: I also send my best wishes to the Minister for Social Justice and Local Government and wish him a speedy recovery. Minister, disability rights and access to transport options for people who suffer from disabilities are critical in enabling them to lead as normal a life as possible. A key barrier to their leading normal lives is the lack of ability to access public transport and the relevant information about journey times and access points. There are many visual aids for conveying information to people who travel on public transport, but the availability of audio-visual aids is limited and there is no obligation on many transport providers to provide audio-visual aids. However, if you have poor eyesight, an audio aid is critical to let you know when your bus is coming or where the next stop is. I encourage the Welsh Assembly Government to lobby Westminster colleagues to ensure that the regulations are changed. It would be an important step for disability rights to make it a requirement to provide audio information on public transport.

Jane Hutt: I will be raising this with the

doileddau yn y sector cyhoeddus yn cael mwy o flaenoriaeth?

Jane Hutt: Yr wyf yn siŵr y gwyddoch am ddau gynllun pwysig iawn a ddechreuwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae rhyw £385,000 wedi cael ei neilltuo ar gyfer y cynllun grant cyfleusterau cyhoeddus, sy'n ymwneud â gwella mynediad cyhoeddus am ddim i gyfleusterau toiledau yng Nghymru, nid yn unig yn y sector cyhoeddus, ond yn y sector preifat. Rhaid inni hefyd gydnabod ymgyrch Mencap, ac yr ydym wedi gwneud cynnydd o ran gweithredu'r cynllun Mannau Newid, a gyhoeddais ym mis Rhagfyr 2007 pan oeddwn yn Weinidog dros blant. Mae'n sicrhau cyllid ar gyfer darparu cyfleusterau newid yng Nghymru. Mae'r cyllid hwnnw bellach wedi cynyddu i £1 filiwn a chaiff ei weinyddu drwy'r Gweinidog dros Dreftadaeth. Fodd bynnag, o ran cydraddoldeb a hygyrchedd, mae'n eithaf clir ein bod yn symud yn ein blaen gyda'r cyfrifoldeb hwn yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf hefyd am anfon fy nymuniadau gorau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ac yn dymuno adferiad buan iddo. Weinidog, mae hawliau anabledd a mynediad i opsiynau trafndiaeth i bobl sy'n dioddef anabledd yn hanfodol i'w galluogi i fyw bywyd mor normal ag sy'n bosibl. Un rhwystr allweddol i fyw bywyd normal yw'r diffyg mynediad i drafndiaeth gyhoeddus a'r wybodaeth berthnasol am amseroedd teithiau a phwyntiau mynediad. Ceir nifer o gymhorthion gweledol ar gyfer cyfleu gwybodaeth i bobl sy'n teithio ar drafndiaeth gyhoeddus, ond prin yw'r cymhorthion clyweledol sydd ar gael ac nid oes gorfodaeth ar lawer o ddarparwyr trafndiaeth i ddarparu cymhorthion clyweledol. Fodd bynnag, os oes gennych nam ar eich golwg, mae'n hanfodol cael cymhorthion sain er mwyn ichi wybod pryd y bydd y bws yn cyrraedd neu ymhle mae'r arhosfan nesaf. Anogaf Lywodraeth y Cynulliad i lobïo cydweithwyr yn San Steffan i sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu newid. Byddai'n gam pwysig i hawliau anabledd i'w gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth sain ar drafndiaeth gyhoeddus.

Jane Hutt: Byddaf yn codi'r mater hwn

Minister for Social Justice and Local Government and the Minister for the Economy and Transport. We must also recognise the opportunities for delivering on the UN convention on the rights of people with disabilities, which was ratified by the UK Government in June 2009, and make sure that we are delivering on that in partnership, not just with public authorities but in the contracts that they have for the provision of public buses, for example. I think that that your contribution would be very welcome.

gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Rhaid inni hefyd adnabod y cyfleoedd ar gyfer gweithredu ar gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau pobl ag anabledd, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2009, a sicrhau ein bod yn gweithredu ar hynny mewn partneriaeth, nid yn unig ag awdurdodau cyhoeddus ond yn y contractau sydd ganddynt ar gyfer darparu bysiau cyhoeddus, er enghraifft. Credaf y byddai eich cyfraniad yn cael ei groesawu'n fawr.

2.10 p.m.

The Financial Inclusion Strategy

Q7 Ann Jones: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's financial inclusion strategy for Wales? OAQ(3)1059(SJL)

Jane Hutt: Our financial inclusion strategy takes forward our support to credit unions and post offices, increasing disability, council tax and housing benefit take-up, assistance through the mortgage rescue scheme and Child Trust Fund Cymru, as well as direct local support from our financial inclusion champions.

Ann Jones: I have often referred to the work of Clwyd Coast Credit Union. The Assembly Government recognises that it is a prime example of how safe and effective this co-operative model of banking is. Clwyd Coast Credit Union has more child trust funds on its books than any other credit union across Wales, I believe, and I know that many young parents prefer to use that service. I am particularly encouraged by the strategy's emphasis on improving access to debt services, such as debt advice, and on tackling illegal money lending. The unscrupulous practice of charging extortionate interest, through a short-term loan, or even a pay-day loan, is disgraceful and one that we should be stamping out. The weight of public opinion is against these money lenders and I am pleased to see that the Government is now providing safer alternatives to the offerings of these

Y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol

C7 Ann Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth cynhwysiant ariannol Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ(3)1059(SJL)

Jane Hutt: Mae ein strategaeth cynhwysiant ariannol yn datblygu ein cefnogaeth i undebau credyd a swyddfeydd post, gan gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-dal anabledd, budd-dal y dreth gyngor a budd-dal tai, cynyddu'r cymorth sydd ar gael drwy'r cynllun achub morgeisi a Chronfa Ymddiriedolaeth Plant Cymru, yn ogystal â chymorth lleol uniongyrchol gan ein hyrwyddwyr cynhwysiant ariannol.

Ann Jones: Yr wyf wedi cyfeirio at waith Undeb Credyd Arfordir Clwyd yn aml. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod hwn yn enghraifft ardderchog o ba mor ddiogel ac effeithiol yw'r dull cydweithredol hwn o fancio. Credaf fod gan Undeb Credyd Arfordir Clwyd fwy o gronfeydd ymddiriedolaeth plant ar ei lyfrau nag unrhyw undeb credyd arall yng Nghymru, a gwn fod yn well gan nifer o rieni ifanc ddefnyddio'r gwasanaeth hwnnw. Yr wyf wedi fy nghalonogi'n arbennig gan bwyslais y strategaeth ar wella mynediad i wasanaethau dyledion, fel cyngor ar ddyledion, a mynd i'r afael â benthyca arian yn anghyfreithlon. Mae'r arfer diegwyddor o godi llog gormodol, drwy fenthyciad tymor byr, neu fenthyciad tan ddiwrnod cyflog hyd yn oed, yn gywilyddus, ac yn arfer y dylem fod yn ei ddileu. Mae pwysau'r farn

cynical and greedy moneylenders. Minister, do you agree that genuine financial inclusion means offering help to those who want a stable future for themselves and their families, and that the Labour Government in Wales, and also at Westminster, will remain unapologetic about helping people to do just that?

Jane Hutt: I congratulate Clwyd Coast Credit Union on what it has achieved, particularly in relation to the child trust fund. I also recognise that, due to the support from the Welsh Assembly Government and European funding over the past decade, credit unions in Wales have seen a five-fold increase in membership and assets, which stood at just over 10,000 and £4 million respectively in 2000, rising to over 50,000 and £21 million by the end of 2009, which is a real endorsement of the outcomes of our financial inclusion strategy. There is now universal credit union coverage across Wales, which is a historical first. There are 18 credit unions that can act as child trust fund account providers, but they are also important in supporting our young people with developing credit union links with schools. On your point about tackling illegal money lending, you will know that we set up an all-Wales illegal money lending unit towards the end of 2007. It is now one of nine regional trading standards-led teams across Wales, Scotland and Ireland.

Mark Isherwood: The debt crisis has focused minds more than ever on the need for financial inclusion and, thankfully, it is a concern shared by all of the parties. For example, tonight, the Financial Services Authority is holding an event at the Assembly to focus on financial capability for young people not in education, employment or training. However, at the other end of the spectrum, how do you respond to the concern expressed by Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales, that the Welsh

gyhoeddus yn erbyn y benthycwyr arian hyn ac yr wyf yn falch o weld bod y Llywodraeth bellach yn darparu opsiynau amgen a mwy diogel i'r hyn a gynigir gan y benthycwyr arian barus a sinigaidd hyn. Weinidog, a gytunwch fod cynhwysiant ariannol go iawn yn golygu cynnig help i'r bobl hynny sydd am gael dyfodol sefydlog iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd, ac y bydd Llywodraeth Lafur Cymru, yn ogystal â Llywodraeth Lafur San Steffan, yn parhau i helpu pobl i wneud hynny heb ymddiheuro dim?

Jane Hutt: Yr wyf yn llongyfarch Undeb Credyd Arfordir Clwyd ar yr hyn y mae wedi'i gyflawni, yn enwedig o ran y gronfa ymddiriedolaeth plant. Yr wyf hefyd yn cydnabod, yn sgil cael cymorth gan Lywodraeth y Cynulliad ac arian Ewropeaidd yn ystod y degawd diwethaf, bod aelodaeth ac asedau undebau credyd yng Nghymru wedi cynyddu bum gwaith. Yn 2000 yr oedd ganddynt ychydig dros 10,000 o aelodau a gwerth £4 miliwn o asedau, gan godi i dros 50,000 o aelodau a gwerth £21 miliwn o asedau erbyn diwedd 2009, sy'n gadarnhad gwirioneddol o ganlyniadau ein strategaeth cynhwysiant ariannol. Bellach ceir darpariaeth undebau credyd ledled Cymru, am y tro cyntaf erioed. Ceir 18 o undebau credyd sy'n gallu gweithredu fel darparwyr cyfrifon cronfa ymddiriedolaeth plant, ond maent hefyd yn bwysig o ran cefnogi ein pobl ifanc, wrth i undebau credyd ddatblygu cysylltiadau gydag ysgolion. O ran eich pwynt am fynd i'r afael â benthycwyr arian yn anghyfreithlon, gwyddoch inni sefydlu uned benthycwyr arian yn anghyfreithlon ar gyfer Cymru gyfan tua diwedd 2007. Erbyn hyn mae'n un o naw tîm rhanbarthol sy'n cael eu harwain gan safonau masnach ledled Cymru, yr Alban ac Iwerddon.

Mark Isherwood: Mae'r argyfwng dyledion wedi peri inni ganolbwyntio'n fwy nag erioed ar yr angen am gynhwysiant ariannol a, diolch i'r drefn, mae'n fater y mae pob plaid yn pryderu yn ei gylch. Er enghraifft, heno, mae'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol yn cynnal digwyddiad yn y Cynulliad i ganolbwyntio ar allu ariannol i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, ar y pegwn arall, sut yr ydych yn ymateb i'r pryder a fynegwyd gan Age Concern Cymru

Government's financial inclusion strategy does not specifically address the needs of older people, and did not identify actions related to improving the financial inclusion of older people in Wales?

Jane Hutt: Mark, if you look at our financial inclusion strategy, which was published, as you know, in July 2009, and is available on the website, you will see that it gives the opportunity to provide a lead to partners in tackling financial exclusion and over-indebtedness in Wales, and a much-needed focus on the work that is already under way. The top 20 issues that have been raised by Age Concern Cymru and Help the Aged in Wales are addressed by our financial inclusion strategy. If you look at what we have done, you will see that we have established a financial inclusion steering group, appointed financial inclusion champions, provided £3 million for council tax benefit and housing benefit take-up—critically important for the over 50s and senior citizens—established our Welsh unit for financial education, achieved all-Wales credit union coverage, brought a Financial Services Authority financial capability agenda to Wales, and brought the HEES fuel poverty scheme to more than 93,000 households, and I can go on. We introduced the new post office diversification fund, which is critical in responding to the needs and expectations of older people and senior citizens in Wales.

Bethan Jenkins: I am sure that you will recognise that part of any positive financial inclusion scheme is the ability of people to access the benefits that they need and deserve. Could you give an update on the disabled children's benefit scheme, to which the Government has allocated £500,000 over the next two years? I wrote to the then Minister for Social Justice and Local Government in August last year, highlighting the concerns of the charities that could access that benefit scheme. Due to the fact that Citizens Advice is administering this new benefit scheme, other charities do not seem to have the information that they need on how the scheme works and on the referrals process. I know that an information day is to

a Help the Aged Cymru, nad yw strategaeth cynhwysiant ariannol Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag anghenion pobl hŷn yn benodol, ac nad oedd yn nodi camau gweithredu ar gyfer gwella cynhwysiant ariannol pobl hŷn yng Nghymru?

Jane Hutt: Mark, os edrychwch ar ein strategaeth cynhwysiant ariannol, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, fel y gwyddoch, ac sydd ar gael ar y wefan, fe welwch ei bod yn rhoi'r cyfle i roi arweiniad i bartneriaid o ran mynd i'r afael ag allgáu ariannol a gorddyled yng Nghymru, a ffocws y mae mawr ei angen ar y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo. Mae'r 20 prif fater a godwyd gan Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru yn cael sylw yn ein strategaeth cynhwysiant ariannol. Os edrychwch ar yr hyn yr ydym wedi'i wneud, fe welwch ein bod wedi sefydlu grŵp llywio cynhwysiant ariannol, wedi penodi hyrwyddwyr cynhwysiant ariannol, wedi rhoi £3 miliwn i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-dal y dreth gyngor a budd-dal tai—sy'n hanfodol bwysig i'r rhai sydd dros 50 oed a'r henoed—wedi sefydlu ein huned yng Nghymru ar gyfer addysg ariannol, wedi sicrhau darpariaeth undebau credyd ledled Cymru, wedi dod ag agenda gallu ariannol yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol i Gymru, ac wedi dod â'r cynllun tloidi tanwydd HEES i fwy na 93,000 o gartrefi, a gallaf barhau. Bu inni gyflwyno'r gronfa arallgyfeirio newydd ar gyfer swyddfeydd post, sy'n hanfodol wrth ymateb i anghenion a disgwyliadau pobl hŷn a'r henoed yng Nghymru.

Bethan Jenkins: Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cydnabod bod gallu pobl i gael mynediad i'r budd-daliadau y mae eu hangen arnynt ac y maent yn eu haeddu yn rhan o unrhyw gynllun cynhwysiant ariannol cadarnhaol. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cynllun budd-daliadau i blant anabl, y mae'r Llywodraeth wedi clustnodi £500,000 iddo dros y ddwy flynedd nesaf? Ysgrifennais at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ym mis Awst y llynedd, yn amlygu pryderon yr elusennau a allai gael mynediad i'r cynllun budd-daliadau. Oherwydd bod Cyngor ar Bopeth yn gweinyddu'r cynllun budd-daliadau newydd hwn, ymddengys nad oes gan elusennau eraill y wybodaeth y mae ei hangen arnynt am y

be held this week, but some organisations on the ground are concerned that they are not as fully involved in the process as they would like to be.

Jane Hutt: I certainly remember having discussions on that. In fact, last year, in the Eisteddfod, the CAB was heavily promoting the scheme and engaging with people across the maes on ways in which it could deliver the benefit take-up scheme for disabled children and their families in Wales. That £500,000 was part of our response to the Disabled Children Matter Wales campaign. The CAB is well placed, well skilled and well trained to deliver that scheme. Of course, it has to be done in partnership with those who are on the front line. I am sure that we will be able to get an update from the Minister, when he returns.

Community Cohesion

Q8 Val Lloyd: What is being done to promote community cohesion in Wales? OAQ(3)1035(SJL)

Jane Hutt: In December 2009, the Welsh Assembly Government launched 'Getting on Together—a Community Cohesion Strategy for Wales' along with an accompanying action plan. A community cohesion fund of £2 million for 2009-10 has been developed and allocated to local authorities throughout Wales, with further funding until March 2012.

Val Lloyd: Thanks you, Minister, for that reply. A recent BBC documentary, *Why Do You Hate Me?*, showed shocking evidence that disabled people in Wales are being systematically attacked simply because they are disabled. Families are being subjected to constant abuse and threats and statistics show that although 116 incidents of this nature were recorded in 2009, only 18 convictions followed. I am well aware that this raises some issues that are not devolved. Can you tell me what action the Welsh Assembly Government is undertaking to address this hidden problem in communities across

ffordd y mae'r cynllun yn gweithio ac am y broses atgyfeirio. Gwn y bydd diwrnod gwybodaeth yn cael ei gynnal yr wythnos hon, ond mae rhai sefydliadau ar lawr gwlad yn pryderu nad ydynt yn ymwneud â'r broses i'r graddau y byddent yn dymuno.

Jane Hutt: Yr wyf yn sicr yn cofio trafod hynny. A dweud y gwir, y llynedd, yn yr Eisteddfod, yr oedd Cyngor ar Bopeth yn hyrwyddo'r cynllun yn frwd, ac yn ymgysylltu â phobl ar y maes ynghylch y ffyrdd y gallai gyflenwi cynllun i helpu plant anabl a'u teuluoedd yng Nghymru i hawlio budd-daliadau. Yr oedd y £500,000 hwnnw yn rhan o'n hymateb i ymgyrch Plant Anabl yn Cyfri Cymru. Mae Cyngor ar Bopeth mewn sefyllfa dda, yn meddu ar sgiliau da ac wedi'i hyfforddi'n dda i gyflenwi'r cynllun hwnnw. Wrth gwrs, rhaid gwneud hynny mewn partneriaeth â'r rhai sydd yn y rheng flaen. Yr wyf yn siŵr y gallwn gael y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog, pan fydd yn dychwelyd.

Cydlyniant Cymunedol

C8 Val Lloyd: Beth sy'n cael ei wneud i hyrwyddo cydlyniant cymunedol yng Nghymru? OAQ(3)1035(SJL)

Jane Hutt: Ym mis Rhagfyr 2009, lansiodd Llywodraeth y Cynulliad 'Cymru'n Cyddynnu—Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru' ynghyd â chynllun gweithredu ategol. Mae cronfa cydlyniant cymunedol gwerth £2 filiwn ar gyfer 2009-10 wedi'i datblygu a'i dyrannu i awdurdodau lleol ledled Cymru, gyda chyllid pellach tan fis Mawrth 2012.

Val Lloyd: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Yr oedd rhaglen ddogfen ddiweddar ar y BBC, *Why Do You Hate Me?*, yn dangos tystiolaeth syfrdanol bod pobl anabl yng Nghymru yn dioddef ymosodiadau cyson am eu bod yn anabl. Mae teuluoedd yn cael eu sarhau a'u bygwth yn barhaus a dengys ystadegau mai dim ond 18 o gollfarnau a gafwyd, er bod 116 o ddigwyddiadau o'r fath wedi'u cofnodi yn 2009. Yr wyf yn llwyr ymwybodol bod hyn yn codi rhai materion nad ydynt wedi'u datganoli. A allwch ddweud wrthyf pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth y Cynulliad

Wales?

Jane Hutt: The First Minister responded to a question on this issue yesterday. We can assure the Assembly again today that we are working closely with the police on this issue. We are also meeting the representatives of organisations that represent disabled people. In fact, I believe that a conference is taking place tomorrow to address these issues. That conference is about how the police and the Assembly Government will respond to the needs of disabled people in order to reduce hate crime—I find such crimes unbelievable—and to provide better support to the victims of hate crime.

The key point to this is to prevent the culture that has caused such crimes to take place. ‘Getting on Together’, which is the title of our community cohesion strategy, recognises hate crime, which can be linked to poor community cohesion. We are working in partnership with Safer Wales and the Welsh police forces to tackle the underreporting of hate crime. We await the outcome of the conference tomorrow to see what further action can be taken. The funding is there for local authorities and I hope that they will use it, based on the evidence of what is coming forward, and that the police will be fully engaged.

Nick Ramsay: I also ask you to pass on my best wishes to Carl Sargeant. I wish him a speedy return to all of us here in the Chamber.

I am sure that the Minister will agree that community cohesion, particularly in our rural areas is very much enhanced by local rural pubs. You will share my concern that, in 2009, 200 pubs in Wales closed. That meant the loss of not just the pub, but the valuable community hub that provided a venue where different people of different social backgrounds could mix. Such pubs also promote responsible drinking in those areas. Many of these villages have lost their post offices and therefore the pub is the only local facility where people can mix. Do you share my concerns, and the concerns of the

yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem gudd hon mewn cymunedau ledled Cymru?

Jane Hutt: Ymatebodd y Prif Weinidog i gwestiwn ar y mater hwn ddoe. Gallwn sicrhau y Cynulliad heddiw eto ein bod yn gweithio'n agos gyda'r heddlu ar y mater hwn. Yr ydym hefyd yn cyfarfod â chynrychiolwyr sefydliadau sy'n cynrychioli pobl anabl. A dweud y gwir, credaf fod cynhadledd yn cael ei chynnal yfory i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r gynhadledd honno'n ymwneud â'r modd y bydd yr heddlu a Llywodraeth y Cynulliad yn ymateb i anghenion pobl anabl er mwyn lleihau troseddau casineb—mae troseddau o'r fath yn anghredadwy yn fy marn i—a rhoi gwell cymorth i ddiodefswyr troseddau casineb.

Y pwynt allweddol yw atal y diwylliant sydd wedi achosi troseddau o'r fath. Mae 'Cymru'n Cyd-dynnu', sef teitl ein strategaeth cydlyniant cymunedol, yn cydnabod trosedd casineb, y gellir ei chysylltu â chydlyniant cymunedol gwael. Yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chymru Ddiogelach a heddluoedd Cymru i fynd i'r afael â nifer y troseddau casineb nad ydynt yn cael eu cofnodi. Rhaid aros am ganlyniad y gynhadledd yfory i weld pa gamau pellach y gellir eu cymryd. Mae'r cyllid ar gael i awdurdodau lleol a gobeithiaf y byddant yn ei ddefnyddio, ar sail y dystiolaeth o'r hyn sy'n dod i'r amlwg, ac y bydd yr heddlu'n chwarae rhan lawn.

Nick Ramsay: Gofynnaf ichi hefyd gyfleu fy nymuniadau gorau i Carl Sargeant. Gobeithiaf y bydd yn dychwelyd yn fuan i'r Siambr.

Yr wyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno bod cydlyniant cymunedol, yn enwedig yn ein hardaloedd gwledig, yn cael ei gryfhau gan dafarnau gwledig lleol. Mae'n siŵr eich bod, fel finnau, yn pryderu bod 200 o dafarnau wedi cau yng Nghymru yn 2009. Yr oedd hynny'n golygu colli nid yn unig y dafarn ei hun, ond canolfan gymunedol werthfawr a oedd yn fan lle gallai pobl wahanol o bob cefndir cymdeithasol gymysgu. Mae tafarnau o'r fath hefyd yn hybu arferion yfed cyfrifol yn yr ardaloedd hynny. Mae llawer o'r pentrefi hyn wedi colli eu swyddfeydd post ac felly'r dafarn yw'r

Campaign for Real Ale, that far too little is being done to support rural pubs, particularly in respect of business rate relief?

unig gyfleuster lleol lle gall pobl gymysgu. A ydych yn pryderu, fel yr wyf i, ac fel y mae'r Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn, nad oes digon yn cael ei wneud i gefnogi tafarnau gwledig, yn enwedig o ran rhyddhad ardrethi busnes?

2.20 p.m.

I know that the Government does not have the best record on providing rate relief to businesses during the recession. Could you therefore give us an undertaking that the Government will look at ways to support and to help rural businesses, and particularly pubs, which, like post offices, provide a valuable hub for local communities and are a venue for people from different social backgrounds to mix?

Gwn nad oes gan y Llywodraeth yr hanes gorau o ddarparu rhyddhad ardrethi i fusnesau yn ystod y dirwasgiad. Felly, a allech roi ymrwymiad inni y bydd y Llywodraeth yn edrych ar ffyrdd o gefnogi a helpu busnesau gwledig, yn enwedig tafarnau, sydd, fel swyddfeydd post, yn darparu canolfan werthfawr i gymunedau lleol a rhywle i bobl o gefndiroedd cymdeithasol gwahanol gymysgu?

Jane Hutt: I believe that a cross-party group has been developed in the Assembly on the issue of promoting beer. We have to watch that carefully in respect of responsibilities. You make an important point about the role of the pub in the local community. I have had public meetings in pubs as well as enjoying meals in them, and pubs can also have shops in them. They are important as a focal point for the community, and therefore this is a serious matter.

Jane Hutt: Credaf fod grŵp trawsbleidiol wedi cael ei ddatblygu yn y Cynulliad sy'n edrych ar hyrwyddo cwrw. Rhaid inni gadw llygad gofalus ar hynny o ran cyfrifoldebau. Yr ydych yn gwneud pwynt pwysig am rôl y dafarn yn y gymuned leol. Yr wyf wedi cynnal cyfarfodydd cyhoeddus mewn tafarnau yn ogystal â mwynhau prydu bwyd ynddynt, a gall tafarnau gael siopau ynddynt hefyd. Maent yn ganolbwynt i'r gymuned, ac felly mae hyn yn fater difrifol.

On your point about ensuring that those businesses can be sustained through the economic downturn, you have to remember that over 60 per cent of businesses will benefit from the revaluation. We have already announced a decrease in the multiplier, which was welcomed by Janet Jones, the chair of the Federation of Small Businesses in Wales. She said that it was pleasing to see the Government listening to and helping small and medium-sized enterprises. The Minister announced the small-business rate relief thresholds at Christmas, as a result of which most businesses pay less than £50 per week in business rates. We have made £20 million available to fund that relief. We must make sure therefore that the message gets across clearly to small businesses that we are here to listen to them and to help them, as the Minister and the former Minister have done, to prepare for the revaluation, which will benefit many.

O ran eich pwynt am sicrhau bod modd cynnal y busnesau hynny drwy'r dirywiad economaidd, rhaid ichi gofio y bydd dros 60 y cant o fusnesau yn elwa o'r ymarfer ailbriso. Yr ydym eisoes wedi cyhoeddi gostyngiad yn y lluosydd, a groesawyd gan Janet Jones, cadeirydd y Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru. Dywedodd ei bod yn galonogol gweld y Llywodraeth yn gwrando ar fusnesau bach a chanolig ac yn eu helpu. Cyhoeddodd y Gweinidog y trothwyon rhyddhad ardrethi i fusnesau bach adeg y Nadolig, ac o ganlyniad mae'r rhan fwyaf o fusnesau'n talu llai na £50 yr wythnos mewn ardrethi busnes. Yr ydym wedi sicrhau bod £20 miliwn ar gael i dalu am hynny. Felly rhaid inni sicrhau bod y neges yn cael ei chyfleu'n glir i fusnesau bach ein bod yma i wrando arnynt a'u helpu, fel y gwnaeth y Gweinidog a'r cyn-Weinidog, i baratoi ar gyfer yr ailbriso, a fydd yn fuddiol i lawer.

The Functions of Local Authorities

Q9 Jonathan Morgan: Will the Minister make a statement on the functions of local authorities in Wales? OAQ(3)1067(SJL)

Jane Hutt: Local authorities have a wide range of functions, from educating school children to collecting and disposing of waste. These are the front-line services that the people of Wales rely on every day.

Jonathan Morgan: I am grateful to the Minister for that reply. As a former Minister for health, you will be aware of the challenges of getting hospitals and local government to work closely together, and, in particular, when a patient needs to be discharged from hospital and requires domiciliary care, we know that there are huge challenges in getting a programme of care put into action. Likewise, we know that, when a patient needs to go into long-term, residential care—perhaps nursing care—there is often a huge argument between local government and the health boards as to who should pay for that patient's care. Minister, is it not now time to consider whether one organisation ought to deliver both health and social care in our communities in Wales, and whether the time is now right to remove the functions of social care and social services from local authorities and to put them within the new local health boards?

Jane Hutt: It will be important for us to see how the local health boards bed in in respect of their new responsibilities, and to ensure that the streamlining that will result from the new health boards will deliver that improved discharge. The delayed transfer of care is very unfortunate in respect of the health and wellbeing of older people who may be in hospital and ready to be transferred, whether back home with adaptations made to the home, into further residential care or to another care setting. It is important that we recognise that this is about better joint working, pooling finance between local government and the health service, which we have pioneered, and making sure that everyone plays their part in relation to their statutory function and duty.

Swyddogaethau Awdurdodau Lleol

C9 Jonathan Morgan: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaethau awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ(3)1067(SJL)

Jane Hutt: Mae gan awdurdodau lleol amrywiaeth eang o swyddogaethau, o addysgu plant ysgol i gasglu a chael gwared ar sbwriel. Rhain yw'r gwasanaethau rheng flaen y mae pobl Cymru yn dibynnu arnynt bob dydd.

Jonathan Morgan: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Fel cyn-Weinidog dros iechyd, gwyddoch am yr her sydd ynghlwm wrth gael ysbytai a llywodraeth leol i gydweithio'n agos, ac, yn benodol, pan fydd angen rhyddhau claf o'r ysbyty a threfnu gofal cartref ar ei gyfer, gwyddom fod rhoi rhaglen ofal ar waith yn cynnig her sylweddol. Yn yr un modd, pan fydd angen i glaf gael gofal preswyl hirdymor—gofal nyrsio o bosibl—gwyddom fod dadlau mawr yn aml rhwng llywodraeth leol a'r byrddau iechyd o ran pwy ddylai dalu am ofal y claf hwnnw. Weinidog, a yw'n bryd ystyried a ddylai un sefydliad gyflenwi gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ein cymunedau yng Nghymru, ac a yw'n bryd symud swyddogaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol o awdurdodau lleol a'u rhoi i'r byrddau iechyd lleol newydd?

Jane Hutt: Bydd yn bwysig inni weld sut y bydd y byrddau iechyd lleol yn ymdopi â'u cyfrifoldebau newydd, a sicrhau y bydd y symleiddio a fydd yn dod yn sgil sefydlu'r byrddau iechyd newydd yn darparu proses well o safbwynt rhyddhau cleifion. Mae'r oedi wrth drosglwyddo gofal yn anffodus iawn o ran iechyd a lles pobl hŷn a allai fod yn yr ysbyty ac yn barod i gael eu trosglwyddo, boed hynny i'w cartref eu hunain ar ôl gwneud addasiadau iddo, i ofal preswyl pellach neu i leoliad gofal arall. Mae'n bwysig inni sylweddoli bod hyn yn ymwneud â chydweithio gwell, cael llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd i rannu cyllid, sy'n rhywbeth yr ydym wedi paratoi'r ffordd ar ei gyfer, a sicrhau bod pawb yn chwarae eu rhan o ran eu

swyddogaeth a dyletswydd statudol.

Leanne Wood: Minister, there have been a number of examples of local authorities undermining the aims and initiatives brought forward by the Welsh Assembly Government. In my region, for example, Rhondda Cynon Taf County Borough Council has recently closed a swimming pool in Treherbert. The local community aims to reopen it as a co-operative, but has been told by the council that it will not be permitted to access funding provided by the Welsh Assembly Government for the free swimming initiative for children and young people. What can be done to prevent the undermining of Assembly policy by local authorities in this way and what can be done to create more cohesion between the policies of local government and those of the Welsh Assembly Government?

The Presiding Officer: Order. I am having difficulty with the idea that a democratically elected council can be accused of undermining the public policy of a democratically elected National Assembly. Therefore, I prefer that we do not stand here accusing local authorities of undermining Government policy.

Jane Hutt: It might be constructive if I refer to 'A New Understanding Between the Welsh Assembly Government and Local Government in Wales' that was signed by the Minister for Social Justice and Local Government and the Welsh Local Government Association last November. That clearly explains that the Welsh Assembly Government's role is to set a national vision and to provide the right conditions in which services can continually improve. Local government is there to provide vital community leadership and local democratic accountability as well as to work with central Government to deliver these national priorities.

Peter Black: One of the many functions of local authorities, and one that rests naturally with them, is maintaining our local road network. Although that remains a local government function, it falls to the Assembly Government to offer assistance at times of

Leanne Wood: Weinidog, cafwyd nifer o enghreifftiau o awdurdodau lleol yn tanseilio nodau a mentrau a ddatblygwyd gan Lywodraeth y Cynulliad. Er enghraifft, yn fy rhanbarth i, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cau pwll nofio yn Nhreherbert yn ddiweddar. Nod y gymuned leol yw ei ailagor fel menter gydweithredol, ond dywedodd y cyngor wrthi na fydd modd iddi gael arian a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y fenter nofio am ddim i blant a phobl ifanc. Beth y gellir ei wneud i rwystro awdurdodau lleol rhag tanseilio polisïau'r Cynulliad yn y modd hwn a beth y gellir ei wneud i sicrhau cydlyniant gwell rhwng polisïau llywodraeth leol a pholisïau Llywodraeth y Cynulliad?

Y Llywydd: Trefn. Yr wyf yn cael anhawster gyda'r syniad y gellir cyhuddo cyngor a etholwyd yn ddemocrataidd o danseilio polisi cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol a etholwyd yn ddemocrataidd. Felly, byddai'n well gennyf pe na baem yn cyhuddo awdurdodau lleol o danseilio polisïau'r Llywodraeth.

Jane Hutt: Efallai y byddai'n adeiladol pe bawn yn cyfeirio at 'Cyd-Ddealltwriaeth Newydd Rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth Leol yng Nghymru' a lofnodwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fis Tachwedd diwethaf. Mae'n esbonio'n glir mai rôl Llywodraeth y Cynulliad yw pennu gweledigaeth genedlaethol a darparu'r amodau iawn er mwyn i wasanaethau wella'n barhaus. Rôl llywodraeth leol yw darparu arweinyddiaeth gymunedol hanfodol ac atebolrwydd democrataidd lleol yn ogystal â gweithio gyda'r Llywodraeth ganolog i gyflawni'r blaenoriaethau cenedlaethol hyn.

Peter Black: Un o swyddogaethau niferus awdurdodau lleol, a swyddogaeth sy'n perthyn iddynt yn naturiol, yw cynnal a chadw ein rhwydwaith ffyrdd lleol. Er mai swyddogaeth llywodraeth leol ydyw, cyfrifoldeb Llywodraeth y Cynulliad yw

crisis or of overwhelming demand for its services, for example, during the recent snow and bad weather. I recognise that the Assembly Government has offered £2.75 million to local government to fix potholes caused by the recent severe weather, but that is quite a small amount of money when spread among the 22 local authorities. Will you consider the overall damage caused by that weather and reconsider whether you are able to offer more money in the near future?

Jane Hutt: We need to put the record straight on the responsibilities for maintaining our roads. The Welsh Assembly Government is directly responsible for the maintenance of the motorway and the trunk-road network and the local authorities are responsible for the maintenance of the local road network. They fund that in the main from the annual block grant that they receive from the Welsh Assembly Government and as a result of condition surveys that indicate the condition of roads. Those have an impact on prioritising budgets. However, it is important to recognise that the Assembly Government has provided £45 million of additional funding, over the last three years, to assist local government to improve the condition of their local roads. As you said, Peter, an additional £2.75 million has been allocated to assist local authorities to address those unplanned maintenance issues such as potholes as a result of adverse weather conditions. Furthermore, the Deputy First Minister has recently approved an additional £5 million of support for local authorities in this area for 2010-11. Therefore, again, this goes back to local prioritisation and support from Government, which we are delivering.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister, and for the lecture on local responsibilities; I think that I made clear in my question that I was aware of those. However, you have to take into account that around 80 per cent of local authority funding, in one form or another, comes from central Government. Local councils rely on Assembly Government funding to deal with these issues. Although, £2.75 million has

cynnig cymorth pan fydd argyfwng neu pan fydd galw aruthrol am ei gwasanaethau, er enghraifft, yn ystod yr eira a'r tywydd gwael diweddar. Yr wyf yn cydnabod bod Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnig £2.75 miliwn i lywodraeth leol drwsio tyllau yn y ffyrdd a achoswyd gan y tywydd garw diweddar, ond mae'r swm hwnnw o arian yn eithaf bach pan gaiff ei rannu ymysg y 22 awdurdod lleol. A wnewch chi ystyried y difrod cyffredinol a achoswyd gan y tywydd hwnnw ac ailystyried a allwch gynnig mwy o arian yn y dyfodol agos?

Jane Hutt: Mae angen inni egluro'r sefyllfa o ran y cyfrifoldeb am gynnal a chadw ein ffyrdd. Llywodraeth y Cynulliad sy'n uniongyrchol gyfrifol am gynnal a chadw'r rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r rhwydwaith ffyrdd lleol. Maent yn ariannu hynny'n bennaf gyda'r grant bloc a gânt gan Lywodraeth y Cynulliad bob blwyddyn ac ar sail arolygon cyflwr sy'n nodi cyflwr ffyrdd. Mae'r rheini'n cael effaith ar flaenoriaethu cyllidebau. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £45 miliwn o arian ychwanegol, yn ystod y tair blynedd diwethaf, i helpu llywodraeth leol i wella cyflwr eu ffyrdd lleol. Fel y dywedaso, Peter, clustnodwyd £2.75 miliwn yn ychwanegol i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r materion cynnal a chadw na chynlluniwyd ar eu cyfer, fel tyllau yn y ffyrdd o ganlyniad i dywydd garw. Yn ogystal, mae'r Dirprwy Brif Weinidog wedi cymeradwyo £5 miliwn yn ychwanegol yn ddiweddar i roi cymorth i awdurdodau lleol yn y maes hwn ar gyfer 2010-11. Felly, unwaith eto, mae hyn yn mynd yn ôl at flaenoriaethu lleol a chymorth gan y Llywodraeth, sef yr hyn yr ydym yn ei gyflawni.

Peter Black: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, ac am y bregeth am gyfrifoldebau lleol; credaf imi nodi'n glir yn fy nghwestiwn fy mod yn ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, rhaid ichi ystyried bod tuag 80 y cant o arian awdurdodau lleol yn dod o Lywodraeth ganolog, mewn un ffordd neu'r llall. Mae cynghorau lleol yn dibynnu ar arian Llywodraeth y Cynulliad i ymdrin â'r materion hyn. Er y cynigiwyd £2.75 miliwn i

been offered to local authorities for potholes and so on, the Government has cut £10 million from next year's local road-maintenance grant. Is it acceptable to give a small amount with one hand and take away a large amount with the other when local authorities face these problems as a result of adverse weather conditions?

Jane Hutt: I am glad that we are clarifying our responsibilities this afternoon, both nationally and locally, in our roles as elected representative, Peter. It is important that I return to my earlier point about the condition surveys of our roads, undertaken to provide guidance on investment. The achievement of the Assembly Government's current target of no more than 8 per cent of the length of a road requiring maintenance reflects the investment that has been made by the Assembly Government since 2002, when the percentage of networks requiring maintenance peaked at around 14 per cent.

2.30 p.m.

Additional financial assistance has been provided to local authorities by the Assembly Government over the last three years in the form of a £15 million per annum capital road maintenance grant, which has been distributed according to the standard spending assessment. An estimated £140 million maintenance backlog has been addressed as a result of the targets that were set. It is back to the new understanding of who is responsible for what, and we are putting our money in to help local authorities make those decisions.

The Presiding Officer: Thank you, Minister, and I thank all colleagues who have sent their greetings to our absent friend today.

awdurdodau lleol ar gyfer trwsio tyllau yn y ffyrdd ac ati, mae'r Llywodraeth wedi torri £10 miliwn o'r grant cynnal a chadw ffyrdd lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf. A yw'n dderbyniol rhoi swm bach gydag un llaw a chymryd swm mawr gyda'r llaw arall pan fydd awdurdodau lleol yn wynebu'r problemau hyn o ganlyniad i dywydd garw?

Jane Hutt: Yr wyf yn falch ein bod yn egluro ein cyfrifoldebau'r prynhawn yma, yn genedlaethol ac yn lleol, yn ein rolau fel cynrychiolwyr etholedig, Peter. Mae'n bwysig imi ddychwelyd at fy mhwynt blaenorol am arolygon o gyflwr ein ffyrdd, a gynhelir er mwyn rhoi arweiniad ar fuddsoddi. Mae'r ffaith i Lywodraeth y Cynulliad gyrraedd ei tharged cyfredol i sicrhau nad oes angen gwaith cynnal a chadw ar fwy nag 8 y cant o hyd ffordd yn adlewyrchu'r buddsoddiad a wnaed gan Lywodraeth y Cynulliad er 2002, pan oedd canran y rhwydweithiau yr oedd angen gwaith cynnal a chadw arnynt wedi cyrraedd uchafbwynt o oddeutu 14 y cant.

Darparwyd cymorth ariannol ychwanegol i awdurdodau lleol gan Lywodraeth y Cynulliad yn ystod y tair blynedd diwethaf ar ffurf grant cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd, gwerth £15 miliwn y flwyddyn, a ddosbarthwyd yn unol â'r asesiad o wariant safonol. O ganlyniad i'r targedau a bennwyd amcangyfrifir bod £140 miliwn wedi'i wario ar waith cynnal a chadw a oedd wedi cronni. Mae'n mynd yn ôl at y ddealltwriaeth newydd o bwy sy'n gyfrifol am beth, ac yr ydym yn cyfrannu arian i helpu awdurdodau lleol i wneud y penderfyniadau hynny.

Y Llywydd: Diolch, Weinidog, a diolch i'r holl gyd-Aelodau sydd wedi anfon eu cyfarchion at ein cyfaill absennol heddiw.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Children, Education and Lifelong Learning

The Flying Start Scheme

Q1 Michael German: Will the Minister make a statement on the Flying Start scheme?
OAQ(3)1191(CEL)

Cynllun Dechrau'n Deg

C1 Michael German: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun Dechrau'n Deg?
OAQ(3)1191(CEL)

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): Flying Start is making a positive difference to the development of children in our most disadvantaged communities and is providing invaluable support to their parents and carers.

Michael German: As you know, this is a superb scheme, for which the Government deserves credit. However, I am sure that the Deputy Minister is aware of the situation in Newport, where some of the children who are eligible, for demographic, economic and social reasons, and could be included in the scheme within the financial envelope allocated by the Welsh Assembly Government, will be told that they have to withdraw from it because of the cover that you believe has been given. I understand that Newport City Council has been able to respond to the Welsh Assembly Government's major concern, which is the ratio of children to health visitors, and that it can cope with that within the budget. Are you in a position to move ahead with giving approval to the extended cover that Newport council wishes to provide, within the same envelope of money that you are providing, so that all eligible children can be brought within this wonderful scheme?

Huw Lewis: Thank you, Mike. I am very pleased to hear your praise for the Flying Start programme, which is well deserved. Discussions regarding Newport are ongoing. Members will be aware that Newport is currently attempting to deliver services to 40 per cent more children than the number for which it has been given funding. The problem, of course, is that a key characteristic of Flying Start is that it is intended to be an intense intervention in the early years of a child's life, and that intensity is integral to the scheme. Discussions are ongoing, and I hope to see a resolution of the problems that children are facing in Newport. Whatever resolution we find, I can assure you that it will be both sensitive and phased, but I can also say that I am determined to maintain the integrity and ethos of the Flying Start programme.

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Mae Dechrau'n Deg yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddatblygiad plant yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ac mae'n rhoi cymorth amhrisiadwy i'w rhieni a'u gofalwyr.

Michael German: Fel y gwyddoch, mae hwn yn gynllun gwych, ac mae'r Llywodraeth yn haeddu clod amdano. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr bod y Dirprwy Weinidog yn ymwybodol o'r sefyllfa yng Nghasnewydd, lle bydd rhai o'r plant sy'n gymwys, am resymau demograffig, economaidd a chymdeithasol, ac y gellid eu cynnwys yn y cynllun o fewn yr amlen ariannol a ddyrannwyd gan Lywodraeth y Cynulliad, yn cael gwybod y bydd yn rhaid iddynt dynnu'n ôl o'r cynllun oherwydd y ddarpariaeth yr ydych yn credu sydd wedi'i chynnig. Deallaf fod Cyngor Dinas Casnewydd wedi gallu ymateb i bryder mawr Llywodraeth y Cynulliad, sef y gymhareb rhwng nifer y plant a nifer yr ymwelwyr iechyd, ac y gall ymdopi â hynny o fewn y gyllideb. A ydych mewn sefyllfa i gymeradwyo'r ddarpariaeth estynedig y mae cyngor Casnewydd yn dymuno'i chynnig, o fewn yr un amlen o arian a ddarperir gennych, er mwyn medru cynnwys pob plentyn cymwys yn y cynllun gwych hwn?

Huw Lewis: Diolch, Mike. Yr wyf yn falch iawn o glywed eich canmoliaeth i'r rhaglen Dechrau'n Deg, sy'n ganmoliaeth haeddiannol iawn. Mae trafodaethau ynglŷn â Chasnewydd yn parhau. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod Casnewydd yn ceisio darparu gwasanaethau ar hyn o bryd i 40 y cant yn fwy o blant na'r nifer y mae wedi cael cyllid ar eu cyfer. Y broblem, wrth gwrs, yw mai un o nodweddion allweddol Dechrau'n Deg yw'r ffaith y bwriedir i'r rhaglen fod yn ymyrraeth ddwys yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn, ac mae'r dwyster hwnnw'n hollbwysig i'r cynllun. Mae trafodaethau'n parhau, ac yr wyf yn gobeithio gweld y problemau y mae plant yn eu hwynebu yng Nghasnewydd yn cael eu datrys. Beth bynnag y bo'r ateb a ganfyddwn, gallaf eich sicrhau y bydd yn sensitif ac y bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol, ond gallaf ddweud hefyd fy mod yn benderfynol o gynnal uniondeb ac ethos y rhaglen Dechrau'n Deg.

William Graham: When you further investigate this matter, and following your discussions, will you undertake to complement Newport, which has managed to keep this well within the budget? It is an outstanding achievement to be able to facilitate this excellent scheme for a very large number of children, way above what was originally anticipated.

Huw Lewis: I am more than willing to give praise where praise is due. There are concerns, however, around the comprehensive nature of the spend in Newport, with elements of the Flying Start programme perhaps being underspent because of the overstretch as regards the number of children for whom services are being delivered. This is the crucial issue and is the point of debate and negotiation. It is something that we must resolve, but I repeat that sensitivity will be the order of the day. We do not want any child to lose out, but the Flying Start programme must not morph into something else; it must remain the Flying Start programme.

Further and Higher Education Funding

Q2 Chris Franks: Will the Minister make a statement regarding funding for further and higher education? OAQ(3)1216(CEL)

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): Next year, further education colleges will receive £307 million in funding, which is an overall increase of 5.85 per cent compared with the current academic year. The revenue allocation for higher education is £429 million for 2010-11, which is a 1.4 per cent increase in cash terms over 2009-10.

Chris Franks: I know that the Minister will agree that we should give a fair chance to all our young people. City and Guilds, the vocational awards body, is urging the Government to improve apprenticeships by communicating clearly the funding options available to small and medium-sized businesses. What discussions have you had regarding vocational training?

William Graham: Pan fyddwch yn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, ac ar ôl eich trafodaethau, a wnewch chi addo canmol Casnewydd, sydd wedi llwyddo i gadw ymhell o fewn terfynau'r gyllideb? Mae gallu hwyluso'r cynllun gwych hwn i nifer mawr o blant, sy'n nifer llawer uwch na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol, yn llwyddiant aruthrol.

Huw Lewis: Yr wyf yn fwy na pharod i roi canmoliaeth lle mae'n ddyledus. Fodd bynnag, mae pobl yn pryderu ynglŷn â natur eang y gwariant yng Nghasnewydd, a bod tanwariant efallai yng nghyswllt elfennau o'r rhaglen Dechrau'n Deg oherwydd y nifer mwy na'r disgwyl o blant y darperir gwasanaethau ar eu cyfer. Mae hwn yn fater hollbwysig ac yn destun dadlau a thrafod. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei ddatrys, ond dywedaf eto mai sensitifrwydd fydd yr ystyriaeth flaenaf. Nid ydym am i'r un plentyn golli cyfle, ond rhaid i'r rhaglen Dechrau'n Deg beidio â newid i fod yn rhywbeth arall; rhaid mai'r rhaglen Dechrau'n Deg ydyw o hyd.

Cyllid Addysg Bellach ac Uwch

C2 Chris Franks: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer addysg bellach ac uwch? OAQ(3)1216(CEL)

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Y flwyddyn nesaf, bydd colegau addysg bellach yn cael gwerth £307 miliwn o gyllid, sy'n gynydd cyffredinol o 5.85 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd bresennol. Mae'r dyraniad refeniw ar gyfer addysg uwch yn £429 miliwn ar gyfer 2010-11, sef cynnydd o 1.4 y cant yn nhermau arian parod o'i gymharu â 2009-10.

Chris Franks: Gwn y bydd y Gweinidog yn cytuno y dylem roi cyfle teg i bob un o'n pobl ifanc. Mae City and Guilds, y corff cymwysterau galwedigaethol, yn annog y Llywodraeth i wella prentisiaethau drwy roi gwybodaeth glir am yr opsiynau cyllido sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig eu maint. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ynglŷn â hyfforddiant galwedigaethol?

In Barry, there are more than 400 people on a waiting list for engineering and construction courses. Will the Minister undertake to seek ways of offering these people an opportunity to develop their skills? Barry College is a thriving, successful college offering excellent courses to over 10,000 students. It is an example of how to offer high-quality education and skills. However, there is great frustration because so many people are unable to access these courses.

Leighton Andrews: I understand that the waiting list of 400 people referred to relates to the waiting list for those courses that existed in Barry College last autumn. That reflected an increase in demand for learning as a consequence of the economic downturn. The previous Minister's response was the launch of the Pathways to Apprenticeship scheme, as pressure on the system was building through the summer. Therefore, recurrent funding for Barry College in 2010-11 will increase by 4.9 per cent. However, if you include Pathways to Apprenticeships, that rises to 12.7 per cent. We are putting additional money into the system; that is being seen. We retain our concern about supporting vocational schemes and we will continue to support them.

Paul Davies: I listened carefully to the figures that the Minister quoted earlier. It is regrettable that the Assembly Government has decided to require the HE and FE sectors to find 5 per cent efficiency savings in the next financial year, while requiring other Government departments to find only 1.6 per cent. As the Minister is aware, the Higher Education Funding Council for Wales expressed huge concern a few weeks ago that jobs and courses in the HE sector may have to be cut due to the funding squeeze. A thriving university sector is vital for the Welsh economy, especially during difficult economic times. Given HEFCW's concerns, can the Minister tell us what discussions he has had with the council and what action he will take to avoid cuts in jobs and courses in our colleges?

Yn y Barri, mae dros 400 o bobl ar restr aros ar gyfer cyrsiau peirianeg ac adeiladu. A wnaiff y Gweinidog addo chwilio am ffyrdd o gynnig cyfle i'r bobl hyn ddatblygu eu sgiliau? Mae Coleg y Barri yn goleg llewyrchus a llwyddiannus, sy'n cynnig cyrsiau gwyb i dros 10,000 o fyfyrwyr. Mae'n esiampl o sut i gynnig addysg a sgiliau o safon. Fodd bynnag, teimlir llawer o rwystredigaeth am fod cynifer o bobl yn methu â chael lle ar y cyrsiau hyn.

Leighton Andrews: Deallaf fod y rhestr aros o 400 o bobl y cyfeiriwyd ati'n ymwneud â'r rhestr aros ar gyfer y cyrsiau hynny a fodolai yng Ngholeg y Barri yr hydref diwethaf. Yr oedd hynny'n adlewyrchu cynnydd yn y galw am gyfleoedd dysgu o ganlyniad i'r dirywiad economaidd. Ymateb y Gweinidog blaenorol oedd lansio'r cynllun Llwybrau at Brentisiaethau, oherwydd bod pwysau wedi bod yn cynyddu ar y system drwy'r haf. Felly, bydd cyllid rheolaidd ar gyfer Coleg y Barri yn 2010-11 yn cynyddu 4.9 y cant. Fodd bynnag, o gynnwys Llwybrau at Brentisiaethau, bydd yn cynyddu i 12.7 y cant. Yr ydym yn rhoi arian ychwanegol yn y system; mae hynny'n amlwg. Yr ydym yn dal yn awyddus i gefnogi cynlluniau galwedigaethol, a byddwn yn parhau i'w cefnogi.

Paul Davies: Gwrandewais yn ofalus ar y ffigurau a ddyfynnodd y Gweinidog yn gynharach. Mae'n anffodus bod Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu gofyn i'r sector addysg uwch a'r sector addysg bellach ganfod arbedion effeithlonrwydd o 5 y cant yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, gan ofyn i adrannau eraill y Llywodraeth ganfod 1.6 y cant yn unig. Fel y gŵyr y Gweinidog, mynegodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru bryder mawr rai wythnosau'n ôl ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd yn rhaid i swyddi a chysiau ddiflannu yn y sector addysg uwch oherwydd y wasgfa ariannol. Mae sector prifysgolion ffyniannus yn hanfodol i economi Cymru, yn arbennig yn ystod cyfnodau economaidd anodd. O ystyried pryderon Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, a all y Gweinidog ddweud wrthym pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda'r cyngor a pha gamau gweithredu y bydd yn eu cymryd i osgoi colli swyddi a chysiau yn ein colegau?

Leighton Andrews: I am meeting HEFCW tomorrow for my first discussion with it about the current situation in HE. We are currently looking at the draft of the HEFCW remit letter for the next year. I certainly regard it as a responsibility of HEFCW to ensure that strategic subjects are protected within the HE sector in Wales, and I will make that clear to it tomorrow.

Paul Davies: I am grateful to the Minister for that answer. I would like to move on to your recent announcement regarding the way in which schools, colleges and universities are funded. I hope that this review will deliver real outcomes that will ensure that the money is spent on delivering education to our children and young people. Naturally, this review will look into the way that colleges spend their money, as well as other funding recipients. However, can the Minister confirm that this review will also include the administration within his department, as well as reviewing how LEAs and colleges spend their money?

Leighton Andrews: The review that I have announced is a review of the cost of administering the education system in Wales. That includes local education authorities, the Government, and bodies like HEFCW. I am determined that we will find a way of refocusing funding for the front line of schools, colleges and universities. That is precisely why we have created this review.

Jenny Randerson: Minister, a student being educated at a university in Wales receives on average £5,450 funding per year, whereas in England, the same student would get £6,287, and in Scotland, the figure is over £8,000. What is your budget for next year going to do to this existing and unacceptable funding gap?

Leighton Andrews: As you are well aware, I

Leighton Andrews: Byddaf yn cwrdd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yfory ar gyfer fy nhrafodaeth gyntaf ag ef ynglŷn â'r sefyllfa gyfredol yn y sector addysg uwch. Yr ydym wrthi'n ystyried drafft o lythyr cylch gwaith Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yr wyf yn sicr yn credu bod gan y Cyngor Cyllido gyfrifoldeb i sicrhau bod pynciau strategol yn cael eu diogelu yn y sector addysg uwch yng Nghymru, a byddaf yn egluro hynny i'r Cyngor yfory.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Hoffwn symud ymlaen i'ch cyhoeddiad diweddar ynglŷn â'r modd y caiff ysgolion, colegau a phrifysgolion eu cyllido. Gobeithiaf y bydd yr adolygiad hwn yn esgor ar ganlyniadau gwirioneddol a fydd yn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario ar ddarparu addysg i'n plant a'n pobl ifanc. Yn naturiol, bydd yr adolygiad yn ymchwilio i'r ffordd y mae colegau'n gwario'u harian, yn ogystal â sefydliadau eraill sy'n cael arian. Fodd bynnag, a all y Gweinidog gadarnhau y bydd yr adolygiad hefyd yn ymwneud â'r weinyddiaeth yn ei adran ef, yn ogystal â'r modd y mae awdurdodau addysg lleol a cholegau'n gwario eu harian?

Leighton Andrews: Mae'r adolygiad yr wyf wedi'i gyhoeddi yn adolygiad o gost gweinyddu'r system addysg yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys awdurdodau addysg lleol, y Llywodraeth, a chyrrff megis Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru. Yr wyf yn benderfynol o sicrhau ein bod yn canfod ffordd o ailbennu ffocws cyllid ar gyfer y rheng flaen mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion. Dyna'r union reswm pam yr ydym wedi creu'r adolygiad hwn.

Jenny Randerson: Weinidog, mae myfyriwr a gaiff ei addysgu mewn prifysgol yng Nghymru yn cael £5,450 o gyllid y flwyddyn ar gyfartaledd, ond yn Lloegr byddai'r un myfyriwr yn cael £6,287, ac yn yr Alban byddai'r ffigur yn fwy na £8,000. Beth fydd eich cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf yn ei wneud i'r bwlch cyllidol cyfredol ac annerbyniol hwn?

Leighton Andrews: Fel y gwyddoch yn

have already announced a review of the funding of the education system in Wales, specifically to look at the cost of administering the education system in order to put more money into the front line. The First Minister, in his manifesto, made a commitment to increase the amount going into education by 1 per cent above the block grant that we receive from the UK. That is our plan for the 2011-12 financial year.

2.40 p.m.

Jenny Randerson: Minister, I am very much in favour of the idea of ridding the system of wastage, but do you accept that the funding situation of higher education in Wales is now so dire that the student experience is likely to be much poorer and that the system actively discourages people from choosing Wales over England? Are you not concerned about the implications for the future level of education for adults in Wales?

Leighton Andrews: I have to tell you that the admission figures for higher education in Wales do not bear out your argument. Students are choosing to come to Wales, and I am pleased that that is the case. It is disappointing that you talk down the Welsh higher education system.

Jenny Randerson: Minister, the reason why students have been choosing Wales is because they have not had to pay top-up fees here. Your Government is now doing away with that difference. Do you not understand that you have to accept that you cannot go on in this way without putting the Welsh higher education system at a grave disadvantage? The words that I am speaking have come directly from representatives of HE.

Leighton Andrews: I have to say to her again that, internationally and from across the United Kingdom, students are choosing to enter the higher education system in Wales. It is disappointing that she continues to talk down the higher education system in Wales. We, of course, through the measures that we are taking to change the student support system, are committed to putting additional

iawn, yr wyf eisoes wedi cyhoeddi adolygiad o'r modd y caiff y system addysg yng Nghymru ei chyllido, i edrych yn benodol ar gost gweinyddu'r system addysg, er mwyn rhoi mwy o arian yn y rheng flaen. Cafwyd ymrwymiad gan y Prif Weinidog, yn ei fanifesto, i sicrhau bod y swm a roddir i addysg yn cynyddu 1 y cant uwchlaw'r grant bloc a gawn gan y DU. Dyna yw ein cynllun ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12.

Jenny Randerson: Weinidog, yr wyf yn gefnogol iawn i'r syniad o gael gwared ag unrhyw achosion o wastraffu yn y system, ond a ydych yn derbyn bod y sefyllfa o ran cyllido addysg uwch yng Nghymru gynddrwg erbyn hyn nes ei bod yn debygol y bydd profiad y myfyriwr yn llawer gwaeth, ac a ydych yn derbyn bod y system yn methu ag annog pobl yn weithredol i ddewis Cymru yn hytrach na Lloegr? Onid ydych yn poeni am y goblygiadau ar gyfer lefel yr addysg i oedolion yng Nghymru yn y dyfodol?

Leighton Andrews: Rhaid imi ddweud wrthy ch nad yw'r ffigurau derbyn ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn ategu eich dadl. Mae myfyrwyr yn dewis dod i Gymru, ac yr wyf yn falch o hynny. Mae'n siomedig eich bod yn bychanu'r system addysg uwch yng Nghymru.

Jenny Randerson: Weinidog, y rheswm pam y mae myfyrwyr wedi bod yn dewis Cymru yw oherwydd nad ydynt wedi gorfod talu ffioedd atodol yma. Mae eich Llywodraeth yn cael gwared â'r gwahaniaeth hwnnw'n awr. Onid ydych yn deall bod yn rhaid ichi dderbyn na allwch barhau fel hyn heb roi system addysg uwch Cymru dan anfantais ddifrifol? Yr wyf yn dyfynnu geiriau cynrychiolwyr y sector addysg uwch yn uniongyrchol.

Leighton Andrews: Rhaid imi ddweud wrthi unwaith eto bod myfyrwyr, o bob cwr o'r Deyrnas Unedig a'r byd, yn dewis ymuno â'r system addysg uwch yng Nghymru. Mae'n siomedig ei bod yn parhau i fychanu'r system addysg uwch yng Nghymru. Drwy'r camau yr ydym yn eu cymryd i newid y system cymorth i fyfyrwyr, yr ydym wrth gwrs wedi ymrwymo i roi arian ychwanegol i'r sector

money from the new arrangements that we have put in place into HE. We expect to be able to put in around £30 million by 2015 as a result of those changes. Those are real commitments.

It is always the case that the Liberal Democrats whinge about a problem when they see it, and then, when we find a solution to it, they whinge about the solution as well.

Higher Education

Q3 Paul Davies: What are the Welsh Assembly Government's priorities for higher education? OAQ(3)1192(CEL)

Leighton Andrews: Collaboration, collaboration, and collaboration. I want to see higher education institutions collaborating to win more research funding for Wales. I want to see them collaborating to protect subjects of strategic importance to Wales, and I want them to collaborate to provide a world-class learning experience for students throughout Wales.

Paul Davies: I am grateful to you, Minister, for that answer. Back in March of last year, as has been touched upon, your predecessor announced that the tuition fee grant for new students would be phased out from the 2010-11 academic year. At that time, it was also announced that resources would be redirected away from the tuition fee grant, to fund a number of priorities, including a national bursary framework. Minister, can you confirm how much money will be allocated to this national bursary framework, and what work is currently under way on this matter?

Leighton Andrews: Conversations are ongoing about the national bursary framework. Discussions have been held between my officials and representatives from Higher Education Wales and the National Union of Students. Those negotiations and discussions have not yet concluded, but I expect to be able to make an announcement on this in due course.

addysg uwch o'r trefniadau newydd yr ydym wedi'u sefydlu. Disgwylwn y gallwn gyfrannu tua £30 miliwn erbyn 2015 o ganlyniad i'r newidiadau hynny. Mae'r rhain yn ymrwymadau go iawn.

Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol bob amser yn cwyno am broblem pan fyddant yn gweld un, a phan fyddwn yn canfod ateb i'r broblem, byddant yn cwyno am hwnnw hefyd.

Addysg Uwch

C3 Paul Davies: Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch? OAQ(3)1192(CEL)

Leighton Andrews: Cydweithredu, cydweithredu, a chydweithredu. Yr wyf am weld sefydliadau addysg uwch yn cydweithredu i ennill mwy o arian ymchwil i Gymru. Yr wyf am eu gweld yn cydweithredu i ddiogelu pynciau sydd o bwys strategol i Gymru, ac yr wyf hefyd am iddynt gydweithredu i ddarparu profiadau dysgu sydd gyda'r gorau yn y byd i fyfyrwyr ledled Cymru.

Paul Davies: Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Weinidog, am yr ateb hwnnw. Yn ôl ym mis Mawrth y llynedd, fel y soniwyd eisoes, cyhoeddodd eich rhagflaenydd y byddai'r grant ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr newydd yn cael ei ddiddymu'n raddol o flwyddyn academaidd 2010-11 ymlaen. Ar yr un pryd, cyhoeddwyd hefyd y byddai adnoddau'n cael eu hailgyfeirio o'r grant ffioedd dysgu i gyllido nifer o flaenoriaethau, gan gynnwys fframwaith bwrsariaeth cenedlaethol. Weinidog, a allwch gadarnhau faint o arian a fydd yn cael ei ddyrannu i'r fframwaith bwrsariaeth cenedlaethol hwn, a pha waith sy'n mynd rhagddo'n awr ynglŷn â'r mater?

Leighton Andrews: Mae sgysiau'n mynd rhagddynt ynglŷn â'r fframwaith bwrsariaeth cenedlaethol. Mae trafodaethau wedi'u cynnal rhwng fy swyddogion a chynrychiolwyr Addysg Uwch Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Nid yw'r trafodaethau hynny wedi'u cwblhau eto, ond disgwyliaf allu gwneud cyhoeddiad ynglŷn â hynny maes o law.

Jeff Cuthbert: Minister, before Christmas, I visited Swansea University, in the constituency of our good friend Andrew Davies, in my capacity as chair of the programme monitoring committee of the structural funds to talk about the engagement of HE with those funds. While there, I was taken to visit the school of engineering, which is working on the Bloodhound SSC project, which is assisting in research on the building of a 1,000 mph rocket car. Some of the department's staff have been going to schools to introduce the project to pupils as a means of getting them interested in engineering and problem solving, such as what the wheels of a car that travels at such speeds will be made of, and perhaps to persuade young people to go to university to study engineering.

Do you agree that in order to meet the demands of the highly skilled, knowledge-intensive economy of the future, universities need to forge strong links with industry so that the engineering sector, in particular, can recruit the high-quality calibre of graduates that this esteemed vocation so desperately needs?

Leighton Andrews: Jeff, I am afraid that I do not know what the wheels will be made of. On your general point, however, we are committed to the investment in the subjects of science, technology, engineering and mathematics. I am pleased to say that Swansea University is taking a lead on our behalf in that area, through the work being done through the Higher Education Funding Council for England, supported by the Higher Education Funding Council for Wales.

Only two weeks ago, I had a long discussion with my colleague, Lesley Griffiths, who leads on the implementation of the 'One Wales' commitment supporting a national science academy. It is very important that, as we develop it, the academy engages not only at the level of higher education but also encourages people to take up stem-cell subjects—I mean STEM subjects; sorry, I am getting ahead of myself—throughout the education system, from the early years onwards.

Jeff Cuthbert: Weinidog, cyn y Nadolig, bûm yn ymweld â Phrifysgol Abertawe, yn etholaeth ein cyfaill da, Andrew Davies, yn rhinwedd fy swydd fel cadeirydd pwyllgor monitro rhaglenni'r cronfeydd strwythurol, er mwyn trafod cysylltu addysg uwch â'r cronfeydd hynny. Tra oeddwn yno, cefais gyfle i ymweld â'r ysgol beirianeg, sy'n gweithio ar brosiect car uwchsonig Bloodhound, sy'n cynorthwyo gydag ymchwil ar waith adeiladu car roced a all deithio ar gyflymder o 1,000 o filltiroedd yr awr. Mae rhai o staff yr adran wedi bod yn ymweld ag ysgolion i gyflwyno'r prosiect i ddisgyblion fel ffordd o ennyn eu diddordeb mewn peirianeg a gwaith datrys problemau, megis beth a ddefnyddir i wneud olwynion car sy'n teithio ar gyflymder o'r fath, a darbwylllo pobl ifanc efallai i fynd i'r brifysgol i astudio peirianeg.

Er mwyn bodloni gofynion yr economi hynod fedrus a dwys o ran gwybodaeth a fydd yn y dyfodol, a ydych yn cytuno bod angen i brifysgolion greu cysylltiadau cryf â diwydiant er mwyn i'r sector peirianeg, yn arbennig, allu recriwtio'r graddedigion o galibr uchel y mae eu hangen mor enbyd ar yr alwedigaeth hon sy'n uchel ei pharch?

Leighton Andrews: Jeff, yn anffodus, ni wn beth a ddefnyddir i wneud yr olwynion. Fodd bynnag, ynglŷn â'ch pwynt cyffredinol, yr ydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg. Yr wyf yn falch o ddweud bod Prifysgol Abertawe yn arwain yn y maes hwnnw ar ein rhan, drwy'r gwaith a wneir drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, gyda chefnogaeth Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Bythefnos yn unig yn ôl, cefais drafodaeth hir â'm cyd-Aelod, Lesley Griffiths, sy'n arwain y broses o weithredu'r ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' sy'n cefnogi academi wyddoniaeth genedlaethol. Wrth inni ddatblygu'r academi, mae'n bwysig iawn ei bod nid yn unig yn ymgysylltu ar lefel addysg uwch ond ei bod hefyd yn annog pobl i astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg drwy'r holl system addysg, o'r blynyddoedd cynnar ymlaen.

Nerys Evans: Gan fod rhai yn y Siambr yn mynnu codi bwganod ynghylch cyllid addysg uwch, a allwch chi gadarnhau na fu newid yn amserlen na chyllid datblygu'r coleg ffederal?

Leighton Andrews: Indeed. We are on course to deliver the federal college within the timescale that we have set out. Work is currently going on to establish the shadow board. I was discussing the establishment of the federal college with the National Union of Students in Wales only this morning. It has had a very important input into the development of the plans for the federal college and will continue to do so. I am very confident that we will be able to take that project forward, and I may have some more to say about that when we come to discuss the Welsh-medium education strategy later this year.

Nerys Evans: Given that some in the Chamber insist on scaremongering over higher education funding, could you confirm there has been no change in the timescale or the funding for the federal college?

Leighton Andrews: Gallaf, yn wir. Yr ydym ar y trywydd iawn i allu cyflwyno'r coleg ffederal o fewn yr amserlen a bennwyd gennym. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i sefydlu'r bwrdd cysgodol. Yr oeddwn yn trafod sefydlu'r coleg ffederal gydag Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru y bore yma. Mae wedi gwneud cyfraniad pwysig iawn i waith datblygu'r cynlluniau ar gyfer y coleg ffederal, a bydd yn parhau i wneud hynny. Yr wyf yn hyderus iawn y gallwn ddatblygu'r prosiect dan sylw, ac efallai y bydd gennyf fwy i'w ddweud am hynny pan fyddwn yn trafod y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach eleni.

School Buildings

Q4 Peter Black: Will the Minister make a statement on funding for improving school buildings in Wales? OAQ(3)1199(CEL)

Leighton Andrews: Our twenty-first century schools programme is intended to deliver a strategic approach to capital investment in school buildings by local authorities, in line with their plans for school organisation.

Peter Black: Thank you for that answer, Minister. Although there has been a noticeable improvement in a number of school buildings around Wales as a result of Assembly and local government funding, it is worth noting that there are still significant backlogs in getting schools fit for purpose around Wales, probably amounting to billions of pounds' worth of work. Given the likely reduction in capital funds available to the Assembly Government over the next few years, how will you be able to address that issue? Will your review of education funding lead to additional capital money to address that problem?

Adeiladau Ysgol

C4 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer gwella adeiladau ysgol yng Nghymru? OAQ(3)1199(CEL)

Leighton Andrews: Bwriad ein rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yw cyflwyno dull strategol o fuddsoddi cyfalaf mewn adeiladau ysgol gan awdurdodau lleol, yn unol â'u cynlluniau ar gyfer trefniadaeth ysgolion.

Peter Black: Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Weinidog. Er y gwelwyd gwelliant amlwg i nifer o adeiladau ysgol ledled Cymru o ganlyniad i gyllid gan y Cynulliad a llywodraeth leol, mae'n werth nodi bod llawer iawn o ôl-gronni'n parhau i ddigwydd o ran ceisio sicrhau bod ysgolion yn addas i'w diben ledled Cymru, ac mae'n debyg bod yr ôl-gronni hwnnw'n werth biliynau o bunnoedd o waith. O ystyried y gostyngiad tebygol i'r cronfeydd cyfalaf a fydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, sut y byddwch yn gallu mynd i'r afael â'r broblem honno? A fydd eich adolygiad o'r modd y caiff addysg ei chyllido'n arwain at arian cyfalaf ychwanegol i fynd i'r afael â'r broblem

honno?

Leighton Andrews: We need to restate that we expect to spend nearly £775 million in capital funding on school buildings during the lifetime of this third Assembly. That amount includes not only the general capital funding of the school buildings improvement grant and the early years capital grant, but also the funding that has come through the strategic capital investment fund. We have been successful in identifying funds for the education system through that programme.

There is a challenge ahead of us. However, the work that has been done on developing our twenty-first century schools programme has been widely welcomed by local government. Authorities have said that it has been an exemplar of local government working with the Assembly Government.

Rhodri Glyn Thomas: Fel yr ydych wedi nodi, mae swm mawr o arian wedi'i glustnodi i'w wario ar adeiladau ym myd addysg. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau addysg gyfrifoldeb i gynnal a chadw adeiladau. Pa waith y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i fonitro'r sefyllfa i gadw cydbwysedd rhwng adeiladau newydd a chynnal a chadw'r holl adeiladau sydd yng ngofal awdurdodau addysg ledled Cymru?

Leighton Andrews: The work that is going on through our twenty-first century schools programme needs to consider new build and support for existing buildings. We know that we have a stock of buildings that is not fit for purpose and we need to look quite fundamentally at them. However, we will be keeping a sharp eye on the need to rehabilitate existing buildings alongside new build via the arrangements that we have put in place with local authorities for the future of this programme.

Darren Millar: Minister, we know that you will miss your target for getting all school buildings in Wales into good physical shape by 2010. The previous First Minister, Rhodri Morgan, made a statement in the Chamber that indicated that he expected around 170 schools in Wales to close as part of the modernisation programmes going on across

Leighton Andrews: Mae angen inni ailddatgan y disgwyliwn wario bron i £775 miliwn o gyllid cyfalaf ar adeiladau ysgol yn ystod oes y trydydd Cynulliad hwn. Yn ogystal â chyllid cyfalaf cyffredinol y grant gwella adeiladau ysgol a grant cyfalaf y blynyddoedd cynnar, mae'r swm hwnnw hefyd yn cynnwys y cyllid sydd wedi dod drwy'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol. Yr ydym wedi llwyddo i glustnodi arian ar gyfer y system addysg drwy'r rhaglen honno.

Mae her o'n blaenau. Fodd bynnag, mae'r gwaith sydd wedi'i wneud ar ddatblygu ein rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain wedi'i groesawu'n eang gan lywodraeth leol. Mae awdurdodau wedi dweud ei fod yn esiampl wych o lywodraeth leol yn gweithio gyda Llywodraeth y Cynulliad.

Rhodri Glyn Thomas: As you have noted, a large sum of money has been allocated for spending on buildings in the field of education. However, education authorities have a responsibility to maintain those buildings. What work is the Government doing to monitor the situation to strike a balance between new buildings and maintaining all those buildings owned by education authorities throughout Wales?

Leighton Andrews: Mae angen i'r gwaith sy'n mynd rhagddo drwy ein rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ystyried adeiladau newydd a chymorth ar gyfer adeiladau sy'n bodoli eisoes. Gwyddom fod gennym stoc o adeiladau nad ydynt yn addas at y diben, ac mae angen inni edrych yn eithaf sylfaenol arnynt. Fodd bynnag, byddwn yn cadw llygad barcud ar yr angen i adnewyddu adeiladau presennol ochr yn ochr â chodi adeiladau newydd drwy'r trefniadau yr ydym wedi'u sefydlu gydag awdurdodau lleol ar gyfer dyfodol y rhaglen hon.

Darren Millar: Weinidog, gwyddom na fyddwch yn llwyddo i gyrraedd eich targed ar gyfer sicrhau bod holl adeiladau ysgol Cymru mewn cyflwr da erbyn 2010. Gwnaeth y Prif Weinidog blaenorol, Rhodri Morgan, ddatganiad yn y Siambr yn nodi ei fod yn disgwyl i oddeutu 170 o ysgolion gau yng Nghymru fel rhan o'r rhaglenni

the country. Is that one way in which you hope to address the shortfall in funding that you are giving to schools to improve their buildings? Are you expecting the old rotten schools to close and the bright shiny ones to stay open?

Leighton Andrews: That would be a rather perverse approach to take to school organisation. School organisation plans are a matter for local government. Authorities will bring forward their plans and will weigh up a series of factors in developing them.

2.50 p.m.

Academic Achievement

Q5 Brynle Williams: What are the Minister's priorities for improving academic achievement in north Wales? OAQ(3)1242(CEL)

Leighton Andrews: My priorities are: to continue investment in respect of early years provision, schools and colleges, from the foundation phase through to the 14-19 agenda; to implement our new strategy for higher education 'For Our Future'; to continue to support basic skills; and to maintain the free school breakfasts scheme.

Brynle Williams: Good old free school breakfasts. [*Laughter.*] Minister, I am sure that you share my concern that, over the past five years, more than 300 boys and 200 girls in north Wales have left education at the age of 16 with no qualifications whatsoever, and that the gap between the GCSE achievements of the poorest students who qualify for free school meals and those of the main stream in the key subjects of maths, English and science shows no signs of closing and has even increased by 5 per cent. What steps are you and your officials taking to reverse that appalling situation, in which so many of the poorest students—and boys in particular—are spending 12 years in full-time education but leaving with no basic skills to get a job and escape the life of poverty that they have been born into?

Leighton Andrews: As it happens, I have

moderneiddio sydd ar waith ledled y wlad. A yw hon yn un ffordd y gobeithiwech fynd i'r afael â'r diffyg yn y cyllid yr ydych yn ei roi i ysgolion i wella eu hadeiladau? A ydych yn disgwyl i'r hen ysgolion sydd mewn cyflwr gwael gau ac i'r rhai sgleiniog newydd ddal ar agor?

Leighton Andrews: Byddai agwedd o'r fath at drefniadaeth ysgolion yn wrthnysig braidd. Mater i lywodraeth leol yw cynlluniau trefniadaeth ysgolion. Bydd awdurdodau'n cyflwyno'u cynlluniau ac yn ystyried cyfres o ffactorau wrth eu datblygu.

Cyrhaeddiad Addysgol

C5 Brynle Williams: Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysgol yng ngogledd Cymru? OAQ(3)1242(CEL)

Leighton Andrews: Ymhlith fy mlaenoriaethau mae parhau i fuddsoddi yn y ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar, ysgolion a cholegau, o'r cyfnod sylfaen hyd at yr agenda 14-19; gweithredu ein strategaeth newydd ar gyfer addysg uwch, 'Er Mwyn Ein Dyfodol'; rhoi cymorth ar gyfer sgiliau sylfaenol; a pharhau'r cynllun brecwastau am ddim.

Brynle Williams: Yr hen frecwastau ysgol annwyl. [*Chwerthin.*] Weinidog, yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel finnau, yn pryderu bod dros 300 o fechgyn a 200 o ferched yn y gogledd wedi gadael addysg yn 16 oed heb ddim cymwysterau o gwbl yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ac nad oes arwydd bod y bwlch yn cau rhwng cyraeddiadau TGAU y myfyrwyr tlotaf sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chyraeddiadau'r brif ffrwd yn y pynciau allweddol, sef mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth, ac mae'r bwlch hyd yn oed wedi cynyddu 5 y cant. Pa gamau yr ydych chi a'ch swyddogion yn eu cymryd i wrthdroi'r sefyllfa warthus honno, lle mae cynifer o'r myfyrwyr tlotaf—a bechgyn yn enwedig—yn treulio 12 mlynedd mewn addysg amser llawn ond yn gadael heb ddim sgiliau sylfaenol i gael swydd ac i ddianc o'r bywyd o dlodi y cawsant eu geni iddo?

Leighton Andrews: Fel y mae'n digwydd, yr

had two meetings today already to discuss the issue of literacy achievement among boys in particular. That is a challenge that we have to address. However, I do not want to downplay the fact that there have been improvements in external examination attainments in north Wales at key stage 4, and it is important that we recognise the successes of the teachers in the system in north Wales.

Gareth Jones: Weinidog, byddwch yn gwybod am fy niddordeb penodol mewn cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd sydd i gael addysg cyfrwng Cymraeg ar bob lefel a sicrhau ei bod o'r ansawdd uchaf—ac yn yr un modd gydag addysgu'r Gymraeg fel pwnc. A fydd y polisi pwysig hwn yn flaenoriaeth ichi, Weinidog, ac a ydych yn fodlon y bydd yr agenda drawsnewid yn gwarchod ac yn gwella addysg Gymraeg, yn enwedig yng ngoleuni adroddiad diweddaraf Estyn?

Leighton Andrews: Yes. As you know, we are currently completing work on the Welsh-medium education strategy, and I hope to have more to say about that in a month or so. In respect of the transformation agenda and Welsh-medium education, I released a written statement on January 21, which outlined how the transformation agenda should work alongside our Welsh-medium education strategy. It is important that we protect post-16 Welsh-medium education provision.

Eleanor Burnham: I am sure that we are all delighted that you are reviewing how your Government's spending is affecting pupils and students in Wales, but you cannot get away from the fact that Estyn has been pretty scathing. It reported recently that there are a number of key challenges in improving education in Wales, one being that 40 per cent of secondary school buildings are giving cause for concern, as has been touched on before, but also that,

'despite heroic efforts by pupils and teachers the lack of money is clearly having a negative impact on achievement'.

Having read the Estyn report, can you give us

wyf eisoes wedi cael dau gyfarfod heddiw i drafod cyrhaeddiad mewn llythrennedd ymhlith bechgyn yn enwedig. Mae hon yn her y mae'n rhaid inni fynd i'r afael â hi. Fodd bynnag, nid wyf am fychanu'r ffaith fod gwelliannau wedi digwydd o ran cyflawniadau mewn arholiadau allanol yn y gogledd yng nghyfnod allweddol 4, ac mae'n bwysig inni gydnabod llwyddiannau'r athrawon yn y system yn y gogledd.

Gareth Jones: Minister, you will know of my specific interest in increasing to the maximum the opportunities available for Welsh-medium education at all levels and in ensuring that it is of the highest standard—and the same goes for teaching Welsh as a subject. Will this important policy be a priority for you, Minister, and are you satisfied that the transformation agenda is protecting and improving Welsh-medium education, particularly in light of the recent Estyn report?

Leighton Andrews: Bydd. Fel y gwyddoch, yr ydym wrthi'n cwblhau gwaith ar y strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, a gobeithiaf allu dweud mwy am hynny ymhen oddeutu mis. O ran yr agenda drawsnewid ac addysg cyfrwng Cymraeg, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 21 Ionawr yn amlinellu'r modd y dylai'r agenda drawsnewid weithio ochr yn ochr â'n strategaeth ar addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n bwysig inni ddiogelu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ôl-16.

Eleanor Burnham: Yr wyf yn siŵr ein bod i gyd yn falch iawn eich bod yn adolygu'r modd y mae gwariant eich Llywodraeth yn effeithio ar ddisgyblion a myfyrwyr yng Nghymru, ond ni allwch osgoi'r ffaith fod Estyn wedi bod yn feirniadol iawn. Dywedodd yn ddiweddar fod nifer o heriau allweddol yn gysylltiedig â gwella addysg yng Nghymru. Un o'r heriau hynny oedd bod 40 y cant o adeiladau ysgolion uwchradd yn peri pryder, fel y soniwyd eisoes, ond her arall oedd hon:

er gwaethaf ymdrechion arwrol disgyblion ac athrawon, mae'n amlwg bod diffyg arian yn cael effaith negyddol ar gyrrhaeddiad.

Ar ôl darllen adroddiad Estyn, a allwch roi

an assurance that you can do something desperate? I remember the previous Minister for education telling us that every school in Wales would be fit for purpose by 2010. Can you also give some assurance that you will be closing the yawning gap between the money spent per pupil in Wales and that spent per pupil in England—evidently much more?

Leighton Andrews: I am neither desperate nor yawning. The money that we are putting into school capital, as I said in response to the earlier question, is almost £775 million during the third Assembly.

In respect of the Estyn report, I met the chief inspector a few weeks ago to discuss the report, and I will be responding to it in due course, as is appropriate. We do not underestimate the challenges, and there are significant challenges in respect of school buildings, as there are in respect of attainment. However, we will ensure that our funding is focused to meet those challenges.

Faith Schools

Q6 William Graham: Will the Minister make a statement on the role of faith schools in Wales? OAQ(3)1205(CEL)

Leighton Andrews: The Welsh Assembly Government recognises the historic and current contribution that maintained schools that have a religious character make to education in every part of Wales.

William Graham: You will know that more than 50,000 pupils attend faith schools in Wales, and that independent research shows that faith schools perform at a slightly higher level than the Wales average. The Church in Wales provides 168 schools, which are highly valued by parents of different faiths and of no faith at all. A number of Islamic and Jewish faith schools across the United Kingdom do an excellent job of promoting high educational standards. How is your Government acknowledging the important contribution that faith schools make to raising educational standards and promoting social cohesion in Wales?

sicwydd inni bod modd ichi wneud rhywbeth enbyd? Cofiaf y Gweinidog blaenorol dros addysg yn dweud wrthym y byddai pob ysgol yng Nghymru yn addas at ei diben erbyn 2010. A allwch roi rhywfaint o sicrwydd hefyd y byddwch yn cau'r bwlch dychrynlyd rhwng yr arian sy'n cael ei wario am bob disgybl yng Nghymru a'r arian sy'n cael ei wario am bob disgybl yn Lloegr—sy'n amlwg yn llawer mwy?

Leighton Andrews: Nid wyf yn enbyd nac yn ddifater. Mae'r arian yr ydym yn ei roi i gyfalaf ysgolion, fel y dywedais wrth ymateb i'r cwestiwn cynharaf, bron yn £775 miliwn yn ystod y trydydd Cynulliad.

O ran adroddiad Estyn, cyfarfûm â'r prif arolygydd ychydig wythnosau'n ôl i drafod yr adroddiad, a byddaf yn ymateb iddo maes o law, fel sy'n briodol. Nid ydym yn bychanu'r heriau, ac mae heriau sylweddol yng nghyswllt adeiladau ysgol fel yng nghyswllt cyrhaeddiad. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau bod ein cyllid yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Ysgolion Ffydd

C6 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth ysgolion ffydd yng Nghymru? OAQ(3)1205(CEL)

Leighton Andrews: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y cyfraniad hanesyddol a phresennol i addysg ym mhob rhan o Gymru gan ysgolion a gynhelir ac sydd o natur grefyddol.

William Graham: Gwyddoch fod dros 50,000 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion ffydd yng Nghymru, a bod ymchwil annibynnol yn dangos bod ysgolion ffydd yn perfformio ar lefel ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r Eglwys yng Nghymru yn darparu 168 o ysgolion, a werthfawrogi yn fawr gan rieni o bob ffydd a rhieni nad ydynt yn arddel yr un ffydd. Mae nifer o ysgolion ffydd Islamaidd ac Iddewig ledled y Deyrnas Unedig yn gwneud gwaith rhagorol yn hyrwyddo safonau addysgol uchel. Sut y mae eich Llywodraeth yn cydnabod y cyfraniad pwysig ysgolion ffydd i godi safonau addysgol a hyrwyddo

cydlyniant cymdeithasol yng Nghymru?

Leighton Andrews: It is important that we recognise the role that faith schools play within an overall comprehensive education system. I was pleased to meet some of the bishops last week when they visited the Assembly, and they were keen to stress their continuing support for Church in Wales schools. Such schools are an important part of the sector. We are committed to a comprehensive education sector in Wales, but we recognise the role of faith schools within that.

Chris Franks: Minister, we hear much support for faith schools and their benefits, but the reality on the ground can sometimes be a bit different. What representations have you received regarding the future of faith schools in Rhondda Cynon Taf? Parents have contacted me about their concern over the potential reorganisation plans, which mean that post-16 education could be denied to pupils who want faith-based education. Further to that, what discussions have you had regarding school transport in the Vale of Glamorgan? Parents and headteachers are worried that the loss of free transport for post-16 pupils could have a disastrous impact on faith-based education.

Leighton Andrews: In respect of Rhondda Cynon Taf, I am aware that the local authority is currently consulting on plans concerning post-16 education. Given the statutory role of the Welsh Ministers in that process, it would be inappropriate for me to comment.

In respect of learner travel, the portfolio responsibility for that lies with the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport. The provision of post-16 transport to schools or colleges is at the discretion of local authorities. I understand that the Vale of Glamorgan Council is currently consulting on post-16 transport provision, and the Member will no doubt make his representations.

Training and Work Initiatives

Q7 Lorraine Barrett: Will the Minister

Leighton Andrews: Mae'n bwysig inni gydnabod rôl ysgolion ffydd mewn system addysg gyfun gyffredinol. Yr oeddwn yn falch cael cwrdd â rhai o'r esgobion yr wythnos diwethaf yn ystod eu hymweliad â'r Cynulliad, ac yr oeddent yn awyddus i gadarnhau eu cefnogaeth barhaus i ysgolion yr Eglwys yng Nghymru. Mae ysgolion o'r fath yn rhan bwysig o'r sector. Yr ydym wedi ymrwymo i sector addysg gyfun yng Nghymru, ond yr ydym yn cydnabod rôl ysgolion ffydd yn y sector hwnnw.

Chris Franks: Weinidog, clywn am lawer o gefnogaeth i ysgolion ffydd a'u manteision, ond weithiau gall y sefyllfa wirioneddol ar lawr gwlad fod ychydig yn wahanol. Pa sylwadau yr ydych wedi'u cael ynglŷn â dyfodol ysgolion ffydd yn Rhondda Cynon Taf? Mae rhieni wedi cysylltu â mi i fynegi eu pryder am y cynlluniau ad-drefnu posibl, sy'n golygu y gallai disgyblion sydd am gael addysg yn seiliedig ar ffydd golli'r cyfle i gael addysg ôl-16. Yn ogystal, pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael ar gludiant ysgolion ym Mro Morgannwg? Mae rhieni a phenaethiaid yn poeni y gallai colli cludiant am ddim i ddisgyblion ôl-16 gael effaith drychinebus ar addysg sy'n seiliedig ar ffydd.

Leighton Andrews: O ran Rhondda Cynon Taf, yr wyf yn ymwybodol bod yr awdurdod lleol wrthi'n ymgynghori ar hyn o bryd ynghylch cynlluniau'n ymwneud ag addysg ôl-16. O ystyried rôl statudol Gweinidogion Cymru yn y broses honno, byddai'n amhriodol imi roi sylwadau ar y mater.

O ran cludiant i ddysgwyr, mae'r cyfrifoldeb dros hynny'n rhan o bortffolio'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth. Caiff cludiant ei ddarparu i gludo disgyblion ôl-16 i ysgolion neu golegau yn ôl disgrisiwn awdurdodau lleol. Deallaf fod Cyngor Bro Morgannwg wrthi'n ymgynghori ynghylch y ddarpariaeth cludiant ôl-16, ac y mae'n siŵr y bydd yr Aelod yn cyflwyno'i sylwadau.

Cynlluniau Hyfforddiant neu Waith

C7 Lorraine Barrett: A wnaiff y Gweinidog

provide an update on initiatives to help young people back into training or work? OAQ(3)1214(CEL)

Leighton Andrews: We have increased the number of places available at sixth forms and further education colleges. Working with the Department for Work and Pensions, we will ensure the implementation of the young person's guarantee as well as support a wide range of other schemes, including the Assembly Government's Pathways to Apprenticeships programme and SkillBuild.

Lorraine Barrett: Thank you for that response, Minister. I am interested in the Future Jobs fund, which has created thousands of jobs for young people who would otherwise not be in education or employment. As the Government's target date of 2011 for reducing greenhouse gas emissions by 3 per cent draws ever nearer, investment in green jobs is essential. Will green jobs continue to be at the heart of the Future Jobs fund, because I think that there is an important link there?

Leighton Andrews: Yes. The Future Jobs fund aims to create 170,000 additional jobs across Great Britain, aimed primarily at 18 to 24-year-olds who have been out of work for more than six months. Green jobs are at the heart of that scheme, because 10,000 of the new jobs are intended to be green jobs. In Wales, we have a number of examples, including social gardeners, people working in recycling, people supporting the improvement of social housing, and people working with gardening teams to improve community spaces.

David Melding: Minister, the Welsh Assembly Government was doing rather well on the number of apprenticeships offered in Wales, but, since the recession bit, we have lost about 20 per cent of the total number available, which is a dramatic reduction. Some of that may have been beyond your immediate control, but what targets will you set for the total number of apprenticeships? We have already heard from the Westminster Government that it wants to set more

roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i helpu pobl ifanc yn ôl i hyfforddiant neu waith? OAQ(3)1214(CEL)

Leighton Andrews: Yr ydym wedi cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael mewn sefydliadau chweched dosbarth a cholegau addysg bellach. Gan weithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, byddwn yn sicrhau y bydd y warant i bobl ifanc yn cael ei chyflwyno, a byddwn yn cefnogi ystod eang o gynlluniau eraill, gan gynnwys rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau Llywodraeth y Cynulliad ac Adeiladu Sgiliau.

Lorraine Barrett: Diolch ichi am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Mae gennyf ddiddordeb yng nghronfa Swyddi'r Dyfodol, sydd wedi creu miloedd o swyddi ar gyfer pobl ifanc na fyddent fel arall mewn addysg na chyflogaeth. Wrth i ddyddiad targed y Llywodraeth o 2011 agosáu ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3 y cant, mae buddsoddi mewn swyddi gwyrdd yn hanfodol. A fydd swyddi gwyrdd yn parhau'n elfen ganolog yng nghronfa Swyddi'r Dyfodol, oherwydd credaf fod cyswllt pwysig rhyngddynt?

Leighton Andrews: Bydd. Nod cronfa Swyddi'r Dyfodol yw creu 170,000 o swyddi ychwanegol ledled Prydain Fawr, gan anelu'n bennaf at bobl ifanc 18 i 24 oed sydd wedi bod yn ddi-waith ers dros chwe mis. Mae swyddi gwyrdd yn elfen ganolog yn y cynllun hwnnw, oherwydd bwriedir i 10,000 o'r swyddi newydd fod yn swyddi gwyrdd. Yng Nghymru, mae gennym nifer o enghreifftiau sy'n cynnwys garddwyr cymdeithasol, pobl sy'n gweithio ym maes ailgylchu, pobl sy'n helpu gwella tai cymdeithasol, a phobl sy'n gweithio gyda thimau garddio i wella ardaloedd cymunedol.

David Melding: Weinidog, yr oedd Llywodraeth y Cynulliad yn eithaf llwyddiannus gyda nifer y prentisiaethau a gâi eu cynnig yng Nghymru. Ond ers dechrau'r dirwasgiad, yr ydym wedi colli tuag 20 y cant o'r cyfanswm sydd ar gael, sy'n ostyngiad sylweddol. Efallai fod rhywfaint o hynny y tu hwnt i'ch rheolaeth uniongyrchol chi, ond pa dargedau y byddwch yn eu gosod ar gyfer cyfanswm nifer y prentisiaethau? Yr ydym eisoes wedi

ambitious targets. Will you be matching and exceeding those? Will we return once again to the days when more than 50,000 people were in these various schemes?

clywed gan y Llywodraeth yn San Steffan ei bod am osod targedau mwy uchelgeisiol. A fyddwch yn gosod targedau tebyg ac uwch? A fyddwn yn dychwelyd i'r dyddiau hynny pan oedd dros 50,000 o bobl yn yr amrywiol gynlluniau hyn?

3.00 p.m.

Leighton Andrews: You are right to say that there has been a fall during the recession in some of the apprenticeships opportunities open to people. We have brought in our Pathways to Apprenticeships programme, which is benefiting over 1,700 young people this year and should also do so next year. We retain our commitment to invest in apprenticeships for the future and will work with employers to see what we can do to provide further opportunities to people.

Leighton Andrews: Yr oeddech yn gywir wrth ddweud bod nifer y prentisiaethau sydd ar gael i bobl wedi gostwng yn ystod y dirwasgiad. Yr ydym wedi cyflwyno'n rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau, a fydd yn fanteisiol i dros 1,700 o bobl ifanc eleni ac a ddylai wneud yr un peth y flwyddyn nesaf hefyd. Yr ydym yn cadw at ein hymrwymiad i fuddsoddi mewn prentisiaethau ar gyfer y dyfodol, a byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i weld beth y gallwn ei wneud i ddarparu cyfleoedd pellach i bobl.

Bethan Jenkins: Can the Minister give us an update on work-based learning provision for vulnerable groups in society? I know that Action for Children has put forward an effective petition on this issue, as opportunities are limited, especially due to the cost of travel to work-based learning facilities. I recently visited Llamau in Porthcawl, in my region, where young people told me that, because of the cost of travel and food, it was difficult for them to access those work-based learning facilities and that the nature of some of those facilities did not meet their needs. Can we have an update on that?

Bethan Jenkins: A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ddarpariaeth dysgu'n seiliedig ar waith ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed yn ein cymdeithas? Gwn fod Gweithredu dros Blant wedi cyflwyno deiseb effeithiol ar y mater hwn, gan fod nifer y cyfleoedd yn gyfyngedig, yn enwedig oherwydd cost teithio i gyfleusterau dysgu'n seiliedig ar waith. Bùm yn ymweld yn ddiweddar â Llamau ym Mhorth-cawl, yn fy rhanbarth i, lle dywedai pobl ifanc wrthyf ei bod yn anodd iddynt ddefnyddio'r cyfleusterau hynny ar gyfer dysgu'n seiliedig ar waith oherwydd cost teithio a chost bwyd, ac nad oedd natur rhai o'r cyfleusterau hynny'n diwallu eu hanghenion. A allwn gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynny?

Leighton Andrews: I will make a general point about work-based learning. If you have complaints about particular providers, I want to hear about them. We have a large number of good work-based learning providers in Wales. Where there have been issues with them, action has been taken in the past, but, broadly speaking, I want to commend the work that is done by providers of work-based learning. Through our SkillBuild programme, we are offering vulnerable young people and those aged over 16 who are not in employment, work-related skills, including vocational qualifications—NVQ 2 at levels 1, 2 and 3, for example. That programme offers

Leighton Andrews: Rwyf am wneud pwynt cyffredinol am ddysgu'n seiliedig ar waith. Os oes gennych gwynion am ddarparwyr penodol, byddwn yn awyddus i'w clywed. Yng Nghymru mae gennym nifer mawr o ddarparwyr dysgu'n seiliedig ar waith sy'n dda. Cafodd camau gweithredu eu cymryd yn y gorffennol pan gododd problemau gyda hwy, ond ar y cyfan, hoffwn ganmol y gwaith a wneir gan ddarparwyr dysgu'n seiliedig ar waith. Drwy ein rhaglen Adeiladu Sgiliau yr ydym yn sicrhau bod pobl ifanc sy'n agored i niwed, a'r rheini dros 16 oed nad ydynt mewn gwaith, yn cael cynnig sgiliau'n ymwneud â gwaith, gan gynnwys

vulnerable young people the opportunity to overcome barriers and attain outcomes that lead to further learning or to employment. If you have specific issues that you want to raise about a particular operation or programme, please write to me.

cymwysterau galwedigaethol—NVQ 2 ar lefel 1, 2 a 3, er enghraifft. Mae'r rhaglen honno'n cynnig cyfle i bobl ifanc sy'n agored i niwed oresgyn rhwystrau a sicrhau canlyniadau sy'n arwain at ddysgu pellach neu gyflogaeth. Os oes gennych faterion penodol yr hoffech eu codi ynglŷn â gwaith neu raglen benodol, mae croeso ichi ysgrifennu ataf.

Education in North Wales

Q8 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on education provision in north Wales? OAQ(3)1233(CEL)

Leighton Andrews: Education provision in north Wales is of a high standard and continues to benefit from significant investment by the Welsh Assembly Government.

Mark Isherwood: I have a question relating to what has been recognised by Estyn as the best example of a project in Wales, namely the alternative curriculum education centre at Ysgol Emrys ap Iwan in Abergele. Following an adverse Estyn report in 2007, the school introduced this new centre, and it has had a huge and significant impact on reducing the numbers of young people getting into problems or offending in the school and has greatly reduced any form of exclusion or referral to pupil referral units. It has been a massive success and has had a huge effect by turning lives around and helping young people who would otherwise drop out of the system. Will you look at this, given the Estyn recommendation, as a model that could be developed not only as a local government responsibility but as a model that can be rolled out elsewhere to save money in the education system by reducing exclusions and referrals outside schools?

Leighton Andrews: I very much welcome what you said, Mark. One thing that we need to be better at is spreading good practice in Wales, not only throughout the education system but throughout our public services in general. I am always keen to hear about good examples and to learn more about them. Therefore, I very much welcome what you

Addysg yng Ngogledd Cymru

C8 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarpariaeth addysg yng ngogledd Cymru? OAQ(3)1233(CEL)

Leighton Andrews: Mae'r ddarpariaeth addysg yn y gogledd o safon uchel, ac mae'n parhau i elwa o fuddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth y Cynulliad.

Mark Isherwood: Mae gennyf gwestiwn am gyfleuster sydd wedi'i gydnabod gan Estyn fel yr enghraifft orau o brosiect yng Nghymru, sef y ganolfan addysg cwricwlwm amgen yn Ysgol Emrys ap Iwan yn Abergele. Yn dilyn adroddiad anffafriol gan Estyn yn 2007, cyflwynodd yr ysgol y ganolfan newydd hon. Mae wedi cael effaith aruthrol a phwysig o ran lleihau nifer y bobl ifanc sy'n mynd i helynt neu'n troseddu yn yr ysgol, ac mae wedi lleihau'n ddirfawr unrhyw achosion o wahardd disgyblion neu eu cyfeirio at unedau cyfeirio disgyblion. Mae wedi bod yn llwyddiant ysgubol, ac wedi cael effaith enfawr drwy drawsnewid bywydau a helpu pobl ifanc a fyddai fel arall wedi gadael y system. A wnewch chi ystyried y ganolfan, yng ngoleuni argymhelliad Estyn, fel fodel y gellid ei ddatblygu, nid yn unig fel cyfrifoldeb llywodraeth leol ond fel model y gellid ei gyflwyno mewn ardaloedd eraill, er mwyn arbed arian yn y system addysg drwy leihau achosion o wahardd disgyblion a'u cyfeirio at fannau y tu allan i ysgolion?

Leighton Andrews: Yr wyf yn croesawu'r hyn a ddywedasoch, Mark. Un peth y mae angen inni ei wneud yn well yw lledaenu arfer da yng Nghymru, nid yn unig drwy'r system addysg yn ei chyfanrwydd, ond drwy ein holl wasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Yr wyf bob amser yn awyddus i glywed am enghreifftiau da ac i ddysgu mwy

have said this afternoon.

amdanynt. Felly, yr wyf yn croesawu'r hyn yr ydych wedi'i ddweud y prynhawn yma yn fawr iawn.

Secondary Education

Q9 Nick Bourne: Will the Minister make a statement on secondary education in Powys? OAQ(3)1219(CEL)

Leighton Andrews: I understand that Powys local authority is currently reviewing its secondary school provision. I have no direct involvement in the planning of school places, as I made clear in my recent ministerial statement, and my statutory role in determining proposals makes it inappropriate for me to comment on plans by individual local authorities.

Nick Bourne: I appreciate and fully understand the position as set out by the Minister. He is quite right to say that proposals are being considered by Powys County Council, some of which involve the possible closure of up to six secondary schools in the county, which are, without exception, excellent secondary schools. I appreciate that he cannot comment on the specific Powys proposals, but can he confirm that currently, as the decision on school organisation proposals that was issued by the Government in July 2009 stands, no separate account is taken of the rurality of communities, which has a serious impact in areas such as Powys and in the region that I represent, because of the great distances between communities? Will he look at that, because it causes particular problems for rural communities?

Leighton Andrews: I do not want to get drawn into commenting on Powys or any other example, but it is fair to say that the guidance acknowledges that impact on communities will be taken into account when decisions are made.

Nick Bourne: I am grateful for that point, although it does not deal specifically with rurality. You are right to say that the guidance mentions impact on communities, but it makes no distinction between urban

Addysg Uwchradd

C9 Nick Bourne: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg uwchradd ym Mhowys? OAQ(3)1219(CEL)

Leighton Andrews: Deallaf fod awdurdod lleol Powys yn adolygu ei ddarpariaeth addysg uwchradd ar hyn o bryd. Nid oes gennyf ran uniongyrchol yn y gwaith o gynllunio lleoedd mewn ysgolion, fel yr eglurais yn fy natganiad gweinidogol diweddar, ac oherwydd fy rôl statudol yn penderfynu cynigion byddai'n amhriodol imi wneud sylwadau am gynlluniau gan awdurdodau lleol unigol.

Nick Bourne: Yr wyf yn gwerthfawrogi ac yn deall yn llwyr y sefyllfa a eglurwyd gan y Gweinidog. Mae yn llygad ei le wrth ddweud bod cynigion yn cael eu hystyried gan Gyngor Sir Powys, rai ohonynt efallai'n cynnwys cau hyd at chwe ysgol uwchradd yn y sir, sydd, yn ddieithriad, yn ysgolion uwchradd gwych. Sylweddolaf na all roi sylwadau ar gynigion penodol Powys, ond a all gadarnhau nad yw natur wledig cymunedau'n cael ei hystyried ar hyn o bryd fel mater ar wahân, fel y saif y penderfyniad ar gynigion ar drefniadaeth ysgolion, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth ym mis Gorffennaf 2009? Caiff natur wledig cymunedau effaith ddifrifol mewn ardaloedd megis Powys ac yn y rhanbarth yr wyf yn ei gynrychioli, oherwydd y pellteroedd mawr rhwng cymunedau. A wnaiff edrych ar hynny, oherwydd mae'n achosi problemau penodol i gymunedau gwledig?

Leighton Andrews: Nid wyf am gael fy nhynnu i roi sylwadau ar Bowys na'r un enghraifft arall, ond mae'n deg dweud bod y canllawiau'n cydnabod y bydd yr effaith ar gymunedau'n cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau.

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar am y pwynt hwnnw, er nad yw'n ymdrin yn benodol â natur wledig cymunedau. Yr oeddech yn gywir wrth ddweud bod y canllawiau'n crybwyll yr effaith ar

and rural communities. I have had many representations from the area—from pupils, ex-pupils, teachers and others—about the impact that these changes will have.

Moving to a second issue, which applies across the board to rural and urban Wales, whenever an area looks at school reorganisation and publishes proposals, there is a danger of a self-fulfilling prophecy. Parents will, understandably, see that proposals have been published and decide that they do not want to send their children to that school, or might take their children away from it. I wonder if you would look at that, because the proposals themselves can have that unfortunate impact.

Leighton Andrews: You are talking about something that is often termed ‘school blight’, where closures or mergers of schools are proposed; I believe that it has been widely commented upon. We have to shorten the period between the announcement of a proposal on the future of a school and the ultimate decision, whether that is taken by the local authority or, should there be objections, by Ministers. That is something on which I have already had discussions within the department.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Would you agree that the principle of educating pupils in schools as close to their communities as possible is worth support? Would you also confirm that your review of education funding will look at funding collaboration? Schools in rural areas often find it difficult to offer the broad curriculum that is demanded of them by the Learning and Skills (Wales) Measure 2009, and to do that they need to co-operate across campuses and institutions. However, it can sometimes cost more to transport pupils or staff, or to put in information technology systems to support that type of learning. Will your review of education funding actively look at how you can fund closer collaboration between individual institutions of learning?

gymunedau, ond nid yw'n gwahaniaethu rhwng cymunedau trefol a gwledig. Yr wyf wedi cael nifer o sylwadau o'r ardal—gan ddisgyblion, cyn-ddisgyblion, athrawon ac eraill—am yr effaith a gaiff y newidiadau hyn.

Hoffwn symud ymlaen i'r ail fater, sy'n berthnasol yn gyffredinol i ardaloedd gwledig a threfol Cymru. Pryd bynnag y bydd ardal yn edrych ar ad-drefnu ysgolion ac yn cyhoeddi cynigion, mae perygl y bydd proffwydoliaeth yn ei gwireddu ei hun. Bydd y rhieni'n gweld bod cynigion wedi'u cyhoeddi ac yn penderfynu nad ydynt am anfon eu plant i'r ysgol honno, neu efallai am dynnu eu plant o'r ysgol, ac mae hynny'n ddealladwy. Tybed a allech edrych ar hynny, oherwydd gall y cynigion eu hunain gael effaith anffodus?

Leighton Andrews: Yr ydych yn sôn am rywbeth a elwir yn aml yn ‘falltod ysgolion’, lle cynigir cau neu gyfuno ysgolion; credaf fod nifer mawr o bobl wedi gwneud sylwadau ar y mater. Rhaid inni leihau'r cyfnod rhwng cyhoeddi cynnig ar ddyfodol ysgol a'r penderfyniad terfynol, boed yn un a wneir gan yr awdurdod lleol ynteu'n un a wneir gan Weinidogion os bydd gwrthwynebiadau. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf eisoes wedi'i drafod yn yr adran.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): A fydddech yn cytuno'i bod yn werth cefnogi egwyddor addysgu disgyblion mewn ysgolion sydd mor agos ag sy'n bosibl i'w cymunedau? A wnewch chi gadarnhau hefyd y bydd eich adolygiad o'r modd y caiff addysg ei chyllido yn edrych ar gydweithredu mewn cyllido? Bydd ysgolion mewn ardaloedd gwledig yn aml yn cael anhawster cynnig y cwricwlwm eang y mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 yn mynnu eu bod yn ei gynnig, ac i ddarparu'r cwricwlwm bydd angen iddynt gydweithredu ar draws campysau a sefydliadau. Weithiau, fodd bynnag, gall cludo disgyblion neu staff, neu osod systemau technoleg gwybodaeth er mwyn cefnogi'r math hwnnw o ddysgu, gostio mwy. A fydd eich adolygiad o gyllid ar gyfer addysg yn edrych ar y modd y gallwch gyllido cydweithredu agosach rhwng

sefydliadau dysgu unigol?

Leighton Andrews: There is a slight contradiction in your question, because everyone would like every school local to them to provide the widest possible choice in the curriculum, and that, as we know, is not always possible, particularly in the primary sector. However, within the context of our transformation programme, we are actively seeking to encourage local authorities and providers of learning, whether schools, colleges or providers of work-based learning, to collaborate. That will be a strong message from me as Minister over the next year as we seek to implement the learning and skills Measure.

Y Llywydd: Diolch i'r Gweinidog am ei atebion.

Leighton Andrews: Mae rhywfaint o wrth-ddweud yn eich cwestiwn, oherwydd byddai pawb yn hoffi pe bai pob un o'u hysgolion lleol yn cynnig y dewis ehangaf posibl yn y cwricwlwm, ac fel y gwyddom, nid yw hynny bob amser yn bosibl, yn arbennig yn y sector cynradd. Fodd bynnag, yng nghydedstun ein rhaglen drawsnewid, yr ydym wrthi'n ceisio annog awdurdodau lleol a darparwyr dysgu i gydweithredu, boed yn ysgolion, yn golegau ynteu'n ddarparwyr dysgu'n seiliedig ar waith. Bydd y neges honno'n un gref iawn gennyf fi fel Gweinidog yn ystod y flwyddyn nesaf wrth inni geisio gweithredu'r Mesur dysgu a sgiliau.

The Presiding Officer: I thank the Minister for his answers.

Pwynt o Drefn Point of Order

Andrew R.T. Davies: I raise a point of order under Standing Order No. 9 on written answers and statements, and the response that Members may expect from Ministers. Members will be aware of the recent announcement of the potential closure of the Bosch factory in Miskin. The Government's response has been to highlight certain actions that it has undertaken. Members accept that in good faith, but for the sake of scrutiny, it is important that Members get timely and robust responses to questions. I have put several questions to the Deputy First Minister and have received holding replies. I have many constituents who are concerned and want to know exactly what actions the Government is taking to try to safeguard their livelihoods and jobs. I would be most grateful, Presiding Officer, if you could give a ruling on what Members might expect in response to such questions, particularly on topical issues that are relevant at a given time.

3.10 p.m.

The Presiding Officer: Thank you for that point of order. The content of Ministers' answers by Ministers is a matter for those Ministers. I have not, during my period in

Andrew R.T. Davies: Yr wyf am godi pwynt o drefn dan Reol Sefydlog Rhif 9 ynghylch atebion a datganiadau ysgrifenedig, a'r ymateb y gall yr Aelodau ei ddisgwyl gan Weinidogion. Bydd yr Aelodau'n gwybod am y cyhoeddiad yn ddiweddar ar y posibilrwydd y gallai ffatri Bosch ym Meisgyn gau. Ymateb y Llywodraeth fu nodi rhai camau gweithredu y mae wedi'u cymryd. Mae Aelodau'n derbyn hynny gydag ewyllys da, ond at ddibenion craffu, mae'n bwysig i Aelodau gael ymatebion amserol a chadarn i gwestiynau. Yr wyf wedi gofyn nifer o gwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog ac wedi cael atebion dros dro. Mae gennyf nifer o etholwyr sy'n pryderu ac sydd am wybod yn union pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i geisio diogelu eu bywoliaeth a'u swyddi. Byddwn yn ddiolchgar iawn, Lywydd, pe gallech roi dyfarniad ar y hyn y gall Aelodau ei ddisgwyl mewn ymateb i gwestiynau o'r fath, yn enwedig ar bynciau llosg sy'n berthnasol ar adeg benodol.

Y Llywydd: Diolch am y pwynt hwnnw o drefn. Mater i'r Gweinidogion dan sylw yw cynnwys eu hatebion. Yn ystod fy nghyfnod yn y swydd hon—sydd braidd yn hir erbyn

this job—which is getting rather long now—intervened to determine any issue concerning the adequacy of the answers. However, I can help you on the timing of answers. There may be some issues that are more complex than others when providing information, but I strongly advocate the free flow of information requested by Members in written questions within a timely fashion. If there are issues that you would want to draw to my attention in terms of timing, where you consider that there has been a delay, I would be quite prepared to take a look at them. However, it is for Ministers to plan their responses adequately and the content of those responses.

hyn—nid wyf erioed wedi ymyrryd i ddyfarnu ar fater sy'n ymwneud â digonolrwydd atebion. Fodd bynnag, gallaf eich helpu o ran yr amser a ganiateir i roi atebion. Efallai y bydd rhai materion yn fwy cymhleth na'i gilydd pan ddaw'n fater o ddarparu gwybodaeth, ond yr wyf yn gryf o blaid sicrhau bod y wybodaeth a geisir gan Aelodau mewn cwestiynau ysgrifenedig yn cael ei throsglwyddo'n hwylus ac yn amserol. Os hoffech dynnu fy sylw at broblemau penodol gydag amseru, lle credwch fod oedi wedi bod, byddwn yn ddigon parod i'w hystyried. Fodd bynnag, mater i Weinidogion yw cynllunio'u hymatebion yn ddigonol a chynllunio cynnwys yr ymatebion hynny.

Cymeradwyo'r Newidiadau i Reolau Sefydlog Rhifau 15 a 24 i newid Enw'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i 'y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol'
Motion to approve the Amendments to Standing Orders Nos. 15 and 24 to Change the Name of the Subordinate Legislation Committee to the 'Constitutional Affairs Committee'

The Minister for Business and Budget (Jane Hutt): I move that

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb (Jane Hutt): Cynigiau fod

the National Assembly, in accordance with Standing Order No. 35.2:

y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 35.2:

1. *considers the report of the Business Committee laid in the Table Office on 26 January; and*

1. *yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Ionawr; a*

2. *approves the amendments to Standing Orders set out in the report of the Business Committee. (NDM4388)*

2. *yn cymeradwyo'r diwygiadau i Reolau Sefydlog a nodir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes. (NDM4388)*

Y Llywydd: Y cynnig yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, felly, caiff y cynnig ei dderbyn.

The Presiding Officer: The proposal is that the motion be agreed. Is there any objection? I see there is not. In accordance with Standing Order No. 7.35, the motion is therefore agreed.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Adroddiad Interim y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar ei Ymchwiliad i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant
The Committee on European and External Affairs's Interim Report of Inquiry into the Future of Cohesion Policy

Rhodri Morgan: Cynigiau fod

Rhodri Morgan: I move that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

yn nodi adroddiad interim y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, 'Adroddiad Interim yr Ymchwiliad i Ddyfodol y Polisi Cydlyniant' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Rhagfyr 2009. (NDM4394)

notes the European and External Affairs Committee's 'Interim Report of Inquiry into the Future of Cohesion Policy', which was published on 9 December 2009. (NDM4394)

Mae'n bleser gennyf agor y ddadl hon heddiw, er fy mod yn ymwybodol mai Sandy Mewies, nid fi, oedd Cadeirydd y pwyllgor yn ystod y gwaith caib a rhaw caled o glywed y tystion a hefyd wrth redeg yr holl ymchwiliad a'r gwaith sydd eisoes wedi dwyn ffrwyth. Yr wyf yn siŵr y byddai Sandy, fel fi, yn awyddus i ddiolch i bob tyst—gan fy nghynnwys i, wrth gwrs, yn fy swydd flaenorol fel Prif Weinidog—a hefyd staff y pwyllgor sydd wedi gwneud llawer o'r gwaith i gynnal yr ymchwiliad. Mae'n bleser, felly, fy mod yn awr yn gallu cyflwyno'r ddadl i'r Cynulliad.

It is my pleasure to open this debate today, even though I am aware that it was Sandy Mewies, not me, who chaired the committee during the hard work of listening to evidence and undertaking all the work that is now bearing fruit. I am sure that Sandy, like me, would wish to thank all the witnesses—including myself, of course, in my previous role as First Minister—and the committee staff who undertook much of the work during the inquiry. It is a pleasure now, therefore, to be able to introduce this debate in the Assembly.

Let us first be clear on what European cohesion policy means. There is a lot of Euro jargon, and people get confused as to what is 'convergence' and what is 'cohesion'.

Yn gyntaf, gadewch inni ddeall yn glir beth yw ystyr polisi cydlyniant Ewropeaidd. Mae yna lawer o jargon Ewropeaidd, a bydd pobl yn drysu ynghylch beth yw 'cydgyfeiriant' a beth yw 'cydlyniant'.

Beth yw 'cydlyniant' a beth yw 'cydgyfeiriant'? A oes gwahaniaeth rhwng y ddau? Yr ateb i hynny, mewn ffordd, yw 'oes', er bod y ddau bellach yn dermau jargon. Yr hyn sy'n bwysig i'w gofio yw mai cydgyfeiriant, sef *convergence*, yw canlyniad y polisi, a chydlyniant, sef *cohesion*, yw'r sylfaen neu'r athroniaeth y tu ôl i'r polisi, sef bod y cryfaf yn Ewrop yn helpu'r gwan a'r cyflym yn helpu'r araf, a bod Ewrop i gyd yn gryfach ar yr amod bod y llong arafaf yn gallu dal i fyny â gweddill y llynges.

What is 'cohesion' and what is 'convergence'? Is there a difference between the two? The answer, in a way, is 'yes', even though both terms have become jargon. What is important to remember is that convergence is the result of the policy and cohesion is the foundation or the philosophy on which it is based—that the strongest in Europe help the weakest and that the quickest help the slowest, and that the whole of Europe becomes stronger if the slowest ship is able to catch up with the rest of the fleet.

The idea of there being a principle of cohesion in Europe goes back to the Treaty of Rome and was immediately put into effect in 1959, the following year, through the co-funding principle, whereby the European Commission was able to put money into policies—albeit only into the social fund, given that there was no regional development fund at the time—to ensure that excluded or lagging-behind social groups in Europe were assisted to catch up with the average. Therefore, it is fundamental to the whole idea of the European Union, even though it was only the European Common Market half a

Mae'r syniad o gael egwyddor o gydlyniant yn Ewrop yn mynd yn ôl i Gytuniad Rhufain, ac fe'i rhoddwyd ar waith yn syth yn ystod y flwyddyn ddilynol, sef 1959, drwy egwyddor cydgyllido. Yr oedd hynny'n golygu y gallai'r Comisiwn Ewropeaidd roi arian i mewn i bolisïau—er mai i'r gronfa gymdeithasol yn unig y gwnâi hynny, gan nad oedd cronfa datblygu rhanbarthol yn bodoli ar y pryd—i sicrhau bod grwpiau cymdeithasol yn Ewrop a oedd wedi'u cau allan neu a oedd ar ei hôl hi yn cael cymorth i gyrraedd y cyfartaledd. Felly, mae'n hanfodol i holl syniad yr Undeb Ewropeaidd,

century and more ago, that this principle of cohesion should apply to economic and social matters—they did not want socially excluded or economically excluded groups or regions either. Therefore, the idea that we should seek to use European methods of eliminating disparities, as far as possible, goes back a very long way.

That was enshrined in the Single European Act in the 1980s. What has changed recently is that the EU has grown from 15 to 27 member states, in the main by bringing in the less prosperous states from the Baltics and central Europe following the collapse of the Warsaw pact. Given the gap between those countries and the western European countries on average, there has been a thought that you could simplify the administration of Europe by defining cohesion in a new way so that the only countries to whom the principle will apply are the poor countries, as distinct from the lagging regions in the rich countries, which can look after their own disparities. In that way, we would eliminate the idea of the cohesion principle applying within the better-off member states where there are areas, regions or countries, such as Wales, that lag behind. That is a position that the net payers, such as Germany and Great Britain, in the form of the Treasury, have long held, but, more recently, the idea seemed to be gaining ground even within the European Commission in the unofficial draft EU budget review paper that was leaked from the commission last October and which caused such a stir in Brussels and over here.

We realise that there are doves and hawks in every organisation. Perhaps it was a bit of kite-flying, and perhaps the leak was done to shoot down the kite-flying—we do not know. However, in the reply from a member of President Barroso's staff to Sandy Mewies in her capacity as the then Chair of the Committee on European and External Affairs, there was no mention of confining

er mai Marchnad Gyffredin Ewrop yn unig ydoedd hanner canrif a mwy yn ôl, y dylai'r egwyddor hon o gydlyniant fod yn berthnasol i faterion economaidd a chymdeithasol—nid oedd am gael grwpiau neu ranbarthau ychwaith a oedd wedi'u cau allan yn gymdeithasol neu'n economaidd. Felly, mae'r syniad y dylem geisio defnyddio dulliau Ewropeaidd o ddileu achosion o anghyfartaledd, gymaint ag sy'n bosibl, yn mynd yn ôl ymhell iawn.

Ymgorfforwyd hynny yn Neddf Gyfun Ewrop yn yr 1980au. Yr hyn sydd wedi newid yn ddiweddar yw bod yr Undeb Ewropeaidd wedi tyfu o 15 i 27 o aelod-wladwriaethau, yn bennaf drwy gynnwys gwladwriaethau llai ffyniannus o'r gwledydd Baltig a chanol Ewrop ar ôl cwmp cytundeb Warsaw. O gofio'r bwlch rhwng y gwledydd hynny a gwledydd gorllewin Ewrop ar gyfartaledd, mae rhai wedi bod yn meddwl y gellid symleiddio gweinyddiaeth Ewrop drwy ddiffinio cydlyniant mewn ffordd newydd, er mwyn sicrhau mai'r unig wledydd y bydd yr egwyddor yn berthnasol iddynt yw'r gwledydd tlawd, yn hytrach na'r rhanbarthau sydd ar ei hôl hi yn y gwledydd cyfoethog, sy'n gallu gofalu am eu hachosion eu hunain o anghyfartaledd. Fel hynny, byddem yn cael gwared â'r syniad bod egwyddor cydlyniant yn berthnasol yn yr aelod-wladwriaethau cyfoethocach lle mae ardaloedd, rhanbarthau neu wledydd, megis Cymru, sydd ar ei hôl hi. Mae'r safbwynt hwnnw'n un y mae'r talwyr net, megis yr Almaen a Phrydain Fawr, ar ffurf y Trysorlys, wedi'i arddel ers tro. Ond yn fwy diweddar yr oedd y syniad fel pe bai'n ennill tir hyd yn oed yn y Comisiwn Ewropeaidd ym mhapur drafft answyddogol yr adolygiad o gyllideb yr Undeb Ewropeaidd, a ddatgelwyd yn answyddogol gan rywrai yn y comisiwn fis Hydref y llynedd gan achosi cymaint o gynnwrf ym Mrwsel ac yma.

Sylweddolwn fod colomennod a hebogiaid ym mhob sefydliad. Efallai mai gwyntyllu syniadau i fesur ymateb pobl iddynt oedd y bwriad, a bod y papur wedi'i ddatgelu'n answyddogol i atal hynny rhag digwydd—ni wyddom yn iawn. Fodd bynnag, yn ateb aelod o staff yr Arlywydd Barroso i Sandy Mewies fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ar y pryd, nid oedd

cohesion-based expenditure to the weaker member states, mainly in Eastern Europe, and leaving the future funding of projects in areas such as Wales to the tender mercies of the Treasury. We have opposed that all along in Wales.

Whether there will be a formal budget review is now being questioned in Brussels, but if it is going to happen, we do not expect to see this very hawkish proposal emerge, at least not from the European Commission and presidency themselves. We think that that is probably gone for a Burton. In a way, it was fortunate that it was leaked and then shot down. However, the principle remains quite important, namely that EU cohesion policy and common agricultural policy currently account for close to 80 per cent of total EU spend and that, therefore, inevitably, expenditure under those headings comes under the microscope. The theory of that after 2013 remains something that we will want to keep a close eye on.

Therefore, what does it mean for Wales? What it could have meant had the proposals in the presidency letter really gained ground was that, at the end of 2013—the end of this current budget perspective period—Wales would not have had the same transitional relief that other areas that have ceased to be Objective 1 areas have had in the past when they have reached the end of the road as Objective 1 regions. The sum of £2 billion of EU funding for the seven years from 2007 to 2013 would therefore have come to an end and we would have had the sudden shock of no longer receiving that money.

With transition funding, going on previous form in Europe, there would be a tapering of funding, with some level of funding over the first three years, tapering to nothing by the fifth or sixth year. That has been previous practice, and we believe that that should still be the case because the shock when you lose all of your convergence-type funding is very difficult for people to cope with. From 2013, or the end of the spending period, which will probably be in 2015, that would have been very difficult to cope with. The principle of there being a need for cohesion funding

sôn o gwbl am gyfyngu gwariant ar sail cydlyniant i'r aelod-wladwriaethau gwannaf, yn Nwyrain Ewrop yn bennaf, a gadael gwaith cyllido prosiectau yn y dyfodol mewn ardaloedd megis Cymru yng ngofal tyner y Trysorlys. Yr ydym wedi gwrthwynebu hynny gydol yr amser yng Nghymru.

Erbyn hyn, amheuir a fydd adolygiad ffurfiol o'r gyllideb ym Mrwsel, ond os bydd yn digwydd, nid ydym yn disgwyl gweld y cynnig hebogaidd iawn hwn yn dod i'r amlwg, o leiaf o du'r Comisiwn Ewropeaidd a'r llywyddiaeth. Credwn ei bod, fwy na thebyg, wedi canu ar y cynnig. Mewn ffordd, yr oedd yn ffodus iddo gael ei ddatgelu'n answyddogol a'i atal. Fodd bynnag, mae'r egwyddor yn parhau'n eithaf pwysig, sef bod polisi cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd a'r polisi amaethyddol cyffredin yn cyfrif am bron i 80 y cant o gyfanswm gwariant yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, a'i bod yn anochel, felly, fod gwariant dan y penawdau hynny'n dod dan y chwyddwydr. Mae theori hynny ar ôl 2013 yn dal yn rhywbeth y byddwn am gadw llygad barcud arno.

Felly, beth mae'n ei olygu i Gymru? Pe bai'r cynigion yn llythyr y llywyddiaeth wedi ennill tir yn wirioneddol, gallai fod wedi golygu na fyddai Cymru, ar ddiwedd 2013—diwedd cyfnod persbectif y gyllideb bresennol—wedi cael yr un cymorth pontio ag y mae ardaloedd eraill sydd wedi peidio â bod yn ardaloedd Amcan 1 wedi'i gael yn y gorffennol wrth gyrraedd pen y daith fel rhanbarthau Amcan 1. Felly, byddai'r £2 biliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer y saith mlynedd rhwng 2007 a 2013 wedi dod i ben, a byddem wedi dioddef y sioc sydyn o beidio â chael yr arian hwnnw mwyach.

O ran cyllid pontio, yn ôl y drefn flaenorol yn Ewrop, byddai cyllid yn lleihau'n raddol, a rhywfaint o gyllid dros y tair blynedd cyntaf a fyddai'n mynd yn ddim erbyn y pumed neu'r chweched flwyddyn. Dyna a fu'r arfer gynt, a chredwn mai felly y dylai fod o hyd, oherwydd mae'n anodd iawn i bobl ymdopi â'r sioc pan fyddant yn colli eu holl gyllid cydgyfeirio. O 2013 ymlaen, neu ar ddiwedd y cyfnod gwario, sef 2015 yn ôl pob tebyg, byddai wedi bod yn anodd iawn ymdopi â hynny. Mae'r egwyddor fod angen cyllid cydlyniant yn dal yn gryf iawn. Mae'r

remains very strong. The committee recognises how instrumental European funding has been in diversifying the Welsh economy, raising skill levels in the labour force in Wales and improving the infrastructure. In the end, we all know that economic development does not take place evenly throughout Europe.

3.20 p.m.

There are industries that are prospering and ones that are lagging, and there are industries that are under huge pressure. The remedying of that is not all done by grants: it is done in the future. We know that, in the main, it will be determined by skills, which are helped by the social fund and by infrastructure, which is helped by the regional development fund and by quality-of-life issues, which are probably greater determinants than grants, although grants have been very important in the past 50 years.

The committee took evidence from the European Commission, the Welsh Government, the UK Government and a range of formal and informal European networks. We are grateful to all those who gave evidence. Seven key conclusions and seven recommendations were drawn, which I will now summarise. The report states that the committee supports maintaining an EU-wide cohesion policy with territorial co-operation as part of that. It supports further investigation of eligibility criteria for the future, particularly in the light of recent financial and economic developments on gross domestic product per capita, which is currently pretty much the sole determinant of funding. It recognises the merits of new credit and loan finance instruments, such as JESSICA and JEREMIE, in future EU cohesion policy. Access to finance is part of the infrastructure rather than there being an over-reliance on grants. JESSICA and JEREMIE are valuable new initiatives. It supports maintaining the regional development fund and the European social fund as tools in the toolkit for EU cohesion. It supports the broad consensus on future policy priorities, including incorporating climate change objectives, green economy objectives, investment in skills and retraining, tackling

pwyllgor yn cydnabod mor allweddol fu cyllid Ewropeaidd yn amrywio economi Cymru, codi lefelau sgiliau'r llafurlu yng Nghymru, a gwella'r seilwaith. Yn y pen draw, gwyddom i gyd nad yw datblygu economaidd yn digwydd yn gyfartal ledled Ewrop.

Mae yna ddiwydiannau sy'n ffynnu a rhai sydd ar ei hôl hi, ac mae yna ddiwydiannau sydd dan bwysau enfawr. Nid grantiau yw'r unig ffordd i unioni'r sefyllfa: caiff y sefyllfa ei hunioni yn y dyfodol. Gwyddom mai sgiliau a fydd yn gwneud hynny'n bennaf, gyda chymorth gan y gronfa gymdeithasol a chan seilwaith, a gynorthwyr gan y gronfa datblygu rhanbarthol a chan faterion yn ymwneud ag ansawdd bywyd, sydd, fwy na thebyg, yn benderfynyddion mwy na grantiau, er i grantiau fod yn bwysig iawn yn ystod y 50 mlynedd diwethaf.

Cafodd y pwyllgor dystiolaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU ac ystod o rwydweithiau Ewropeaidd ffurfiol ac anffurfiol. Yr ydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth. Daethpwyd i saith casgliad allweddol a lluniwyd saith argymhelliad, a hoffwn eu crynhoi'n awr. Mae'r adroddiad yn dweud bod y pwyllgor o blaid cynnal polisi cydlyniant ledled yr Undeb Ewropeaidd, a chydweithio tiriogaethol yn rhan o hynny. Mae o blaid archwilio ymhellach i feini prawf cymhwysedd ar gyfer y dyfodol, yn enwedig yng ngoleuni datblygiadau ariannol ac economaidd diweddar o ran cynnyrch mewnwladol crynswth y pen, sef yr unig benderfynydd cyllid ar hyn o bryd, fwy neu lai. Mae'n cydnabod rhinweddau offerynnau ariannol newydd yng nghyswllt credyd a benthyca, megis JESSICA a JEREMIE, ym mholsi cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. Mae gallu cael cyllid yn rhan o'r seilwaith yn hytrach na bod gorddibyniaeth ar grantiau. Mae JESSICA a JEREMIE yn fentrau newydd gwerthfawr. Mae'r pwyllgor o blaid cadw'r gronfa datblygu rhanbarthol a chronfa gymdeithasol Ewrop fel adnoddau yn y pecyn cymorth ar gyfer cydlyniant yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n cefnogi'r consensws eang ar flaenoriaethau polisi ar

unemployment, investing in the knowledge and innovation economy, the competitiveness of businesses, and addressing the broad challenges of demographic change to ensure a policy that maintains a balance between meeting the short-term challenges of the current financial and economic situation, and longer term strategic goals. Finally, it recognises the value of learning from best practice elsewhere in Europe by engaging, at European level, with like-minded regions.

I will now turn briefly to the First Minister's response to the report, which he will, no doubt, amplify later. The committee notes that all of its recommendations have been accepted in principle, which is to be welcomed. I note the First Minister's statement to the committee, in responding, that the Welsh Government will:

'continue to examine the various models for transitional arrangements, but it is essential that our primary objective remains to ensure that Cohesion Policy should apply across all Member States on an equal basis based on need at the regional level and by extension that transitional funding is available'.

We very much welcome what the First Minister has said in his response to the committee, and I therefore welcome the Government's response to this report. This will be an issue of ever-increasing prominence in Wales over the next three years. I therefore look forward, not just to the First Minister's contribution—I particularly look forward to that—but to hearing all other Members who participate in this debate today.

The First Minister: I wish to thank Sandy Mewies, and, of course, Rhodri and the committee, for this timely report. I will say, at the outset, that the Assembly Government is wholly committed to the principle and practice of cohesion policy. It was enshrined in the treaties of the adoption of the Single European Act in 1986. We know that

gyfer y dyfodol, gan gynnwys ymgorffori amcanion o ran newid yn yr hinsawdd, ymgorffori amcanion o ran economi werdd, buddsoddi mewn sgiliau ac ailhyfforddi, mynd i'r afael â diweithdra, buddsoddi yn yr economi wybodaeth ac arloesi, buddsoddi yng ngallu busnesau i gystadlu, a mynd i'r afael â heriau eang ymwneud â newid demograffig er mwyn sicrhau polisi sy'n cynnal cydbwysedd rhwng ateb heriau byrdymor y sefyllfa ariannol ac economaidd bresennol, a nodau strategol mwy hirdymor. Yn olaf, mae'n cydnabod gwerth dysgu o arfer gorau mewn mannau eraill yn Ewrop drwy ymgysylltu, ar lefel Ewropeaidd, â rhanbarthau sydd o'r un meddylfryd.

Yn awr, hoffwn gyfeirio'n fyr at ymateb y Prif Weinidog i'r adroddiad, ac y mae'n siŵr y bydd yn ymhelaethu arno'n nes ymlaen. Mae'r pwyllgor yn sylwi bod pob un o'i argymhellion wedi'u derbyn mewn egwyddor, a dylid croesawu hynny. Sylwaf ar ddatganiad y Prif Weinidog i'r pwyllgor, wrth iddo ymateb, sef y bydd Llywodraeth Cymru yn:

parhau i archwilio'r amryw fodolau ar gyfer trefniadau pontio, ond y mae'n hanfodol mai ein prif amcan o hyd yw sicrhau y dylai Polisi Cydlyniant fod ar waith ar draws pob aelod-wladwriaeth mewn modd cyfartal ac ar sail angen ar lefel ranbarthol, ac o ymestyn hynny fod cyllid pontio ar gael.

Yr ydym yn croesawu'n fawr iawn yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog yn ei ymateb i'r pwyllgor, ac yr wyf, felly, yn croesawu ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwn. Bydd hwn yn fater a ddaw'n fwyfwy amlwg yng Nghymru dros y tair blynedd nesaf. Felly, edrychaf ymlaen nid yn unig at gyfraniad y Prif Weinidog—edrychaf ymlaen yn arbennig at hynny—ond at glywed pob Aelod arall sy'n cymryd rhan yn y ddadl hon heddiw.

Y Prif Weinidog: Hoffwn ddiolch i Sandy Mewies, a Rhodri a'r pwyllgor wrth gwrs, am yr adroddiad amserol hwn. Hoffwn ddweud ar y dechrau fod Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddor ac arfer polisi cydlyniant. Fe'i hymgorfforwyd yng nghytuniadau mabwysiadu Deddf Gyfun Ewrop yn 1986. Gwyddom fod polisi

cohesion policy signifies solidarity among member states to make regions more attractive, innovative and competitive places in which to live and work. It is built on the assumption that redistribution between wealthy and less affluent regions in Europe is needed in order to balance out the effects of further economic integration. We must understand that cohesion policy benefits all regions; the less developed ones receive investment that would not otherwise be available while, at the same time, business opportunities are created for people and companies in the more developed regions.

On financial resources, it is second only to the common agricultural policy, and now accounts for a third of the EU budget. In the present 2007-13 financial perspective, cohesion policy amounts to almost 36 per cent of the total EU budget—or €347 billion. Cohesion policy is central to both the European and Welsh dimensions of economic development. Notwithstanding the current economic difficulties, cohesion policy has a track record of success. It has helped the less wealthy regions of Europe catch up significantly and has encouraged large-scale job creation in areas of high unemployment. Indeed, with resources remaining uniquely stable over seven years, it fosters long-term planning and development within nations and regions.

It is right to say that Wales has benefited greatly from engaging in cohesion policy and has been a recipient of significant amounts of EU structural funds, especially in the period since devolution began. The structural funds are the principal financial instruments of cohesion policy and are of enormous importance to Wales. As part of the 2007 to 2013 round, west Wales and the Valleys convergence programmes received structural funds worth around £1.9 billion. The east Wales regional competitiveness and employment programmes received funding of over £123 million. Together with territorial co-operation programmes, these provide EU funding of over £2 billion, or £3.4 billion

cydlyniant yn golygu cydsafiad ymysg aelod-wladwriaethau i wneud rhanbarthau'n lleoedd mwy deniadol, arloesol a chystadleuol i fyw a gweithio. Mae wedi'i adeiladu ar y rhagdybiaeth bod angen ailddosbarthu rhwng rhanbarthau cyfoethog a rhanbarthau llai cyfoethog Ewrop er mwyn cydbwysu effeithiau gwaith integreiddio economaidd pellach. Rhaid inni ddeall bod polisi cydlyniant o fudd i bob rhanbarth; mae'r rhai llai datblygedig yn cael buddsoddiad na fyddai ar gael iddynt fel arall, ac ar yr un pryd mae cyfleoedd busnes yn cael eu creu i bobl a chwmnïau yn y rhanbarthau mwy datblygedig.

O ran adnoddau ariannol, mae'n ail i'r polisi amaethyddol cyffredin yn unig, ac mae bellach yn draean o gyllideb yr Undeb Ewropeaidd. Ym mhersbectif ariannol presennol 2007-13, mae polisi cydlyniant yn cyfrif am bron i 36 y cant o gyfanswm cyllideb yr Undeb Ewropeaidd—neu €347 biliwn. Mae polisi cydlyniant yn ganolog i ddimensiwn Ewropeaidd a dimensiwn Cymreig datblygu economaidd. Er yr anawsterau economaidd presennol, mae gan bolisi cydlyniant hanes o lwyddo. Mae wedi helpu rhanbarthau llai cyfoethog Ewrop i leihau'n sylweddol y bwch rhyngddynt hwy a rhanbarthau mwy cyfoethog, ac mae wedi hybu'r gwaith o greu swyddi ar raddfa fawr mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o ddiweithdra. Yn wir, ac adnoddau'n dal yn sefydlog dros saith mlynedd, sy'n nodwedd unigryw, mae'n meithrin gwaith cynllunio a datblygu hirdymor mewn gwledydd a rhanbarthau.

Mae'n iawn dweud bod Cymru wedi cael llawer o fudd o ymgysylltu â pholisi cydlyniant, a'i bod wedi cael symiau sylweddol o arian o gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig ers dechrau datganoli. Y cronfeydd strwythurol yw prif offerynnau ariannol polisi cydlyniant, ac maent yn bwysig tu hwnt i Gymru. Fel rhan o gylch 2007 i 2013, cafodd rhaglenni cydgyfeirio'r gorllewin a'r Cymoedd arian strwythurol gwerth tua £1.9 biliwn. Cafodd rhaglenni cystadleurwydd a chyfflogaeth rhanbarthol y dwyrain dros £123 miliwn. Ynghyd â rhaglenni cydweithio tiriogaethol, mae'r rhain yn darparu dros £2 biliwn o gyllid gan yr Undeb Ewropeaidd, neu £3.4

when match funding is included. We know that we, in Wales, have responsibility for managing the funding and this enables us to bring different levels of Government together, working with communities as well, in efficient strategic partnerships.

I recognise that the debate on the future of cohesion policy takes place against a background of economic difficulty, but this makes it even more important for us, and our partners in the European Union, to keep our foot on the pedal. As we move towards recovery, it is vital that we maintain investment in skills, jobs and growth over the medium term. That is why I believe that Europe must continue to prioritise cohesion policy in the next budget round, after 2013, and why this issue will remain a high priority for the Assembly Government.

David Melding: I am sure that you can rely on the support of all parties in the Assembly in saying that it is essential that cohesion funding is continued as a policy. I wonder whether you knew that the last round of regional funding was also under great threat—considerably before any hint of a recession. We have to go in and fight for these priorities. It has been debated before and I think that those who argue that we are now beyond the need for really ambitious regional policy are simply wrong.

The First Minister: I think that you are right. We take the view, as a Government, that we will do all that we can to ensure that a transitional programme is in place post 2013 in particular. The positive outcome for us would be for a transitional package to be in place for west Wales and the Valleys and for competitiveness funding to continue in east Wales. As a Government, working with the UK Government, that will be our aim. There is no question about that.

We recognise the importance of cohesion policy and we can see the benefits that it has brought to Wales over the past few years. We are engaged in discussions on the future of cohesion policy and we will continue to engage as long as the debate is taking place,

biliwn os cynhwysir cyllid cyfatebol. Gwyddom fod gennym ni, yng Nghymru, gyfrifoldeb dros reoli'r cyllid, ac mae hynny'n ein galluogi i ddod â gwahanol lefelau o Lywodraeth ynghyd, gan weithio gyda chymunedau hefyd, mewn partneriaethau strategol effeithlon.

Yr wyf yn cydnabod bod y ddadl am ddyfodol polisi cydlyniant yn digwydd mewn cefndir o anhawster economaidd, ond mae hynny'n ei gwneud yn bwysicach fyth i ni, a'n partneriaid yn yr Undeb Ewropeaidd, gadw ein troed ar y sbardun. Wrth inni symud tuag at adferiad, mae'n hanfodol inni gynnal gwaith buddsoddi mewn sgiliau, swyddi a thwf dros y tymor canolig. Dyna pam yr wyf yn credu ei bod yn rhaid i Ewrop barhau i flaenoriaethu polisi cydlyniant yng nghylch nesaf y gyllideb, ar ôl 2013, a dyna pam y bydd y mater hwn yn parhau'n flaenoriaeth uchel i Lywodraeth y Cynulliad.

David Melding: Yr wyf yn siŵr y gallwch ddibynnu ar gefnogaeth pob plaid yn y Cynulliad wrth ichi ddweud ei bod yn hanfodol i gyllid cydlyniant barhau'n bolisi. Tybed a wyddech fod y cylch diwethaf o gyllid rhanbarthol hefyd dan fygythiad mawr—gryn amser cyn inni weld yr un awgrym o ddirwasgiad. Rhaid inni fynd i mewn a brwydro dros y blaenoriaethau hyn. Cafwyd dadl ar y mater o'r blaen, a chredaf fod y rheini sy'n dadlau ein bod yn awr y tu hwnt i'r angen am bolisi rhanbarthol hynod uchelgeisiol yn anghywir.

Y Prif Weinidog: Credaf eich bod yn gywir. Ein barn ni, fel Llywodraeth, yw y byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod rhaglen bontio ar waith, ar ôl 2013 yn enwedig. Y canlyniad cadarnhaol i ni fyddai bod pecyn pontio ar waith ar gyfer y gorllewin a'r Cymoedd a bod cyllid cystadleurwydd yn parhau yn y dwyrain. Fel Llywodraeth, sy'n gweithio gyda Llywodraeth y DU, dyna fydd ein nod. Nid oes dwywaith am hynny.

Yr ydym yn cydnabod pwysigrwydd polisi cydlyniant, a gallwn weld y manteision y mae wedi'u sicrhau i Gymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Yr ydym yn ymwneud â thrafodaethau am ddyfodol polisi cydlyniant, a byddwn yn parhau i ymwneud â

and it will intensify over the next few years. We responded to a commission consultation on EU 2020, which is the successor strategy to the Lisbon strategy for growth and jobs. Our document pointed to the central role of cohesion policy in delivering EU objectives at a regional and local level.

I very much welcome the work undertaken by the committee and I think that the report makes an interesting contribution to the debate. As we move forward, it will be to our advantage to have the strongest possible consensus on the best deal for Wales, and obviously the support from around this Chamber and from MEPs is most welcome.

On the recommendations, I say at the outset that the Assembly Government supports the thrust of the committee's report. It sets out six recommendations to the Assembly Government and, as the written response indicates, we accept all of the recommendations in principle. We have a clear position that cohesion policy should apply across the whole territory of the EU, based on regional need and not targeted at member states because of their relative levels of income. We will continue to put forward our case with conviction, together with the UK Government, as well as engaging directly with the European institutions and in common cause, where appropriate, with colleagues from other regional Governments across the UK.

The emerging debate is part of the wider debate on the EU budget post 2014, which will determine the amount of funding available and the priorities attached to that funding. We know that cohesion policy cannot be taken for granted and neither can it be assumed that we will automatically receive transitional funding. That is why we are making sure that our voice is heard strongly, both in our representations to the UK Government and in Brussels. The discussions about the EU budget will take place against a background of serious pressure on member states' budgets—we know that. We will consider those discussions and the European Commission's

hwy tra bydd y ddadl yn mynd rhagddi, a bydd yn dwysáu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Ymatebasom i ymgynghoriad gan y comisiwn ar EU2020, sef y strategaeth a fydd yn olynu strategaeth Lisbon er budd twf a swyddi. Cyfeiriai ein dogfen at rôl ganolog polisi cydlyniant wrth wireddu amcanion yr Undeb Ewropeaidd ar lefel ranbarthol a lleol.

Yr wyf yn croesawu'r gwaith a wnaed gan y pwyllgor yn fawr iawn, a chredaf fod yr adroddiad yn gyfraniad diddorol i'r ddadl. Wrth inni symud ymlaen, bydd o fantais inni gael y consensws cryfaf posibl ar y fargen orau i Gymru, ac wrth gwrs mae'r gefnogaeth o bob ochr i'r Siambr hon a chan yr Aelodau o Senedd Ewrop yn cael ei chroesawu'n fawr.

O ran yr argymhellion, dywedaf ar y dechrau fod Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi byrdwn adroddiad y pwyllgor. Mae'n gosod allan chwe argymhelliad i Lywodraeth y Cynulliad, ac fel y mae'r ymateb ysgrifenedig yn ei ddangos, yr ydym yn derbyn egwyddor pob un o'r argymhellion. Mae gennym safbwynt clir, sef y dylai polisi cydlyniant fod yn berthnasol ar draws holl diriogaeth yr Undeb Ewropeaidd, ar sail angen rhanbarthol, ac na ddylai dargedu aelod-wladwriaethau oherwydd eu lefelau cymharol o incwm. Byddwn yn parhau i gyflwyno ein hachos gydag argyhoeddiad, ynghyd â Llywodraeth y DU, a byddwn yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r sefydliadau Ewropeaidd ac yn ymuno, lle mae hynny'n briodol, â chydweithwyr o Lywodraethau rhanbarthol eraill ledled y DU.

Mae'r ddadl sy'n dod i'r amlwg yn rhan o'r ddadl ehangach ar gyllideb yr Undeb Ewropeaidd ar ôl 2014, a fydd yn pennu swm y cyllid a fydd ar gael a'r blaenoriaethau a fydd ynghlwm wrtho. Gwyddom na ellir cymryd polisi cydlyniant yn ganiataol, ac ni ellir cymryd yn ganiataol ychwaith y byddwn yn cael cyllid pontio yn awtomatig. Dyna pam yr ydym yn gwneud yn siŵr bod ein llais yn cael ei glywed yn gryf, wrth inni gyflwyno ein sylwadau i Lywodraeth y DU ac ym Mrwsel. Bydd y trafodaethau ar gyllideb yr Undeb Ewropeaidd yn digwydd mewn cefndir o bwysau difrifol ar gyllidebau aelod-wladwriaethau—gwyddom hynny. Byddwn yn ystyried y trafodaethau hynny a

White Paper that will be published in the late spring in order to take on board views from across the Assembly, especially from the committee, before we respond.

Phapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd, a gyhoeddir ddiwedd y gwanwyn, er mwyn ystyried barn pawb yn y Cynulliad, yn enwedig y pwyllgor, cyn inni ymateb.

3.30 p.m.

Ultimately, the EU budget debate will determine, to a large degree, the scope of a future cohesion policy in Wales. I also note that the committee recognises the need for timely exit strategies to be put in place for the 2007-13 structural funds programmes, and this is something that we have already planned for. The conscious move from a grant culture to an investment culture has been coupled with the robust appraisal of exit strategies prior to project approval. Government departments are in the process of identifying the risks to stakeholders, and are putting in place strategies to manage and mitigate these risks. It is important that we realise that the point of convergence funding is not to provide revenue funding ad infinitum, but to act as a catalyst in many ways so that projects can become self-financing over time.

Yn y pen draw, bydd y ddaol ar gyllideb yr Undeb Ewropeaidd yn pennu, i raddau helaeth, beth fyddai rhychwant polisi cydlyniant yn y dyfodol yng Nghymru. Sylwaf hefyd fod y pwyllgor yn cydnabod bod angen rhoi strategaethau ymadael amserol ar waith ar gyfer rhaglenni cronfeydd strwythurol 2007-13, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym eisoes wedi cynllunio ar ei gyfer. Mae'r symud ymwybodol o ddiwylliant grantiau i ddiwylliant buddsoddi wedi'i gyfuno â gwaith gwerthuso strategaethau ymadael yn drylwyr cyn cymeradwyo prosiectau. Mae adrannau'r Llywodraeth wrthi'n nodi'r risgiau i randdeiliaid, ac wrthi'n rhoi strategaethau ar waith i reoli'r risgiau hynny a'u lliniaru. Mae'n bwysig inni sylweddoli nad darparu cyllid refeniw yn ddi-ben-draw yw pwrpas cyllid cydgyfeirio, ond bod yn sbardun mewn sawl ffordd fel y gall prosiectau eu cyllido'u hunain o dipyn i beth.

Nick Ramsay: I listened with interest to what you had to say. Clearly, in economically difficult times, finances are stretched. Do you therefore agree that the United Kingdom, and Wales specifically, should be taking far more advantage of the European Investment Bank as a source of funding? I know that it is not specifically part of the cohesion policy, but at a time when cohesion funding is falling, then money such as that which the European Investment Bank has provided to Spain and other countries in Europe, should be taken advantage of in a way—I think I am right in saying—that your Government has not always done in the past.

Nick Ramsay: Gwrandewais gyda diddordeb ar yr hyn a oedd gennych i'w ddweud. Mae'n amlwg, ar adgau economaidd anodd, fod arian yn dynn. Felly, a ydych yn cytuno y dylai'r Deyrnas Unedig, a Chymru yn benodol, fod yn manteisio'n fwy o lawer ar Fanc Buddsoddi Ewrop fel ffynhonnell cyllid? Gwn nad yw'n rhan o'r polisi cydlyniant yn benodol, ond ar adeg pan yw cyllid cydlyniant yn gostwng, dylid manteisio ar arian megis yr arian y mae Banc Buddsoddi Ewrop wedi'i ddarparu i Sbaen a gwledydd eraill yn Ewrop, mewn ffordd—a chredaf fy mod yn iawn wrth ddweud hyn—nad yw eich Llywodraeth bob amser wedi'i wneud yn y gorffennol.

The First Minister: We will seek to take advantage of all sources of funding that are available to us, both from the UK Government and from Europe. We have demonstrated our dedication with Objective 1 firstly and convergence funding now, as well as all the other funds that are in place, such as JEREMIE, EQUAL, INTERREG, and so

Y Prif Weinidog: Byddwn yn ceisio manteisio ar yr holl ffynonellau cyllid sydd ar gael inni, gan Lywodraeth y DU a chan Ewrop. Yr ydym wedi dangos ein hymroddiad gydag Amcan 1 yn gyntaf, a chyda chyllid cydgyfeirio'n awr, yn ogystal â'r holl gronfeydd eraill sydd ar waith, megis JEREMIE, EQUAL, INTERREG, ac yn y

forth. As for the need to look at strategic projects in Wales, it is important for us to realise and recognise that a withdrawal of funding does not just affect lead project sponsors, but also recipients below this, which is why it is so important to have an exit strategy for a particular project and to also ensure that there is no adverse effect on other recipients who benefit as a result of the money that is being provided to that lead project. It is important that we understand in Wales that the money is there to provide an impetus, and is not something that is there to provide revenue funding for many years to come. It is important therefore that we have the exit strategies in place, and that is what we have been working on.

I thank the Committee for raising this important issue and for providing us with the framework for this debate. The discussions have now begun in earnest and will intensify over the next couple of years. The Committee recognises this and its report is an interim one. However, it provides a useful framework for our discussions in the Assembly as this vital issue develops in the years ahead. As far as the Government is concerned, we will certainly be making our voice heard and views known on the need for transitional programmes, particularly for west Wales and the Valleys. We will also continue, with dedication, to ensure that we increase the quality of life and prosperity in Wales, and that we base that on sustainable growth and jobs.

Nick Bourne: First, I congratulate Rhodri Morgan on assuming the chair of the European and External Affairs Committee. It is good to see Rhodri resurrected Lazarus-like in that new role. Very few people here, if anyone, know more about Europe than he does. I also congratulate Sandy Mewies on her term of office as chair of that committee. She was deft and always good humoured and efficient. She had the task of saying goodbye to me on the committee and welcoming me back at least three times—a bit like *Groundhog Day*. I have been on and off that committee, but I am happily back on it at the moment.

I share the views about the importance of a

blaen. O ran yr angen i edrych ar brosiectau strategol yng Nghymru, mae'n bwysig inni sylweddoli a chydabod nad yw tynnu cyllid yn ôl yn effeithio ar noddwyr prosiectau arweiniol yn unig, oherwydd bydd hefyd yn effeithio ar y sawl sy'n cael cyllid islaw hyn. Dyna pam y mae mor bwysig cael strategaeth ymadael ar gyfer prosiect penodol, a sicrhau hefyd nad effeithir yn andwyol ar bobl eraill sy'n cael cyllid ac yn cael elwa o'r arian a ddarperir i'r prosiect arweiniol dan sylw. Mae'n bwysig inni ddeall yng Nghymru mai diben yr arian yw ysgogi, ac nad ei ddiben yw darparu cyllid refeniw am flynyddoedd lawer i ddod. Felly, mae'n bwysig fod y strategaethau ymadael ar waith gennym, a dyna'r ydym wedi bod yn gweithio arno.

Diolch i'r Pwyllgor am godi'r mater pwysig hwn ac am ddarparu'r fframwaith inni ar gyfer y ddadl hon. Mae'r trafodaethau wedi dechrau o ddifrif yn awr, a byddant yn dwysáu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod hynny, ac adroddiad interim yw ei adroddiad. Fodd bynnag, mae'n fframwaith defnyddiol ar gyfer ein trafodaethau yn y Cynulliad wrth i'r mater hanfodol hwn ddatblygu yn ystod y blynyddoedd i ddod. O ran y Llywodraeth, byddwn yn bendant yn sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed a'n bod yn mynegi ein barn am yr angen am raglenni pontio, yn enwedig ar gyfer y gorllewin a'r Cymoedd. Byddwn hefyd yn parhau, gydag ymroddiad, i sicrhau ein bod yn gwella ansawdd bywyd a ffyniant yng Nghymru, ac yn seilio hynny ar swyddi a thwf cynaliadwy.

Nick Bourne: Yn gyntaf, hoffwn longyfarch Rhodri Morgan ar gymryd swydd cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Mae'n dda gweld Rhodri wedi atgyfodi fel Lasarus yn y rôl newydd honno. Ychydig iawn o bobl yma, os o gwbl, a wŷr fwy am Ewrop nag ef. Yn ogystal, hoffwn longyfarch Sandy Mewies ar ei chyfnod fel cadeirydd y pwyllgor hwnnw. Yr oedd yn fedrus a bob amser yn hynaws ac yn effeithlon. Cafodd Sandy y dasg o ffarwelio â mi ar y pwyllgor a'm croesawu'n ôl iddo o leiaf deirgwaith—fel *Groundhog Day* i raddau. Yr wyf wedi ymuno ac ymadael â'r pwyllgor droeon, ond yr wyf yn hapus bod yn ôl yno ar hyn o bryd.

Yr wyf ffinau o'r un farn am bwysigrwydd

cohesion policy after 2013—and indeed at present, but it is after 2013 that the doubts arise. During the current round we have £2 billion of EU funds under the structural programmes, which are vital for Wales and provide a significant boost for west Wales and the Valleys; there is no doubt of that. I am pleased that the First Minister has wisely accepted all of our recommendations, so it is therefore difficult to find fault with his response. We all welcome that. There is a Wales interest here, which has to be protected and that approach is very welcome.

To digress slightly, although this is important, I am pleased that that approach is now being exemplified by our four Welsh MEPs—at Kay Swinburne's behest, I believe, although it takes four to tango, in this case. She, Jill Evans, Derek Vaughan and John Bufton meet on a weekly basis to discuss issues that are of importance to Wales, if there is a Welsh dimension, and they try to take things forward. That is sensible; you would scarcely think that four elected politicians who must have such divergent views on many issues would do so, but issues often will have a Welsh dimension, and so that unique Welsh approach is very welcome.

Part of the problem, to which the First Minister has alluded, correctly, is the current financial squeeze, but another part of the problem as far as Wales is concerned is the accession of new member states. As much as that is welcomed, it has meant that, in relative terms, we have become less poor compared with the wider EU because of the relative poverty of the countries that are new entrants. It is therefore a given that we will not qualify again for assistance on the old basis. Wales, and the wider EU, need new criteria for the EU cohesion policy. The 75 per cent threshold that is in force at the moment, which is currently a cliff edge, more or less, will not help Wales the next time—it very nearly did not help us last time; it only did so because of some particularly bad figures, which were slightly quirky. There is no way that we will qualify in that way again. The committee has recommended the sliding-scale mechanism, which Graham Meadows

polisi cydlyniant ar ôl 2013—ac ar hyn o bryd yn wir, ond ar ôl 2013 y mae'r amheuon yn codi. Yn ystod y cylch presennol, cawn £2 biliwn o arian yr Undeb Ewropeaidd dan y rhaglenni strwythurol, sy'n hanfodol i Gymru ac sy'n hwb sylweddol i'r gorllewin a'r Cymoedd; nid oes amheuaeth am hynny. Yr wyf yn falch bod y Prif Weinidog yn ddoeth wedi derbyn ein holl argymhellion, felly, mae'n anodd gweld beiau yn ei ymateb. Yr ydym i gyd yn croesawu hynny. Mae budd i Gymru yma, a rhaid ei ddiogelu, a chroesewir y dull gweithredu hwnnw'n fawr.

Yr wyf yn crwydro ychydig, er bod hyn yn bwysig. Yr wyf yn falch fod pedwar aelod Cymru o Senedd Ewrop wedi mabwysiadu'r dull gweithredu hwnnw'n awr—ar gais Kay Swinburne, mi gredaf, er bod angen pedwar i weithredu yn yr achos hwn. Bydd hi, Jill Evans, Derek Vaughan a John Bufton yn cyfarfod bob wythnos i drafod materion sy'n bwysig i Gymru, os oes dimensiwn Cymreig, ac maent yn ceisio symud pethau yn eu blaen. Mae hynny'n synhwyrol; go brin y byddech yn meddwl y byddai pedwar gwleidydd etholedig, y mae'n rhaid bod ganddynt farn wahanol iawn am lawer o faterion, yn gwneud hynny, ond bydd dimensiwn Cymreig mewn materion yn aml, a chroesewir y dull gweithredu Cymreig ac unigryw hwnnw yn fawr, felly.

Rhan o'r broblem, ac y mae'r Prif Weinidog wedi cyfeirio ati, yn hollol iawn, yw'r wasgfa ariannol bresennol. Ond rhan arall o'r broblem o ran Cymru yw derbyn aelod-wladwriaethau newydd. Er y croesewir hynny'n fawr, mae wedi golygu, o safbwynt cymharol, ein bod yn llai tlawd yn awr o'n cymharu â'r Undeb Ewropeaidd ehangach, oherwydd tlodi cymharol y gwledydd sydd newydd ymuno. Felly, cymerir yn ganiataol na fyddwn yn gymwys eto i gael cymorth ar yr hen sail. Mae angen meini prawf newydd ar Gymru, a'r Undeb Ewropeaidd ehangach, ar gyfer polisi cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd. Ni fydd y trothwy 75 y cant sydd ar waith ar hyn o bryd, ac sydd yn ymyl dibyn fwy neu lai, yn helpu Cymru y tro nesaf—bu bron iawn iddo beidio â'n helpu y tro diwethaf; yr unig reswm y gwnaeth hynny oedd oherwydd rhai ffigurau arbennig o wael, a oedd ychydig yn rhyfedd. Nid oes gobaith inni fod yn gymwys fel hynny eto. Mae'r

described to us as a series of economic development gears under which funding could be allocated to poorer regions as their economies strengthen. Essentially, it is not a cliff edge; it is a diminishing scale of economic assistance. Clearly, that makes far more sense—generally, and for Wales.

It is also vital, as we have indicated, that we simplify the rules relating to EU cohesion policy, so that it better serves the needs of the regions and the people who are applying for assistance. The European Court of Auditors, in its report on the 2008 budget, when referring to structural and cohesion funds, came to the conclusion that it was the area of activity that was most affected by errors. It estimated that some 11 per cent of grants that were paid out should not have been paid out—at least in the form in which they were paid out. I do not believe that that is true of Wales, but it is true elsewhere. Clearly, we need to look at the rules and the way in which they are administered. It did not put that down to fraud, in most cases, but to complex rules and regulations, and that is probably correct. Therefore, we need more transparency and clear-sightedness in the way in which the rules operate.

I welcome the Government's response to the committee's report. I also thank all those who gave evidence, and it was a well-ordered and consensual process. I am glad of that in this context, because there is a Welsh interest that we should all seek to protect in taking this forward in the EU.

Sandy Mewies: I do not intend to comment further on the report, as that has been done so ably. I want to thank people for the work that they have done on the report, and for their kind words today. Committee members were consensual and worked very hard on this, and came to some very good conclusions. I also wish to thank the committee staff, the Members' research service, Gregg in Brussels, all the witnesses, and the broadcasting staff, who made our video conferences so successful. If I have missed

pwyllogor wedi argymhell system graddfa symudol, a disgrifiodd Graham Meadows y system honno inni fel cyfres o geriau datblygu economaidd y gellid dyrannu arian danynt i ranbarthau flotach wrth i'w heconomiau gryfhau. Yn y bôn, nid yw yn ymyl dibyn; mae'n raddfa ostyngol o gymorth economaidd. Mae'n amlwg bod hynny'n gwneud mwy o synnwyr o lawer—yn gyffredinol, ac i Gymru.

Mae hefyd yn hanfodol, fel yr ydym wedi ei nodi, inni symleiddio'r rheolau'n ymwneud â pholisi cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn iddo ddiwallu'n well anghenion y rhanbarthau a'r bobl sy'n gwneud cais am gymorth. Daeth Llys Archwilwyr Ewrop, yn ei adroddiad ar gyllideb 2008, wrth gyfeirio at gronfeydd strwythurol a chronfeydd cydlyniant, i'r casgliad mai hwn oedd y maes gweithgaredd yr oedd gwallau'n effeithio fwyaf arno. Amcangyfrifodd na ddylai tuag 11 y cant o'r grantiau a dalwyd fod wedi eu talu—o leiaf, nid yn y ffurf y cawsant eu talu. Ni chredaf fod hynny'n wir am Gymru, ond y mae'n wir am leoedd eraill. Mae'n amlwg bod angen inni edrych ar y rheolau a'r ffordd y cânt eu gweinyddu. Nid oedd yn dweud mai twyll oedd i gyfrif am hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, yr oedd yn beio rheolau a rheoliadau cymhleth, ac y mae hynny'n gywir, fwy na thebyg. Felly, mae angen mwy o dryloywder ac eglurder yn y ffordd y mae'r rheolau'n gweithio.

Croesawaf ymateb y Llywodraeth i adroddiad y pwyllogor. Diolch hefyd i bawb a roddodd dystiolaeth: bu'n broses drefnus a chytûn. Yr wyf yn falch o hynny yn y cyd-destun hwn, oherwydd mae yma fudd i Gymru y dylem i gyd geisio'i ddiogelu wrth symud y mater yn ei flaen yn yr Undeb Ewropeaidd.

Sandy Mewies: Nid yw'n fwriad gennyf gynnig rhagor o sylwadau am yr adroddiad, gan fod hynny wedi'i wneud mor fedrus. Yr wyf am ddiolch i bobl am y gwaith y maent wedi'i wneud ar yr adroddiad, ac am eu geriau caredig heddiw. Yr oedd aelodau'r pwyllogor yn gytûn, a buont yn gweithio'n galed iawn ar hwn, a daethant i gasgliadau da iawn. Hoffwn ddiolch hefyd i staff y pwyllogor, gwasanaeth ymchwil yr Aelodau, Gregg ym Mrwsel, yr holl dystion, a'r staff darlledu a sicrhodd fod ein cynadleddau

anyone out, I apologise. I know that people think that I am a bit of an oddity when I say that I enjoy scrutinising European legislation so much. I wish the new Chair and the committee every success in the future, and I wish my thanks to all those involved to be recorded.

Michael German: I thank Sandy for her work as Chair. This report was timely, and the European and External Affairs Committee decided to try to look at the big problems that were going to face Wales in future years. It is clear that this is a long-term problem that will require short-term action by the Government and the National Assembly—I will come back to that later.

3.40 p.m.

I also recognise the slightly tricky position that Rhodri Morgan is in, in that he is promoting and defending a committee report for which he was a principal witness. The Welsh Assembly Government's response was couched in caution, but I must say that the questions that I was going to raise about its response have largely been answered by the First Minister, who has put much more meat on the bone, as it were, about the Welsh Assembly Government's position.

I would like to examine some of the key issues in our report; it is important that the Government is part of it and sees it as an all-Wales approach. The first question, which requires some thinking, is: what happens post-2013 when the current round of European funding comes to an end? We all hope that, at that point, the relative wealth of Wales will have risen above the 75 per cent threshold, if that were to continue. If the current regime were put in place, then all European funding of the former Objective 1-type would be lost to Wales. The suggestion that we got from other regions and from those who gave evidence to the committee—and it is included in the report as a recommendation—is that we should work for a transitional package so that Wales would lose the funding in steps rather than simply

fideo mor llwyddiannus. Ymddiheuraf os wyf wedi amghofio sôn am rywun. Gwn fod pobl yn meddwl fy mod ychydig yn rhyfedd pan ddywedaf fy mod yn mwynhau craffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd gymaint. Dymunaf bob llwyddiant i'r Cadeirydd newydd a'r pwyllgor yn y dyfodol, a hoffwn i fy nioch i bawb sydd wedi ymwneud â'r gwaith gael ei gofnodi.

Michael German: Diolch i Sandy am ei gwaith fel Cadeirydd. Yr oedd yr adroddiad hwn yn amserol, a phenderfynodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol geisio edrych ar y problemau mawr a fyddai'n wynebu Cymru yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n amlwg fod hon yn broblem hirdymor a fydd yn gofyn am gamau gweithredu byrdymor gan y Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol—dof yn ôl at hynny'n ddiweddarach.

Yr wyf hefyd yn cydnabod y sefyllfa anodd braidd y mae Rhodri Morgan ynddi, oherwydd mae'n hyrwyddo ac yn amddiffyn adroddiad pwyllgor yr oedd yn brif dyst iddo. Yr oedd ymateb Llywodraeth y Cynulliad wedi'i eirio'n ofalus, ond rhaid imi ddweud bod y cwestiynau y bwriadwn eu codi am ymateb y Llywodraeth wedi'u hateb i raddau helaeth gan y Prif Weinidog, sydd wedi rhoi llawer mwy o gig ar yr asgwrn, fel petai, o ynghylch safbwynt Llywodraeth y Cynulliad.

Hoffwn archwilio rhai o'r materion allweddol yn ein hadroddiad; mae'n bwysig i'r Llywodraeth fod yn rhan ohono ac yn ystyried yn ddull gweithredu i Gymru gyfan. Y cwestiwn cyntaf, sy'n gofyn am ychydig waith meddwl, yw hwn: beth fydd yn digwydd ar ôl 2013 pan ddaw'r cylch presennol o gyllid Ewropeaidd i ben? Gobeithiwn i gyd y bydd cyfoeth cymharol Cymru wedi codi uwchlaw'r trothwy o 75 y cant erbyn hynny, pe bai'r trothwy hwnnw'n parhau. Pe bai'r drefn bresennol yn cael ei rhoi ar waith, byddai Cymru'n colli'r holl gyllid Ewropeaidd tebyg i gyllid Amcan 1 gynt. Yr awgrym a gawsom gan ranbarthau eraill a chan y rheini a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor—ac mae wedi'i gynnwys yn yr adroddiad fel argymhelliad—yw y dylem weithio i sicrhau pecyn pontio fel y byddai

fall off the cliff edge and go from receiving substantial European convergence funding to no convergence funding. Securing such a necessary change would mean having to take on the UK Government.

The renationalisation of cohesion policy may not inspire a great swathe of public support, with people marching down the street bearing flags that state, 'We do not want to renationalise cohesion policy'. However, if the UK Government were to push such a proposal forward, it would mean that we would be reliant on UK Government funding in the area of European funding that we get back at the moment. Given that Wales is a net receiver as opposed to a contributor in these matters, it is in our interests to move with those other regions in other European states, which have a similar problem. We have allies in this, perhaps in Cornwall, but certainly in some of the German Länder and in other parts of Europe where there are regions that face a similar situation post-2013 of being put on the shelf in European funding terms.

However, I welcome the First Minister saying today that he was in favour of a transitional package to take us onwards post-2013. That is exactly what I wanted to hear in the Government's response. Unfortunately, the Government response of 'accept in principle' to every single recommendation always means something slightly cautious, particularly when the recommendation is to provide clarification. So you accept in principle to provide clarification—surely, you either can or cannot provide it. We have heard today that recommendation 4 on the merits of a 'sliding scale mechanism' has been accepted in principle by the Government and that recommendation 5, which asks, 'what actions are envisaged', has also been accepted in principle. However, some of the descriptions that the Government provided today have been helpful in these matters.

There is then a role that both Government and the National Assembly can play because

Cymru'n colli'r cyllid yn raddol yn hytrach na syrthio oddi ar ymyl y dibyn, a mynd o gael cyllid cydgyfeirio Ewropeaidd sylweddol i gael dim cyllid cydgyfeirio o gwbl. Byddai sicrhau newid angenrheidiol o'r fath yn golygu y byddai'n rhaid herio Llywodraeth y DU.

Efallai na fydd ailwladoli polisi cydlyniant yn ennyn ton fawr o gefnogaeth ymhlith y cyhoedd, a phobl yn gorymdeithio i lawr y stryd yn cario baneri'n dweud, 'Nid ydym am ailwladoli polisi cydlyniant'. Pe bai Llywodraeth y DU yn gwthio cynnig o'r fath, fodd bynnag, byddai'n golygu y byddem yn ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth y DU ym maes cyllid Ewropeaidd yr ydym yn ei gael yn ôl ar hyn o bryd. O gofio mai derbynydd net yn hytrach na chyfrannwr yw Cymru yn y materion hyn, mae o fudd inni symud gyda'r rhanbarthau eraill hynny mewn gwladwriaethau Ewropeaidd eraill, sydd â phroblem debyg. Mae gennym gynghreiriaid yn hyn o beth, yng Nghernyw efallai, ond yn bendant yn rhai o Länder yr Almaen ac mewn rhannau eraill o Ewrop lle mae rhanbarthau sy'n wynebu sefyllfa debyg ar ôl 2013, lle gallent gael eu gwthio o'r neilltu o safbwynt cyllid Ewropeaidd.

Fodd bynnag, croesawaf y ffaith fod y Prif Weinidog wedi dweud heddiw ei fod o blaid pecyn pontio i'n symud ymlaen ar ôl 2013. Dyna'n union yr oeddwn am ei glywed yn ymateb y Llywodraeth. Yn anfodus, mae ymateb 'derbyn mewn egwyddor' gan y Llywodraeth i bob argymhelliad bob amser yn golygu cam braidd yn ofalus, yn enwedig pan fydd yr argymhelliad yn ymwneud â darparu eglurhad. Yr ydych, felly, yn derbyn egwyddor yr argymhelliad i ddarparu eglurhad—ond yr ydych naill ai'n gallu ei ddarparu ynteu'n methu â'i ddarparu. Yr ydym wedi clywed heddiw fod argymhelliad 4 ar rinweddau 'system graddfa symudol' wedi'i dderbyn mewn egwyddor gan y Llywodraeth, a bod argymhelliad 5, sy'n gofyn pa gamau gweithredu a ragwelir, hefyd wedi'i dderbyn mewn egwyddor. Fodd bynnag, mae rhai o'r disgrifiadau y mae'r Llywodraeth wedi'u darparu heddiw wedi bod yn ddefnyddiol yn y materion hyn.

Yna, ceir rôl y gall y Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol ei chwarae,

unlike other forms of action, where we are trying to influence one single parliamentary body or one single Government, in this case, we are trying to influence other regions of Europe that share our problems as well as the European Council of Ministers and the European Parliament, which also has a much bigger say in these matters at the moment. It is pleasing for us that Danuta Hübner, who was the Commissioner for Regional Policy is now chair of the EU's Regional Development Committee. She is quoted in our report as saying,

'the dominating stream is that there should be full coverage of the entire European Union territory...'

for the funds that are available—'the entire European Union territory'. In other words, she does not say that some member states could bring those funds back, but that they could be for all and that we could all share in the work that Rhodri excellently described in his section on definitions at the beginning of this debate.

I therefore commend this report to you and thank the staff who put it together. I add my tribute to our staff in Brussels, who are overworked. If members of the commission are listening, our advantages in Wales would be best served by ensuring that our voice is heard, along with other regions, as well as with the European Parliament and the European council. If that means supporting our staff properly and more effectively in Brussels, I would be only too pleased to do that.

Jeff Cuthbert: I would like to begin by thanking Rhodri Morgan for his opening speech on behalf of the committee. I add my thanks to Sandy Mewies; we have been together on the committee for many years, and I recognise her skills and qualities as a very fair Chair of that committee.

I welcome the opportunity to speak in this debate today. I speak as the Assembly Member for Caerphilly, but I must declare an interest as chair of the All-Wales Programme

oherwydd yn wahanol i ddulliau eraill o weithredu, lle'r ydym yn ceisio dylanwadu ar un corff seneddol neu un Llywodraeth, yr ydym yn ceisio dylanwadu yn yr achos hwn ar ranbarthau eraill yn Ewrop sydd â'r un problemau â ni, yn ogystal â Chyngor Gweinidogion Ewrop a Senedd Ewrop, sydd hefyd â llais mwy o lawer yn y materion hyn ar hyn o bryd. Mae'n destun boddhad inni fod Danuta Hübner, y cyn-Gomisiynydd Polisi Rhanbarthol, bellach yn gadeirydd Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd. Caiff ei dyfynnu yn ein hadroddiad wrth iddi ddweud,

y neges amlycaf yw y dylid cynnig darpariaeth lawn i holl diriogaeth yr Undeb Ewropeaidd...

o ran yr arian sydd ar gael—holl diriogaeth yr Undeb Ewropeaidd. Mewn geiriau eraill, nid yw'n dweud y gallai rhai aelod-wladwriaethau ddod â'r cronfeydd hynny'n ôl, ond y gallent fod ar gyfer pawb, ac y gallem bob un rannu'r gwaith a ddisgrifiwyd yn wych gan Rhodri yn ei adran ar ddiffiniadau ar ddechrau'r ddadl hon.

Yr wyf, felly, yn cymeradwyo'r adroddiad hwn ichi ac yn diolch i'r staff a'i lluniodd. Ychwanegaf fy nheyrnged i'n staff ym Mrwsel, sydd â gormod o waith. Os yw aelodau'r comisiwn yn gwranddo, y ffordd orau i sicrhau manteision inni yma yng Nghymru fyddai gwneud yn siŵr bod ein llais yn cael ei glywed, ynghyd â llais rhanbarthau eraill, gerbron Senedd Ewrop a'r Cyngor Ewropeaidd. Os yw hynny'n golygu cefnogi ein staff yn iawn ac yn fwy effeithiol ym Mrwsel, byddwn i'n fwy na pharod i wneud hynny.

Jeff Cuthbert: Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i Rhodri Morgan am ei araith agoriadol ar ran y pwyllgor. Ychwanegaf fy niolch innau i Sandy Mewies; yr ydym wedi bod gyda'n gilydd ar y pwyllgor ers llawer blwyddyn, ac yr wyf yn cydnabod ei sgiliau a'i rhinweddau fel Cadeirydd teg iawn i'r pwyllgor hwnnw.

Croesawaf y cyfle i siarad yn y ddadl hon heddiw. Siaradaf fel Aelod Cynulliad dros Gaerffili, ond rhaid imi ddatgan budd fel cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni

Monitoring Committee for the structural funds, because that body is responsible for the monitoring and implementation of those funds. Indeed, the PMC has recently undertaken to monitor and feed into developments for cohesion policy after 2013. I am grateful that this position has provided me with a valuable insight into the context of this debate.

As the First Minister reminded us in his response to the committee's interim report, much of what we get in Wales will depend on the outcome of EU budget negotiations. These discussions, in turn, will take place against the backdrop of the recent global recession and pressure on public budgets. Nonetheless, we in Wales need to feed into these discussions about the future of cohesion policy, as leaving us without any form of transitional funding whatsoever risks undoing much of the hard work that has already been done, especially when we will almost certainly have returned to a path of economic growth by 2013.

As you know, my constituency of Caerphilly currently receives convergence funding and has benefited from a number of projects, including the recently announced package that will give Bargoed town centre a major boost. This was very welcome news following Caerphilly council's unfortunate failure to secure any money from the strategic capital investment fund in the latest round. It is communities like these and Communities First wards in particular—which there are many in my constituency—that can ill afford to have the support of European funding removed completely.

I recognise that the admission of the accession countries to the EU has dramatically altered the average GDP per capita of the union, and areas like west Wales and the Valleys are now considered better off. However, it is important that there is an element of transitional funding, perhaps similar to that currently received by Wales's competitiveness areas. I would like assurance from the Welsh Assembly Government, as this interim report has already called for, that

Cymru Gyfan ar gyfer y cronfeydd strwythurol, oherwydd mae'r corff hwnnw'n gyfrifol am fonitro a gweithredu'r cronfeydd hynny. Yn wir, mae'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni wedi ymrwymo'n ddiweddar i fonitro datblygiadau ar gyfer polisi cydlyniant ar ôl 2013, ac i gyfrannu iddynt. Yr wyf yn ddiolchgar fod y swydd hon wedi rhoi cyfle gwerthfawr imi ddeall cyd-destun y ddadl hon.

Fel yr atgoffodd y Prif Weinidog ni yn ei ymateb i adroddiad interim y pwyllgor, bydd llawer o'r hyn a gawn yng Nghymru yn dibynnu ar ganlyniad trafodaethau am gyllideb yr Undeb Ewropeaidd. Bydd y trafodaethau hyn, yn eu tro, yn digwydd yng nghyd-destun y dirwasgiad byd-eang diweddar a phwysau ar gyllidebau cyhoeddus. Er hynny, mae angen i ni yng Nghymru gyfrannu i'r trafodaethau hyn am ddyfodol polisi cydlyniant, oherwydd mae ein gadael heb ddim cyllid pontio yn golygu bod perygl y bydd llawer o'r gwaith caled a wnaed eisoes yn cael ei ddadwneud, yn enwedig pan fyddwn bron yn bendant wedi dychwelyd i lwybr twf economaidd erbyn 2013.

Fel y gwyrddoch, mae fy etholaeth i, Caerffili, yn cael arian cydgyfeirio ar hyn o bryd, ac mae wedi elwa o nifer o brosiectau, gan gynnwys y pecyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar a fydd yn rhoi hwb mawr i ganol tref Bargoed. Yr oedd hwn yn newydd a groesawyd yn fawr iawn yn dilyn methiant anffodus cyngor Caerffili i sicrhau dim arian o'r gronfa buddsoddi cyfalaf strategol yn y cylch diweddaraf. Cymunedau fel y rhain a wardiau Cymunedau yn Gyntaf yn benodol—ac mae llawer ohonynt yn fy etholaeth—yw'r union rai na allant fforddio colli cymorth cyllid Ewropeaidd yn llwyr.

Yr wyf yn cydnabod bod derbyn gwledydd ychwanegol i'r Undeb Ewropeaidd wedi newid cyfartaledd cynnyrch mewnwladol crynswth y pen yn yr undeb yn ddramatig, ac ystyrir erbyn hyn bod ardaloedd megis y gorllewin a'r Cymoedd yn gyfoethocach. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael elfen o gyllid pontio, sy'n debyg efallai i'r hyn y mae ardaloedd cystadleurwydd Cymru yn ei gael ar hyn o bryd. Hoffwn sicrwydd gan Lywodraeth y Cynulliad, fel y mae'r

these circumstances will be taken into account.

On a Wales-wide level, we need to ensure that any transitional funding we receive is used to continue the boosting of skill levels in Wales, in all probability in line with the new EU 2020 agenda, which looks set to be the successor to the Lisbon and Gothenburg agendas. This will be crucial if we are to deliver on our aspiration to be that small, clever country; one that can compete in a knowledge-intensive global economy that will increasingly need to depend on green and sustainable technology. Everyone here knows that skills and training are two issues that are dear to me, and I make no apologies for bringing them up again. This is the way to ensure that what new funding we do secure helps to drive us forward in the most appropriate way possible into the economy of the future and not leave our more deprived areas behind.

Rhodri Glyn Thomas: Hoffwn yn gyntaf ymateb i gyfeiriad beiblaidd Nick Bourne at Lazarus a'i gymhariaeth gyda Rhodri Morgan. Dylwn egluro i Nick Bourne fod Lazarus wedi marw, a'i bod wedi atgyfodi o farwolaeth. Nid yw hynny wedi digwydd i Rhodri Morgan, er ei fod wedi darganfod bywyd newydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.

Mae'r adroddiad yn codi nifer o bwyntiau hynod o bwysig a phenodol. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod y Llywodraeth yn derbyn pob argymhelliad, cânt eu derbyn mewn egwyddor. Mae rhywfaint o amwysedd, felly, o ran sut yn union fydd y Llywodraeth yn gweithredu yn y materion hyn.

3.50 p.m.

Byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r Prif Weinidog wedi gallu dweud wrthym heddiw beth yn union yw meddylfryd y Llywodraeth ar hyn o bryd ynglŷn â'r pecyn trosglwyddo. Mae'n derbyn bod angen pecyn trosglwyddo, ond, yn ein tystiolaeth, cyflwynwyd nifer o fodelau gwahanol ger ein bron ynglŷn â'r modd y gallai'r pecyn trosglwyddo hwn gael ei gyflwyno. Yr wyf yn derbyn nad yw'r Prif

adroddiad interim eisoes wedi galw amdano, y bydd yr amgylchiadau hyn yn cael eu hystyried.

Ar lefel Cymru gyfan, mae angen inni sicrhau bod yr holl gyllid pontio a gawn yn cael ei ddefnyddio at ddiben parhau i hybu lefelau sgiliau yng Nghymru, yn unol â'r agenda EU2020 newydd, fwy na thebyg, oherwydd ymddengys mai'r agenda honno fydd yn olynu agendâu Lisbon a Gothenburg. Bydd hynny'n hollbwysig os ydym am wireddu ein dyhead i fod yn wlad fach alluog; yn wlad a all gystadlu mewn economi gwybodaeth fyd-eang, ddwys y bydd angen iddi ddiryngnu fwyfwy ar dechnoleg werdd a chynaliadwy. Gŵyr pawb yma fod sgiliau a hyfforddiant yn ddau fater sy'n bwysig imi, ac nid wyf yn ymddiheuro am eu codi eto. Dyma'r ffordd i sicrhau bod unrhyw arian newydd a sicrhawn yn helpu i'n gyrru ymlaen yn y modd mwyaf priodol posibl i mewn i economi'r dyfodol, heb adael ein hardaloedd mwy difreintiedig ar ôl.

Rhodri Glyn Thomas: I should firstly like to respond to Nick Bourne's biblical reference to Lazarus and the comparison with Rhodri Morgan. I should explain to Nick Bourne that Lazarus actually died and was resurrected. That is not quite the case with Rhodri Morgan, although he has discovered a new lease of life as Chair of the Committee on European and External Affairs.

The report raises a number of important and specific points. Although we appreciate the fact that the Government accepts all the recommendations, they are accepted in principle. There is some ambiguity, therefore, in how exactly the Government will act on these issues.

It would have been useful if the First Minister could have outlined for us today the Government's current mindset on the transitional package. He accepts that such a package is needed, but, in evidence provided to us, we were presented with several different models for the way in which the transitional package could be introduced. I accept that the First Minister does not want to

Weinidog am ddweud yn blwmp ac yn blaen pa un fydd y Llywodraeth yn ei ddewis ar hyn o bryd, oherwydd, fel y dywedodd, mae angen ymgynghori ymhellach. Er hynny, byddai'n dda gwybod pa drafodaethau sydd wedi digwydd, beth yw barn y Llywodraeth a'r Prif Weinidog, a pha fodelau y maent yn eu ffafrio.

Mae cwestiwn yn codi hefyd ynglŷn â'r ardaloedd sydd y tu allan i ardal cydlyn, sef yr ardaloedd hynny sydd ar hyn o bryd yn cael cefnogaeth o ran cystadleuaeth a chyflogaeth. Mae o leiaf saith sir yn y sefyllfa honno. Beth fydd yn digwydd i'r rheiny yn y cyfnod wedi 2013? Mae angen rhyw fath o ymateb gan y Llywodraeth ar y pwnc hwnnw hefyd.

Yn olaf, oherwydd bod y maes hwn wedi cael sylw helaeth yn ystod y drafodaeth hon, sut fydd y Llywodraeth yn sicrhau bod yr ymgynghori y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato, a'r drafodaeth gyda rhanddeiliaid sydd â buddiant yn y maes hwn, yn digwydd yng Nghymru, a hynny er mwyn cynrychioli barn pob un yr effeithir arno gan y newidiadau ar ôl 2013?

The First Minister: First of all, with regard to Mike's points, it is important for us that we get a transitional programme in place. That is something that the UK Government has made clear as well. The UK Government's position is that it explicitly acknowledges the need to consider potential transitional-type arrangements, and that chimes well with our priorities. However, the need for a transitional programme for west Wales and the Valleys, together with the continuation of the competitiveness funding for east Wales, as I said, will very much be our aim when convergence funding ends. The last thing we want is to see funding end suddenly, which is why the transitional programme will be so important to us. That is the case that we have been pressing, with the UK Government and with the European Commission.

Ynglŷn â phwynt Rhodri Glyn, yr ydym yn ymgynghori'n gyson â phob grŵp neu awdurdod sydd â buddiant yn y maes hwn. Mae pwyllgor monitro'r rhaglen hefyd yn ystyried y rhaglenni sydd gennym ar hyn o

state unequivocally which model the Government will opt for at this time, because, as he said, further consultation is needed. However, it would be good to know what discussions have taken place, what the view of the Government and First Minister is, and what models they favour.

A question also arises regarding those areas that are outside the convergence areas, namely those areas that are currently in receipt of competitiveness and employment support. There are at least seven counties in that position. What will happen to them post 2013? We need some kind of response from the Government on that point, too.

Finally, given that this subject has received considerable attention through this debate, how will the Government ensure that the consultation to which the First Minister referred, and the discussions with stakeholders with an interest in this area, take place in Wales, so that the views of all those affected by the changes post 2013 are taken into account?

Y Prif Weinidog: Yn gyntaf oll, ar bwyntiau Mike, mae'n bwysig i ni ein bod yn sicrhau bod rhaglen bontio ar waith. Mae hynny'n rhywbeth y mae Llywodraeth y DU wedi'i nodi'n glir hefyd. Safbwynt Llywodraeth y DU yw ei bod yn cydnabod yn eglur fod angen ystyried trefniadau posibl tebyg i drefniadau pontio, ac mae hynny'n cyd-fynd yn dda â'n blaenoriaethau ni. Fodd bynnag, fel y dywedais, yr angen am raglen bontio ar gyfer y gorllewin a'r Cymoedd, a pharhau i gael cyllid cystadleurwydd ar gyfer y dwyrain, fydd ein nod yn bendant pan ddaw cyllid cydgyfeirio i ben. Y peth olaf a ddymunwn yw gweld cyllid yn dod i ben yn sydyn, a dyna pam y bydd y rhaglen bontio mor bwysig inni. Dyna'r achos yr ydym wedi bod yn ei wthio, gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd.

On Rhodri Glyn's point, we consult regularly with all groups or authorities that have an interest in this area. The programme monitoring committee is considering our current programmes, and that is an important

bryd, ac mae hynny'n rhan bwysig o sicrhau ein bod ni'n ymwybodol o farn pobl.

Aiff hynny â ni at y cwestiwn ynglŷn â pha un o'r modelau sydd orau ac a ddylai fod ar waith wedi i'r cyllido ddod i ben. Mae sawl model yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Yr ydym ar hyn o bryd yn gwrandao ar farn arbenigwyr yn y maes i weld pa fodel sydd orau i Gymru. Felly, yr ydym yn ystyried sawl model, ac mae'n rhy gynnar i ddweud taw hwn a hwn yw'r model i ni—mae gwaith i'w wneud yn hynny o beth. Serch hynny, y nod yw sicrhau bod gennym ni raglen ar waith i'r gorllewin a'r Cymoedd ar gyfer y cyfnod wedi 2011.

I thank Members for the nature and tone of the debate. It is fair to say that all Members are supportive of what cohesion funding has done for Wales over the past decade. Also, there is a need to ensure that we have programmes in place that will allow us to make the transition from 2013 onwards. That is something that the Welsh Assembly Government supports. It is my belief that, working together, that will certainly strengthen our case in London and in Brussels to make sure that, whatever happens after convergence funding ends, we end up with a satisfactory programme that will be of benefit to those who live in west Wales and the Valleys or in east Wales.

Rhodri Glyn Thomas *a gododd—*

Y Llywydd: Trefn. Mae'r Prif Weinidog wedi eistedd.

Rhodri Morgan: Yr wyf yn meddwl bod y ddadl a gawsom y prynhawn yma wedi dangos sut y gallwch chi gynnal dadl ddiddorol gyda bron bawb yn cytuno 100 y cant ar y pwnc. Yr wyf yn credu ein bod ni wedi llwyddo i wneud hynny. Mae pawb yn ymwybodol y bydd pwysigrwydd y mater hwn i Gymru yn parhau i gynyddu yn ystod y tair blynedd nesaf.

The process by which we as a committee will be conducting, and keeping an eye on, further investigations into cohesion, as we move from an interim report to a final version, will hopefully contribute to the efforts of the Assembly Government in leading on this

part of ensuring that we are aware of people's opinions.

This brings us to the question which option is best as regards the model that should be put in place when the funding comes to an end. Several models are being considered at present. We are currently listening to the opinions of experts in this field in order to identify the best possible model for Wales. Therefore, we are considering a number of models, but it is too early to say that this or that model for us—there is work still to be done in that regard. However, the aim is to ensure that we have a programme in place for the west and the Valleys after 2011.

Yr wyf yn diolch i'r Aelodau am natur a lefel y ddadl. Mae'n deg dweud bod yr holl Aelodau'n cefnogi'r hyn y mae cyllid cydlyniant wedi'i wneud i Gymru dros y degawd diwethaf. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod gennym raglenni ar waith a fydd yn caniatáu inni bontio o 2013 ymlaen. Mae hynny'n rhywbeth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei gefnogi. Credaf, drwy gydweithio, y bydd hynny'n sicr yn cryfhau ein hachos yn Llundain ac ym Mrwsel i wneud yn siŵr, beth bynnag a ddigwydd ar ôl i gyllid cydgyfeirio ddod i ben, y bydd gennym raglen foddhaol a fydd yn fanteisiol i'r rheini sy'n byw yn y gorllewin a'r Cymoedd neu yn y dwyrain.

Rhodri Glyn Thomas *rose—*

The Presiding Officer: Order. The First Minister has sat down.

Rhodri Morgan: I believe this afternoon's debate has shown how you can have an interesting debate where everyone is almost entirely agreed on an issue. I believe we have achieved that this afternoon. Everyone is aware that this issue will increase in its importance to Wales over the next three years.

Gobeithio y bydd y broses y byddwn ni fel pwyllgor yn ei dilyn i gynnal a goruchwyllo ymchwiliadau pellach i gydlyniant, wrth inni symud o adroddiad interim i fersiwn derfynol, yn cyfrannu at ymdrechion Llywodraeth y Cynulliad i arwain ar y mater

question on Wales's behalf. Leading the effort is clearly not a function of the committee; all that we can do is try to elicit more information. We can try to assist the Assembly Government by pulling together the views of the Members of the European Parliament, the Committee of the Regions, other social partners, Welsh local government, and the world of business in Wales above all, to ensure that they can see what might be lost if there is too sudden a cut-off—or a total cut-off—from the beginning of 2014 onwards. In spend terms, however, the cut-off will probably be felt in 2015-16.

If we all agree on the principle that there should be some sort of transition funding, we must ask why it is being debated at all. The answer is that we know that there is a threat, because there is a long-held belief among the net-payer governments—of which the UK Government is one and Germany is another—that defining European cohesion policy on a member state basis would simplify the whole issue. However, this simplification would mean that the so-called new accession countries—the old Warsaw pact countries—would be the ones to which regional and social policy is devoted. We know from the leaked letter from the European presidency that that idea was beginning to gain some currency in Brussels. That is where the threat lies.

The Assembly Government should intervene to head off this threat, and do so in the knowledge that it has all four parties behind it; the whole of the Assembly is behind it. We must then get around the issue of a model of transition funding, and question whether it would be the traditional model of tapered funding. That would be the same stream of funding, but going from 80 per cent of what one had before in year 1 to 60 per cent, to 40 per cent, to 20 per cent and then to nothing in the last few years. This is what has happened in the past. This model may not be the right one for the future, because we have had evidence that one could recast the whole process to get away from the simple 75 per cent yes/no threshold. With that process, one is either in or out depending on having 75 per

hwn ar ran Cymru. Mae'n amlwg nad yw arwain yr ymdrech yn swyddogaeth i'r pwyllgor; y cyfan y gallwn ni ei wneud yw ceisio dod o hyd i fwy o wybodaeth. Gallwn geisio cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad drwy gasglu barn Aelodau o Senedd Ewrop, Pwyllgor y Rhanbarthau, partneriaid cymdeithasol eraill, llywodraeth leol Cymru, a byd busnes yng Nghymru yn anad neb, i sicrhau eu bod yn gallu gweld yr hyn y gellid ei golli pe bai'r arian yn dod i ben yn rhy sydyn—neu'n dod i ben yn llwyr—o ddechrau 2014 ymlaen. O safbwynt gwariant, fodd bynnag, mae'n debyg mai yn 2015-16 y teimlir effaith y ffaith bod yr arian yn dod i ben.

Os ydym i gyd yn cytuno â'r egwyddor y dylid cael rhyw fath o gyllid pontio, rhaid inni ofyn pam y mae'n destun dadl o gwbl. Yr ateb yw ein bod yn gwybod bod bygythiad, oherwydd mae llywodraethau sy'n dalwyr net—mae Llywodraeth y DU yn un ac mae'r Almaen yn un arall—wedi credu ers tro y byddai diffinio polisi cydlyniant Ewropeaidd ar sail aelod-wladwriaethau yn symleiddio'r holl fater. Fodd bynnag, byddai'r symleiddio hwnnw'n golygu mai'r gwledydd newydd sydd wedi'u derbyn—hen wledydd cytundeb Warsaw—fyddai'r gwledydd y byddai polisi rhanbarthol a pholisi cymdeithasol yn canolbwyntio arnynt. Gwyddom o'r llythyr a ddatgelwyd yn answyddogol gan lywyddiaeth Ewrop fod y syniad hwnnw'n dechrau ennill tir ym Mrwsel. Dyna lle mae'r bygythiad.

Dylai Llywodraeth y Cynulliad ymyrryd i atal y bygythiad hwn, a dylai wneud hynny gan wybod bod y pedair plaid y tu cefn iddi; mae'r Cynulliad cyfan y tu cefn iddi. Yna, rhaid inni fynd i'r afael â model cyllid pontio, a gofyn a fyddai'r model yn un traddodiadol lle byddai cyllid yn lleihau'n raddol. Yr un ffrwd cyllid fyddai dan sylw, ond byddai'n newid o 80 y cant o'r hyn a gaem o'r blaen ym mlwyddyn 1 i 60 y cant, i 40 y cant, i 20 y cant, ac yna i ddim yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Dyna sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Efallai nad y model hwn yw'r un cywir ar gyfer y dyfodol, oherwydd cawsom dystiolaeth sy'n dangos y gellid ail-lunio'r broses gyfan i symud oddi wrth y trothwy ie/na 75 y cant syml. Gyda'r broses honno, mae rhanbarth naill ai'n cael

cent GVA per head—or GDP, as is still used in Europe—and everyone recognises that that is an old-fashioned model. However, we do not know whether we can ever get away from that model.

This interim report will support the Assembly Government in pushing forward this debate with very strong backing from everybody across the political parties and from our social partners. The Assembly Government now knows that it has that backing and that the committee will continue with its report in future in order to elicit further information on what would be the right model for transition funding after 2013.

To close, on behalf of everybody on the committee, including the staff and witnesses, I pay tribute to Sandy for her work as Chair, not only of this committee but of many others. Having been an almost ever-present witness at the committee over a period of five years, I very much admire the way in which she chaired the committee, and I will be extremely proud of my record if I can do half as well in future.

Y Llywydd: Y cwestiwn yw bod y Cynulliad yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Gwelaf nad oes gwrthwynebiad. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, yr wyf yn datgan bod y cynnig wedi cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

Pwynt o Drefn Point of Order

The Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport (Ieuan Wyn Jones): Point of order. By chance, I heard the point of order raised by Andrew R.T. Davies. I also heard the response that you gave to him, Llywydd. I thought that it might be helpful to the Assembly, in view of the concern that he expressed, if I clarified the position in relation to the series of

neu'n methu â chael arian, yn dibynnu ar fod â gwerth ychwanegol crynswth y pen o 75 y cant—neu gynnyrch mewnwladol crynswth, a ddefnyddir o hyd yn Ewrop—ac mae pawb yn cydnabod bod hwnnw'n fodel hen ffasiwn. Fodd bynnag, ni wyddom a allwn fyth symud i ffwrdd o'r model hwnnw.

Bydd yr adroddiad interim hwn yn cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad i wthio'r ddadl hon yn ei blaen, gyda chefnogaeth gref iawn gan bawb ar draws y pleidiau gwleidyddol a chan ein partneriaid cymdeithasol. Gŵyr Llywodraeth y Cynulliad yn awr fod y gefnogaeth honno ganddi, ac y bydd y pwyllgor yn parhau gyda'i adroddiad yn y dyfodol i ddod o hyd i wybodaeth bellach am y model a fyddai'n gywir ar gyfer cyllid pontio ar ôl 2013.

I gloi, ar ran pawb ar y pwyllgor, gan gynnwys y staff a'r tystion, hoffwn roi teyrnged i Sandy am ei gwaith fel Cadeirydd, nid yn unig ar y pwyllgor hwn, ond ar nifer o bwyllgorau eraill hefyd. Gan imi fod yn dyst a oedd bron byth yn absennol o'r pwyllgor dros gyfnod o bum mlynedd, yr wyf yn edmygu'n fawr iawn y ffordd y cadeiriodd Sandy y pwyllgor, a byddaf yn ymfalchïo'n fawr os gallaf gyflawni gwaith hanner cystal yn y dyfodol.

The Presiding Officer: The question is that the Assembly notes the report of the Committee on European and External Affairs. I see there are no objections. Therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, I declare that the motion is agreed.

Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones): Pwynt o drefn. Digwyddais glywed y pwynt o drefn a godwyd gan Andrew R.T. Davies. Yn ogystal, clywais yr ymateb a roesoch iddo, Lywydd. Tybiais y gallai fod o gymorth i'r Cynulliad, yng ngoleuni'r pryder a fynegodd, pe bawn yn egluro'r sefyllfa ynglŷn â'r gyfres o

questions he asked on Bosch.

I have now asked my office to undertake research into the dates on which various events happened, and to give complete assurance to the Assembly that the two key issues in relation to written Assembly questions are being adhered to strictly by my department—first, that the detail of the response is as full as possible, and secondly, that it is as timely as the research necessary allows.

4.00 p.m.

The questions were tabled by Andrew R.T. Davies on 20 January. On 21 January, they were released to my department for a draft response. Officials then came to me with the draft response. In view of the considerable interest that I knew there would be in that matter, because of the Bosch announcement, I asked my officials to undertake further research to enable us to give as full and as detailed a reply as possible. As a result—and as is normal practice—my office issued a holding reply indicating that a more detailed response would follow. My officials are now conducting that further research. As is the convention, a full reply will be issued within eight days of the holding reply. I want to give Andrew R.T. Davies, you, and the Assembly my assurance that this matter is getting all the attention of my officials, and that no discourtesy was intended to be shown to anybody. Had Andrew contacted my office, I would have told him that.

Andrew R.T. Davies: I am most grateful to the Deputy First Minister for highlighting to Plenary this afternoon the actions that his ministry is undertaking. I look forward to receiving the full answers in due course.

The Presiding Officer: If I may also say so, the presence of the Deputy First Minister, even if it was inadvertent in response to your point of order, is very helpful to me in seeking to ensure that there is always good accountability by Ministers and a free flow of information. It also helps us to make progress with one of the recommendations of the recent panel on the arrangements for support

gwestiynau a ofynnwyd ganddo am Bosch.

Yr wyf bellach wedi gofyn i'm swyddfa ymchwilio i'r dyddiadau pan ddigwyddodd amryw bethau, a rhoi sicrwydd llwyr i'r Cynulliad bod fy adran yn cadw'n agos iawn at y ddau fater allweddol yn ymwneud â chwestiynau ysgrifenedig i'r Cynulliad—sef, yn gyntaf, fod yr ymateb mor fanwl ag sy'n bosibl, ac yn ail, ei fod mor brydlon ag a ganiateir gan yr ymchwil sy'n angenrheidiol.

Cyflwynwyd y cwestiynau gan Andrew R.T. Davies ar 20 Ionawr. Ar 21 Ionawr, cawsant eu rhyddhau i'm hadran er mwyn llunio ymateb drafft. Yn dilyn hynny, cefais ymateb drafft gan fy swyddogion. Gwyddwn y byddai gan bobl ddiddordeb mawr yn y mater, oherwydd y cyhoeddiad am Bosch, ac yng ngoleuni hynny gofynnais i'm swyddogion ymchwilio ymhellach i'n galluogi i roi ateb mor llawn a manwl â phosibl. O ganlyniad—ac fel sy'n arferol—cyhoeddodd fy swyddfa ateb dros dro a ddangosai y byddai ymateb manylach yn dilyn. Mae fy swyddogion wrthi'n gwneud y gwaith ymchwil pellach hwnnw'n awr. Fel sy'n arferol, caiff ateb llawn ei gyhoeddi cyn pen wyth diwrnod ar ôl yr ateb dros dro. Yr wyf am roi sicrwydd i Andrew R.T. Davies, i chi, ac i'r Cynulliad fod fy swyddogion yn rhoi eu sylw llawn i'r mater hwn, ac nad oeddem yn bwriadu ymddwyn yn anghwrtais tuag at neb. Pe bai Andrew wedi cysylltu â'm swyddfa, byddwn wedi dweud hynny wrtho.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn hynod ddiolchgar i'r Dirprwy Brif Weinidog am dynnu sylw'r Cyfarfod Llawn y prynhawn yma at y camau gweithredu y mae ei weinyddiaeth yn eu cymryd. Edrychaf ymlaen at gael yr atebion llawn maes o law.

Y Llywydd: Hoffwn innau ddweud bod presenoldeb y Dirprwy Brif Weinidog, hyd yn oed os oedd hynny'n anfwriadol i ymateb i'ch pwynt o drefn, yn ddefnyddiol iawn imi wrth geisio sicrhau bod lefel dda o atebolrwydd gan Weinidogion a bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo'n hwylus. Mae'n ddefnyddiol hefyd er mwyn inni wneud cynnydd gydag un o

for Members: to ensure that we have effective communication. I would like to thank the Deputy First Minister, and also—since we are all thanking each other—Andrew R.T. Davies for the positive way in which he responded to the Deputy First Minister’s assurance. I would also like to thank you all before I leave you for the afternoon in the capable hands of the Deputy Presiding Officer.

argymhellion y panel diweddar am y trefniadau ar gyfer cymorth i Aelodau: sef sicrhau ein bod yn cyfathrebu’n effeithiol. Hoffwn ddiolch i’r Dirprwy Brif Weinidog, a diolch hefyd—gan ein bod wrthi’n diolch i’n gilydd—i Andrew R.T. Davies am y ffordd gadarnhaol yr ymatebodd i’r sicrwydd a roddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog. Hoffwn ddiolch yn ogystal i bob un ohonoch, cyn eich gadael am y prynhawn yn nwylo medrus y Dirprwy Lywydd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i’r Gadair am 4.02 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 4.02 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Tlodi Plant Child Poverty

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of Peter Black.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt a gwelliant 2 yn enw Peter Black.

Mark Isherwood: I move that

Mark Isherwood: Cynigiau fod

the National Assembly for Wales expresses concern at child poverty levels in Wales and calls on the Welsh Assembly Government to review its child poverty strategy to better address the underlying causes. (NDM4391)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mynegi pryder ynghylch lefelau tlodi plant yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i adolygu ei strategaeth tlodi plant i fynd i’r afael â’r achosion gwaelodol yn well. (NDM4391)

Research published by Save the Children last week revealed that Wales suffers the highest rate of children living in severe poverty in the UK: 96,000 Welsh children exist without the basic necessities of life. Severe poverty is defined as living on less than £12,220 a year for a couple with one child, to cover basic essentials such as food, utility bills, clothing, transport, healthcare and activities for children. An extra 260,000 children in the United Kingdom were pushed into severe poverty during four years of economic boom even before the recession hit in 2008, taking the UK total to 1.7 million. Save the Children concluded that efforts to reduce child poverty, with Government targets to eradicate it by 2020, have not only stalled but ‘slid into reverse’. Some 13 per cent of the UK’s children live in households earning 50 per

Yr oedd gwaith ymchwil a gyhoeddwyd gan Achub y Plant yr wythnos diwethaf yn dangos mai Cymru sydd â’r gyfradd uchaf yn y DU o blant sy’n byw mewn tlodi difrifol: mae 96,000 o blant yng Nghymru yn byw heb angenrheidiau sylfaenol bywyd. Yn achos pâr ag un plentyn, caiff tlodi difrifol ei ddiffinio fel byw ar lai na £12,220 y flwyddyn i dalu am hanfodion sylfaenol megis bwyd, biliau trydan a nwy, dillad, cludiant, gofal iechyd a gweithgareddau i’r plant. Cafodd 260,000 yn ychwanegol o blant yn y Deyrnas Unedig eu gwthio i dlodi difrifol yn ystod pedair blynedd o dwf economaidd hyd yn oed cyn i’r dirwasgiad ein taro yn 2008, gan fynd â chyfanswm y DU i 1.7 miliwn. Daeth Achub y Plant i’r casgliad fod ymdrechion i leihau tlodi plant, yn unol â thargedau’r Llywodraeth i’w ddileu

cent below the average UK income, but that rises to 15 per cent in Wales. Scotland has fewer children living in severe poverty than Wales, despite having almost double our population.

The rise in the number of children living in severe poverty has occurred against a backdrop of rising levels of overall child poverty. Last June's report by the Joseph Rowntree Foundation, 'Monitoring poverty and social exclusion in Wales 2009', found that even before the recession, half the previous improvement made on child poverty had already been lost. The percentage of children living in child poverty is higher in Wales than in any other UK nation. UK Government figures show a 3 per cent increase in average poverty risk levels in Wales over the past three years. In Wales, 32 per cent of children, almost one in three, now live in poverty. That means that 192,000 children in Wales face living in a home that gets less than 60 per cent of the median UK household income.

Bethan Jenkins: I welcome the statistics that you are giving here today, but can you guarantee that, if the Tories were to win the general election, you could ease the burden of tax on the poorest in society and place it instead on the richest in society?

Mark Isherwood: I cannot forecast what the next UK Government may or may not do. Suffice it to say that this will be a priority for us, but we are inheriting one hell of a financial mess, and so we have to live within our means. However, this is a priority, and I will make reference to it later in my speech.

As we move from a decade of missed opportunity to a decade of austerity, we need action to tackle the underlying causes of child poverty. Labour's pledge to halve child poverty in Wales by 2010 is now in tatters.

erbyn 2020, nid yn unig wedi arafu, ond wedi dechrau mynd am yn ôl. Mae oddeutu 13 y cant o blant y DU yn byw mewn cartrefi sy'n ennill 50 y cant yn llai na chyfartaledd incwm y DU, ond mae hynny'n codi i 15 y cant yng Nghymru. Mae gan yr Alban lai o blant yn byw mewn tlodi difrifol na Chymru, er bod poblogaeth yr Alban bron ddwywaith cymaint â phoblogaeth Cymru.

Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi difrifol wedi digwydd yng nghyd-destun lefelau cynyddol o dlodi plant yn gyffredinol. Darganfu'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin y llynedd gan Sefydliad Joseph Rowntree, 'Monitoring poverty and social exclusion in Wales 2009', fod hanner y gwelliannau a wnaed yn flaenorol ym maes tlodi plant eisoes wedi eu colli, cyn y dirwasgiad hyd yn oed. Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi yn uwch yng Nghymru nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU. Dengys ffigurau Llywodraeth y DU gynnydd o 3 y cant yng nghyfartaledd y lefelau risg o dlodi yng Nghymru yn ystod y tair blynedd diwethaf. Yng Nghymru, mae 32 y cant o blant, sef bron un o bob tri, yn byw mewn tlodi erbyn hyn. Mae hynny'n golygu bod 192,000 o blant yng Nghymru yn wynebu byw mewn cartref sy'n cael llai na 60 y cant o ganolrif incwm cartrefi'r DU.

Bethan Jenkins: Yr wyf yn croesawu'r ystadegau yr ydych yn eu cyflwyno yma heddiw, ond a allwch ein sicrhau, pe bai'r Toriaid yn ennill yr etholiad cyffredinol, y gallech leihau baich treth ar y bobl dlotaf mewn cymdeithas a'i gosod ar y bobl gyfoethocaf mewn cymdeithas yn lle hynny?

Mark Isherwood: Ni allaf ragweld beth fydd Llywodraeth nesaf y DU yn ei wneud neu beth na fydd yn ei wneud. Digon yw dweud y bydd hyn yn flaenoriaeth inni, ond yr ydym yn etifeddu cythraul o smonach ariannol, felly, rhaid inni fyw o fewn ein handodau. Fodd bynnag, mae'r mater hwn yn flaenoriaeth, a byddaf yn cyfeirio ato'n ddiweddarach yn fy araith.

Wrth inni symud o ddegawd o gollu cyfle i ddegawd o lymder, mae angen inni weithredu i fynd i'r afael ag achosion gwaelodol tlodi plant. Mae addewid y Blaid Lafur i haneru tlodi plant yng Nghymru erbyn 2010 yn

Hence, our motion expressing concern at child poverty levels in Wales, and calling on the Welsh Government to review its child poverty strategy to address the underlying causes better.

As the Joseph Rowntree Foundation found, around 60 per cent of children in poverty live in a household in which no-one works. Forty-two per cent live in a household headed by one adult. Forty per cent of children who have a disabled parent are living in poverty, compared with 25 per cent of those with non-disabled parents. It stated that, despite the importance of employment to eradicating child poverty, welfare-to-work programmes have not been a prominent feature in the child poverty strategy in Wales.

In the 'What is needed to end child poverty in 2020?' report, Hirsch argues that improving routes to work requires a new drive if child poverty is to be eradicated. He says that we need to remove the barriers to flexible and good-quality employment, including promoting family-friendly working in public and private sectors, supporting benefit advice and take-up for all vulnerable groups, and working with the UK Government to remove the barriers to work in the tax and benefits system, including housing benefit.

Measures to eradicate child poverty must adequately address the energy and housing needs of families with children. That follows a decade of devolved housing cuts, the failure to tackle the root causes of addiction, widening education funding gaps, and educational funding that has subsidised deprivation instead of targeting educational failure.

On a visit to the secure children's home in Neath, I was told that most young offenders are on medication when they arrive, for conditions such as attention-deficit hyperactivity disorder, but that many of them are taken off the medication when they get effective early intervention for the first time

deilchion erbyn hyn. Dyna pam yr ydym yn cyflwyno ein cynnig, sy'n mynegi pryder am lefelau tlodi plant yng Nghymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei strategaeth tlodi plant i fynd i'r afael â'r achosion gwaelodol yn well.

Fel y darganfu Sefydliad Joseph Rowntree, mae oddeutu 60 y cant o blant sy'n byw mewn tlodi yn byw mewn cartref lle nad oes neb yn gweithio. Mae 42 y cant ohonynt yn byw mewn cartref lle mae un oedolyn. Mae 40 y cant o blant sydd â rhiant anabl yn byw mewn tlodi, o'u cymharu â 25 y cant o'r rheini sydd â rhieni nad ydynt yn anabl. Roedd yr adroddiad yn nodi nad yw rhaglenni budd-dal i waith wedi bod yn nodwedd amlwg yn y strategaeth tlodi plant yng Nghymru, er mor bwysig yw cyflogaeth i ddileu tlodi plant.

Yn yr adroddiad 'What is needed to end child poverty in 2020?', mae Hirsch yn dadlau bod angen sbardun newydd i wella llwybrau at waith os ydym am ddileu tlodi plant. Dywed bod angen inni ddileu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael swyddi o safon sy'n cynnig trefniadau gweithio hyblyg, gan gynnwys hybu trefniadau gweithio sy'n hwylus i bobl sydd â phlant, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cynorthwyo pob grŵp o bobl sy'n agored i niwed i gael cyngor am fudd-daliadau a'u hawlio, a gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddileu'r rhwystrau rhag cael gwaith yn y system dreth a budd-daliadau, gan gynnwys budd-dal tai.

Rhaid i fesurau i ddileu tlodi plant fynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion teuluoedd sydd â phlant o ran ynni a thai. Mae hynny'n dilyn degawd o doriadau tai wedi'u datganoli, methiant i ymdrin ag achosion sylfaenol dibyniaeth ar sylweddau, bylchau cynyddol yn y cyllid sydd ar gael ar gyfer addysg, a chyllid addysg sydd wedi sybsideiddio amddifadedd yn hytrach na thargedu methiant addysgol.

Wrth ymweld â'r cartref diogel i blant yng Nghastell-nedd, cefais wybod bod y rhan fwyaf o droseddwyr ifanc yn cymryd meddyginiaeth pan fyddant yn cyrraedd y cartref, i drin cyflyrau megis anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, ond bod nifer ohonynt yn dod rhoi'r gorau i

in their lives, which identifies and addresses underlying issues of trauma and psychosis.

‘Communities First is the Welsh Assembly Government’s flagship programme to improve the living conditions and prospects for people in the most disadvantaged communities across Wales.’

I took that quotation from the Welsh Government’s website. However, the Wales Audit Office review of Communities First stated that the programme has emerged from chaos, it was not planned, there was an absence of basic financial and human resource planning before the programme was launched, and the bids were therefore not assessed properly. We should not be surprised, more than £200 million later, by current allegations of waste and worse ranging from Plas Madoc, Wrexham to north Abergavenny.

In its evidence on the Proposed Children and Families (Wales) Measure, Children in Wales stated that,

‘At the very beginning, there was a need to look at where the huge deprivation was to be found and to see where we could effectively target resources first. However, Flying Start and Communities First have been in place for some years. It is time to move on and to be a bit more flexible, so that we move away from the system in which one family on one side of the street can access services, support and free childcare, but a family across the street that is in a worse financial situation cannot.’

The Joseph Rowntree Foundation expressed concerns about the proposed Measure’s ability to address child poverty if the strategy was to rely entirely on the Cymorth and Flying Start programmes. It said that research suggested that there are more children in poverty living outside the areas designated as disadvantaged than inside them. It went on to say that

gymryd y feddyginiaeth pan gânt ymyriad cynnar effeithiol am y tro cyntaf yn eu bywyd, sy’n adnabod problemau gwaelodol trawma a seicosis ac yn mynd i’r afael â hwy.

‘Cymunedau yn Gyntaf yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella amodau byw a rhagolygon y bobl yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru.’

Cymerais y dyfyniad hwnnw o wefan Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, yr oedd adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o Gymunedau yn Gyntaf yn dweud bod y rhaglen wedi deillio o ganol anhrefn, nid oedd wedi’i chynllunio, ac nid oedd gwaith cynllunio sylfaenol wedi’i wneud o ran adnoddau ariannol ac adnoddau dynol cyn i’r rhaglen gael ei lansio, ac felly ni chafodd y cynigion eu hasesu’n iawn. Ar ôl gwario dros £200 miliwn, ni ddylem synnu clywed yr honiadau presennol am wastraffu adnoddau a phethau gwaeth na hynny, sy’n ymestyn o Blas Madoc, Wrecsam i ogledd y Fenni.

Yn ei dystiolaeth ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru), dywedodd Plant yng Nghymru,

Ar y dechrau un, yr oedd angen edrych ar y manau hynny lle’r oedd amddifadedd enfawr a gweld ymhle y gallem dargedu adnoddau’n effeithiol gyntaf. Serch hynny, mae Dechrau’n Deg a Cymunedau yn Gyntaf wedi bod ar waith ers llawer blwyddyn. Mae’n bryd symud ymlaen a bod ychydig yn fwy hyblyg, er mwyn inni symud oddi wrth system lle mae un teulu ar y naill ochr i’r stryd yn gallu manteisio ar wasanaethau, cymorth a gofal plant am ddim, ond lle na all teulu ar yr ochr arall i’r stryd wneud hynny er ei fod yn waeth ei fyd.

Dywedodd Sefydliad Joseph Rowntree y byddai’n poeni o ddifrif am allu’r Mesur arfaethedig i fynd i’r afael â thlodi plant petai’r strategaeth yn dibynnu’n llwyr ar y rhaglen Cymorth a’r rhaglen Dechrau’n Deg. Dywedodd fod gwaith ymchwil yn awgrymu bod mwy o blant mewn tlodi yn byw y tu allan i’r ardaloedd a ddynodwyd yn ardaloedd dan anfantais nag sy’n byw y tu mewn iddynt. Aeth rhagddo i ddweud

‘More broadly, relying on programmes that are geographically targeted to deliver on a goal that is household-based will cause some problems. Everything points to the two programmes being very good, and doing an immense amount of good, but it seems highly unlikely that they will be sufficient in themselves to deliver on the child poverty goal. There will be families that do not fall within those criteria that really need support.’

The children’s commissioner supported that view.

‘My office receives calls from families who see other families, perhaps across the road or in the neighbouring village, such is the targeting, accessing services and support that they cannot access. You can explain the targeted approach to them and why it should be the case, but...it does not make a lot of sense to the people living in that community or having that experience.’

4.10 p.m.

We must therefore move from an area-based approach to a child-centred approach, and we will support the Liberal Democrats’ amendment 2 accordingly.

Save the Children states that

‘there remains a relatively high likelihood of severe poverty among children in workless households. Children in workless households are more likely to be living in severe poverty than in non-severe poverty’.

However, economic inactivity in Wales—already the highest in the UK—has grown yet again, taking the combined number of working-aged people in Wales not in work to 554,000, or one in three. I am sure that Members will agree that that is a shocking figure.

As Save the Children states, that analysis reinforces a clear message.

Yn fwy cyffredinol, bydd dibynnu ar raglenni sydd wedi’u targedu’n ddaearyddol er mwyn gwireddu nod yn seiliedig ar aelwydydd yn achosi rhai problemau. Mae popeth yn awgrymu bod y ddwy raglen yn dda iawn, a’u bod yn gwneud llawer iawn o les, ond mae’n ymddangos yn annhebygol y byddant yn ddigon ar eu pen eu hunain i gyrraedd y nod o ran tlodi plant. Bydd rhai teuluoedd nad ydynt yn dod o fewn y meini prawf hynny, er bod gwir angen cymorth arnynt.

Yr oedd y comisiynydd plant yn cefnogi’r farn honno.

Bydd fy swyddfa’n cael galwadau gan deuluoedd sy’n gweld teuluoedd eraill, dros y ffordd efallai, neu yn y pentref nesaf, oherwydd y targedu, yn gallu manteisio ar wasanaethau a chymorth na allant hwy fanteisio arnynt. Gallwch esbonio’r targedu wrthynt a pham mai felly y dylai fod, ond...nid yw’n gwneud llawer o synnwyr i’r bobl sy’n byw yn y gymuned honno neu’n cael y profiad hwnnw.

Felly, rhaid inni symud o ddull yn seiliedig ar ardaloedd i ddull sydd â’r plentyn yn ganolog iddo, a byddwn yn cefnogi gwelliant 2 gan y Democratiaid Rhyddfrydol o ganlyniad.

Mae Achub y Plant yn dweud bod

tebygolrwydd cymharol uchel y bydd tlodi difrifol yn parhau ymysg plant mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio. Mae plant sy’n byw mewn cartrefi lle nad oes neb yn gweithio yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi difrifol na thlodi nad yw’n ddifrifol.

Fodd bynnag, mae anweithgarwch economaidd yng Nghymru—sydd eisoes yn uwch nag mewn unrhyw le arall yn y DU—wedi cynyddu unwaith yn rhagor, gan fynd â nifer y bobl o oed gweithio yng Nghymru nad ydynt yn gweithio i 554,000, neu un o bob tri. Yr wyf yn siŵr y bydd Aelodau’n cytuno bod y ffigur hwnnw’n syfrdanol.

Fel y mae Achub y Plant yn ei ddweud, mae’r dadansoddiad hwnnw’n atgyfnerthu neges glir.

‘Current government policy and support is clearly not reaching the children that need help the most. Further, the goal of eradicating child poverty once and for all will not be achieved unless urgent attention is given to meeting the needs of the poorest children and their families.’

The National Childminding Association has stated that the Save the Children report should be of ‘major concern’ to everyone living in Wales and the UK and that the provision of quality, home-based, affordable childcare is a key method of combating child poverty. Its representatives came to see me last week to identify huge gaps in current provision.

The Proposed Children and Families (Wales) Measure reforms services to vulnerable children and families in Wales. When debating the proposed Measure, an opposition amendment requiring a Welsh authority to consult with the voluntary sector was defeated by Labour and Plaid Cymru. The consequence is that the Barnardo’s Flintshire Families Matter service, identified in the draft external evaluation report for the Welsh Government as the most effective pilot scheme for the integrated family support team model launched by the proposed Measure, is facing redundancies because of uncertainty over funding. Further to that, local authority pioneer teams have made no attempt to engage with it.

Material poverty is not the only concern. With the gap between rich and poor the widest it has been since the second world war, what matters most to a child’s life chances is the wealth of their upbringing and the warmth of the parenting that they receive. As Stephen Scott of the National Academy for Parenting Practitioners has said,

‘It seems to be poverty of the parent-child experience...that leads to poor child outcomes’.

Mae’n amlwg nad yw polisiâu presennol y Llywodraeth a’r gefnogaeth a ddarperir ganddi yn cyrraedd y plant y mae mwyaf angen y cymorth arnynt. At hynny, ni fyddwn yn llwyddo i gyrraedd y nod o ddileu tlodi plant unwaith ac am byth oni rown sylw ar frys i ddiwallu anghenion y plant tlotaf a’u teuluoedd.

Mae’r Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant wedi dweud y dylai adroddiad Achub y Plant beri pryder mawr i bawb sy’n byw yng Nghymru a’r DU, a bod darparu gofal plant sydd o safon, sy’n cael ei gynnig yn y cartref ac sy’n fforddiadwy, yn ffordd allweddol i ymladd tlodi plant. Daeth cynrychiolwyr y Gymdeithas i’w gweld yr wythnos diwethaf i nodi bylchau enfawr yn y ddarpariaeth bresennol.

Mae’r Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) yn diwygio gwasanaethau i blant a theuluoedd yng Nghymru sy’n agored i niwed. Mewn dadl ar y Mesur arfaethedig, trechodd y Blaid Lafur a Phlaid Cymru welliant a gynigiwyd gan y gwrthbleidiau yn mynnu y dylai awdurdod yng Nghymru ymgynghori â’r sector gwirfoddol. Canlyniad hynny yw bod gwasanaeth *Families Matter* gan Barnardo’s yn Sir y Fflint yn wynebu diswyddiadau oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid, a hynny er iddo gael ei nodi yn fersiwn ddrafft yr adroddiad gwerthuso allanol ar gyfer Llywodraeth Cymru fel y cynllun peilot mwyaf effeithiol ar gyfer model y tîm integredig cymorth i deuluoedd a lansiwyd gan y Mesur arfaethedig. At hynny, nid yw timau arloesi’r awdurdodau lleol wedi gwneud dim ymdrech i ymgysylltu â’r gwasanaeth.

Nid tlodi materol yw’r unig beth sy’n peri pryder. Gyda’r bwlch rhwng y cyfoethog a’r tlawd yn fwy nag a fu ers yr ail ryfel byd, y peth pwysicaf i gyfleoedd plentyn mewn bywyd yw cyfoeth ei fagwraeth a chynhesrwydd y rhieni. Fel y dywedodd Stephen Scott o’r Academi Genedlaethol ar gyfer Ymarferwyr Rhianta,

Ymddengys mai tlodi yn y berthynas rhwng rhieni a phlant sy’n arwain at ganlyniadau gwael ymysg plant.

It can and should be argued that it is easier to achieve good parenting when there is material prosperity, but we will not build a fairer society unless we also recognise that what happens in the home really matters.

Joyce Watson: Will you take an intervention?

The Deputy Presiding Officer: Order. No, he has finished.

The Deputy Minister for Children (Huw Lewis): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt. Delete all and replace with:

the National Assembly for Wales remains concerned about child poverty levels in Wales and notes that the Welsh Assembly Government is addressing the issues of child poverty through the development of a new child poverty strategy.

Eleanor Burnham: I move amendment 2 in the name of Peter Black. Add as a new point at the end of the motion:

believes that in order to eradicate child poverty, the Welsh Assembly Government must move away from schemes based on geographical areas, and should focus on children in all parts of Wales.

It is very sad that the gap between rich and poor is the widest it has been since the second world war, as Mark said. It is shameful. Fifteen per cent of children in Wales live in severe poverty, and 32 per cent live in poverty. Severe poverty is classed as living on less than 50 per cent of the median UK income and missing basic possessions such as a winter coat, which is stark. Those are Save the Children's facts. The Government classes relative low-income poverty as less than 60 per cent of household median income. Save the Children's report suggests that the recession has brought even more children into the poverty bracket. I want to clarify that our Lib Dem team at Westminster has constantly promised to tax the very richest while raising the poorest out of poverty and relieving them of having to pay basic tax, because it is scandalous that

Gellir dadlau, a dylid dadlau, bod ffyniant materol yn ei gwneud yn haws bod yn rhieni da, ond ni fyddwn yn datblygu cymdeithas decach oni bai ein bod hefyd yn cydnabod bod yr hyn sy'n digwydd yn y cartref yn wirioneddol bwysig.

Joyce Watson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Na, mae wedi gorffen.

Y Dirprwy Weinidog dros Blant (Huw Lewis): Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn parhau i fod yn bryderus ynghylch lefelau tlodi plant yng Nghymru ac yn nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymdrin â materion tlodi plant drwy ddatblygu strategaeth tlodi plant newydd.

Eleanor Burnham: Cynigiau welliant 2 yn enw Peter Black. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

yn credu bod rhaid i Lywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn dileu tlodi plant, ymbellhau oddi wrth gynlluniau sy'n seiliedig ar ardaloedd daearyddol ac y dylai ganolbwyntio ar blant ym mhob rhan o Gymru.

Mae'n drist iawn bod y bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd yn fwy nag a fu ers yr ail ryfel byd, fel y dywedodd Mark. Mae'n warth. Mae 15 y cant o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi difrifol, a 32 y cant o blant yn byw mewn tlodi. Ystyrir bod rhywun yn byw mewn tlodi difrifol os yw'n byw ar lai na 50 y cant o ganolrif incwm y DU, a heb fod ganddo bethau sylfaenol megis cot gaeaf, sy'n syfrdanol. Dyna ystadegau Achub y Plant. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod rhywun yn byw mewn tlodi incwm isel cymharol os yw'n byw ar lai na 60 y cant o ganolrif incwm cartrefi. Mae adroddiad Achub y Plant yn awgrymu bod y dirwasgiad wedi golygu bod hyd yn oed mwy o blant yn byw mewn tlodi. Yr wyf am egluro bod ein tîm o Ddemocratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan wedi addo'n gyson y bydd yn trethu'r bobl fwyaf cyfoethog gan godi'r bobl dlotaf

people on such low incomes have to pay tax. I clarify that before anyone gets up to say that we have not put our money where our mouth is.

I thank the Conservatives for tabling this motion, although I must say that, on a UK basis, I normally associate the Tories with rich people, but we will see how all this goes. I thank the Tories for bringing this motion before us, and we will support it.

Our amendment was proposed in the hope of providing some focus for the funds with which we are trying to get Welsh children out of poverty. Again, I come back to the fact that our cake in Wales is too small. Unless we get the Barnett formula revised, how can we secure a sufficient cake to do something constructive on poverty and everything else? Research undertaken by Children in Wales suggests that there are more children living in poverty outside the target areas than within them. Communities First is very much a targeted programme, but research suggests that there are very poor people living just outside those areas, sometime in the adjacent ward. These people will see money being spent on Communities First areas, but they cannot access it. As was said previously, there are particular issues with Communities First in the north Wales region, one of which has been looked at both by the police and the Wales Audit Office, which is quite startling.

If families and young people fall through the Communities First net, we need to offer support to them, designing individual solutions to individual problems. Flying Start is concentrated on pre-school children in specific geographical areas, and yet other groups of children living nearby are not getting help, even though they are sometimes just as desperate.

The other issue that we have is that, while the spend looks wonderful on paper, no-one is

allan o dlodi a'u rhyddhau o orfod talu treth sylfaenol, oherwydd mae'n warthus fod pobl sy'n ennill incwm mor isel yn gorfod talu treth. Yr wyf am wneud hynny'n glir cyn i neb godi a dweud nad ydym wedi rhoi ein harian ar ein gair.

Yr wyf yn diolch i'r Ceidwadwyr am gyflwyno'r cynnig hwn, ond rhaid imi ddweud fy mod, fel rheol, yn cysylltu'r Toriaid ar lefel y DU â phobl gyfoethog, ond cawn weld sut aiff hi. Yr wyf yn diolch i'r Toriaid am ddod â'r cynnig hwn ger ein bron, a byddwn yn ei gefnogi.

Cynigiwyd ein gwelliant yn y gobaith o roi rhywfaint o ffocws i'r cronfeydd yr ydym yn ceisio'u defnyddio i gael plant Cymru allan o dlodi. Unwaith eto, dof yn ôl at y ffaith ein bod ni yng Nghymru yn cael cyfran rhy fach o gyllid. Oni bai ein bod yn sicrhau bod fformiwla Barnett yn cael ei hadolygu, sut y gallwn sicrhau bod gennym ddigon o gyllid i wneud rhywbeth adeiladol ynghylch tlodi a phopeth arall? Mae gwaith ymchwil a wnaed gan Plant yng Nghymru yn awgrymu bod mwy o blant yn byw mewn tlodi y tu allan i'r ardaloedd a dargedir nag o'u mewn. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn bendant yn rhaglen sy'n targedu ardaloedd, ond mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod pobl dlawd iawn yn byw ychydig y tu allan i'r ardaloedd hynny, yn y ward gyfagos weithiau. Bydd y bobl hyn yn gweld arian yn cael ei wario ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ond ni allant hwy gael yr arian hwnnw. Fel y dywedwyd o'r blaen, mae yna broblemau penodol gyda Chymunedau yn Gyntaf yn rhanbarth y gogledd, ac mae'r heddlu a Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn ymchwilio i un o'r problemau hynny, sy'n eithaf brawychus.

Os bydd teuluoedd a phobl ifanc yn cwmpo trwy rwyd Cymunedau yn Gyntaf, mae angen inni gynnig cymorth iddynt, gan gynllunio atebion unigol i broblemau unigol. Mae Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar blant cynysgol mewn ardaloedd daearyddol penodol, ac eto nid yw grwpiau eraill o blant sy'n byw gerllaw yn cael yr un help, er bod arnynt angen y cymorth lawn cymaint weithiau.

Y broblem arall sydd gennym yw hyn: er bod y gwariant yn edrych yn dda iawn ar bapur,

monitoring the real outcomes. Lots of money is being spent, but no-one can tell how efficacious that is, and whether it is making matters better. We are dependent upon various reports—by Save the Children, the Joseph Rowntree Foundation, Barnardo's, and other august bodies—that tell us that the Government is not monitoring its own spend, which is quite unbelievable. When the Children's Commissioner for Wales was asked three months ago for his priorities for the future, he specified tackling child poverty. He also stated that he was looking for Government support for practical measures, and that there should be no more reviewing of policies, but instead a focus on practicalities that can make a difference. Yet today, the Government proposes an amendment to do just the opposite, and launch another review. We have had enough reviews—we just need to implement these policies, fund them and monitor them so that we can see that they are working. Children need practical help today. We will therefore not be supporting the Government amendment.

Just last week we saw that progress on child poverty has not just halted, but is moving backwards. A lot of these strategies and reports—

The Deputy Presiding Officer: Order. Please wind up now.

Eleanor Burnham: A lot of these strategies and reports are making no difference. While so many people are living in poverty, I challenge the Government to do what I have asked in my speech.

Mohammad Asghar: Thank you for the opportunity to speak on this important matter this afternoon.

In 2007, the 'One Wales' document pledged the Assembly Government to

'support the aim to halve child poverty by 2010 and eradicate child poverty by 2020'.

nid oes neb yn monitro'r canlyniadau go iawn. Caiff llawer o arian ei wario, ond ni all neb ddweud pa mor effeithiol yw hynny, ac a yw'n gwella pethau. Yr ydym yn dibynnu ar amryw adroddiadau—gan Achub y Plant, Sefydliad Joseph Rowntree, Barnardo's a chyrff parchus eraill—sy'n dweud wrthym nad yw'r Llywodraeth yn monitro'i gwariant ei hun, sy'n gwbl anghredadwy. Pan ofynnwyd i Gomisiynydd Plant Cymru dri mis yn ôl am ei flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, soniodd am fynd i'r afael â thlodi plant. Soniodd hefyd ei fod yn ceisio cefnogaeth y Llywodraeth ar gyfer mesurau ymarferol, ac y dylid rhoi'r gorau i adolygu polisïau, a chanolbwyntio yn hytrach ar bethau ymarferol sy'n gallu gwneud gwahaniaeth. Er hynny, heddiw mae'r Llywodraeth yn cynnig gwelliant i wneud rhywbeth sy'n gwbl groes i hynny, ac yn lansio adolygiad arall. Yr ydym wedi cael digon o adolygiadau—y cyfan y mae angen inni ei wneud yw gweithredu'r polisïau hyn, eu cyllido a'u monitro fel y gallwn weld eu bod yn gweithio. Mae angen cymorth ymarferol ar blant heddiw. Felly, ni fyddwn yn cefnogi gwelliant y Llywodraeth.

Mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, gwelsom fod cynnydd gyda thlodi plant nid yn unig wedi aros yn ei unfan ond wedi mynd am yn ôl. Mae nifer o'r strategaethau a'r adroddiadau hyn—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi dddod at y terfyn yn awr.

Eleanor Burnham: Mae nifer o'r strategaethau a'r adroddiadau hyn heb wneud dim gwahaniaeth. Tra bydd cynifer o bobl yn byw mewn tlodi, heriaf y Llywodraeth i wneud yr hyn yr wyf wedi gofyn iddi ei wneud yn fy araith.

Mohammad Asghar: Diolch am gael y cyfle i siarad ar y mater pwysig hwn y prynhawn yma.

Yn 2007, yr oedd y ddogfen 'Cymru'n Un' yn addo y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn

'cefnogi'r nod o haneru tlodi ymhlith plant erbyn 2010 a diddymu tlodi ymhlith plant erbyn 2020'.

The sad fact is that Labour and Plaid have failed to meet the targets that they set themselves. According to Save the Children, the fight against child poverty has ‘slid into reverse’—

Alun Davies *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you take an intervention?

Mohammad Asghar: No, Alun. Sit down.

The Deputy Presiding Officer: Order. You say either ‘yes’ or ‘no’. You do not tell someone to sit down.

Mohammad Asghar: I do not wish to take the intervention, Deputy Presiding Officer.

The Deputy Presiding Officer: He is not taking your intervention, Alun.

Mohammad Asghar: According to Save the Children, 96,000 Welsh children were living in severe poverty in 2007-08. This figure, which the Bevan Foundation describes as a national disgrace, could rise even higher due to the effects of the recession. It is clear that the Assembly Government’s approach to dealing with child poverty is seriously flawed. In spite of various measures, strategies and initiatives, Wales still lacks a clear, coherent and up-to-date approach to eradicating child poverty. Those are not my words, but those of the Children and Young People Committee.

4.20 p.m.

I welcome the Assembly Government’s obligation to establish a new child poverty strategy this year; however, if it is to succeed, it must deal with the root causes of poverty in a far more rigorous way. Many of these, including educational failure, unemployment, addiction and certain benefits like council tax and housing, come within the remit of this Assembly. All these causes need to be addressed to keep families out of poverty, madam speaker. [*Interruption.*]

Alun Davies: Deputy Presiding Officer, I

Y ffaith drist yw fod y Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi methu â chyrraedd y targedau yr oeddent wedi’u gosod iddynt eu hunain. Yn ôl Achub y Plant, mae’r frwydr yn erbyn tlodi plant wedi dechrau mynd am yn ôl—

Alun Davies *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Mohammad Asghar: Na, Alun. Eisteddwch.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dylech ddweud ‘gwnaf’ neu ‘na wna’f’. Ni ddylech ddweud wrth rywun am eistedd.

Mohammad Asghar: Nid wyf yn dymuno derbyn yr ymyriad, Ddirprwy Lywydd.

Y Dirprwy Lywydd: Nid yw’n derbyn eich ymyriad, Alun.

Mohammad Asghar: Yn ôl Achub y Plant, yr oedd 96,000 o blant yn byw mewn tlodi difrifol yng Nghymru yn 2007-08. Gallai effeithiau’r dirwasgiad beri i’r ffigur hwn, a gaiff ei ddisgrifio fel gwarth cenedlaethol gan Sefydliad Bevan, godi hyd yn oed yn uwch. Mae’n amlwg bod diffygion difrifol yn null Llywodraeth y Cynulliad o ymdrin â thlodi plant. Er gwaethaf amryw fesurau, strategaethau a mentrau, nid oes gan Gymru ddull clir, cydlynol a chyfoes o ddileu tlodi plant o hyd. Nid fy ngeiriau i yw’r rhain, ond geiriau’r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Croesawaf rwymedigaeth Llywodraeth y Cynulliad i sefydlu strategaeth newydd ar dlodi plant eleni; fodd bynnag, i lwyddo rhaid iddi ymdrin ag achosion sylfaenol tlodi lawer yn fwy trwyadl. Mae nifer o’r pethau hyn, gan gynnwys methiant addysgol, diweithdra, dibyniaeth ar sylweddau, a rhai budd-daliadau megis y dreth gyngor a thai, yn rhan o gylch gwaith y Cynulliad hwn. Mae angen mynd i’r afael â phob un o’r achosion hyn er mwyn cadw teuluoedd allan o dlodi, fadam siaradwraig. [*Torri ar draws.*]

Alun Davies: Ddirprwy Lywydd, mae

have a point of order—there is no madam speaker here.

Mohammad Asghar: That comment is so typical of you, Alun Davies.

The Deputy Presiding Officer: Order. That is not a point of order. Your point is accurate, Alun, in that there is no madam speaker, but that is not a point of order.

Mohammad Asghar: To eradicate poverty you must create more wealth. You can not defeat poverty through the welfare system and tax credit system alone. We need to combine welfare to work programmes with flexible working, including encouraging family friendly hours. We need to improve childcare provision for school-age children, as well as for the under fives. We also recognise that Government and families cannot, on their own, always find the solutions to getting out of poverty. The helping hand of the voluntary sector is vital. Its role, and that of so many social enterprises, will be central to fighting poverty. By adopting a new strategy of help for parents, through flexible employment, improved childcare and enhancing skills, we can make significant progress in ending child poverty in Wales.

Brian Gibbons: In last year's Tory conference, the leader, David Cameron, said that

'it falls to us, the modern Conservative Party to fight for the poorest'.

He went on to state:

'I want every child to have the chances I had'.

I do not suppose that David Cameron was suggesting that he wanted all the children in Britain to go to Eton or to cycle to work, followed by their chauffeur with a change of clothes for when they got there. However, we will let that pass as merely part of the rhetoric of conference.

David Melding: It is generous of Dr Gibbons

gennyf bwynt o drefn—nid oes yma fadam siaradwraig yma.

Mohammad Asghar: Mae'r sylw hwnnw mor nodweddiadol ohonoch, Alun Davies.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid pwynt o drefn yw hynny. Mae eich pwynt yn gywir, Alun, nid oes yma fadam siaradwraig, ond nid pwynt o drefn yw hynny.

Mohammad Asghar: Er mwyn dileu tlodi, rhaid ichi greu mwy o gyfoeth. Ni allwch drechu tlodi trwy'r system les a'r system credyd treth yn unig. Mae angen inni gyfuno rhaglenni budd-dal i waith â threfniadau gweithio hyblyg, gan gynnwys hybu oriau gweithio sy'n hwylus i bobl sydd â phlant. Mae angen inni wella'r ddarpariaeth gofal plant i blant oed ysgol, yn ogystal ag i blant dan bump oed. Yr ydym hefyd yn cydnabod na all y Llywodraeth a theuluoedd bob amser gael yr atebion i ddod allan o dlodi ar eu pen eu hunain. Mae'r help llaw a roddir gan y sector gwirfoddol yn hollbwysig. Bydd rôl y sector hwnnw, a rôl cynifer o fentrau cymdeithasol, yn ganolog wrth ymladd yn erbyn tlodi. Trwy fabwysiadu strategaeth newydd i helpu rhieni, trwy gyflogaeth sy'n cynnig trefniadau gweithio hyblyg, gwell gofal plant a gwella sgiliau, gallwn wneud cynnydd sylweddol o ran dileu tlodi plant yng Nghymru.

Brian Gibbons: Yng nghynhadledd y Toriaid y llynedd, meddai'r arweinydd, David Cameron

i'n rhan ni, y Blaid Geidwadol fodern, y daw'r dasg o ymladd dros y bobl dlotaf.

Aeth yn ei flaen i ddweud:

Yr wyf am i bob plentyn gael yr un cyfleoedd ag a gefais i.

Nid wyf yn tybio bod David Cameron yn awgrymu ei fod am i bob plentyn ym Mhrydain fynd i Eton, neu feicio i'r gwaith a'i yrrwr yn ei ddilyn gyda set o ddillad glân er mwyn iddo gael newid ar ôl cyrraedd. Fodd bynnag, cymerwn nad yw hynny'n ddim mwy na rhan o rethreg cynadledda.

David Melding: Mae Dr Gibbons yn hael i

to give way. In fairness, he is one of those Members who will mix it up a bit.

It is good to admire politicians from other parties. One of my great heroes is Clement Attlee. The post-war Government was astonishing in what it did to British politics, in establishing the welfare state and making it part of the national consensus. Of course, Attlee went to Eton—or was it Harrow? I may be wrong. [*Laughter.*]

Brian Gibbons: Attlee certainly went on to make a great difference to the lives of people in Wales, which is not something that David Cameron will ever succeed in doing.

Last November, in his Hugo Young lecture, David Cameron strove to spell out his approach to tackling poverty, particularly child poverty, in greater depth. When we consider that lecture, the core of David Cameron's message was that, up to the 1960s, the role of

'the state to advance social justice was...generally successful'.

However, he then flew onto the 1990s, and stated that:

'the size, scope and role of government in Britain has reached a point where it is now inhibiting the progressive aims of reducing poverty, fighting inequality, and increasing general well-being'.

One may ask what happened to the 27 years in between, which Mr Cameron seems to have glided over, ignoring the fact that, for 22 of those 27 years, we had a Conservative Government. What happened in those 27 years? Between 1975 and 1990, the Gini coefficient on inequality increased from 25 to 34 per cent, one of the greatest increases in the last half century. More pertinent to this debate on child poverty, in 1969, the level of child poverty was 12 per cent of children. In 1979, the Conservatives inherited a 15 per cent rate of child poverty. By 1990, that had increased to 34 per cent—a doubling of the rate of child poverty and the worst rate of child poverty in the industrialised world.

ildio. Er tegwch, mae'n un o'r aelodau hynny sy'n fodlon cymysgu pethau ychydig.

Mae'n beth da i edmygu gwleidyddion o bleidiau eraill. Un o'm harwyr mawr yw Clement Attlee. Gwnaeth y Llywodraeth ar ôl y rhyfel bethau rhyfeddol i wleidyddiaeth Prydain, wrth sefydlu'r wladwriaeth les a'i gwneud yn rhan o'r consensws cenedlaethol. Wrth gwrs, aeth Attlee i Eton—ynteu i Harrow? Efallai fy mod yn anghywir. [*Chwerthin.*]

Brian Gibbons: Aeth Attlee yn sicr yn ei flaen i wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl yng Nghymru, sy'n rhywbeth na fydd David Cameron byth yn llwyddo i'w wneud.

Fis Tachwedd diwethaf, yn ei ddarlith Hugo Young, ceisiodd David Cameron amlinellu'n fanylach ei ddull o fynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi plant. Pan ystyriwn y ddarlith honno, cnewyllyn neges David Cameron oedd, hyd at yr 1960au, bod rôl

y wladwriaeth o ran hybu cyfiawnder cymdeithasol wedi bod yn llwyddiannus ar y cyfan.

Fodd bynnag, aeth yn syth yn ei flaen i'r 1990au wedi hynny, gan ddweud bod:

maint, cwmpas a rôl llywodraeth ym Mhrydain wedi cyrraedd man lle mae erbyn hyn yn llesteirio'r gwaith o gyflawni nodau blaengar lleihau tlodi, ymladd anghydraddoldeb a gwella lles cyffredinol.

Gallech ofyn beth ddigwydd i'r 27 mlynedd yn y canol yr ymddengys fod Mr Cameron swedi llithro drostynt, gan anwybyddu'r ffaith ein bod wedi cael Llywodraeth Geidwadol am 22 o'r 27 mlynedd hynny. Beth ddigwyddodd yn ystod y 27 mlynedd hynny? Rhwng 1975 ac 1990, cynyddodd cyfernod Gini ar anghydraddoldeb o 25 y cant i 34 y cant, sydd gyda'r cynnydd mwyaf a welwyd yn ystod yr hanner canrif diwethaf. Yr hyn sy'n fwy perthnasol i'r ddadl hon ar dlodi plant yw fod lefel tlodi plant yn 1969 yn 12 y cant o blant. Yn 1979, etifeddodd y Ceidwadwyr gyfradd tlodi plant o 15 y cant. Erbyn 1990 yr oedd y gyfran honno wedi cynyddu i 34 y cant—felly yr oedd y gyfradd

tlodi plant wedi dyblu, a dyna'r gyfradd waethaf yn y byd diwydiannol.

Angela Burns: I am grateful to Dr Gibbons for taking my intervention. I am curious to know why, if it was all the Conservatives' fault from 1969 and we set the scene for this child poverty rate, the Welsh Assembly Government adopted the target of halving it by 2010 and eradicating it by 2020? You obviously did not think that you could succeed in that if we did so badly in 1969. Why on earth did you adopt those targets to begin with? Those are your targets: you have failed.

Angela Burns: Yr wyf yn ddiolchgar i Dr Gibbons am dderbyn fy ymyriad. Yr wyf yn awyddus i wybod, os y Ceidwadwyr oedd ar fai am y cyfan a ddigwyddodd er 1969, a'n bod ni wedi paratoi'r ffordd ar gyfer y gyfradd hon o dlodi plant, pam yr oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi mabwysiadu'r targed o haneru tlodi plant erbyn 2010 a'i ddileu erbyn 2020? Mae'n amlwg nad oeddech yn credu y gallech lwyddo i wneud hynny os oeddem ni wedi gwneud cynddrwg yn 1969. Pam ar wyneb y ddaear yr oeddech wedi mabwysiadu'r targedau hynny yn y lle cyntaf? Eich targedau chi ydynt: yr ydych wedi methu.

Brian Gibbons: Your record of doubling it is a disgrace; at least we are aiming to halve it. I hope that the record will show, when we hear from the Deputy Minister, what the Government is committed to doing in that regard.

Brian Gibbons: Mae eich hanes chi o ddyblu'r gyfradd tlodi plant yn warthus; o leiaf yr ydym ni'n anelu i'w haneru. Gobeithio y bydd y cofnod yn dangos, pan glywn gan y Dirprwy Weinidog, yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ymrwymo i'w wneud ynghylch hynny.

What has happened since 1997? In fairness to David Cameron, in his Hugo Young lecture, he said that it would be churlish to deny that some progress had been made—not that you would recognise that from these Conservative benches. However, that is what their leader says. In this case, the leader of the Conservative Party is selling Britain short. Let us look at the authoritative independent evaluation of what has been going on since 1997. The Organisation for Economic Co-operation and Development report on poverty and inequality, which was published in 2008, states:

Beth sydd wedi digwydd er 1997? Er tegwch i David Cameron, yn ei ddarlith Hugo Young, dywedodd y byddai'n anfoesgar gwadu bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud—er na fyddech yn cydnabod hynny o feinciau'r Ceidwadwyr yn y fan hon. Fodd bynnag, dyna y mae eu harweinydd yn ei ddweud. Yn yr achos hwn, mae arweinydd y Blaid Geidwadol yn gwneud cam â Phrydain. Gadewch inni edrych ar y gwerthusiad annibynnol awdurdodol o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd er 1997. Mae adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ar dlodi ac anghydraddoldeb, a gyhoeddwyd yn 2008, yn dweud:

'Since 2000, income inequality and poverty have fallen faster in the United Kingdom than in any other OECD country',

Er 2000, mae anghydraddoldeb incwm a thlodi wedi disgyn ynghynt yn y Deyrnas Unedig nag mewn unrhyw wlad arall sy'n rhan o'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd,

while pointing out that stark and unacceptable inequalities still remain, as we have recently read in the Hills report—

gan nodi ar yr un pryd fod anghydraddoldebau amlwg ac annerbyniol yn parhau, fel yr ydym wedi'i ddarllen yn ddiweddar yn adroddiad Hills—

Eleanor Burnham *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Are you taking any more interventions?

Brian Gibbons: No, I am not taking any more.

Eleanor Burnham *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Eleanor Burnham, he is not taking any more interventions. Thank you.

Brian Gibbons: Last year, the OECD reported again, pointing out that the average family income is higher and child poverty lower in the United Kingdom than the OECD averages. The report also pointed out that more progress is being made in the United Kingdom on tackling poverty and inequality, to the extent that Britain was outperforming countries such as Australia, New Zealand, Italy, the United States, Japan and Germany. Therefore, that is the record, independently verified by the OECD, which I am sure that no-one would argue is a flag bearer for the Labour Party or Socialist International. In his Hugo Young lecture, Mr Cameron attacked Labour for its response to the challenges of inequality and poverty by saying that:

‘A key part of Labour’s response to this trend has been more and more redistribution, means-tested benefits and tax credits’.

I am afraid that this is not a charge that Mr Cameron escapes from lightly, because it is the Conservative Party that is proposing more means testing for child trust funds—

The Deputy Presiding Officer: Order. Please wind up now.

Brian Gibbons: It is proposing more means testing for family tax credits and, instead of redistributing money to single parents and the poorest families, it is proposing—

Eleanor Burnham *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A ydych am dderbyn rhagor o ymyriadau?

Brian Gibbons: Nac ydwyf, nid wyf am dderbyn rhagor.

Eleanor Burnham *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Eleanor Burnham, nid yw’n derbyn rhagor o ymyriadau. Diolch.

Brian Gibbons: Y llynedd, cyhoeddodd OECD adroddiad arall yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfartaledd incwm teuluoedd yn uwch a bod tlodi plant yn is yn y Deyrnas Unedig na chyfartaleddau OECD. Tynnodd yr adroddiad hefyd sylw at y ffaith fod mwy o gynnydd yn digwydd yn y Deyrnas Unedig i fynd i’r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, i’r graddau bod Prydain yn perfformio’n well na gwledydd megis Awstralia, Seland Newydd, yr Eidal, yr Unol Daleithiau, Siapan a’r Almaen. Felly, dyna’r cofnod, a wiriwyd yn annibynnol gan OECD, ac yr wyf yn siŵr na fyddai neb yn dadlau bod y Sefydliad yn un sy’n chwifio baner y Blaid Lafur neu *Socialist International*. Yn ei ddarlith Hugo Young, ymosododd Mr Cameron ar y Blaid Lafur am ei hymateb i’r heriau sy’n gysylltiedig ag anghydraddoldeb a thlodi treth ddweud mai:

Rhan allweddol o ymateb y Blaid Lafur i’r duedd hon fu gwneud mwy a mwy o waith aiddosbarthu, a budd-daliadau a chredydau treth yn seiliedig ar brofion modd.

Ofnaf na all Mr Cameron ddianc rhag y cyhuddiad hwn yn hawdd iawn, oherwydd y Blaid Geidwadol sy’n cynnig rhagor o brofion modd ar gyfer cronfeydd ymddiriedolaeth plant—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi dynnu at y terfyn yn awr.

Brian Gibbons: Mae’n cynnig mwy o brofion modd ar gyfer credydau treth i deuluoedd, ac yn lle aiddosbarthu arian i rieni sengl a’r teuluoedd tlotaf, mae’n cynnig—

The Deputy Presiding Officer: Order. I am sorry, but I have turned your microphone off now.

Angela Burns: This debate is actually about the 96,000 children in Wales who are in poverty. I deplore the mendacity of the Government in seeking to change our motion in the way that it has. All we have called for is for everyone here to express concern. Knowing an awful lot of you, if only in passing as we go about our daily business, I am absolutely sure that there is not a single person in the Assembly who would like to see those children in poverty. I do not see why you cannot express that concern, nor do I understand why would not agree to the request that you review the child poverty strategy in order to address these causes. This is disgraceful. No amount of spin, and no amount of blaming Conservatives of the past or Conservatives of the future, the Barnett formula or anything else, will change the fact that we have 96,000 children in poverty. As it happens—

4.30 p.m.

Alun Davies *rose*—

Angela Burns: Just sit down a second, please, Alun. As it happens, we have a Deputy Minister who probably has more of a chance than almost anyone else in the Government of making those changes, because I believe that child poverty is of deep and abiding concern to him. I have only one point that I would like to make to you, Deputy Minister, and I would like you to respond to it. In 2006, you launched the child poverty implementation plan, with targets for tackling child poverty, which included halving it by 2010—and we are there now—and eradicating it by 2020. You must, therefore, have had a vision of how that would be done. Then in March 2008, the then Minister for Social Justice and Local Government decided on an inquiry into the delivery of this, because it did not seem to be delivering. You have now stated in your amendment to the motion that you intend to address child poverty via a new child poverty

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'n flin gennyf, ond yr wyf wedi diffodd eich meicroffon yn awr.

Angela Burns: Mae'r ddadl hon, mewn gwirionedd, yn ymwneud â'r 96,000 o blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi. Yr wyf yn gresynu at gelwyddau'r Llywodraeth wrth geisio newid ein cynnig fel y mae wedi'i wneud. Y cyfan yr ydym wedi galw amdano yw i bawb sydd yma fynegi pryder. O adnabod nifer mawr ohonoch, hyd yn oed os yw hynny o bell wrth fynd ynghylch ein gwaith bob dydd, yr wyf yn hollol sicr nad oes un unigolyn yn y Cynulliad a fyddai'n dymuno gweld y plant hynny mewn tlodi. Ni allaf weld pam na allwch fynegi'r pryder hwnnw, ac ni allaf ddeall ychwaith pam na fydddech yn cytuno i'r cais i adolygu'r strategaeth ar dlodi plant er mwyn mynd i'r afael â'r achosion hyn. Mae hyn yn warthus. Ni waeth faint o sbin a gawn gennych, ac ni waith faint y byddwch yn ceisio bwrw'r bai ar Geidwadwyr y gorffennol neu Geidwadwyr y dyfodol, fformiwlâ Barnett na dim byd arall, ni fydd dim yn newid y ffaith bod gennym 96,000 o blant mewn tlodi. Fel y mae'n digwydd—

Alun Davies *a gododd*—

Angela Burns: A wnewch chi eistedd am funud, Alun. Fel y mae'n digwydd, mae gennym Ddirprwy Weinidog sydd, mae'n debyg, â mwy o gyfle na neb arall yn y Llywodraeth bron i wneud y newidiadau hynny, oherwydd credaf fod tlodi plant yn peri pryder mawr a pharhaus iddo. Dim ond un pwynt yr hoffwn ei wneud wrtnhych, Ddirprwy Weinidog, a hoffwn pe baech yn ymateb iddo. Yn 2006, lanswyd y cynllun gweithredu ar dlodi plant gennych, gyda thargedau ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant a oedd yn cynnwys haneru tlodi plant erbyn 2010—ac mae'n 2010 erbyn hyn—a dileu tlodi plant erbyn 2020. Felly, mae'n rhaid bod gennych weledigaeth ar gyfer sut y bydddech yn cyflawni hynny. Yna, ym mis Mawrth 2008 penderfynodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd gynnal ymchwiliad i'r modd yr oedd hyn yn cael ei gyflawni, gan nad oedd, yn ôl pob golwg, yn

strategy. Could you confirm that, and when it will start, because we had a strategy in 2006, an inquiry in 2008, and in 2010 we have 96,000 children not in a suitable home?

Joyce Watson: Will you take an intervention?

Angela Burns: Not at the moment. I am sorry.

The cross-party Children and Young People Committee made one recommendation for eradicating child poverty that I thought stood out above all others. It was a cross-party recommendation, and every single Member in this Chamber signed up to it. In recommendation 4, the committee recommended that:

‘The Welsh Assembly Government demonstrate a clear commitment to ensuring the child poverty proofing of all its policies. This should include:

a) publication of specific annual targets for each Ministerial Portfolio, to address Child Poverty’.

Eleanor was asking for actions that we could take today. If you took that action, Deputy Minister, that would help. It continues:

‘b) annual publication of each Ministerial Portfolio’s progress towards meeting these targets’.

With 96,000 children in poverty, I think that we should name and shame. The recommendation concludes with:

‘c) a scheduled annual debate, in Government time, on the Welsh Assembly Government’s progress towards meeting these targets’.

However, we, the opposition, had to bring that debate forward today. That is the great

gweithio. Yn awr, yr ydych wedi nodi yn eich gwelliant i’r cynnig eich bod yn bwriadu mynd i’r afael â thlodi plant trwy strategaeth newydd ar dlodi plant. A allech gadarnhau hynny, a chadarnhau pryd y bydd yn dechrau, oherwydd cawsom strategaeth yn 2006, ac ymchwiliad yn 2008, ac yn 2010 mae gennym 96,000 o blant nad ydynt mewn cartref sy’n addas ar eu cyfer?

Joyce Watson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Angela Burns: Ddim ar hyn o bryd. Mae’n flin gennyf.

Gwnaed un argymhelliad gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, sy’n bwyllgor trawsbleidiol, ar gyfer dileu tlodi plant, a dynnodd fy sylw yn fwy na’r argymhellion eraill i gyd. Yr oedd yn argymhelliad trawsbleidiol, ac fe’i cefnogwyd gan bob Aelod yn y Siambr hon. Yn argymhelliad 4, argymhellodd y pwyllgor y canlynol:

‘Bod Llywodraeth y Cynulliad yn dangos ymrwymiad clir i sicrhau bod yr holl bolisiau yn cael eu prawfesur o safbwynt tlodi plant. Dylai hyn gynnwys:

a) cyhoeddi targedau blynyddol penodol ar gyfer pob portffolio Gweinidogol, i fynd i’r afael â Thlodi Plant’.

Yr oedd Eleanor yn gofyn am gamau y gallem eu cymryd heddiw. Pe baech yn cymryd y cam hwnnw, Ddirprwy Weinidog, byddai hynny’n help. Aiff yr argymhelliad yn ei flaen:

‘b) cyhoeddi cynnydd pob portffolio Gweinidogol tuag at gyrraedd y targedau hyn bob blwyddyn’.

Gan fod 96,000 o blant mewn tlodi, credaf y dylem enwi pobl a chodi cywilydd arnynt. Mae’r argymhelliad yn gorffen fel hyn:

‘c) cynnal trafodaeth flynyddol wedi’i threfnu, yn amser y Llywodraeth, ar gynnydd Llywodraeth y Cynulliad tuag at fodloni’r targedau hyn’.

Fodd bynnag, ni, yr wrthblaid, sydd wedi gorfod dod â’r ddadl hon gerbron heddiw.

shame. In fact, it is 96,000 great shames.

Dyna'r trueni mawr. Yn wir, mae'n 96,000 trueni mawr.

Joyce Watson: First, I welcome the new Deputy Minister to his post and to his first Senedd debate. It is extremely encouraging to see someone who has dedicated so much energy to the issue of child poverty as a backbencher now in Government and in a position where he will have a real opportunity to shape policy and drive forward Labour's mission to end child poverty in Wales by the end of this decade. The decision to appoint Huw to such a position says a lot about the administration, the party and our priorities.

Joyce Watson: Yn gyntaf, yr wyf am groesawu'r Dirprwy Weinidog newydd i'w swydd ac i'w ddadl gyntaf yn y Senedd. Mae'n galonogol dros ben gweld rhywun sydd wedi ymroi cymaint o egni i broblem tlodi plant fel aelod o'r meinciau cefn yn y Llywodraeth yn awr, ac mewn sefyllfa lle bydd ganddo gyfle gwirioneddol i lunio polisiau a gyrru yn ei blaen genhadaeth y Blaid Lafur i ddileu tlodi plant yng Nghymru erbyn diwedd y degawd hwn. Mae'r penderfyniad i benodi Huw i swydd o'r fath yn dweud cyfrolau am y weinyddiaeth, y blaid a'n blaenoriaethau.

In their bringing forward a debate on the underlying causes of child poverty, I suppose that it was too much to hope that the Tories might talk about such matters as employment, childcare provision, flexible working, decent pay, benefits take-up, investing in skills, helping adults gain new qualifications, and other meaningful points of policy. We have heard David Cameron talking about parental warmth, and Mark Isherwood saying how warmth is more important than wealth. We heard Mark Isherwood say this afternoon that it is the privileged wealthy, who, obviously, are the better parents and that poverty makes people worse parents. That is the most disgraceful comment that I have heard from anyone in the Chamber since I have been a Member of the Assembly.

Hwyrach ei bod yn disgwyl gormod i'r Torïaid, wrth gyflwyno dadl ar achosion gwaelodol tlodi plant, sôn efallai am faterion megis cyflogaeth, darpariaeth gofal plant, trefniadau gweithio hyblyg, cyflog digonol, hawlio budd-daliadau, buddsoddi mewn sgiliau, helpu oedolion i ennill cymwysterau newydd a phwyntiau polisi ystyrlon eraill. Clywsom David Cameron yn sôn am gynhesrwydd rhieni, a Mark Isherwood yn dweud bod cynhesrwydd yn bwysicach na chyfoeth. Clywsom Mark Isherwood yn dweud y prynhawn yma mai pobl freintiedig, gefnog yw'r rhieni gorau, wrth reswm, a bod tlodi'n gwneud pobl yn rhieni gwaeth. Dyna'r sylw mwyaf gwarthus yr wyf wedi'i glywed gan neb yn y Siambr ers imi fod yn Aelod o'r Cynulliad.

Alun Cairns: Will you give way?

Alun Cairns: A wnewch chi ildio?

Joyce Watson: No, because your party would not give way. Otherwise, I would have given way. In talking such nonsense, you show that not only is David Cameron airbrushed on posters across the country, but your policies are air-headed. The Tories' failure to understand the connection between household income and the ability of parents to provide a safe, nurturing environment in which to raise children demonstrates the gaping hole in their ideology. It shows how little they have moved on and how dangerous they would be in Government. I am sure that the new Deputy Minister would agree that you cannot simply airbrush over injustice and

Joyce Watson: Na, oherwydd nid oedd eich plaid chi'n fodlon ildio. Fel arall, byddwn wedi ildio. Wrth siarad cymaint o nonsens, yr ydych yn dangos nid yn unig bod David Cameron wedi ei beintio â brwsh aer ar bosteri ar draws y wlad, ond bod eich polisiau'n llawn aer. Mae methiant y Torïaid i ddeall y cysylltiad rhwng incwm cartrefi a gallu rhieni i ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol i fagu plant yn dangos y bwlch enfawr yn eu hideoleg. Dengys cyn lleied y maent wedi symud ymlaen ac mor beryglus y byddent mewn Llywodraeth. Yr wyf yn siŵr y byddai'r Dirprwy Weinidog newydd yn cytuno na allwch beintio dros anghyfiawnder

inequality.

I hope that the Assembly Government will use the opportunity to review the child poverty strategy to continue to implement meaningful change. No single policy can end child poverty—the latest Joseph Rowntree Foundation report makes that point clearly. Taken together, the indicators that I have mentioned—employment, decent pay, childcare, skills and education—are crucial. We also need to remember that an awful lot of those policy areas are not devolved to Wales. We need to remind ourselves about the Tory record—not 100 years ago, but in the recent past. They have opposed every single bit of legislation that we have put through to take people and children out of poverty, even that on the minimum wage. How are you going to take children out of poverty if you will not even give their parents a decent wage?

Alun Cairns: Will you give way?

Joyce Watson: I am going to move on. The Tories are hostile to anything that will make a difference to the poor, but are absolutely open minded when it comes to benefits for the very wealthy—that is where they have focused their policies.

I ask the Deputy Minister to confirm that he will eradicate child poverty in Wales and that the Government will look at a mix of both regional and Wales-wide policies. There should be universal access to services and we need to recognise that regional economies and employment opportunities in different areas and regions are essential.

Brynle Williams: You, on the Labour benches, have talked about child poverty for a long time, but you do not seem to have done much about it. Over the years, you have shown great enthusiasm for talking about child poverty and publishing statistics and strategies, with one strategy after another—

Jeff Cuthbert: Will you give way?

ac anghydraddoldeb â brwsh aer.

Gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'r cyfle i adolygu'r strategaeth ar dlodi plant er mwyn parhau i wneud newidiadau ystyrllon. Ni all yr un polisi unigol roi diwedd ar dlodi plant—mae adroddiad diweddaraf Sefydliad Joseph Rowntree yn dweud hynny'n glir. Gyda'i gilydd, mae'r dangosyddion yr wyf wedi sôn amdanynt—cyflogaeth, cyflog digonol, gofal plant, sgiliau ac addysg—yn hollbwysig. Mae angen inni gofio hefyd nad yw llawer iawn o'r meysydd polisi hynny wedi'u datganoli i Gymru. Mae angen inni ein hatgoffa'n hunain o hanes y Torïaid—nid 100 mlynedd yn ôl, ond eu hanes diweddar. Maent wedi gwrthwynebu pob darn o ddeddfwriaeth a gynigiwyd gennym i godi pobl a phlant allan o dlodi, hyd yn oed y ddeddfwriaeth ar yr isafswm cyflog. Sut y byddwch yn cael plant allan o dlodi os na fyddwch hyd yn oed yn rhoi cyflog digonol i'w rhieni?

Alun Cairns: A wnewch chi ildio?

Joyce Watson: Yr wyf am symud ymlaen. Mae'r Torïaid yn wrthwynebus i unrhyw beth a fydd yn gwneud gwahaniaeth i'r tlawd, ond maent yn hollol feddwl agored pan ddaw'n fater o fudd-daliadau ar gyfer y bobl fwyaf cefnog—ar hynny y mae eu polisïau'n canolbwyntio.

Gofynnaf i'r Dirprwy Weinidog gadarnhau y bydd yn dileu tlodi plant yng Nghymru ac y bydd y Llywodraeth yn edrych ar amrywiaeth o bolisïau rhanbarthol a pholisïau i Gymru gyfan. Dylai pawb allu cael gwasanaethau, ac mae angen inni sylweddoli bod economïau rhanbarthol a chyfleoedd cyflogaeth mewn gwahanol ardaloedd a rhanbarthau yn hollbwysig.

Brynle Williams: Yr ydych chi ar y meinciau Llafur wedi bod yn siarad am dlodi plant ers amser maith, ond nid yw'n ymddangos eich bod wedi gwneud llawer am y peth. Dros y blynyddoedd, yr ydych wedi bod yn frwd iawn o blaid siarad am dlodi plant a chyhoeddi ystadegau a strategaethau, gyda'r naill strategaeth ar ôl y llall—

Jeff Cuthbert: A wnewch chi ildio?

Brynle Williams: No, your colleague would not take an intervention, so I will not either.

You have also shown great enthusiasm for plans and funding gimmicks—I emphasise the word ‘gimmicks’—but when you are judged on your results, one in three children are living in poverty and the number is rising. There are 96,000 children living in severe poverty. Income inequality is at its highest since records began in 1961. My list is not quite as lengthy as yours, Joyce, but it is a damned sight more impressive. The evidence is clear—

Ann Jones: Will you take an intervention?

Brynle Williams: No, Auntie Ann, I will not.

Ann Jones: Excuse me, I am not ‘Auntie Ann’. I am the Assembly Member for the Vale of Clwyd.

Brynle Williams: My apologies to Ann Jones, the Assembly Member for North Wales.

Ann Jones: Vale of Clwyd.

Brynle Williams: Sorry—the Assembly Member for the Vale of Clwyd.

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you two stop having these chats across the Chamber?

Brynle Williams: Thank you, Deputy Presiding Officer.

Ann Jones: Point of order. I am not an Assembly Member for North Wales or ‘Auntie Ann’.

The Deputy Presiding Officer: Order. I am about to tell him that. Brynle Williams, would you please address Members with their proper titles, using their full names?

Brynle Williams: I apologise to you, Deputy Presiding Officer, and to you, Ann Jones, the Assembly Member for the Vale of Clwyd.

The evidence is clear that Labour does not

Brynle Williams: Na. Ni dderbyniodd eich cydweithiwr ymyriad, ac nid wyf fi am wneud hynny ychwaith.

Yr ydych hefyd wedi bod yn frwdfrydig iawn o blaid cynlluniau a gimics cyllido—pwysleisiaf y gair ‘gimics’—ond pan gewch eich barnu ar eich canlyniadau, mae un plentyn o bob tri yn byw mewn tlodi, ac mae’r ffigur yn codi. Mae 96,000 o blant yn byw mewn tlodi difrifol. Mae anghydraddoldeb incwm wedi cyrraedd ei lefel uchaf ers dechau cadw cofnodion yn 1961. Nid yw fy rhestr i mor faith â’ch rhestr chi, Joyce, ond mae’n rhestr llawer mwy trawiadol. Mae’r dystiolaeth yn glir—

Ann Jones: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Brynle Williams: Na wna, Anti Ann.

Ann Jones: Esgusodwch fi, nid ‘Anti Ann’ ydw i. Fi yw’r Aelod Cynulliad dros Ddyffryn Clwyd.

Brynle Williams: Ymddiheuraf i Ann Jones, yr Aelod Cynulliad dros y gogledd.

Ann Jones: Dyffryn Clwyd.

Brynle Williams: Mae’n flin gennyf—yr Aelod Cynulliad dros Ddyffryn Clwyd.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi’ch dau roi’r gorau i’r sgysiau hyn ar draws y Siambr?

Brynle Williams: Diolch, Ddirprwy Lywydd.

Ann Jones: Pwynt o drefn. Nid wyf yn Aelod Cynulliad dros y gogledd, nac yn ‘Anti Ann’.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Yr wyf ar fin dweud hynny wrtho. Brynle Williams, a wnewch chi gyfarch Aelodau wrth eu teitlau cywir, gan ddefnyddio’u henwau llawn?

Brynle Williams: Ymddiheuraf ichi, Ddirprwy Lywydd, ac i chithau, Ann Jones, yr Aelod Cynulliad dros Ddyffryn Clwyd.

Mae’r dystiolaeth yn glir nad yw’r Blaid

know how to reduce child poverty—

Ann Jones *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Are you taking an intervention?

Brynle Williams: No, I am sorry, but I will not.

Worklessness is the single greatest contributor to child poverty, yet Labour administrations in Wales and Westminster have failed systematically to get people back into the workforce or to get some to enter it in the first place. A point that I have raised in the Chamber on a number of occasions is the gap in attainment between the poorest students, who qualify for free school meals, and more affluent students in the key GCSE subjects of maths, English and science, which are the most useful to employers. There is no sign of closing that gap.

4.40 p.m.

As I mentioned earlier today, the latest figures show that the gap has increased by some 5 per cent. Too many students are leaving full-time education without the basic numeracy and literacy skills. So they will be unable to get a job, and they are falling through the net. The Welsh Conservatives recognise that tackling worklessness has to be a key issue, which is why we support freedom for schools and giving control to headteachers, staff and governors so that they can allow students from all backgrounds to achieve their potential. That is why we support giving rate relief to businesses, so that the private sector can provide jobs and opportunities, as well as the promotion of flexible, good-quality employment practices so that those who want to work are not penalised for doing so. I hope that the Assembly Government will have the humility to look honestly at its past record of failure, and will recognise that a new approach is needed to tackle the national disgrace of 96,000 children living in poverty.

Lafur yn gwybod sut i leihau tlodi plant—

Ann Jones *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A ydych yn derbyn ymyriad?

Brynle Williams: Na, mae'n flin gennyf, ond nid wyf am dderbyn ymyriad.

Bod heb waith yw'r un peth sy'n cyfrannu fwyaf at dlodi plant, ac eto mae gweinyddiaethau Llafur yng Nghymru a San Steffan wedi methu'n gyson â chael pobl yn ôl i'r gweithlu neu gael rhai pobl i ymuno â'r gweithlu yn y lle cyntaf. Un pwynt yr wyf wedi'i godi yn y Siambr droeon yw'r bwlch rhwng cyrhaeddiad y myfyrwyr tlotaf, sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a chyrhaeddiad myfyrwyr mwy cefnog, o ran eu graddau TGAU yn y prif bynciau, sef mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth, sef y pynciau mwyaf defnyddiol i gyflogwyr. Nid oes dim arwydd bod y bwlch hwnnw'n lleihau.

Fel y soniais yn gynharach heddiw, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y bwlch wedi cynyddu oddeutu 5 y cant. Mae gormod o fyfyrwyr yn gadael addysg llawn amser heb y sgiliau rhifedd a llythrennedd sylfaenol. Felly, ni fyddant yn gallu cael swydd, ac maent yn cwmpo trwy'r rhwyd. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod bod yn rhaid i ymdrin â phroblem pobl sydd heb waith fod yn fater allweddol, a dyna pam yr ydym yn cefnogi rhoi rhyddid i ysgolion a rheolaeth i benaethiaid, staff a llywodraethwyr fel y gallant ganiatáu i fyfyrwyr o bob cefndir gyrraedd eu potensial. Dyna pam yr ydym yn cefnogi rhoi rhyddhad ardrethi i fusnesau, fel y gall y sector preifat ddarparu swyddi a chyfleoedd, yn ogystal â hybu arferion cyflogaeth hyblyg o safon uchel fel na fydd y sawl sydd am weithio'n cael eu cosbi am wneud hynny. Gobeithio y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ddigon gwylaidd i edrych yn onest ar ei hanes o fethiant yn y gorffennol, ac y bydd yn cydnabod bod angen dull newydd i fynd i'r afael â'r gwarth cenedlaethol o gael 96,000 o blant yn byw mewn tlodi.

Bethan Jenkins: This debate, in which we have heard the Tories lecture the Assembly and the One Wales Government about how best to combat child poverty, must rank as one of the greatest hypocrisies ever heard to date under this roof and in any Plenary meeting since the National Assembly began. What makes it particularly incredible is that the Tories' motion seems to suggest that none of us know what is going on outside Wales, that none of us receive our news from beyond the Severn bridge, and that none of us know what their London masters are planning for the UK if we are unfortunate enough for them to win the next election. I will quote from the *Financial Times*, which is not noted as being a left-leaning newspaper. On 19 January, under the heading 'Conservatives target child poverty strategy', it said:

'The Conservatives look set to water down Labour's commitment to ending child poverty, according to people who have seen late drafts of the party's election manifesto. They would do this by adopting such broad indicators of deprivation that it would be hard to identify or measure progress.'

That is a good start. There is then all kinds of talk about introducing 'a matrix of measures', which sounds like something from *The Thick of It*, while moving towards a 'richer picture'—that is a comment that they could have nicked from *Yes, Minister*. The piece winds down with Oliver Letwin's pledge from 2006, when he was the party's policy chief:

'David Cameron's Conservatives are committed to the government target of ending child poverty by 2020.'

The *Financial Times* report concludes by saying:

'Conservatives sources say this bold intention is barely mentioned in a draft of the manifesto, beyond a statement that the party shares "the government's aspiration to end child income-related poverty".'

Bethan Jenkins: Rhaid mai'r ddadl hon, lle'r ydym wedi clywed y Torïaid yn pregethu wrth y Cynulliad a Llywodraeth Cymru'n Un am y ffordd orau i fynd i'r afael â thlodi plant, yw'r enghraifft fwyaf o ragrith a glywyd erioed o dan y to hwn ac mewn unrhyw Gyfarfod Llawn ers i'r Cynulliad Cenedlaethol ddod i fodolaeth. Yr hyn sy'n ei gwneud yn arbennig o anghredadwy yw bod cynnig y Torïaid fel pe bai'n awgrymu nad oes neb ohonom yn gwybod beth sy'n digwydd y tu allan i Gymru, nad oes neb ohonom yn cael newyddion o'r tu hwnt i bont Hafren, ac nad oes neb ohonom yn gwybod beth mae eu meistri yn Llundain yn ei gynllunio ar gyfer y DU pe baem mor anffodus â'u gweld yn ennill yr etholiad nesaf. Dyfynnaf o'r *Financial Times*, nad yw'n enwog am fod yn bapur newydd sy'n gogwyddo tua'r chwith. Ar 19 Ionawr, dan y pennawd 'Conservatives target child poverty strategy', yr oedd yn dweud:

Mae'n edrych yn debyg fod y Ceidwadwyr yn barod i lastwreiddio ymrwymiad y Blaid Lafur i roi diwedd ar dlodi plant, yn ôl y bobl sydd wedi gweld drafftiau diweddar o fanifesto etholiad y blaid. Byddent yn gwneud hyn trwy fabwysiadu dangosyddion mor eang o amddifadedd fel y byddai'n anodd nodi neu fesur cynnydd.

Mae hynny'n ddechrau da. Yna, ceir pob math o sôn am gyflwyno 'matrics o fesurau' sy'n swnio fel rhywbeth o'r rhaglen *The Thick of It*, gan symud at 'ddarlun cyfoethocach'—dyna sylw y gallent fod wedi'i gymryd o *Yes, Minister*. Daw'r darn i ben gydag addewid Oliver Letwin yn 2006, pan oedd yn bennaeth polisi'r blaid:

Mae Ceidwadwyr David Cameron wedi ymrwymo i darged y Llywodraeth o ddod â thlodi plant i ben erbyn 2020.

Mae adroddiad y *Financial Times* yn gorffen trwy dweud:

Mae ffynonellau gwybodaeth y Ceidwadwyr yn dweud mai prin iawn yw'r sôn am y bwriad eofn hwn mewn drafft o'r manifesto, ar wahân i ddatganiad sy'n dweud bod gan y blaid, fel y llywodraeth, ddyhead i roi diwedd ar dlodi plant sy'n gysylltiedig ag incwm.

The Joseph Rowntree Foundation's support for broader measures of poverty is cited as evidence by the Tories that they have got it right. However, let us view this policy u-turn for what it is: cuts, pure and simple, and nothing else. I do not follow the Tories' approach today—do they really not know what is being planned on their behalf in London? If that is the case, what kind of regard does the Tory administration have for the Assembly and its powers, when it does not even tell Assembly Members what it is planning? Let us get back to reality, since Mark Isherwood insisted that he did not know what a future Tory Government was going to do: the benefits system and the power to truly reform it lie in London. Plaid would welcome the chance to devolve the matter to Wales, but will the Tories allow that to happen? The Joseph Rowntree Foundation estimates that while child poverty costs the UK £25 billion a year, the Government needs to invest around £5 billion a year to meet Letwin's aim of ending child poverty by 2020.

In the interest of saving the public purse, are the Tories prepared to commit to this: uprating the combined value of child tax credits and child benefits, increasing adult payments within income support in line with those for children, reforming administration of tax credits and benefits to ensure that they provide the right amount to the right people at the right time, and reducing the disproportionate burden of taxation on poorer families? Are the Tories here prepared to argue with David Cameron if, as he has hinted on numerous occasions, he cuts the Welsh budget? How would they expect us to address child poverty then? How do they want us to continue the child poverty programmes after Westminster-initiated cuts have scythed through Wales and the public sector? Beyond what they have said so far, or rather what has been leaked, we know little.

Their backers are indulging in some serious right-wing kite-flying. The Institute of

Cyfeiria'r Torïaid at gefnogaeth Sefydliad Joseph Rowntree i fesurau tlodi ehangach fel tystiolaeth eu bod wedi cael hyn yn iawn. Fodd bynnag, gadewch inni ystyried y tro pedol hwn mewn polisi am yr hyn ydyw: toriadau, yn syml iawn, a dim byd arall. Ni allaf ddilyn dull y Torïaid heddiw—a yw'n wir nad ydynt yn gwybod beth sy'n cael ei gynllunio ar eu rhan yn Llundain? Os felly, pa fath o barch sydd gan weinyddiaeth y Torïaid at y Cynulliad a'i bwerau, os nad yw hyd yn oed yn dweud wrth Aelodau'r Cynulliad beth y mae'n ei gynllunio? Gadewch inni fynd yn ôl at y gwir plaen, gan fod Mark Isherwood wedi mynnu nad oedd yn gwybod beth fyddai Llywodraeth Dorïaidd y dyfodol yn ei wneud: Llundain sydd â chyfrifoldeb am y system fudd-daliadau a'r pwerau i'w diwygio o ddirif. Byddai Plaid yn croesawu'r cyfle i ddatganoli'r mater i Gymru, ond a fydd y Torïaid yn caniatáu i hynny ddigwydd? Mae Sefydliad Joseph Rowntree'n amcangyfrif er bod tlodi plant yn costio £25 biliwn y flwyddyn i'r DU, mae angen i'r Llywodraeth fuddsoddi tua £5 biliwn y flwyddyn er mwyn cyrraedd nod Letwin o ddileu tlodi plant erbyn 2020.

Er mwyn arbed y pwrs cyhoeddus, a yw'r Torïaid yn barod i ymrwymo i hyn: codi gwerth cyfunol credydau treth plant a budd-daliadau plant, cynyddu taliadau cymhorthdal incwm oedolion yn unol â'r taliadau ar gyfer plant, diwygio'r modd y gweinyddir credydau treth a budd-daliadau er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi'r swm iawn o arian i'r bobl iawn ar yr amser iawn, a lleihau'r baich treth anghyfartal ar deuluoedd tlodach? A yw'r Torïaid yma yn barod i ddadlau â David Cameron os bydd yn torri'r gyllideb a roddir i Gymru, fel y mae wedi ei awgrymu droeon y bydd yn ei wneud? Sut y byddent yn disgwyl inni fynd i'r afael â thlodi plant wedyn? Sut y maent am inni barhau â'r rhaglenni tlodi plant ar ôl i Gymru a'r sector cyhoeddus ddioddef toriadau a gyflwynwyd gan San Steffan? Ar wahân i'r hyn y maent wedi'i ddweud hyd yn hyn, neu'n hytrach yr hyn sydd wedi dod yn amlwg, ychydig iawn a wyddom.

Mae'r sawl sy'n eu cefnogi yn cael pleser mawr o wyntyllu syniadau adain dde er

Directors and the TaxPayers' Alliance have already put together a £50 billion death list, which includes scrapping Sure Start, the educational maintenance allowance, grants from the Department of Communities and Local Government, freezes on public sector and state pensions and an end to child benefits and free travel for the elderly. Those are the people who the Tories run with. Therefore, this scheming is uncovered for what it is—a blatant opportunistic grab at headlines without defending their argument. In the process, they have revealed their master's views and how totally unsuited they are to Government.

Andrew R.T. Davies: I am grateful to you for taking an intervention. For around four minutes and 25 seconds, all you have given us is a rant. We have not heard a single policy or idea come out of your mouth. Could you spend the next 30 seconds giving us some insight into what Plaid Cymru would do?

Bethan Jenkins: I am showing you how hypocritical you are. Mark Isherwood failed to respond to me when I asked him what a future Tory Government would do in relation to taxes and poor people—he had no response. You will get a response from the Deputy Minister in a moment.

Nick Ramsay: I am really disappointed at how this debate has moved away from the motion that was tabled. I need to read it again to make sure that we are still in the same debate. I do not know why everyone is getting so wound up. Listening to Bethan's contribution, I think she said 'Tory' around 35 times, according to my count, which probably took up most of her allocated time.

This is an emotive subject; that is why we brought this debate to the Chamber today. There is clearly a lot of anger, concern and passion, but I just wish that it was being directed at what we are trying to direct it at—not at the Labour Government per se, not at Plaid Cymru or the Liberal Democrats or at

mwyn mesur ymateb pobl iddynt. Mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr a Chynghrair y Trethdalwyr eisoes wedi llunio rhestr o doriadau gwerth £50 biliwn, sy'n cynnwys diddymu Dechrau'n Deg, diddymu'r lwfans cynhaliaeth addysg, diddymu grantiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, rhewi pensiynau'r sector cyhoeddus a phensiwn y wladwriaeth, a rhoi diwedd ar fudd-daliadau plant a theithio am ddim i'r henoed. Dyna'r bobl y mae'r Torïaid yn ymwneud â hwy. Felly, yr ydym yn gweld y cynllwynio hwn am yr hyn ydyw—ymgais manteisgar digywilydd i gipio'r penawdau newyddion heb amddiffyn eu dadl. Wrth wneud hynny, maent wedi datgelu barn eu meistr ac wedi dangos mor gwbl anaddas ydynt i fod mewn Llywodraeth.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am dderbyn ymyriad. Yr unig beth yr ydych wedi'i wneud am ryw bedair munud a 25 eiliad yw rhefru arnom. Nid ydym wedi clywed un polisi na syniad yn dod o'ch genau. A allwch dreulio'r 30 eiliad nesaf yn rhoi rhyw syniad inni o'r hyn y byddai Plaid Cymru'n ei wneud?

Bethan Jenkins: Yr wyf yn dangos ichi mor rhagrithiol yr ydych. Methodd Mark Isherwood ag ymateb imi pan ofynnais iddo ef beth fyddai Llywodraeth Dorïaidd y dyfodol yn ei wneud o safbwynt trethi a phobl dlawd—nid oedd ganddo ymateb. Cewch ymateb gan y Dirprwy Weinidog mewn eiliad.

Nick Ramsay: Yr wyf yn siomedig iawn â'r modd y mae'r ddadl hon wedi symud oddi wrth y cynnig a gyflwynwyd. Mae angen imi ei ddarllen eto i wneud yn siŵr ein bod yn dal yn yr un ddadl. Ni wn pam mae pawb yn cynhyrfu gymaint. O wrando ar gyfraniad Bethan, credaf iddi ddweud 'Torïaid' tua 35 o weithiau, yn ôl fy nghyfrif i, a aeth â'r rhan fwyaf o'r amser a roddwyd iddi, mwy na thebyg.

Mae hwn yn bwnc emosiynol; dyna pam y daethom â'r ddadl hon i'r Siambr heddiw. Mae'n amlwg y ceir llawer o ddieter, pryder ac angerdd, ond byddai'n dda pe bai'r teimladau hynny'n cael eu cyfeirio at yr hyn yr ydym yn ceisio eu cyfeirio ato—nid at y Llywodraeth Lafur ynddi ei hun, nid at Blaid

the past, even though Dr Gibbons referred to the past in his contribution. We are just trying to make the basic point that child poverty has worsened in Wales. I am not talking about the UK or England, because this is the Welsh Assembly, and child poverty has become worse in Wales.

Bethan Jenkins: Will you take an intervention?

Nick Ramsay: Yes, I will.

Bethan Jenkins: The point that I was trying to make is that many of these tools to eradicate child poverty come from Westminster, so you have to acknowledge that your unionist party must have some answers to that.

Nick Ramsay: It is not just a question of money, Bethan, because if you considered how much money was spent since 1997 on benefits, for example, you would be looking at around £400 billion. That is probably the same as the economy in the whole of 1998 and 1999. Therefore, you are right, we have to do stuff at the national level and we accept that. I dread to mention Conservative policies because I am sure that you will all leap up and down, but David Cameron has come forward with ideas such as a social justice bank, so there are ideas there.

I have no doubt that Bethan Jenkins cares passionately about this subject. I know that she cares about child poverty and I do not think that anyone here would stand up and say that they do not. Therefore, can we please just calm down and get back to the basis of this debate, namely child poverty? Technically, that is about children who live in families who earn less than £12,500 per year. We are talking about children who do not have a coat to wear. In the worst situations, they do not have other clothes to wear. That is a terrible situation for our country to be in and, in bringing this debate forward, we are not talking about the distant past, but about targets that were set by the Assembly Government only a few years ago. It was the original children's commissioner who said, around seven years ago, that by 2010 we

Cymru neu'r Democratiaid Rhyddfrydol nac at y gorffennol, er i Dr Gibbons gyfeirio at y gorffennol yn ei gyfraniad. Y pwynt yr ydym yn ceisio'i wneud yn syml yw bod tlodi plant wedi gwaethygu yng Nghymru. Nid wyf yn sôn am y DU na Lloegr, oherwydd Cynulliad Cymru yw hwn, ac mae tlodi plant wedi gwaethygu yng Nghymru.

Bethan Jenkins: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Nick Ramsay: Gwnaf.

Bethan Jenkins: Y pwynt yr oeddwn yn ceisio'i wneud oedd bod llawer o'r adnoddau hyn i ddileu tlodi plant yn dod o San Steffan. Felly, rhaid ichi gydnabod bod yn rhaid bod gan eich plaid unoliaethol rai atebion i hynny.

Nick Ramsay: Nid arian yw'r unig beth y mae angen ei ystyried, Bethan, oherwydd pe baech yn ystyried faint o arian a wariwyd ar fudd-daliadau er 1997, er enghraifft, byddech yn sôn am ryw £400 biliwn. Mae'n debyg fod hynny'r un fath â'r economi gyfan yn 1998 ac 1999. Felly, yr ydych yn iawn, rhaid inni wneud pethau ar lefel genedlaethol, ac yr ydym yn derbyn hynny. Yr wyf yn ofni sôn am bolisiau'r Ceidwadwyr, oherwydd yr wyf yn siŵr y bydd pob un ohonoch yn neidio i fyny ac i lawr, ond mae David Cameron wedi cyflwyno syniadau megis banc cyfiawnder cymdeithasol, felly, mae yna syniadau.

Nid oes gennyf ddim amheuaeth nad yw Bethan Jenkins yn poeni'n angerddol am y pwnc hwn. Gwn ei bod yn poeni am dlodi plant, ac ni chredaf y byddai neb sydd yma'n codi a dweud nad ydynt yn poeni am dlodi plant. Felly, a allwn bwylllo a dod yn ôl at wraidd y ddadl hon, sef tlodi plant? Yn dechnegol, mae hynny'n golygu plant sy'n byw mewn teuluoedd sy'n ennill llai na £12,500 y flwyddyn. Yr ydym yn sôn am blant sydd heb gôt i'w gwisgo. Yn y sefyllfaoedd gwaethaf, nid oes ganddynt ddillad eraill i'w gwisgo. Mae honno'n sefyllfa ofnadwy i'n gwlad fod ynddi, ac wrth gyflwyno'r ddadl hon, nid ydym yn sôn am y gorffennol pell, ond am dargedau a osodwyd gan Lywodraeth y Cynulliad prin ychydig flynyddoedd yn ôl. Y comisiynydd plant cyntaf a ddywedodd, tua saith mlynedd yn ôl,

would want to see a severe change in what was happening in Wales and that we would want to see child poverty halved. We can see it happening in Scotland, but it is not happening here. I think that that is appalling. We need to stop the type of political banter that we have heard today and focus—*[Interruption.]* Yes, we do. I will take an intervention, because the Conservatives do take interventions.

4.50 p.m.

Christine Chapman: There are finite resources available. Are you committing your party to taking money away from your rich friends and putting it into the child poverty pot?

Nick Ramsay: Your reference to ‘rich friends’ really shows the angle from which you are coming at this, Christine. It is terribly sad, because it shows, once again, the way in which this is being turned into political banter.

Earlier, we heard about the problems with Communities First. On the face of it, this was a great policy and a great strategy, and many of us had good things to say about it. However, sadly, the money is not being spent as well as it should be. The statistics are terrible. Citizens Advice, Age Concern and Save the Children have stated that more than £16 billion of means-tested benefits and tax credits are going unclaimed each year. Therefore, it is not just a question of putting more money in. As I said earlier, money has gone in; it is about ensuring that that money is effective. There is nothing in this motion to say that you are not putting in enough money. *[Interruption.]* It is a bit rich of you to ask me whether I am getting riled. There is nothing in the motion about the level of funding.

As for the Government’s amendment, which talks about the child poverty strategy, yes, we have welcomed the child poverty strategy as far as it goes—

y byddem, erbyn 2010, am weld newid sylweddol yn yr hyn a oedd yn digwydd yng Nghymru, ac y byddem am weld haneru tlodi plant. Gallwn weld hynny’n digwydd yn yr Alban, ond nid yw’n digwydd yma. Credaf fod hynny’n warthus. Mae angen inni roi’r gorau i’r math o bryfocio gwleidyddol yr ydym wedi’i glywed heddiw, a chanolbwyntio—*[Torri ar draws.]* Oes. Derbynaf ymyriad, oherwydd mae’r Ceidwadwyr yn derbyn ymyriadau.

Christine Chapman: Mae pen draw ar yr adnoddau sydd ar gael. A ydych yn ymrwmo’ch plaid i fynd ag arian oddi ar eich cyfeillion cyfoethog a’i roi yn y gronfa tlodi plant?

Nick Ramsay: Mae eich cyfeiriad at ‘gyfeillion cyfoethog’ yn dangos i’r dim o ba gyfeiriad yr ydych yn dod, Christine. Mae’n drist iawn, oherwydd dengys unwaith eto y modd y mae’r ddadl hon yn cael ei throï’n bryfocio gwleidyddol.

Yn gynharach, clywsom am y problemau gyda Chymunedau yn Gyntaf. Ar yr wyneb, yr oedd hwn yn bolisi ardderchog ac yn strategaeth ardderchog, ac yr oedd gan sawl un ohonom bethau da i’w dweud amdano. Fodd bynnag, yn anffodus nid yw’r arian yn cael ei wario cystal ag y dylai. Mae’r ystadegau’n ofnadwy. Mae Cyngor ar Bopeth, Age Concern ac Achub y Plant wedi dweud bod dros £16 biliwn o fudd-daliadau a chredydau treth sy’n seiliedig ar brofion modd yn mynd heb eu hawlio bob blwyddyn. Felly, nid mater o neilltuo mwy o arian yn unig yw hwn. Fel y soniais yn gynharach, mae arian wedi ei neilltuo; mae’n golygu sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol. Nid oes dim yn y cynnig hwn sy’n awgrymu nad ydych yn neilltuo digon o arian. *[Torri ar draws.]* Dyna un dda, eich clywed chi yn gofyn i mi a wyf wedi gwylltio. Nid oes dim byd yn y cynnig am lefel y cyllid.

O ran gwelliant y Llywodraeth, sy’n sôn am y strategaeth tlodi plant, yr ydym wedi croesawu cymaint ag sydd yn y strategaeth tlodi plant—

The Deputy Presiding Officer: Will you wind up, please?

Nick Ramsay: I certainly will wind up.

Unfortunately, however, the strategy is not focused enough and could be fine tuned. Would people out there not rather that we talk a little more rationally about this and work together to develop a strategy that ultimately reduces child poverty in Wales, because that is what we all want to do?

Ann Jones: Nick, that was a good speech to try to bring it all back to the subject of how we are all in this together. However, you stood with a blue rosette, as did Angela—and I have said this to Angela before—and those are your policies. There is a distinct difference in policies. I have pushed for child poverty to be eradicated and I have urged my party to do all that it can because I see examples of what it can do in my constituency every day. I also see what worklessness does. We are into third generation unemployment, and the reason for this is that the Tories tried to fiddle the unemployment figures by putting people on the sick. [*Interruption.*] Would you like to say something, Oscar? People were moved from unemployment benefit onto sick benefit, and there they languished without any opportunity for any more jobs.

Several Assembly Members *rose*—

Ann Jones: Yes, I will take an intervention.

The Deputy Presiding Officer: I am sorry, but whose intervention are you taking?

Ann Jones: Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies: I thank Ann Jones for taking an intervention. The last incapacity benefit figures, which were released in the middle of January, show that a record 8.2 million individuals are on incapacity benefit. Therefore, your Government has put more people on incapacity benefit than any previous administration.

Y Dirprwy Brif Weinidog: A wnewch chi dynnu at y terfyn?

Nick Ramsay: Gwnaf, yn sicr.

Yn anffodus, fodd bynnag, nid oes digon o ffocws i'r strategaeth, a gellid ei mireinio. Oni fyddai'n well gan bobl inni drafod y mater hwn ychydig yn fwy rhesymegol a gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu strategaeth sydd yn y pen draw yn lleihau tlodi plant yng Nghymru, oherwydd dyna mae pob un ohonom am ei wneud?

Ann Jones: Nick, yr oedd honno'n araith dda i geisio dod â'r drafodaeth yn ôl at y ffaith ein bod ni i gyd yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd. Fodd bynnag, yr oeddech yn sefyll gyda rhosglwm glas, fel y gwnaeth Angela—ac yr wyf wedi dweud hyn wrth Angela o'r blaen—a dyna yw eich polisïau. Ceir gwahaniaeth sylweddol mewn polisïau. Yr wyf wedi ymgyrchu dros ddileu tlodi plant, ac wedi annog fy mhlaid i wneud popeth yn ei gallu, oherwydd gwelaf enghreifftiau o'r hyn y mae tlodi'n gallu ei wneud yn fy etholaeth bob dydd. Yr wyf hefyd yn gweld beth mae bod heb waith yn ei wneud. Mae gennym drydedd genhedlaeth o bobl ddi-waith, a'r rheswm dros hynny yw bod y Torïaid wedi ceisio gwella'r ffigurau diweithdra trwy roi pobl ar fudd-daliadau salwch. [*Torri ar draws.*] A hoffech chi ddweud rhywbeth, Oscar? Cafodd pobl eu symud o fudd-daliadau diweithdra i fudd-daliadau salwch, ac yno y buont yn nychu heb gyfle i gael swyddi eraill.

Sawl Aelod o'r Cynulliad *a gododd*—

Ann Jones: Gwnaf, fe dderbyniaf ymyriad.

Y Dirprwy Lywydd: Mae'n ddrwg gennyf, ond ymyriad pwy yr ydych am ei dderbyn?

Ann Jones: Andrew R.T. Davies.

Andrew R.T. Davies: Diolch i Ann Jones am dderbyn ymyriad. Dengys y ffigurau diweddaraf ar gyfer budd-daliadau analluogrwydd, a gafodd eu rhyddhau ganol mis Ionawr, bod 8.2 miliwn o unigolion yn cael budd-dal analluogrwydd, sef y nifer uchaf erioed. Felly, mae eich Llywodraeth chi wedi rhoi mwy o bobl ar fudd-dal

Ann Jones: That might well be the case, but it was your Government that tried to massage unemployment figures, and that is where the trouble starts.

Eleanor Burnham *rose*—

Ann Jones: No, I am sorry, Eleanor, I will not take an intervention because I will be shouted at.

With regard to where we are going on child poverty, I have listened to you all and you would not acknowledge what Joyce said about the minimum wage, which was a crucial Bill to help families to raise themselves from poverty. You have sat there, while the Tories in Westminster—who must be your friends and whom you must talk to—voted against that Bill, as they have in relation to similar problems. This is the issue. You cannot play this side of the Severn bridge and the other side of the Severn bridge, you have to take responsibility. You throw at us constantly what the Labour Government is doing in Westminster, so you have to be able to take it.

David Melding *rose*—

Ann Jones: Okay, go on.

The Deputy Presiding Officer: Are you taking another intervention?

Ann Jones: Yes.

David Melding: The minimum wage is a policy that has succeeded beyond all expectation—well, the expectations on this side of the Chamber. I am happy to say that we were wrong—I was certainly wrong—previously. Labour can be credited with putting child poverty on the agenda so that all parties now have to deal with that question. That is a really good thing. However, the evidence shows that you have not succeeded at the hardest level, with the most poor, and that most of your progress has been on the softer end and those who have been amenable to some of the approaches that you have

analluogrwydd nag unrhyw weinyddiaeth flaenorol.

Ann Jones: Mae'n ddigon posibl fod hynny'n wir, ond eich Llywodraeth chi a geisiodd ystwytho ffigurau diweithdra, a dyna'r lle mae'r trafferthion yn dechrau.

Eleanor Burnham *a gododd*—

Ann Jones: Na, mae'n flin gennyf, Eleanor, nid wyf am dderbyn ymyriad oherwydd fe fyddwch yn gweiddi arnaf.

O ran i ble yr ydym yn mynd ar dlodi plant, yr wyf wedi gwrandao ar bob un ohonoch, ac nid oeddech yn fodlon cydnabod yr hyn y mae Joyce wedi'i ddweud am yr isafswm cyflog, a oedd yn Fesur hollbwysig i helpu teuluoedd i godi'u hunain allan o dlodi. Yr ydych wedi eistedd yno, wrth i'r Torïaid yn San Steffan—rhaid eu bod yn gyfeillion ichi a rhaid eich bod yn siarad â hwy—bleidleisio yn erbyn y Mesur hwnnw, fel y maent wedi ei wneud gyda phroblemau tebyg. Dyna'r broblem. Ni allwch chwarae'r ochr hon i bont Hafren a'r ochr arall i bont Hafren; rhaid ichi gymryd cyfrifoldeb. Yr ydych yn dannod inni'r hyn y mae'r Llywodraeth Lafur yn ei wneud yn San Steffan drwy'r amser, felly, rhaid ichi allu cymryd hynny.

David Melding *a gododd*—

Ann Jones: Iawn, ewch yn eich blaen.

Y Dirprwy Lywydd: A ydych yn derbyn ymyriad arall?

Ann Jones: Ydw.

David Melding: Mae'r isafswm cyflog yn bolisi sydd wedi llwyddo y tu hwnt i bob disgwyl—wel, y disgwyliadau ar yr ochr hon o'r Siambr. Yr wyf fodlon dweud inni fod yn anghywir o'r blaen—yr oeddwn i'n sicr yn anghywir. Gellir canmol y Blaid Lafur am roi tldodi plant ar yr agenda fel y bydd yn rhaid i bob plaid ymdrin â'r cwestiwn hwnnw'n awr. Mae hynny'n beth da iawn. Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth nad ydych wedi llwyddo ar y lefel anoddaf, sef gyda'r bobl dlotaf a bod y rhan fwyaf o'ch cynnydd wedi'i wneud yn y pen hawsaf ymysg pobl sydd wedi bod yn barod i dderbyn rhai o'r dulliau yr ydych

taken.

Ann Jones: I will accept that. As I have said before, I have challenged my Government here on what it is doing in relation to child poverty and poverty. For example, I still have great concerns about the deprivation grant being rolled into the revenue support grant, because I feel that there are areas without outcome agreements in relation to which people in my constituency could very well lose out.

I am looking forward to the new child poverty strategy, and the Deputy Minister for Children has a passion that we have all seen in dedicating his political career to ensuring that every child has the opportunity, no matter where they are born or live, to have the ambition to succeed and to raise themselves. Those are the things that we have to do.

I cannot take lectures from the Tories, I am sorry. I know the devastation that you have caused over the years. To finish briefly, in April 2006, Oliver Letwin said that the Tories had signed up to the Government's target—Bethan referred to this—but I have not seen any signs of action on your part to show that you are doing anything to assist in that aim. Is that another flipping policy that you are going to flip-flop over?

Alun Davies: I considered this debate to be about far more than simply trading statistics and name-calling across the Chamber. In many ways, it is a debate about how we all see the role of the state and the ambition that we have, not simply for children, but for the whole of society. In many ways, this afternoon's debate has been a rehearsal of very old fractures and fault lines in our politics. The Conservatives favour a small state, the relief of poverty by the trickle-down effect of economic growth, and a weaker state in which public intervention is limited to the most extreme cases and where regulation takes place where market failure creates problems for the shareholders. Oscar's speechwriters mentioned it, and

wedi'u defnyddio.

Ann Jones: Yr wyf yn derbyn hynny. Fel yr wyf wedi'i ddweud o'r blaen, yr wyf wedi herio fy Llywodraeth yma ar yr hyn y mae'n ei wneud o safbwynt tlodi plant a thlodi. Er enghraifft, yr wyf yn dal yn bryderus iawn fod y grant amddifadedd i ddod yn rhan o'r grant cynnal refeniw, oherwydd teimlaf fod rhai ardaloedd heb gytundebau canlyniadau, ac y mae'n ddigon posibl y gallai pobl yn fy etholaeth i fod ar eu colled yn y cyswllt hwnnw.

Edrychaf ymlaen at y strategaeth newydd ar dlodi plant, ac mae gan y Dirprwy Weinidog dros Blant angerdd yr ydym i gyd wedi'i weld, wrth iddo neilltuo ei yrfa wleidyddol i sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle, ni waeth ble y caiff ei eni neu ble y mae'n byw, i gael yr uchelgais i lwyddo ac ymddyrchafu. Dyna'r pethau y mae'n rhaid inni eu gwneud.

Mae'n flin gennyf, ond nid wyf am gael pregeth gan y Torïaid. Gwn am y distryw yr ydych wedi'i achosi dros y blynyddoedd. I orffen yn fyr, ym mis Ebrill 2006 dywedodd Oliver Letwin bod y Torïaid wedi cefnogi targed y Llywodraeth—cyfeiriodd Bethan at hyn—ond nid wyf wedi gweld dim arwyddion o weithredu ar eich rhan chi i ddangos eich bod yn gwneud dim i helpu cyrraedd y nod hwnnw. A yw hynny'n enghraifft arall o bolisi y byddwch yn ei newid fel y mynnoch er mwyn troi'r dŵr i'ch melin eich hun?

Alun Davies: Yr oeddwn wedi ystyried bod y ddadl hon yn fwy na dim ond cyfnewid ystadegau a galw enwau ar bobl ar draws y Siambr. Mewn llawer ffordd mae'n ddadl am y modd yr ydym bob un yn gweld rôl y wladwriaeth a'r uchelgais sydd gennym, nid yn unig ar gyfer plant, ond ar gyfer cymdeithas yn gyfan. Mewn llawer ffordd mae'r ddadl y prynhawn yma wedi mynd dros hen hen holltau a ffawtliniau ein gwleidyddiaeth. Mae'n well gan y Ceidwadwyr wladwriaeth fach, lle caiff tlodi ei leihau yn sgil twf economaidd, a gwladwriaeth wannach lle caiff ymyriad cyhoeddus ei gyfyngu i'r achosion mwyaf eithafol, a lle mae rheoleiddio'n digwydd pan fydd methiant yn y farchnad yn achosi

Mark Isherwood's researchers provided the information for him. We see that it is a Conservative policy that has held firm down the ages. Today's Conservative Party policy on poverty would have been recognisable to Peel and the Earl of Derby. In philosophical terms, in a century and a half, absolutely nothing has changed on the Conservative benches.

That is why this debate differentiates us in this Chamber. We on this side of the Chamber believe that the state has a role to play. We believe that the power of the state should be used to eradicate the poverty that all too often disfigures too many of our communities and blights the life chances of too many of our children. Our ambition is the eradication of poverty, and not only the material poverty that is all too clear and recognisable—easy to see and easy to describe—but also the poverty of ambition and aspiration that holds back too many of our people. It is no good the Tories talking about life chances and creating a true meritocracy—Sorry about my coughing; I do have a doctor sitting next to me, however. There is no point if that meritocracy is fixed in favour of all those who already have the most. It is not good enough for the Conservatives to say that the richness of somebody's background has no impact on his or her life chances and some nonsense about the warmth of parenting counting more. Do you really believe that poor parents do not show warmth of parenting? Do you really believe that? For David Cameron to say that last month demonstrates that his thinking is as nineteenth century as the policies of the party he leads. How more out of touch with the reality of poverty can one person be? It is no surprise that that particular old Etonian does not understand the issues facing people in their everyday lives.

This Government has mobilised the state and the power of the Government to work to eradicate child poverty. That is why we legislate on it, and that is why we create programmes from Flying Start to the integrated children's centres, to ensure that the poorest children, the most vulnerable

problemau i'r cyfranddalwyr. Soniodd y sawl a ysgrifennodd araith Oscar am hyn, a darparodd ymchwilwyr Mark Isherwood y wybodaeth iddo. Gwelwn ei fod yn bolisi Ceidwadol sydd wedi dal yn gadarn drwy'r oesoedd. Byddai Peel ac Iarll Derby wedi gallu adnabod polisi'r Blaid Geidwadol bresennol ar dlodi. Yn athronyddol, nid oes dim byd o gwbl wedi newid ar feinciau'r Ceidwadwyr mewn canrif a hanner.

Dyna pam y mae'r ddadl hon yn dangos y gwahaniaeth rhyngom yn y Siambr hon. Yr ydym ni ar yr ochr hon o'r Siambr yn credu bod gan y wladwriaeth rôl i'w chwarae. Yr ydym yn credu y dylid defnyddio grym y wladwriaeth i ddileu'r tlodi sy'n andwyo gormod o'n cymunedau yn rhy aml o lawer, ac sy'n difetha cyfleoedd bywyd gormod o'n plant. Ein huchelgais yw dileu tlodi, nid yn unig y tlodi materol sydd mor amlwg a hawdd i'w adnabod—y mae'n hawdd ei weld ac yn hawdd ei ddisgrifio—ond hefyd y tlodi uchelgais a dyhead sy'n dal gormod o'n pobl yn ôl. Nid oes diben i'r Torïaid sôn am gyfleoedd bywyd a chreu gwir feritocratiaeth—mae'n flin gennyf fy mod yn pesychu; mae meddyg yn eistedd wrth fy ymyl, er hynny. Nid oes dim diben os yw'r feritocratiaeth honno o blaid y rheini sydd eisoes â'r mwyaf. Nid yw'n ddigon da i'r Ceidwadwyr ddweud nad yw cyfoeth cefndir rhywun yn cael dim effaith ar ei gyfleoedd mewn bywyd, a rhyw nonsens fod cynhesrwydd rhieni'n bwysicach. A ydych yn credu mewn gwirionedd nad yw rhieni tlawd yn dangos cynhesrwydd wrth fagu eu plant? A ydych yn credu hynny mewn gwirionedd? Mae'r ffaith fod David Cameron wedi dweud hynny fis diwethaf yn dangos mai meddylfryd y bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd ganddo, yn union fel polisiau'r blaid y mae'n ei harwain. Faint ymhellach y gall rhywun golli gafael ar y gwir am dlodi? Nid yw'n syndod nad yw'r gŵr arbennig hwn, a fu'n ddisgybl yn Eton, yn deall y problemau sy'n wynebu pobl yn eu bywyd pob dydd.

Dylai addysgu'r genedl fod yn flaenoriaeth i unrhyw Lywodraeth, ac mae'n hollbwysig i unrhyw Lywodraeth ystyried addysg yn fuddsoddiad ac nid yn gost. Mewn cyfnod pan fydd yr economi yn dioddef, mae'n bwysicach nag erioed inni adeiladu gweithlu cadarn sydd â sylfaen sgiliau amrywiol, a hynny er mwyn paratoi ar gyfer y cynnydd economaidd. Mae ffigurau'r wythnos diwethaf yn dangos efallai fod yr amser hwnnw wedi cyrraedd. Mae angen gweithlu sgilgar ac addysgedig arnom i helpu Cymru i gynyddu'n economaidd, yn enwedig gan ei bod hi bellach yn ymddangos fel pe bai'r dirwasgiad yn dod i ben. Er hyn, mae'n glir y bydd anawsterau ariannol yn parhau i bobl ac i fusnesau yng Nghymru, ac mae angen inni ddod o hyd i atebion i'w helpu i godi ar eu traed. Bydd y sectorau addysg bellach ac uwch yn hanfodol i helpu pobl i wella eu sgiliau er mwyn camu i mewn i'r gweithle, neu ymestyn eu sylfaen sgiliau tra bôn mewn gwaith er mwyn cadw eu swyddi.

Sylwedddolaf fod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad weithio o fewn setliad ariannol tyn, a rhaid wrth wneud penderfyniadau anodd yn

Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews): Cynigiau welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n nodi bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod swyddogaeth hollbwysig addysg bellach ac uwch, ac at hynny'n cydnabod y cyfraniad arwyddocaol a wnânt i ddatblygu sylfaen sgiliau Cymru.

Paul Davies: I move amendment 2 in the name of Alun Cairns. Add as a new point at the end of the motion:

notes with regret the Welsh Assembly Government's decision to make the further and higher education sectors find 5 per cent efficiency savings in the next financial year.

I am grateful to the Liberal Democrats for bringing this motion before the Assembly today. It is a pleasure to move the amendment in the name of Alun Cairns on behalf of the Welsh Conservatives.

Educating the nation should be a priority for any Government, and it is important for any Government to consider education as an investment rather than a cost. During a period when the economy is suffering, it is more important than ever that we build a strong workforce with a varied skills base, in order to prepare for the economic upturn. The figures released last week show that that time may now have come. We in Wales need a skilled and educated workforce to assist Wales to grow economically, particularly given that it now appears as though the recession is drawing to an end. However, it is clear that people and business in Wales will continue to experience financial difficulties, and we need to come up with solutions to help to put them back on their feet. The higher and further education sectors will be crucial to help people to improve their skills so that they can take up their place in the workforce, or to extend their skills base while they are in work in order to keep their jobs.

I appreciate that the Assembly Government has to work within a tight financial settlement, and difficult decisions will have

awr ac yn ystod y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, mae gennym ddyletswydd i fuddsoddi'n ddigonol yn addysg ein plant a'n pobl ifanc ar adegau fel hyn. Mae'r sectorau addysg bellach ac uwch yn chwarae rhan enfawr yn nyfodol ein cenedl a dyna pam ei fod yn hanfodol cyllido'r sectorau yn llawn, er mwyn datblygu gweithlu sgilgar i'n cynorthwyo gyda thwf a datblygu economaidd yn y dyfodol. Mae hefyd yn hanfodol inni dderbyn pwysigrwydd y sectorau hyn yn natblygiad cynhwysiant cymdeithasol cynyddol. Mae'n hanfodol, felly, i Lywodraeth y Cynulliad ddangos arweiniad er mwyn darparu strategaeth gydlynol, fel y gall colegau addysg bellach ac uwch ddatblygu eu cyrsiau. Rhaid i'r Llywodraeth fuddsoddi yn eu seilwaith a'u gallu, fel y mae llawer o sefydliadau addysg yn Lloegr yn ei fwynhau ar hyn o bryd, fel y gallant gyrraedd y nod.

Fel y gwyddom oll, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu cynyddu gwariant refeniw'r adran addysg gan 0.9 y cant yn unig yn 2010-11, sydd yn doriad o 0.6 y cant mewn termau real o'i gymharu â chwyddiant. Fel y dywedodd Jenny Randerson, mae'r Llywodraeth yn mynnu bod y sectorau addysg uwch a phellach yn canfod arbedion effeithlonrwydd o 5 y cant, er mai arbedion o 1.6 y cant yn unig a fyynnir gan bob sector llywodraethol arall. Fe'm beirniadwyd yn y gorffennol gan Aelodau Cynulliad sy'n gefnogol o'r Llywodraeth am adrodd y ffigurau hyn, ond y realiti yw mai dyna'r ffigurau swyddogol. Dyna ffigurau'r Llywodraeth, fel a gyhoeddwyd yn y gyllideb.

*Daeth William Graham i'r Gadair am 5.28 p.m.
William Graham took the Chair at 5.28 p.m.*

A hithau'n gyfnod economaidd anodd, ni allaf ddeall pam mae Llywodraeth y Cynulliad yn mynnu bod y sectorau addysg uwch a phellach yn canfod arbedion effeithlonrwydd o 5 y cant, er mai arbedion o 1.6 y cant yn unig a fyynnir gan bob sector arall. Bydd lleihau'r cyllid i addysg uwch a phellach ond yn tanlinellu'r bwch cyllidol enfawr rhwng Cymru a Lloegr o ran buddsoddi mewn addysg uwch. Mae bron pawb yn cydnabod bod bwch enfawr rhwng y buddsoddiad mewn addysg uwch yng

to be made now and in the years to come. However, we have a duty to make an adequate investment in the education of our children and young people at times like these. The further and higher education sectors play a huge part in the future of our nation and that is why it is crucial that we fund those sectors fully, in order to cultivate a skilful workforce to help us with our future economic growth and development. It is also vital that we accept the importance of these sectors to the development of further social inclusion. It is vital, therefore, for the Assembly Government to show leadership by developing a coherent strategy, so that further and higher education colleges can develop their courses. The Government must invest in their infrastructure and their abilities, as is enjoyed by many education institutions in England at present, so that they can realise their aims.

As we all know, the Assembly Government has decided to increase the education department's revenue expenditure by just 0.9 per cent for 2010-11, which is a cut of 0.6 per cent in real terms compared with inflation. As Jenny Randerson said, the Government insists on the further and higher education sectors finding efficiency savings of 5 per cent, although it is seeking savings of only 1.6 per cent from every other governmental sector. I have been criticised in the past by Assembly Members who are supportive of the Government for reporting these figures, but the reality is that they are the official figures. Those are the Government's own figures, which were published in the budget.

Given the difficult economic situation, I cannot understand why the Government insists on the further and higher education sectors finding efficiency savings of 5 per cent, although it is seeking savings of only 1.6 per cent from every other sector. Reducing the funding for further and higher education will serve only to highlight the enormous funding gap between England and Wales in investment in higher education. Almost everyone acknowledges that there is a huge gulf between the investment in higher

Nghymru o'i gymharu â Lloegr. Yng Nghymru, mae gennym un o'r 100 o brifysgolion gorau yn y byd ac un o'r ysgolion busnes gorau. Mae'n hollbwysig i'r sefydliadau hyn a phob un o'n prifysgolion a cholegau gael rôl hanfodol i gynorthwyo economi Cymru. Ar adeg economaidd anodd, mae'n bwysicach byth cael digon o fuddsoddi yn ein sector addysg uwch. Bydd honno'n ffactor allweddol i'n cynnydd economaidd.

Nid gwell buddsoddiad yw'r unig ateb, wrth gwrs. Mae hefyd yn hanfodol i'r sector preifat a'n sefydliadau addysg uwch a phellach gydweithredu'n well. Yr oedd hynny'n glir o adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu y llynedd am gyfraniad economaidd addysg uwch yng Nghymru. Gwelwyd o'r adroddiad mai cysylltiad bach iawn sydd gan rai sefydliadau addysg uwch ar hyn o bryd â'r gymuned fusnes leol, am nad yw'r llwybrau cyfathrebu'n bodoli eto. Mae'n hanfodol datblygu'r cysylltiadau hyn ar frys, a hynny er mwyn bod o fudd i economi Cymru.

Deallaf yn iawn fod llywodraethu weithiau yn golygu gorfod gwneud penderfyniadau anodd, a rhaid blaenoriaethu a gwneud y dewisiadau cywir pan fydd cyllidebau'n dynn. Mae llywodraethu yn sicr yn golygu gwneud dewisiadau a blaenoriaethu. Rhaid i gyllido ein sectorau addysg bellach ac uwch fod yn flaenoriaeth. Maent yn rhan annatod o'r gwaith o ddarparu'r portffolio addysgol a'r lefelau cyrhaeddiad yn ein hysgolion y mae arnom eu hangen. Anogaf Aelodau i gefnogi ein gwelliant 2, a byddwn ni, y grŵp Ceidwadol, yn cefnogi cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol.

5.30 p.m.

Peter Black: I thank Paul for his support for the motion. The Welsh Liberal Democrats are starting this debate from a position of strength in many ways, because, when the Assembly's budget came before us last year, we tabled amendments that demonstrated how we would pay for what we are proposing in this motion. We believe that the higher and further education sectors are crucial for the economic recovery of this country and for upskilling the workforce and getting people

education in Wales compared with that in England. In Wales, we have one of the top 100 universities in the world and one of the best business schools. It is crucial for those institutions and for every one of our universities and colleges to play a vital role in supporting the economy of Wales. At such a difficult economic time, it is even more important that there is adequate investment in our HE sector. It is a key factor to our economic growth.

However, more investment is not the only answer, of course. It is also important for the private sector and our higher education institutions to collaborate better. That was clear from the Enterprise and Learning Committee's report last year on the economic contribution of higher education in Wales. We saw from that report that the contact that some higher education institutions have with the local business community at present is very small indeed, and the pathways of communication do not yet exist. It is crucial that such links be established immediately, for the benefit of the Welsh economy.

I fully appreciate that being in government sometimes means having to make difficult decisions, and that one must prioritise and make the right choices when budgets are squeezed. Being in government certainly means making decisions and prioritising. The funding of our further and higher education sectors must be a priority. They are integral to the work of providing the education portfolio and the achievement levels in our schools that we need. I urge Members to support our amendment 2, and we, the Conservative group, will be supporting the Liberal Democrats' motion.

Peter Black: Yr wyf yn diolch i Paul am ei gefnogaeth i'r cynnig. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn dechrau'r ddaidl hon o fan cryf ar lawer ystyr, oherwydd pan ddaeth cyllideb y Cynulliad ger ein bron y llynedd, cyflwynwyd gwelliannau gennym a oedd yn dangos sut y byddem yn talu am yr hyn a gynigir gennym yn y cynnig hwn. Credwn fod y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch yn hanfodol i adfer economi'r wlad hon ac i wella sgiliau'r gweithlu a chael

back to work as we come out of the recession. Without the necessary investment in those sectors, we will not be in a position to do that. We have tabled this motion today in the hope of highlighting once more the importance that we attach to this sector.

The Assembly Government spends approximately 16 per cent per head more on health services than England, and yet it invests 15 per cent less in each student undertaking university education in Wales. On the face of it, universities do not appear to be doing so badly: their 2008 accounts show that they made an operating surplus of £43.3 million. However, the reality is that, if the cost of capital and infrastructure are taken into account, which are crucial to the student experience and to delivering the research and development that we expect of our university sector, the sector actually recorded a deficit of £46 million.

The Push Student Debt survey, released in August 2009, shows that students in Wales are graduating with an average debt of more than £12,000. Worryingly, the report also revealed that debt is creeping up year on year, with undergraduates coming to the end of their first year of study expecting to owe £21,200 by the time they leave, compared with the £13,874 owed by those about to complete their third year of study. Compare this with Scottish students, who average only £2,194 of debt per year of study, and the previously mentioned university funding gap becomes more and more obvious with regard to what we expect of our students and the burden that we place on them as they go through their education. That is another reason why we believe that we need to deal with the issue of fees, particularly in order to help students to complete their studies and stay in Wales to deliver on them.

In his response to the Finance Committee's report on education, the then Minister for Finance and Public Service Delivery stated

pobl i aildechrau gweithio wrth inni ddod allan o'r dirwasgiad. Ni fyddwn mewn sefyllfa i wneud hynny heb y buddsoddiad angenrheidiol yn y sectorau hynny. Yr ydym wedi cyflwyno'r cynnig hwn heddiw yn y gobaith o dynnu sylw, unwaith yn rhagor, at bwysigrwydd y sector hwn yn ein barn ni.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwario tuag 16 y cant y pen yn fwy ar wasanaethau iechyd na Lloegr, ond mae'n buddsoddi 15 y cant yn llai ym mhob myfyriwr sy'n cael addysg prifysgol yng Nghymru. Ar yr olwg gyntaf, nid yw pethau'n ymddangos yn rhy ddrwg i brifysgolion: mae eu cyfrifon ar gyfer 2008 yn dangos iddynt sicrhau gwarged gweithredu o £43.3 miliwn. Fodd bynnag, y gwir amdani yw bod y sector mewn gwirionedd wedi cofnodi diffyg o £46 miliwn, os ystyrir costau cyfalaf a seilwaith sy'n hanfodol o safbwynt profiad y myfyriwr ac o safbwynt gwneud y gwaith ymchwil a datblygu a ddisgwyliwn gan ein sector prifysgolion.

Mae'r arolwg o ddyled myfyrwyr gan Push a gyhoeddwyd ym mis Awst 2009 yn dangos bod myfyrwyr yng Nghymru yn graddio gyda dyled o fwy na £12,000 ar gyfartaledd. Dangosodd yr adroddiad hefyd fod lefel y ddyled yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac israddedigion sy'n dod i ddiwedd eu blwyddyn gyntaf yn disgwyl y bydd ganddynt ddyled o £21,200 erbyn iddynt adael, o'i chymharu â'r ddyled o £13,874 sydd gan y rheini sydd ar fin gorffen eu trydedd flwyddyn, ac mae hynny'n destun pryder. Mae cymharu hynny â sefyllfa myfyrwyr yn yr Alban, sydd â dyled o £2,194 yn unig ar gyfartaledd am bob blwyddyn pan fyddant yn astudio, yn dangos bod y bwch cyllidol y cyfeiriwyd ato eisoes yng nghyswllt prifysgolion yn dod yn fwyfwy amlwg o ran yr hyn a ddisgwyliwn gan ein myfyrwyr a'r baich yr ydym yn ei osod arnynt wrth iddynt gael eu haddysg. Mae hynny'n rheswm arall pam y credwn fod angen inni ymdrin â'r broblem ffioedd, yn enwedig er mwyn helpu myfyrwyr i orffen eu hastudiaethau ac i aros yng Nghymru i weithio ar sail yr astudiaethau hynny.

Yn ei ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar addysg, dywedodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau

that these efficiencies are about

Cyhoeddus bryd hynny, fod yr arbedion effeithlonrwydd hyn yn ymwneud â

‘delivering more from existing budgets—not reductions to budgets’.

chyflawni mwy gyda'r cyllidebau sy'n bodoli—nid cwtogi cyllidebau.

Although I am happy that the Government is encouraging efficiency—I wish that it would do the same in the health sector—it is doing just what the Minister suggested it was not: reducing the budget, or the amount of money that colleges have to spend.

Er fy mod yn falch bod y Llywodraeth yn annog effeithlonrwydd—byddai'n dda gennyf pe bai'n gwneud yr un peth yn y sector iechyd—mae'n gwneud yr union beth yr awgrymodd y Gweinidog nad oedd yn ei wneud: sef cwtogi'r gyllideb, neu'r arian sydd gan golegau i'w wario.

The situation for further education colleges is equally difficult. Having already applied efficiencies wherever it can, the sector has been forced to shed around 375 jobs as a result of the 2009-10 settlement. There have been 249 voluntary redundancies, 59 compulsory redundancies and 67 jobs have not been replaced. At the same time, demand for courses in September and October 2009 grew significantly, with an increase of 6.9 per cent in full-time courses. These colleges are the engine room where we are building our economy by building the skills that we need for the future. People want to go on these courses; they want to acquire the skills; they want the education; they want the training. If we do not fund that properly, we will not achieve that recovery.

Mae'r sefyllfa'r un mor anodd i golegau addysg bellach. Ar ôl sicrhau arbedion effeithlonrwydd eisoes ble bynnag y bo modd, mae setliad 2009-10 wedi gorfodi'r sector i golli oddeutu 375 o swyddi. Cafwyd 249 o ddiswyddiadau gwirfoddol a 59 o ddiswyddiadau gorfodol, ac mae 67 o swyddi heb eu llenwi ar ôl iddynt ddod yn wag. Ar yr un pryd, gwelwyd cynnydd sylweddol yn y galw am gyrsiau ym mis Medi a mis Hydref 2009, gyda chynnydd o 6.9 y cant mewn cyrsiau llawn amser. Y colegau hyn yw'r pwerdy lle'r ydym yn adeiladu ein heconomi trwy feithrin y sgiliau y mae arnom eu hangen ar gyfer y dyfodol. Mae pobl yn awyddus i ddilyn y cyrsiau hyn; maent yn awyddus i feithrin y sgiliau; maent yn awyddus i gael yr addysg; maent yn awyddus i gael yr hyfforddiant. O beidio â chyllido hynny'n iawn, ni fyddwn yn sicrhau'r adferiad hwnnw.

Call it what you will, but if you force a sector to cut back by 5 per cent, you are cutting its funding in real terms, as has previously been admitted by Ministers. The Welsh Liberal Democrats are urging the Government to look again at the budget it has provided for further and higher education. We should be investing in those sectors if we are to achieve a recovery. We want to see the funding that is going into other parts of the budget restored to the further and higher education sector budgets. I urge the Government to take note of the debate today and to start to address some of the damage that has been done over the past few years.

Gallwch ei alw'n beth bynnag a fynnoch, ond os gorfodwch sector i gwtogi 5 y cant, yr ydych yn torri ei gyllid mewn termau real, fel y mae Gweinidogion wedi cyfaddef cyn hyn. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cymell y Llywodraeth i edrych eto ar y gyllideb a ddarparwyd ganddi ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch. Dylem fod yn buddsoddi yn y sectorau hynny os ydym am sicrhau adferiad. Yr ydym am weld y cyllid sy'n mynd i rannau arall y gyllideb yn cael ei roi'n ôl i gyllidebau'r sector addysg bellach a'r sector addysg uwch. Pwysaf ar y Llywodraeth i gymryd sylw o'r ddadl heddiw a dechrau mynd i'r afael â rhywfaint o'r difrod sydd wedi'i wneud dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Jeff Cuthbert: I too wish to thank the Lib

Jeff Cuthbert: Yr wyf finnau'n dymuno

Dems for tabling this motion on what is a very serious subject. However, in my contribution, I would like to expand on my earlier exchange with the Minister for Children, Education, and Lifelong Learning with regard to the concerns about the role of further and higher education in boosting higher level skills in Wales, which was mentioned directly in the Government's amendment, and doing so by forming better collaborative links between institutions, and also with industry, so that we can prepare our workforce for the knowledge-intensive economy of the future, and satisfy the ever-growing recruitment demands, particularly of the engineering sector.

Further and higher education institutions are crucial to the delivery of the 'One Wales' skills and employment commitments. I welcome the fact that they are at the heart of the Welsh Assembly Government's 'Skills That Work For Wales' strategy. After all, just over two years ago, the Webb review of further education put forward several recommendations on the delivery of post-14 learning in Wales and reducing the basic skills gap. These included recommendations on satisfying the skills requirements of employers and greater collaboration between FE colleges, as well as collaboration with sixth forms, universities and local businesses, both large and small. That is why I am pleased with what the Minister has said so far about his push for greater collaboration between institutions in the further and higher sectors. One problem that characterises the HE sector in Wales is the considerable number of very small institutions that we have, which demands greater collaboration, if not mergers.

As I mentioned in my earlier contribution, I visited Swansea University just before Christmas and was made aware of its plans for a Swansea bay science and innovation campus. The university hopes that this will lead the way in Wales, by forging strategic campus-based skills links between academia and industry, sharing the latest technology,

diolch i'r Democratiaid Rhyddfrydol am gyflwyno'r cynnig hwn ar fater difrifol iawn. Fodd bynnag, yn fy nghyfraniad hoffwn ehangu ar yr hyn a ddywedwyd pan siaradais yn gynharach â'r Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes am y pryderon am swyddogaeth addysg bellach ac addysg uwch o ran hybu sgiliau lefel uwch yng Nghymru. Crybwyllwyd hynny'n uniongyrchol yng ngwelliant y Llywodraeth, a gwneud hynny trwy feithrin gwell cysylltiadau cydweithredu rhwng sefydliadau, a chyda diwydiant hefyd, fel y gallwn baratoi ein gweithlu ar gyfer economi'r dyfodol a fydd yn ddwys o ran gwybodaeth, ac i fodloni'r galw cyson am recriwtiaid, yn enwedig yn y sector peirianeg.

Mae sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn hanfodol o safbwynt cyflawni ymrwymadau 'Cymru'n Un' ar sgiliau a chyflogaeth. Croesawaf y ffaith eu bod wrth wraidd strategaeth Llywodraeth y Cynulliad, 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Wedi'r cyfan, ychydig dros ddwy flynedd yn ôl cyflwynodd adolygiad Webb o addysg bellach nifer o argymhellion ar gyfer cyflwyno addysg ôl-14 yng Nghymru ac i leihau'r bwlch mewn sgiliau sylfaenol. Yr oedd yr argymhellion hynny'n cynnwys bodloni gofynion cyflogwyr o ran sgiliau, mwy o gydweithredu rhwng colegau addysg bellach, a chydweithredu â sefydliadau chweched dosbarth, prifysgolion a busnesau lleol, boed fawr neu fach. Dyna pam yr wyf yn fodlon â'r hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud hyd yma am ei ymdrech i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau yn y sector addysg bellach a'r sector addysg uwch. Un broblem sy'n nodweddu'r sector addysg uwch yng Nghymru yw'r nifer sylweddol o sefydliadau bach iawn sydd gennym, sy'n golygu ei bod yn rhaid wrth fwy o gydweithredu rhyngddynt, neu eu cyfuno, hyd yn oed.

Fel y dywedais yn fy nghyfraniad cynharach, bûm yn ymweld â Phrifysgol Abertawe ychydig cyn y Nadolig, a chefais wybod am ei chynlluniau i sefydlu campws gwyddoniaeth ac arloesi bae Abertawe. Mae'r brifysgol yn gobeithio y bydd y datblygiad hwn yn arwain y ffordd yng Nghymru, trwy ffurfio cysylltiadau strategol

along with the brightest new ideas, for the benefit of wealth creators, so that the area can build on its capacity potential and help to drive the knowledge-based, highly skilled economy that we rightly seek. Needless to say, I was very impressed with these plans and found them to be an appropriate link between our proud, heavy industrial past and what undoubtedly lies ahead.

In conclusion, I feel that forging ahead and delivering on the good intentions of these developments is important. I welcome the Welsh Assembly Government's commitments and strategies, such as 'Skills That Work For Wales' and 'For Our Future', for greater collaboration between educational institutions and closer links with industry so that the skills needs of employers—and I do not just mean those in the engineering sector—are met. In this way, we can ensure that we become the small, clever country that we aspire to be.

Mick Bates: In bringing forward this debate today, I am sure that the Liberal Democrats have touched upon a part of all of you that sees education as being precious to us. We cannot destroy the system that we have. I remind you of the great statement made by American lawyer Derek Bok, who said:

'If you think education is expensive, try ignorance'.

My fear is that, once we enter a deeper recession, Governments will demand cuts through every budget. All of us—every party—is part of a game of looking at where we cut. However, the most precious commodity that we can sustain is education, which is why it is frightening to even consider a cut in funding for education. I will address the comments made by the Finance Committee, not just about the level of funding, but about the preparation and the ability of institutions to prepare for the way that funding is allocated. If you look through the reports published by the Finance Committee, the Welsh Local Government

o ran sgiliau rhwng y byd academiaidd a diwydiant, ar gampws lle gellir rhannu'r dechnoleg ddiweddaraf ynghyd â'r syniadau newydd gorau, er lles y sawl sy'n creu cyfoeth, fel y gall yr ardal adeiladu ar ei photensial o ran gallu, a helpu hybu'r economi hynod fedrus a dwys o ran gwybodaeth yr ydym yn iawn i'w cheisio. Afraid dweud bod y cynlluniau hyn wedi gwneud cryn argraff arnaf, a chredwn eu bod yn gyswllt priodol rhwng ein hanes balch o ddiwydiant trwm a'r hyn sy'n siŵr o ddod yn y dyfodol.

Wrth gloi, teimlaf fod symud ymlaen a gwireddu bwriadau da y datblygiadau hyn yn bwysig. Croesawaf ymrwymadau a strategaethau Llywodraeth y Cynulliad, megis 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' ac 'Er Mwyn ein Dyfodol', i sicrhau mwy o gydweithredu rhwng sefydliadau addysg a chysylltiadau nes â diwydiant fel y gellir diwallu anghenion cyflogwyr o ran sgiliau—ac nid wyf yn golygu anghenion y sector peirianeg yn unig. Fel hyn, gallwn sicrhau ein bod yn datblygu'n wlad fach alluog, y math o wlad yr ydym yn dyheu am fod.

Mick Bates: Wrth gyflwyno'r ddadl hon heddiw, yr wyf yn siŵr fod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi cyffwrdd â rhyw ran o bob un ohonoch sy'n ystyried bod addysg yn werthfawr inni. Ni allwn ddinistrio'r system sydd gennym. Hoffwn eich atgoffa o ddatganiad pwysig Derek Bok, y cyfreithiwr o America, a ddywedodd:

Os credwch fod addysg yn ddrud, meddylwch beth yw pris anwybodaeth.

Ofnaf, pan fyddwn mewn dirwasgiad dyfnach, y bydd Llywodraethau'n mynnu torri pob cyllideb. Mae pob un ohonom—ym mhob plaid—yn rhan o gêm sy'n golygu chwilio am le i wneud toriadau. Fodd bynnag, y cyfleustod mwyaf gwerthfawr y gallwn ei gynnal yw addysg, a dyna pam y mae'n arswydus hyd yn oed ystyried torri'r cyllid a roddir i addysg. Hoffwn ymdrin â'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid, nid yn unig am lefel y cyllid, ond am y paratodau a gallu sefydliadau i baratoi ar gyfer y modd y caiff cyllid ei ddyrannu. O edrych drwy'r adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyllid, Cymdeithas

Association, the Association of School and College Leaders Cymru and the National Association of Head Teachers, you will see that they all express concern at the lateness at which funding was announced.

In response to our debate, Minister, I hope that you will be able to confirm that this uncertainty—I will give you more examples shortly—will be removed by better management of funding allocations. This happens at a number of stages in the process. For example, colleges are not informed about the level of supplementary funding for learners with learning difficulties and/or disabilities until midway through the academic year, even though colleges will have committed resources to those learners.

5.40 p.m.

On 14 December 2009, midway through the academic year, colleges were informed of the supplementary budget funding for 2009-10 and informed that it had been reduced to 70 per cent of their 2008-09 allocation. The budget for that academic year had already been put into practice, so you can imagine the action that had to take place and the emergency reductions in spending that had to be made. The foundation of frustration comes from the lack of consistency. As CollegesWales states:

‘Colleges would like to see some consistency in funding. Planning is difficult when allocations vary from year to year. For example, in 2008/09 one college had a reduction in WAG funding of up to £1m only to receive an increase of £1m the following year. WAG needs to give serious consideration to three-year budgets or consider preserving a core part of a college’s allocation from year to year to prevent dramatic annual fluctuations.’

I know that the Minister will have heard me plead, over many years, for the prevention of fluctuations in the budget by the provision of three-year budgets. The previous Prime Minister made a declaration, right here in

Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon, gwelwch fod pob un ohonynt yn mynegi pryder fod y cyhoeddiad am gyllid wedi bod mor hwyr.

Mewn ymateb i’n dadl, Weinidog, gobeithio y gallwch gadarnhau y bydd yr ansicrwydd hwn—a rhoddaf fwy o enghreifftiau ichi yn y man—yn cael ei ddileu trwy reoli dyraniadau cyllid yn well. Bydd hyn yn digwydd yn ystod sawl cam yn y broses. Er enghraifft, ni chaiff colegau wybod am lefel y cyllid atodol ar gyfer dysgwyr ag anabledau a/neu anawsterau dysgu tan hanner ffordd drwy’r flwyddyn academaidd, er y bydd colegau wedi gorfod neilltuo adnoddau ar gyfer y dysgwyr hynny.

Ar 14 Rhagfyr 2009, hanner ffordd drwy’r flwyddyn academaidd, cafodd colegau wybod am y cyllid o’r gyllideb atodol ar gyfer 2009-10, a chawsant wybod bod y cyllid hwnnw wedi gostwng i 70 y cant o’r hyn a gawsant yn 2008-09. Yr oedd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn academaidd honno eisoes wedi’i rhoi ar waith, felly gallwch ddychmygu’r camau gweithredu y bu’n rhaid eu cymryd a’r toriadau y bu’n rhaid eu gwneud ar frys i wariant. Y diffyg cysondeb sy’n peri rhwystredigaeth. Fel y dywed ColegauCymru:

Hoffai colegau weld rhywfaint o gysondeb yn y cyllid a ddarperir. Mae’n anodd cynllunio pan fydd dyraniadau’n amrywio o’r naill flwyddyn i’r llall. Er enghraifft, cafodd un coleg hyd at £1 filiwn yn llai o gyllid gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2008/09, ond cafodd £1 filiwn yn fwy y flwyddyn wedyn. Mae angen i Lywodraeth y Cynulliad fynd ati o ddifrif i ystyried cyflwyno cyllidebau tair blynedd neu i ddiogelu rhan graidd o ddyraniad coleg o’r naill flwyddyn i’r llall er mwyn osgoi amrywiadau sylweddol bob blwyddyn.

Gwn y bydd y Gweinidog wedi fy nghlywed yn dadlau, ers llawer blwyddyn, dros atal amrywiadau yn y gyllideb trwy ddarparu cyllidebau tair blynedd. Dywedodd y Prif Weinidog blaenorol, yma yng Nghaerdydd

Cardiff, to a headteachers' annual conference that he would do that. We are still to see the implementation of that pledge. There are many complications in this process, but if we are to manage any budget properly, the Government must reverse the 5 per cent cut. We will have to ensure that the uncertainty and the variation in funding levels from one year to the next and the lateness at which funding levels are announced are resolved, so that higher education institutions have a fighting chance of accommodating funding pressures.

By the way, this is all in contrast to the way in which President Obama has approached education funding in America. I will not discuss the merits of the different systems, but he has just increased spending on education, because he recognises that interface between education and the economy.

In conclusion, I would like to emphasise the contribution that the university sector in Wales makes to our economy. The sector had a turnover of £1 billion, it generated a £2 billion output to the Welsh economy, and it gained export earnings for Wales of £170 million, including £65 million from European and overseas grants and £104 million in fees and knock-on expenditure from international students. It earned £121 million in total research grants for Wales and over £205 million from contracts and other income streams. That is just a small sample of why further and higher education in Wales should not suffer the cuts that you are proposing.

Nerys Evans: Hoffwn ddiolch i'r Rhyddfrydwyr am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw er mwyn i ni gael cyfle i drafod a chydabod cyfraniad arbennig addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru. Yr wyf yn bwriadu sôn ychydig am addysg bellach, yna addysg uwch, cyn cloi gyda rhai pwyntiau cyffredinol.

Does dim dwywaith fod strwythur addysg bellach drwy ein colegau a sefydliadau chweched dosbarth yn hanfodol er mwyn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu—cyfleoedd academiaidd a galwedigaethol—nid

mewn cynhadledd flynyddol i brifathrawon, y byddai'n gwneud hynny. Yr ydym yn dal i ddisgwyl gweld gwireddu'r addewid hwnnw. Mae nifer o gymhlethodau yn y broses hon, ond os ydym am reoli unrhyw gyllideb yn briodol, rhaid i'r Llywodraeth wrthdroi'r toriad o 5 y cant. Bydd yn rhaid inni fynd i'r afael â'r ansicrwydd, y modd y mae lefel y cyllid yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, a'r modd y caiff gwybodaeth am lefelau cyllid ei chyhoeddi'n hwyr, er mwyn i sefydliadau addysg uwch gael cyfle teg i ddygymod â phwysau ar gyllid.

Gyda llaw, mae hyn i gyd yn wahanol iawn i'r modd y mae'r Arlywydd Obama wedi mynd ati i gyllido addysg yn America. Nid wyf am drafod rhinweddau'r gwahanol systemau, ond mae newydd gynyddu gwariant ar addysg, am ei fod yn cydnabod y cysylltiad rhwng addysg a'r economi.

I gloi, hoffwn bwysleisio'r cyfraniad y mae'r sector prifysgolion yng Nghymru yn ei wneud i'n heconomi. Yr oedd trosiant y sector yn £1 biliwn, cynhyrchodd allbwn gwerth £2 biliwn i economi Cymru, a daeth ag enillion allforio gwerth £170 miliwn i Gymru, gan gynnwys £65 miliwn o grantiau Ewropeaidd a thramor a £104 miliwn mewn ffioedd a gwariant canlyniadol gan fyfyrwyr rhyngwladol. Enillodd gyfanswm o £121 miliwn mewn grantiau ymchwil i Gymru a thros £205 miliwn o gontractau a ffrydiau incwm eraill. Dyna flas yn unig o rai o'r rhesymau pam na ddylai addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru ddiodeff y toriadau a gynigir gennych.

Nerys Evans: I should like to thank the Liberals for tabling this motion today, giving us an opportunity to discuss and recognise the special contribution of higher and further education in Wales. I intend to talk briefly about further education, then higher education, before closing with some general points.

There is no doubt that the structure of further education through our colleges and sixth forms is crucial for the provision of a wide range of learning opportunities—academic and vocational—not only for our young

yn unig i'n pobl ifanc, ond hefyd i oedolion sydd eisiau dychwelyd i'r byd addysg. Mae hyn, wrth gwrs, hyd yn oed yn bwysicach wrth inni ddiodeff canlyniadau'r dirwasgiad ac wrth i fwy o bobl geisio dysgu sgiliau newydd.

Yr ydym wedi clywed y prynhawn yma am yr arbedion effeithlonrwydd mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'n colegau addysg bellach eu cyflawni, ond yr ydym hefyd wedi clywed am y cyllid ychwanegol mae'r colegau wedi ei dderbyn gan y Llywodraeth ar gyfer prentisiaethau ac addysgu oedolion—yr union feysydd lle mae angen buddsoddiad pellach yn sgîl y dirwasgiad. Hoffwn gannol y Llywodraeth am ymateb drwy ddarparu mwy o gyllid i'n colegau drwy ddwy ffrwd newydd: y cyntaf yw'r Llwybrau at Brentisiaethau y cyfeiriodd Jenny ato, sy'n darparu £8.5 miliwn ychwanegol; a'r ail yw'r cyllid ar gyfer sgiliau ychwanegol i oedolion, sef mwy na £16 miliwn. Felly, mae cynnydd o 5.85 y cant yn y setliad ar gyfer 2010-11. Hyd yn oed os ydych yn tynnu allan arian y Llwybrau at Brentisiaethau y cyfeiriodd Jenny ato, mae cynnydd yn y gyllideb addysg bellach i'n colegau o 2.8 y cant.

Nid fi yn unig sy'n croesawu'r cyllid hwn; mae ColegauCymru hefyd yn croesawu'r setliad ariannol, er bod rhaid i'r colegau ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd. Mae'r sector hefyd wedi datgan ei gwerthfawrogiad am gael y wybodaeth am y setliad ariannol ym mis Ionawr, sy'n gynnar iawn, oherwydd ar adegau maent wedi cael y wybodaeth mor hwyr â mis Mawrth neu mis Ebrill. Mae hynny'n gwrth-ddweud pwynt Mick Bates yn llwyr. Maent wedi cael y wybodaeth yn gynnar, sydd wedi galluogi ein colegau addysg bellach i gynllunio'n briodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'n bwysig parhau i rannu gwybodaeth perthnasol mewn da bryd, ac, felly, anogaf y Gweinidog i sicrhau bod ein colegau yn cael gwybodaeth cyn gynted â bo modd a mwy o fanylion am y cyllid ar gyfer datblygu sgiliau ychwanegol i oedolion o ran yr amodau, y disgwyliadau ac yn y blaen. Bydd hynny'n sicrhau bod ganddynt amser digonol i gynllunio'n ystyrlon.

people but also for adults who wish to return to education. This is, of course, even more important as we suffer the consequences of the recession and people try to learn new skills.

We have heard this afternoon of the efficiency savings the Government expects our further education colleges to achieve, but we have also heard of the additional funding which colleges have received from the Government for apprenticeships and adult learning—the very areas where further investment is needed because of the recession. I should like to commend the Government for responding by providing more funding for our colleges in two new streams: first, the Pathways to Apprenticeships which Jenny mentioned, providing an additional £8.5 million; and secondly, the funding for additional skills for adults of more than £16 million. Therefore, there has been an increase of 5.85 per cent on the settlement for 2010-11. Even if you discount the Pathways to Apprenticeships money to which Jenny referred, there is an increase of 2.8 per cent in the further education budget for our colleges.

This funding is not only welcomed by me; CollegesWales also welcomes the financial settlement, although the colleges have to find efficiency savings. The sector has also expressed its appreciation of receiving the information about the financial settlement in January, which is very early, because at times they have received the information as late as March or April. That completely contradicts the point made by Mick Bates. They have received the information early, which has allowed our further education colleges to plan appropriately for the coming year.

It is important to continue to share relevant information in good time, and, therefore, I encourage the Minister to ensure that our colleges receive information as soon as possible and further details on the funding for developing additional skills for adults in relation to the conditions, the expectations and so forth. That will ensure that they have sufficient time to plan in a meaningful way.

Fel y soniais ar y dechrau, mae gan y sector addysg bellach rôl bwysig i'w chwarae, ond mae ffyrdd o wella ar sut y mae'r sector yn gweithredu. Mae lle i wella darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, atebolrwydd a llywodraethu, ac i gydlynu termau gweithwyr ar draws Cymru. Edrychaf ymlaen at gael mwy o fanylion gan y Gweinidog ar y materion hynny maes o law.

Symudaf ymlaen i drafod addysg uwch. Un elfen y mae'n rhaid ei chofio yn y drafodaeth hon yw bod y mwyafrif o gyllid ein prifysgolion yn dod o ffynonellau y tu allan i'r Llywodraeth. Mae cyfraniad Llywodraeth Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn cyfateb i 38 y cant o holl gyllid ein prifysgolion, o'i gymharu â chyfraniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr i brifysgolion yn Lloegr, sy'n cyfateb i 35 y cant o gyllid ei brifysgolion. Mae'r arian hwnnw, gyda'r cyllid uniongyrchol a gyhoeddwyd dros y misoedd diwethaf o'r adran iechyd, sef £16 miliwn i Brifysgol Caerdydd, a £35 miliwn o arian Ewrop, yn cyfateb i gynnydd o 1.4 y cant ar gyllideb 2009-10.

Mae gwaith ein prifysgolion yn destun balchder inni gyd. Mae'n glir, wrth i'n prifysgolion geisio denu mwy o gyllid o amryw o ffynonellau, bod cydweithio rhwng sefydliadau yn hanfodol. Gwyddom fod angen buddsoddi mwy mewn gwaith ymchwil. Yn y meysydd hynny lle mae ein prifysgolion yn rhagori, mae cydweithio rhwng sefydliadau ac adrannau wedi bod yn ffactor amlwg.

Yr oedd datganiad polisi Llywodraeth Cymru yn yr Hydref ar gyfer addysg uwch yn sôn yn glir am flaenoriaethu cydweithio a datblygu cysylltiadau gyda busnesau. Atgyfnerthwyd hynny y prynhawn yma gan y Gweinidog yn ystod ei sesiwn cwestiynau.

Mae gennyf ddau bwynt cyffredinol cyn cloi. Nid oes dwywaith bod y setliad ariannol yn dynn—credaf na fyddai neb yn y Siambr yn anghytuno â hynny. Eto i gyd, mae'r Gweinidog newydd wedi datgan yn glir ei fwriad i sicrhau bod buddsoddiad y Llywodraeth ym maes addysg yn cyrraedd

As I mentioned at the beginning, the further education sector has an important role to play, but there are ways of improving how the sector operates. There is room for improvement in Welsh-medium education, accountability and governance, and in co-ordinating the terms and conditions of workers throughout Wales. I look forward to receiving further details from the Minister on these matters in due course.

I move on to discuss higher education. One element that we must remember in this discussion is that the majority of our universities' funding comes from sources outside of Government. The contribution of the Welsh Government through the Higher Education Funding Council for Wales equates to 38 per cent of the total funding of our universities, compared with the contribution of the Higher Education Funding Council for England, which equates to 35 per cent of universities' funding. That money, together with the direct funding announced over the past few months from the health department, namely £16 million for Cardiff University, and £35 million of European funding, equates to an increase of 1.4 per cent compared with the 2009-10 budget.

We all take pride in the work of our universities. It is clear, as our universities try to attract more funding from various sources, that collaboration between institutions is essential. We know that more needs to be invested in research work. In those areas where our universities excel, collaboration between institutions and departments has been a prominent factor.

The policy statement by the Welsh Government in October on further education mentioned specifically the prioritisation of collaboration and developing links with businesses. This was reinforced this afternoon by the Minister during questions.

To conclude, I have two general points. There is no doubt that the financial settlement is tight—I do not believe anyone in the Chamber would disagree with that. Nevertheless, the new Minister has stated clearly his intention to ensure that Government investment in education reaches

ein dosbarthiadau, ein colegau a'n ystafelloedd darlithio. Croesawaf yn fawr yr adolygiad ar sut yr ariennir addysg, sydd wedi cychwyn ar ei gwaith. Edrychaf ymlaen at weld y canlyniadau ac at weld y Gweinidog yn gweithredu arnynt.

Diolchais ar ddechrau fy nghyfraniad i'r Democratiaid Rhyddfrydol am roi'r cyfle inni drafod addysg bellach ac addysg uwch heddiw. Fodd bynnag, wrth wrando ar Jenny Randerson, mae'n amlwg nad ydynt wedi gweld y ffigurau diweddaraf o ran y setliad a gafodd y sector ddiwedd yr wythnos diwethaf. Mae gennyf gopi os hoffech ei weld. Mae'n dangos cynnydd o 5.85 y cant yn y cyllid ar gyfer ein colegau. Fel y soniais, yr wyf wedi siarad gyda chynrychiolwyr o'r sector, ac maent yn weddol hapus gyda'r setliad.

Jenny Randerson: Will you take an intervention?

William Graham: Order. She cannot, as she is out of time. Nerys, could you finish off, please?

Nerys Evans: Hoffwn droi at welliant y Ceidwadwyr. Mae ychydig o déjà vu yn ei gylch. Nid oes hygredded gennych o gwbl yn y maes hwn os nad ydych am ddweud beth y byddwch yn ei dorri. Soniodd Paul am gyllid digonol, bod rhaid buddsoddi, a bod setliad tynn, heb wneud un awgrym o ble y byddai'r arian yn dod. Nid oedd sôn ychwaith am y ffaith, pe bai'r Ceidwadwyr yn ennill grym yn San Steffan, y byddai cyllid y Llywodraeth yma'n cael ei dorri, gan gael effaith andwyol ar y gyllideb addysg.

The Minister for Children, Education and Lifelong Learning (Leighton Andrews): I will start by declaring an interest in that I am an honorary professor in the school of journalism, media and cultural studies at Cardiff University. I do not think that that causes any conflicts.

our classrooms, our colleges and our lecture theatres. I very much welcome the review of the way education is funded, which is now under way. I look forward to seeing the result and to seeing the Minister act on them.

At the beginning of my contribution I thanked the Liberal Democrats for giving us the opportunity to discuss further and higher education today. However, listening to Jenny Randerson, it is clear that they have not seen the latest figures on the settlement which the sector received at the end of last week. I have a copy if you would like to see it. It shows an increase of 5.85 per cent in the funding for our colleges. As I mentioned, I have spoken to representatives of the sector, and they are quite happy with the settlement.

Jenny Randerson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

William Graham: Trefn. Ni all dderbyn ymyriad gan nad oes amser ganddi. Nerys, a wnewch chi orffen os gwelwch yn dda?

Citing surveys carried out on death rates in 39 states in the United States in the late 1980s, he showed how the higher the group membership of voluntary groups was, for example, the lower the death rate. Our towns and village centres should reflect this. Schemes that encourage more walking, cycling and socialising should be prioritised. There is much to be said for building up trust between young and old at a time when there is a perception that the old are at greater risk of attack from the young. We know that to be inaccurate statistically, with recent Home Office figures reminding us that it is the young who are more likely to be victims of crime. Town centres should be promoted, therefore, as places where there is a feeling of trust, not mistrust, among the public and, for example, efforts should be made to ensure that shops and premises are not shuttered during the day, as that creates an aura of mistrust.

As I said, the best town centre design should encourage more walking and cycling, and if we are to follow the principles of the slow movement, which, as you may know, originated from Carlo Petrini’s slow food movement in the Piedmonte region of Italy, which has since given rise to spin-off groups such as slow cities throughout Italy and the world, we will design towns in a way that will slow people down, encouraging them to walk and mingle, in the words of Denise

cymdeithasol, rhaid inni fod o ddifrif ynghylch yr angen i ddatblygu mannau cyhoeddus da yn ein trefi.

Mae llawer wedi’i ysgrifennu am y manteision iechyd a lles sy’n gysylltiedig â chydberthynas gymdeithasol. Dadleua Richard Wilkinson, yr arbenigwr ar anghydraddoldeb, fod

y graddau y mae cymdeithas yn gydlynus, y graddau y mae pobl yn ymddiried yn ei gilydd ac yn ymwneud â bywyd cymunedol yn gaffaeliad cymdeithasol pwysig sy’n cyfrannu’n sylweddol iawn at ansawdd bywyd.

Gan ddyfynnu o arolygon a wnaed o gyfraddau marwolaethau mewn 39 o daleithiau yn yr Unol Daleithiau ddiwedd yr 1980au, dangosodd Richard Wilkinson po uchaf oedd aelodaeth grwpiau gwirfoddol, er enghraifft, isaf oedd y gyfradd marwolaethau. Dylai canol ein trefi a’n pentrefi adlewyrchu hynny. Dylid blaenoriaethu cynlluniau sy’n annog pobl i gerdded, beicio a chymdeithasu’n fwy. Mae llawer i’w ddweud dros feithrin ymddiriedaeth rhwng pobl ifanc a phobl hŷn ar adeg pan gredir bod mwy o berygl i bobl ifanc ymosod ar bobl hŷn. Gwyddom nad yw hynny’n gywir yn ystadegol, oherwydd cawsom ein hatgoffa gan ffigurau’n ddiweddar gan y Swyddfa Gartref fod pobl ifanc yn fwy tebygol na neb o ddioddef trosedd. Felly, dylid hybu canol trefi fel mannau lle mae ymdeimlad o ymddiriedaeth, nid drwgdybiaeth, ymhlith y cyhoedd, a dylid ymdrechu, er enghraifft, i sicrhau nad oes caeadau o flaen siopau a lleoliadau yn ystod y dydd, gan fod hynny’n creu awyrgylch o ddrwgdybiaeth.

Fel y dywedais, dylai’r gwaith gorau ym maes dylunio canol trefi annog pobl i gerdded a beicio mwy, ac os ydym am ddilyn egwyddorion yr ymgyrch i fyw’n araf, y gwyddoch efallai iddi ddeillio o’r ymgyrch bwyd araf gan Carlo Petrini yn ardal Piedmonte yn yr Eidal, ac sydd wedi esgor ers hynny ar grwpiau tebyg megis dinasoedd araf ledled yr Eidal a’r byd, byddwn yn dylunio trefi mewn modd a fydd yn gwneud i bobl arafu a’u hannog i gerdded a chymysgu.

Royle. That may be regarded as being at odds with the realities of life for many families, which, despite the recession, are probably more overworked and time poor than a generation ago.

While not the focus of my debate today, I do not want to miss the opportunity of pointing out that there is a debate to be had on how we capitalise on economic growth. As economist Robert Lane has argued

‘rising GDP does not translate into greater happiness beyond a certain level of wealth.’

In our time-poor communities, Lane argues that we as western industrialised nations are going through a step-change in personal relations, with steep declines in family and community socialising. The result is a

‘famine of warm interpersonal relations, of easy-to-reach neighbours, of encircling inclusive memberships and of family life.’

On the economy of town centres, it is vital that, as far as possible, jobs are located close to or in town centres, given the mutual benefits for all concerned. It was a brave and welcome decision by Labour’s Welsh Assembly Government some years ago to relocate some of its civil service jobs in Cardiff to Merthyr, Llandudno and Aberystwyth, which will help not only to redistribute influence but will have a direct impact on those local economies.

We know that many small businesses in town centres feel very threatened by the domination of the out-of-town retail parks and supermarkets. If towns are to prosper, that needs to be addressed urgently. I am keen to have a response from the Minister as to what we can do on this matter. We know of florists closing when supermarkets decide to sell flowers, often as loss-leaders, and of photographers closing as it is cheaper to get your films developed in supermarkets. While I welcome the announcement made by the Minister for Social Justice and Local

Gellid ystyried bod hynny’n groes i realiti bywyd i lawer o deuluoedd sydd, er gwaethaf y dirwasgiad, yn debygol o fod yn gweithio’n galetach ac yn brinnach o amser yn awr nag oeddent genhedlaeth yn ôl.

Nid wyf am golli’r cyfle i dynnu sylw at y ffaith y gellid cael dadl am y ffordd y gallem fanteisio ar dwf economaidd, er nad dyna yw canolbwynt fy nadl heddiw. Fel y dadleuodd Robert Lane, yr economegydd,

nid yw cynnydd mewn cynnyrch mewnwladol crynswth yn golygu mwy o hapusrwydd y tu hwnt i lefel benodol o gyfoeth.

Yn ein cymunedau sy’n brin o amser, dadleua Lane ein bod ni, wledydd diwydiannol y gorllewin, yn gweld cydberthynas bersonol yn newid yn sylweddol, wrth i deuluoedd a chymunedau gymdeithasu lawer yn llai â’i gilydd. O ganlyniad, ceir

prinder cydberthynas ryngbersonol gynnes, cymdogion y mae’n hawdd cael gafael arnynt, aelodaeth gynhwysol ac amgylchynol, a bywyd teuluol.

O ran economi canol trefi, mae’n hanfodol, cyn belled ag y bo’n bosibl, i swyddi fod ar gael yn agos i ganol trefi neu yng nghanol trefi, o gofio’r manteision i bawb dan sylw. Yr oedd penderfyniad Llywodraeth Lafur y Cynulliad rai blynyddoedd yn ôl i symud rhai o’i swyddi gwasanaeth sifil yng Nghaerdydd i Ferthyr, Llandudno ac Aberystwyth yn benderfyniad dewr i’w groesawu, a bydd o gymorth nid yn unig i ailddosbarthu dylanwad ond i effeithio’n uniongyrchol ar yr economïau lleol hynny.

Gwyddom fod nifer o fusnesau bach yng nghanol trefi yn teimlo dan fygythiad mawr oherwydd grym yr archfarchnadoedd a’r parciau manwerthu y tu allan i drefi. Mae angen mynd i’r afael â hynny’n fuan os oes unrhyw obaith i drefi ffynnu. Yr wyf yn awyddus i gael ymateb gan y Gweinidog am yr hyn y gallwn ei wneud ynglŷn â hyn. Gwyddom am siopau blodau’n cau pan fydd archfarchnadoedd yn penderfynu gwerthu blodau, a hynny ar golled yn aml er mwyn denu pobl drwy’r drysau, a gwyddom am siopau ffotograffeg yn cau am ei bod yn

Government recently that 60 per cent of small businesses will benefit from a reduction in their rate bills as a result of the rate relief packages, I know that some small businesses will miss out on that.

To say something quickly about the role of the pub in our town centres, we know that pub takings have dropped while at-home drinking has grown. More people, it seems, are staying at home rather than socialising. This has led to questions about the future of the Welsh pub. We know that pubs, even before the smoking ban, were in decline—and I supported the smoking ban. However, I would urgently ask the Welsh Assembly Government to look at how our town centre pubs can be helped to diversify. What the public wants from pubs in 2010 is probably different from what was expected in the 1950s. I know that Jeff Cuthbert's cross-party group is actively working to raise the profile of the role of pubs across Wales, and I look forward to the group's deliberations in due course. We must also recognise the shortage of quality accommodation in some parts of Wales, and there is scope for pubs to capitalise on that.

Finally, doing our bit for the planet requires us to ensure that town centres are an integral part of this. The Amsterdam smart city scheme is a good example of a unique partnership between inhabitants of Amsterdam, its companies and Government, to show how energy can be used in smarter ways, now and in the future. Part of this is a 'climate street': the main street in the city is used as a test case for integrating sustainable measures such as waste management, street lighting, and energy management for the shops. I know that the Minister has recognised the importance of sustainability in Wales, and I am pleased that Aberdare has been designated the first low-carbon town in Wales, but I would be keen to hear how businesses in the town can become more involved.

rhatach i bobl ddatblygu eu lluniau mewn archfarchnadoedd. Er fy mod yn croesawu'r cyhoeddiad gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ddiwedda y bydd 60 y cant o fusnesau bach yn elwa o ostyngiad yn eu biliau ardrethi o ganlyniad i'r pecynnau rhyddhad ardrethi, gwn y bydd rhai busnesau bach yn methu ag elwa o hynny.

Hoffwn sôn yn gyflym am rôl y dafarn yng nghanol ein trefi. Gwyddom fod tafarnau'n gwneud llai o arian a bod mwy o duedd i bobl yfed gartref. Ymddengys fod mwy o bobl yn aros gartref yn hytrach na chymdeithasu â'i gilydd. Mae hynny wedi codi cwestiynau am ddyfodol y dafarn Gymreig. Gwyddom fod nifer y tafarnau'n gostwng hyd yn oed cyn y gwaharddiad ar ysmegu—ac yr oeddwn o blaid y gwaharddiad ar ysmegu. Fodd bynnag, hoffwn ofyn yn daer i Lywodraeth y Cynulliad ystyried sut y gellir helpu tafarnau yng nghanol ein trefi i arallgyfeirio. Bydd yr hyn y mae'r cyhoedd am ei gael gan dafarnau yn 2010 fwy na thebyg yn wahanol i'r hyn a ddisgwylid yn yr 1950au. Gwn fod grŵp trawsbleidiol Jeff Cuthbert wrthi'n gweithio i godi proffil rôl tafarnau ledled Cymru, ac edrychaf ymlaen at drafodaethau'r grŵp maes o law. Yn ogystal, rhaid inni gydnabod y prinder llety o safon sydd mewn rhai rhannau o Gymru, ac mae lle i dafarnau fanteisio ar hynny.

Yn olaf, mae gwneud ein rhan er mwyn y blaned yn ei gwneud yn ofynnol inni sicrhau bod canol trefi'n rhan annatod o'r broses. Mae cynllun 'dinas ddeallus' Amsterdam yn enghraifft dda o bartneriaeth unigryw rhwng trigolion Amsterdam, cwmnïau'r ddinas a'r Llywodraeth i ddangos sut y gellir defnyddio ynni mewn ffyrdd mwy deallus, yn awr ac yn y dyfodol. Rhan o'r cynllun yw 'stryd hinsawdd': caiff prif stryd y ddinas ei defnyddio fel achos prawf ar gyfer integreiddio mesurau cynaliadwy megis mesurau rheoli gwastraff, goleuadau stryd a mesurau rheoli ynni ar gyfer siopau. Gwn fod y Gweinidog wedi cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd yng Nghymru, ac yr wyf yn falch fod Aberdâr wedi'i dynodi'n dref carbon isel gyntaf Cymru. Ond byddwn yn awyddus clywed sut y gall busnesau yn y dref chwarae rhan fwy amlwg.

In conclusion, I have covered quite a broad sweep of issues, but I call on the Welsh Assembly Government to do everything possible to promote the creation of well-designed town centres. They contribute not only to the attractiveness of an area, but more fundamentally to the health and wellbeing of communities the length and breadth of Wales.

Jeff Cuthbert: Thank you, Chris, for giving me a minute in this debate. Last week, the Welsh Assembly Government launched the European-funded Bargoed town centre regeneration scheme. This work will include the construction of a new bus station, improved pedestrian zones, and enhanced public open spaces along the high street. I look forward to watching the development of these projects, which will add to the already completed Angel Way relief road and retail plateau in the town. I have high hopes that the new schemes will not encounter any problems similar to those experienced just over a year ago, when Caerphilly County Borough Council announced that it had secured a deal with Sainsbury's to open a store on the plateau only to find that that was not actually the case.

Valley towns like Bargoed are at the heart of our communities in Wales. Communities First has played a significant role in bringing people together, and the greater Bargoed partnership is an excellent example. Last Sunday evening, I attended the final service at Hanbury Road Methodist chapel on the main street, which is to become a library. On balance, it marks a step forward, but let us hope that there will be far more steps forward than steps back for towns like Bargoed.

Mohammad Asghar: I am grateful to Christine Chapman for raising the issue of our town centres. They are at the heart of our communities, and small shops are at the heart of our high streets. They offer diversity and choice and provide a personal service to their communities, yet these independent retailers are under threat. They face a rising burden of regulation and tax, a daily battle against crime and violence, and competition from the

I gloi, yr wyf wedi ymdrin ag ystod eithaf eang o faterion, ond galwaf ar Lywodraeth y Cynulliad i wneud popeth posibl i hybu creu canol trefi ar sail gwaith dylunio da. Yn ogystal â chyfrannu at apêl ardal, mae canol trefi'n cyfrannu'n fwy sylfaenol at iechyd a lles cymunedau ar hyd a lled Cymru.

Jeff Cuthbert: Diolch, Chris, am roi munud imi yn y ddadl hon. Yr wythnos diwethaf lansiodd Llywodraeth y Cynulliad gynllun adfywio canol tref Bargod, a gyllidir gan Ewrop. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys adeiladu gorsaf fysiau newydd, gwell ardaloedd i gerddwyr, a gwell mannau agored cyhoeddus ar hyd y stryd fawr. Edrychaf ymlaen at wylio'r prosiectau hyn yn datblygu, a fydd yn ychwanegol at ffordd liniaru Angel Way a pharc manwerthu yn y dref sydd eisoes wedi eu cwblhau. Gobeithiaf yn fawr na fydd y cynlluniau newydd yn gorfod goresgyn problemau tebyg i'r rhai a gafwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl, pan gyhoeddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ei fod wedi dod i gytundeb â Sainsbury's i agor siop yn y parc manwerthu, a phan ddaeth i'r amlwg wedyn nad oedd hynny'n wir.

Mae trefi yn y Cymoedd, megis Bargod, yn rhan greiddiol o'n cymunedau yng Nghymru. Mae Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn bwysig i ddod â phobl ynghyd, ac mae partneriaeth Bargod fwyaf yn enghraifft ardderchog. Nos Sul diwethaf bŵm yn y gwasanaeth olaf yng Nghapel y Methodistiaid Hanbury Road ar y brif stryd, y bwriedir ei droi'n llyfrgell. At ei gilydd, mae'n gam ymlaen, ond gadewch inni obeithio y bydd y camau ymlaen yn fwy niferus o lawer na'r camau yn ôl i drefi megis Bargod.

Mohammad Asghar: Yr wyf yn ddiolchgar i Christine Chapman am godi'r mater canol ein trefi. Maent yn rhan greiddiol o'n cymunedau, ac mae siopau bach yn rhan greiddiol o'r stryd fawr. Maent yn cynnig amrywiaeth a dewis ac yn darparu gwasanaeth personol i'w cymunedau. Ond eto mae'r manwerthwyr annibynnol hyn dan fygythiad. Maent yn wynebu baich cynyddol gwaith rheoleiddio a threthi, brwydr ddyddiol

growth of out-of-town shopping centres. As a result, many of our town centres have lost their individuality and distinctiveness as small shops are replaced by large, uniform retailers. We must do more to protect our small shops through business rate relief, and by strictly controlling the expansion of out-of-town developments. We must stand up for small retailers and recognise the vital role that they play at the heart of our community.

6.20 p.m.

Ann Jones: I thank Christine for mentioning Rhyl and Colwyn Bay in her speech. It is nice to know that Members across the Chamber recognise the good work that the Assembly Government is doing in the strategic regeneration area. I indulged in a bit of nostalgia when you mentioned your town centre on a Saturday morning, as we can all relate to that. The out-of-town shopping experience must be catered for because we must remember that people want to visit them. However, you were quite right to highlight that many of the smaller shops in our town centres are lost because of out-of-town development.

I want to mention the 'Rhyl rules', which we rely on to help the night-time economy. The rules mean that people can be safe in the town after 9 p.m., and cannot, for example, wear football shirts in pubs and clubs, although I fell foul of that rule when I came back from a football match and forgot that I had my shirt on, so I had to go home before I could go for a drink.

Brian Gibbons: What side was the shirt for?

Ann Jones: It was for Rhyl Football Club actually. Those rules encourage people to think about whether they want to be part of the community. There is much more to be done with the regeneration of town centres, however, what you have raised in this debate today has ensured that we will not forget this issue and we will continue to regenerate our town centres.

The Minister for Environment, Y Gweinidog dros yr Amgylchedd,

yn erbyn trosedd a thrais, a chystadleuaeth yn sgil twf canolfannau siopa y tu allan i drefi. O ganlyniad, mae canol nifer o'n trefi wedi colli eu nodweddion unigryw a hynod, wrth i fanwerthwyr mawr, unffurf gymryd lle siopau bach. Rhaid inni wneud mwy i ddiogelu ein siopau bach drwy ryddhad ardrethi busnes, a thrwy reoli'n llym y modd y caiff datblygiadau y tu allan i drefi eu hehangu. Rhaid inni gefnogi manwerthwyr bach a chydabod eu rôl hanfodol yng nghalon ein cymuned.

Ann Jones: Diolch i Christine am grybwyll y Rhyl a Bae Colwyn yn ei haraith. Mae'n braf gwybod bod Aelodau ar draws y Siambr yn cydnabod y gwaith da y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud yn yr ardal adfywio strategol. Yr oeddwn yn dechrau hiraethu ychydig am y gorffennol wrth ichi sôn am ganol eich tref ar fore dydd Sadwrn, oherwydd gall pob un ohonom uniaethu â hynny. Rhaid darparu ar gyfer pobl sydd am fynd i siopa mewn canolfannau y tu allan i drefi, oherwydd rhaid inni gofio bod pobl am ymweld â hwy. Fodd bynnag, yr oeddech yn llygad eich lle i dynnu sylw fod nifer o'r siopau llai yng nghanol ein trefi yn cael eu colli oherwydd datblygiadau y tu allan i drefi.

Hoffwn sôn am 'reolau'r Rhyl' yr ydym yn dibynnu arnynt i helpu economi'r nos. Golyga'r rheolau y gall pobl fod yn ddiogel yn y dref ar ôl 9 p.m. ac na allant, er enghraifft, wisgo crysau pêl-droed mewn tafarnau a chlybiau, er i mi dorri'r rheol honno unwaith pan ddeuthum yn ôl o gêm bêl-droed ac anghofio fy mod yn gwisgo fy nghrys. Gorfu imi fynd adref cyn cael diod.

Brian Gibbons: Crys pa dîm ydoedd?

Ann Jones: Crys Clwb Pêl-droed y Rhyl, a dweud y gwir. Mae'r rheolau hynny'n annog pobl i feddwl a ydynt am fod yn rhan o'r gymuned. Mae angen gwneud llawer mwy i adfywio canol trefi, ond mae'r pwyntiau yr ydych wedi'u codi yn y ddadl hon heddiw wedi sicrhau na fyddwn yn anghofio'r mater hwn ac y byddwn yn dal i adfywio canol ein trefi.

Sustainability and Housing (Jane Davidson): I also thank Christine for tabling this short debate. The Assembly Government believes that the role that town centres play in supporting the life of communities across Wales is crucial. Town centres play a vital role in defining and supporting those communities and act as a range of social, commercial and leisure activities, which many people take for granted.

Although you did not specifically mention it in your speech, Christine, many of our public transport networks focus on town centres, therefore we need to use our town centres as effectively as possible in order to encourage people out of their cars, for example, and into public transport. Other environmentally sustainable solutions, opportunities or locations are all going to be focused on where transport networks and cycle routes go and where pedestrians walk. Therefore, there is considerable and further scope to define the important role of town centres in the context of our sustainable development agenda.

I am pleased that all the other Members who contributed also reflected on the important role of town centres and of small shops. We have heard about the additional investment by the Assembly Government in Bargoed, and about the Government's focus on strategic regeneration areas in some of the poorest communities in Wales. The Government has also looked at how it can bring the lessons learned from important area-based policies in one community to another in taking this agenda forward.

It may be useful in the context of Members' contributions to outline what we require through the planning system. Members will know that 'Planning Policy Wales' governs the Assembly Government's comprehensive planning policy and links all land-use policy to the themes of sustainable development. It sets out clear objectives for town centres, which are to secure accessible, efficient, competitive and innovative retail provision for all communities in Wales—urban and rural; to promote town, district, local and village centres as the most appropriate locations for retailing and for functions

Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Hoffwn innau ddiolch i Christine am gyflwyno'r ddadl fer hon. Cred Llywodraeth y Cynulliad fod rôl canol ein trefi o ran cynnal bywyd cymunedau ledled Cymru yn hollbwysig. Mae i ganol trefi rôl hanfodol o ran diffinio a chynnal y cymunedau hynny, ac maent yn darparu ystod o weithgareddau cymdeithasol, masnachol a hamdden y mae llawer o bobl yn eu cymryd yn ganiataol.

Er na soniwyd gennych yn benodol am hynny yn eich araith, Christine, mae llawer o'n rhwydweithiau cludiant cyhoeddus yn canolbwyntio ar ganol trefi. Felly, mae angen inni ddefnyddio canol ein trefi mor effeithiol ag sy'n bosibl er mwyn annog pobl i roi'r gorau i ddefnyddio'u ceir, er enghraifft, a dechrau defnyddio cludiant cyhoeddus. Bydd atebion, cyfleoedd neu leoliadau eraill sy'n gynaliadwy o ran yr amgylchedd i gyd yn canolbwyntio ar ble mae rhwydweithiau cludiant cyhoeddus a lwybrau beicio'n mynd a lle mae pobl yn cerdded. Felly, mae yna lawer o gyfleoedd eraill i ddiffinio rôl bwysig canol trefi yng nghyd-destun ein hagenda datblygu cynaliadwy.

Yr wyf yn falch bod yr holl Aelodau eraill a gyfrannodd wedi meddwl hefyd am rôl bwysig canol trefi a siopau bach. Clywsom am fuddsoddiad ychwanegol Llywodraeth y Cynulliad ym Margod, ac am ffocws y Llywodraeth ar ardaloedd adfywio strategol yn rhai o gymunedau tlotaf Cymru. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi bod yn edrych ar y modd y gall sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o bolisiâu lleol pwysig mewn un gymuned yn cael eu trosglwyddo i gymuned arall wrth symud yr agenda hon yn ei blaen.

Yng nghyd-destun cyfraniadau Aelodau, gallai fod yn ddefnyddiol amlinellu'r hyn a fynnwn drwy'r system gynllunio. Gŵyr Aelodau fod 'Polisi Cynllunio Cymru' yn llywodraethu polisi cynllunio cynhwysfawr Llywodraeth y Cynulliad, ac yn cysylltu pob polisi ar ddefnyddio tir â themâu datblygu cynaliadwy. Mae'n rhestru amcanion clir ar gyfer canol trefi, sef sicrhau darpariaeth manwerthu gyfleus, effeithlon, gystadleuol ac arloesol ar gyfer holl gymunedau Cymru—rhai trefol a gwledig; hybu canol trefi a phentrefi, a chanolfannau ardal a lleol fel y manau mwyaf priodol ar gyfer manwerthu

complementary to it; and to enhance the vitality, attractiveness and viability of town, district, local and village centres—and we have seen the same really interesting environmental projects, not least those run through the Tidy Towns scheme in bringing environmental areas adjacent to town centres and village centres back to life. The final objective is to promote access to these centres by public transport, walking and cycling.

It is interesting for Members to know that when faced with applications for new retail developments, local planning authorities must consider fully the need, quantitative and qualitative, of such a development, including the effect on a town centre. When considering new sites for retailing, local planning authorities are expected to follow a sequential approach, which means that the first preference is given to town centres, followed by district and local centres, and only then to out-of-centre sites, in locations accessible by a choice of means of transport. We specifically say that out-of-centre supermarkets should not be allowed if their provision is likely to lead to the loss of general food retailing in the centre of small towns. That is critical, particularly for those members of the population who find it more difficult to access alternatives.

Nick Ramsay: I am very pleased to hear what you have just said. Do you agree that, although we all want to protect small community shops, too often, the supermarket/small shop argument is seen as a polarised one? In fact, the two can be complementary, but I am pleased that you just said that planners should consider very carefully the impact of out-of-town supermarkets on the town centre. In fact, it is better to have a planning scheme that allows for as much retail as possible to be in the centre of a town, ensuring that large out-of-town developments do not detract from that.

Jane Davidson: I can certainly say that in my constituency of Pontypridd the issue of

a'i swyddogaethau perthynol; a gwella bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi a phentrefi, a chanolfannau ardal a lleol—a gwelsom yr un prosiectau gwirioneddol ddiddorol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu rhedeg drwy'r cynllun Trefi Taclus, sy'n bwysig iawn, yn adfywio ardaloedd amgylcheddol wrth ymyl canol trefi a chanol pentrefi. Yr amcan olaf yw hybu mynediad i'r canolfannau hyn ar gludiant cyhoeddus, ar droed ac ar feic.

Mae o ddiddordeb i Aelodau wybod ei bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, pan fyddant yn wynebu ceisiadau am ddatblygiadau manwerthu newydd, ystyried yn llawn beth yw angen datblygiad o'r fath o ran maint ac ansawdd, gan gynnwys ei effaith ar ganol tref. Wrth ystyried safleoedd newydd ar gyfer manwerthu, disgwylir i awdurdodau cynllunio lleol weithredu'n unol â dilyniant, sy'n golygu ffafrio canol trefi yn y lle cyntaf, a ffafrio canolfannau ardal a lleol wedyn, a ffafrio safleoedd y tu allan i drefi yn dilyn hynny, mewn lleoliadau y gellir eu cyrraedd gan ddefnyddio mwy nag un dull teithio. Nodwn yn benodol na ddylid caniatáu archfarchnadoedd y tu allan i drefi os yw eu darpariaeth yn debygol o arwain at golli siopau gwerthu bwyd cyffredinol yng nghanol trefi bach. Mae hynny'n hollbwysig, yn enwedig i'r aelodau hynny o'r boblogaeth sy'n ei chael yn anos cyrraedd siopau nad ydynt yng nghanol trefi.

Nick Ramsay: Yr wyf yn falch iawn clywed yr hyn yr ydych newydd ei ddweud. Er ein bod i gyd yn dymuno diogelu siopau cymunedol bach, a gytunwch y caiff y ddadl ar archfarchnadoedd/siopau bach ei hystyried yn rhy aml yn ddadl lle mae'r naill yn anghydfynd â'r llall? Mewn gwirionedd, gall y naill a'r llall ategu ei gilydd, ond yr wyf yn falch ichi ddweud y dylai cynllunwyr ystyried yn ofalus iawn effaith archfarchnadoedd y tu allan i dref ar ganol y dref. Mewn gwirionedd, mae'n well cael cynllun cynllunio sy'n caniatáu i gymaint o fanwerthu ag sy'n bosibl ddigwydd yng nghanol tref, gan sicrhau nad yw datblygiadau mawr y tu allan i drefi yn lleihau hynny.

Jane Davidson: Gallaf ddweud yn bendant, yn fy etholaeth ym Mhontypridd, mai lleoliad

where it is appropriate to locate a supermarket in relation to the town centre has dominated discussions over the past 11 years that I have been an Assembly Member, and it should be a major issue for discussion, because we want our town centres to be vibrant. We do not want them to be full of chain stores. We have seen some very successful town centre regeneration across Wales, some led by Government, some by local authorities, and some led by local people, such as that in Narberth or Llandeilo, where we have seen real initiative taken by local people. You will often see that running alongside a slow-town movement, a transition-town movement or a low-carbon community movement. These people care very much about their town centres and want to help to encourage retailers on the doorstep, as consumers. At the end of the day, if any of us was guilty of doing all of our shopping in out-of-town shopping centres, we would be contributing to the loss of retail in our town centres. Therefore, it is critical that we take action as consumers as well as Government.

The opportunity that is coming through in the context of Aberdare becoming the first low-carbon town in Wales is potentially extremely exciting. We are seeing a number of innovative activities through the Heads of the Valleys area and in Aberdare in particular, where energy-saving measures are being installed throughout the town to address fuel poverty and reduce carbon dioxide emissions. This is the start of an exciting programme of initiatives to help reinforce the sustainability credentials of our town centres. We are also seeing, for example through RCT Homes, which is using local suppliers and installers in the domestic sector to make energy-efficiency improvements, that there are real opportunities for local businesses to be developed in the context of these towns. There are, therefore, opportunities for the town centre to develop low-carbon goods as a way of contributing to this agenda. That low-carbon town concept can directly help local shops and businesses by raising their awareness, along with that of the rest of the population, of the importance of energy-efficiency measures that not only reduce the

priodol ar gyfer archfarchnad mewn perthynas â chanol y dref fu'r pwnc trafod amlycaf dros yr 11 mlynedd diwethaf y bwm yn Aelod Cynulliad. A dylai fod yn bwnc trafod pwysig, oherwydd yr ydym am i ganol ein trefi fod yn fywiog. Nid ydym am iddynt fod yn llawn siopau cadwyn. Gwelsom rywfaint o waith llwyddiannus iawn ym maes adfywio canol trefi ledled Cymru. Cafodd rhywfaint o'r gwaith hwnnw ei arwain gan y Llywodraeth, rhywfaint gan awdurdodau lleol, a rhywfaint gan bobl leol, megis yn Arberth neu Llandeilo lle'r ydym wedi gweld pobl leol yn cymryd yr awenau. Yn aml, gwelwch hynny'n digwydd ochr yn ochr ag ymgyrch tref araf, ymgyrch tref drawsnewid neu ymgyrch cymuned carbon isel. Mae'r bobl hyn yn poeni'n arw am ganol eu trefi, ac maent am helpu annog manwerthwyr sydd ar stepen eu drws, fel defnyddwyr. Yn y pen draw, pe bai rhai ohonom yn euog o wneud ein siopa i gyd mewn canolfannau y tu allan i drefi, byddem yn cyfrannu at golli siopau yng nghanol ein trefi. Felly, yn ogystal â gweithredu fel Llywodraeth, mae'n hollbwysig hefyd inni weithredu fel defnyddwyr.

Gallai'r cyfle sy'n ymddangos yng nghydestun y ffaith mai Aberdâr yw tref carbon isel gyntaf Cymru fod yn eithriadol o gyffrous. Gwelwn nifer o weithgareddau arloesol ar draws ardal Blaenau'r Cymoedd ac yn Aberdâr yn enwedig, lle mae mesurau arbed ynni'n cael eu cyflwyno drwy'r dref gyfan i fynd i'r afael â thlodi tanwydd a lleihau allyriadau carbon deuocsid. Mae hwn yn ddechrau ar raglen gyffrous o fentrau i helpu atgyfnerthu rhinweddau canol ein trefi o ran cynaliadwyedd. Yr ydym hefyd yn gweld, er enghraifft, drwy Cartrefi RCT sy'n defnyddio cyflenwyr a gosodwyr lleol yn y sector domestig i wneud gwelliannau ym maes effeithlonrwydd ynni, fod cyfleoedd gwirioneddol ar gael i ddatblygu busnesau lleol yng nghydestun y trefi hyn. Felly, ceir cyfleoedd i ganol y dref ddatblygu nwyddau carbon isel fel ffordd i gyfrannu at yr agenda hon. Gall y cysyniad hwnnw o dref carbon isel helpu siopau a busnesau lleol yn uniongyrchol drwy gynyddu eu hymwybyddiaeth, ac ymwybyddiaeth gweddill y boblogaeth, o bwysigrwydd mesurau effeithlonrwydd ynni sydd nid yn unig yn lleihau'r ôl troed carbon, ond sydd

carbon footprint, but, for those businesses concerned, very much affect their bottom line. The work done by the Carbon Trust and the Energy Saving Trust is contributing dramatically to such businesses getting assistance.

To go back for a moment to the point that you rightly made—as I think most Members did—about the quality of the environment and the townscape. We know that poorly designed areas dominated by cars and vans will struggle against the competing pressures from purpose-built out-of-town shopping centres where people can walk around easily. In my role as Assembly Member in Pontypridd, when taking a quadriplegic constituent around in a wheelchair, I was shocked to find that the only place that I could get him and his wheelchair up onto the kerb was on an island in the middle of Taff Street, where he was stranded away from shops and other people. Designing our town centres so that they can be used by people with access difficulties and so that people are not competing with cars and vans is extremely important. Back in 2009, we published revised planning guidance, technical advice note 12, and an associated ministerial interim policy statement.

6.30 p.m.

Recognising the need for high-quality design in the planning system, we now require design and access statements for most non-domestic planning applications. We revised technical advice note 18 on transport to strengthen our policy in respect of transport assessments. The transport hierarchy, which promotes walking and cycling, is aimed at improving the quality of the environment in urban areas. That follows on from our publication in 2007 of 'Manual for Streets', aimed at improving the quality of residential streets, which contains important guidance appropriate for the design of town centres. The Design Commission for Wales is about to do another round of training for local authority highway and planning officers on the implementation of that manual, looking at how to take a joined-up approach and at opportunities for home zones, for example, which mean that you can design out cars as

hefyd, yn achos y busnesau dan sylw, yn effeithio'n fawr iawn ar eu helw. Mae'r gwaith a wneir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cyfrannu'n ddramatig at y cymorth a gaiff busnesau o'r fath.

Hoffwn ddychwelyd am eiliad at y pwynt yr oeddech yn iawn i'w wneud—ac a wnaed gan fwyaf yr Aelodau, mi gredaf—am ansawdd yr amgylchedd a'r treflun. Gwyddom y bydd ardaloedd a ddylunnir yn wael, lle mae gormod o geir a faniau, yn cael anhawster cystadlu â'r pwysau gan ganolfannau siopa pwrpasol y tu allan i drefi, lle gall pobl gerdded yn hawdd o le i le. Yn fy rôl fel Aelod Cynulliad ym Mhontypridd, wrth fynd ag etholwr cwadriplegig o amgylch y lle mewn cadair olwyn, cefais fy syfrdanu o weld mai'r unig fan lle gallwn ei gael ef a'i gadair olwyn ar y palmant oedd ar ynys draffig ynghanol Stryd Taf, ymhell o'r siopau a phobl eraill. Mae dylunio canol ein trefi fel y bydd pobl sy'n cael anhawster symud yn gallu eu defnyddio, ac fel na fydd pobl yn cystadlu â cheir a faniau'n eithriadol o bwysig. Yn ôl yn 2009 cafodd canllawiau cynllunio diwygiedig eu cyhoeddi gennym, sef nodyn cyngor technegol 12, ynghyd â datganiad polisi interim cysylltiedig gan y Gweinidog.

O sylweddoli bod angen gwaith dylunio o safon yn y system gynllunio, yr ydym bellach yn mynnu cael datganiad dylunio a datganiad mynediad ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio annomestig. Cafodd nodyn cyngor technegol 18 ar drafndiaeth ei ddiwygio gennym er mwyn cryfhau ein polisi yng nghyswllt asesiadau trafndiaeth. Nod yr hierarchaeth drafndiaeth, sy'n hyrwyddo cerdded a beicio, yw gwella ansawdd yr amgylchedd mewn ardaloedd trefol. Mae hynny'n dilyn cyhoeddi'r llawlyfr strydoedd, 'Manual for Streets', gennym yn 2007, sy'n ceisio gwella ansawdd strydoedd preswyl ac sy'n cynnwys canllawiau pwysig a phriodol ar gyfer dylunio canol trefi. Mae Comisiwn Dylunio Cymru ar fin cynnal rownd arall o hyfforddiant i swyddogion cynllunio a swyddogion priffyrdd awdurdodau lleol ar weithredu cynnwys y llawlyfr hwnnw, gan edrych ar ddull gweithredu cydgyssylltiedig a

the primary mode of transport while still enabling them to use local roads.

chyfleoedd i greu parthau cartrefi, er enghraifft, sy'n golygu, wrth ddylunio, y gallwch sicrhau nad ceir yw'r prif ddull cludiant, ond gan eu galluogi i barhau i ddefnyddio ffyrdd lleol.

Our town centres will continue to adapt and, as Ann said in her contribution, however much you might want to close the lid on where we are now, with people queuing up for hours to visit sterile, out-of-town shopping centres, we know that the convenience of that type of shopping is with us to stay, so we need to make our town centres alternatively attractive. In the context of Cardiff—although I know that it is not a town—the Riverside farmers' market, held every Sunday, is a good example. Large numbers of people enjoy the experience of going to the farmers' market. They use more sustainable methods of transport to get there, and they buy high-quality food that one would not be able to get in an alternative environment. Therefore, we need to find ways of ensuring that we can make our town centres special, through our sustainability agenda, re-engaging that sense of belonging and of history, which are important to us all, given the traditions and history of places where we have grown up.

Bydd canol ein trefi'n parhau i ymaddasu, ac fel y dywedodd Ann yn ei chyfraniad, er cymaint y gallech fod yn dymuno rhoi terfyn ar y sefyllfa sydd ohoni, a phobl yn aros am oriau i ymweld â chanolfannau siopa digymeriad y tu allan i drefi, gwyddom fod cyfleustra'r math hwnnw o siopa yma am byth. Felly, mae angen inni wneud canol ein trefi'n ddeniadol fel arall. Yng nghyd-destun Caerdydd—er y gwn nad yw'n dref—mae'r farchnad ffermwyr yng Nglanyrafon bob dydd Sul yn enghraifft dda. Mae llu o bobl yn mwynhau'r profiad o fynd i'r farchnad ffermwyr. Maent yn defnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy i gyrraedd yno ac yn prynu bwyd o safon na fyddai modd iddynt ei gael mewn amgylchedd gwahanol. Felly, mae angen inni ddod o hyd i ffyrdd i sicrhau y gallwn wneud canol ein trefi'n fannau arbennig, drwy ein hagenda ar gynaliadwyedd, ac ailennyn yr ymdeimlad hwnnw o berthyn ac o hanes, sy'n bwysig inni i gyd, o gofio traddodiadau a hanes y lleoedd lle cawsom ein magu.

The Deputy Presiding Officer: That brings today's business to a close.

Y Dirprwy Lywydd: Dyna ddiwedd ein trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 6.31 p.m.
The meeting ended at 6.31 p.m.*

Aelodau a'u Pleidiau Members and their Parties

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)

Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Irene (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Law, Trish (Annibynnol – Independent)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lloyd, Val (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)